

Bangor University

## DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Beirdd a Gwr Llên: rhai rhwydweithiau llawysgrifol yng Nghymru, c.1450–c.1800

Edwards, Gruffudd

*Award date:*  
2023

*Awarding institution:*  
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

### General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 30. Jun. 2023

# BEIRDD A GWŶR LLÊN:

rhai rhwydweithiau llawysgrifol yng  
Nghymru, *c.*1450 – *c.*1800

GRUFFUDD ANTUR

Traethawd PhD

Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Prifysgol Bangor

2022

## *Datganiad*

Yr wyf drwy hyn yn datgan mai canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd oni bai ei fod, fel y cytunwyd gan y Brifysgol, am gymwysterau deol cymeradwy.

## *I Daniel*

*Mae ôl llaw, mae gweddi dawel, – ac mae  
rhyw gymeriad dirgel  
yn y memrwn hwn na wêl  
neb ond un, neb ond Daniel.*

GA  
Mehfin 2022

# Cynnwys

Byrfoddau	v
Crynodeb	xii
Diolchiadau	xiv
Rhagymadrodd	xvi
I.    ‘I mewn hen ysgrifen gron’: llawysgrifau Lewys Glyn Cothi	1
II.   ‘Yn y llyfr hwn’: golwg ar lawysgrif newydd gan Syr Siôn Prys	23
III.  ‘Yr awdur a ddoydasai’: William Salesbury a’i lawysgrifau	64
IV.   ‘Ni chymre nhad amdano fo run gini melyn’: golwg ar un o lawysgrifau Thomas Wiliems o Drefriw	103
V.    Pwy oedd awdur catalog y <i>Cambrian Register</i> ?	140
Casgliadau	169
Llyfryddiaeth	171

## *Byrfoddau*

### *i. Llawysgrifau, casgliadau*

Er hwylustod, defnyddir yr un byrfoddau ag a restrir yn *RWMS*, I, tt.xiii–xvi.

Add.	Llundain: The British Library, Additional MSS
Balliol	Rhydychen: Balliol College
Bangor	Bangor: Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor
Bangor Mostyn	Bangor: Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor, Mostyn
Bodl.	Rhydychen: Bodleian Library
Brog.	Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Brogyntyn
Camb. Corpus	Caer-grawnt: Corpus Christi College
Camb. Trinity	Caer-grawnt: Trinity College
Card.	Caerdydd: Llyfrgell Ganolog Caerdydd
Chirk	Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chirk Castle
Cotton	Llundain: The British Library, Cotton MSS
Cwrtmawr	Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cwrtmawr MSS
Esgair	Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Esgair and Pantperthog
Flint. RO	Penarlâg: Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru
Gwyneddon	Bangor: Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor, Gwyneddon
Harg.	Llundain: The British Library, Hargrave MSS
Harl.	Llundain: The British Library, Harley MSS
Jesus	Rhydychen: Jesus College
Llst.	Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llanstephan
New College	Rhydychen: New College
NLW	Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Northants. Archives	Northampton: Northamptonshire Archives
Pen.	Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Peniarth MSS
Queen's	Rhydychen: The Queen's College

Rawl.	Rhydychen: Bodleian Library, Rawlinson
Royal	Llundain: The British Library, Royal MSS
Stowe	Llundain: The British Library, Stowe MSS
TNA	Llundain: The National Archives ( <i>gynt</i> The Public Record Office)
Wynnstay	Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Wynnstay MSS

ii. *Llyfryddol*

- AC* *Archaeologia Cambrensis*, 1846–
- BBCS* *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 1921–93
- BBGCC* Marged Haycock (gol.), *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar* (s.l.: Cyhoeddiadau Barddas, 1994)
- BC* *Y Bywgraffiadur Cymreig* <bywgraffiadur.cymru>
- CA* Ifor Williams (gol.), *Canu Aneirin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1938)
- CCHChSF* *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, 1949–
- CHC* *The Welsh History Review / Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960–
- CIM* Geraint H. Jenkins *et al.* (gol.), *The Correspondence of Iolo Morganwg*, 3 cyf. (Cardiff: University of Wales Press, 2007)
- CLIGC* *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- CMCS* *Cambridge (Cambrian) Medieval Celtic Studies*, 1981–
- CMWM* Ben Guy *et al.* (gol.), *The Chronicles of Medieval Wales and the March. New Contexts, Studies, and Texts* (Turnhout: Brepols, 2020)
- Davies, John Prise John Prise, *Historiae Britannicae Defensio / A Defence of the British History*, gol. a chyf. Ceri Davies (Toronto: Pontifical Institute of Medieval Studies & Oxford: The Bodleian Library, 2015)
- DG.net* gwefan Dafydd ap Gwilym <dafyddapgwilym.net>
- DLICH* Richard Glyn Roberts (gol.), *Diarhebion Llyfr Coch Hergest* (Aberystwyth: CMCS, 2013)
- Dwnn, *HVV* Lewys Dwnn, *Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches*, gol. Samuel Rush Meyrick, 2 gyf. (Llandoverly: William Rees, 1846)
- EMLO* gwefan *Early Modern Letters Online* <emlo.bodleian.ox.ac.uk>
- EWGT* P.C. Bartrum (gol.), *Early Welsh Genealogical Tracts* (Cardiff: University of Wales Press, 1966)
- GDG* Thomas Parry (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1952)
- GG.net* gwefan Guto'r Glyn <gutorglyn.net>
- GGH* D.J. Bowen (gol.), *Gwaith Gruffudd Hiraethog* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1990)



- GLGC* Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995)
- GP* G.J. Williams ac E.J. Jones (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1934)
- GPC* *Geiriadur Prifysgol Cymru* <geiriadur.ac.uk>
- Griffith, *Pedigrees* J.E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families (s.l.: The Author, 1914)*
- GTA* T. Gwynn Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled*, 2 gyf. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1926)
- Handlist* *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales*, (Aberystwyth: National Library of Wales, 1943–2003)
- LPBT* Marged Haycock (gol. a chyf.), *Legendary Poems from the Book of Taliesin*, ail arg. (Aberystwyth: CMCS, 2015)
- LPGO* E. Bachellery (gol.), *L'œuvre Poétique de Gutun Owain* (Paris: Librairie Ancienne Honoré Champion, 1950–1)
- LW* Eiluned Rees, *Libri Walliae. Catalog o Lyfrau Cymraeg a Llyfrau a Argraffwyd yng Nghymru 1546–1820* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1987); Charles Parry, *LW. Atodiad* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2001)
- LIA* Daniel Huws (gol.), *Llyfr Aneirin: ffacsimile* (Caerdydd: Cyngor Sir De Morgannwg & Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1989)
- LIC* *Llên Cymru*, 1950–
- ML* John H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Mon) 1728–1765*, 2 gyf. (Aberystwyth: The Editor, 1907–9)
- ML (Add.)* Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrisises of Anglesey (1735–1786)*, 2 gyf. (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1947–9)
- MWBM* Edward Owen, *A Catalogue of the Manuscripts Relating to Wales in the British Museum* (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1900–8)
- MWM* Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff: University of Wales Press & Aberystwyth: The National Library of Wales, 2000)

- OBWV* Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford: Clarendon Press, 1962)
- ODNB* gwefan *Oxford Dictionary of National Biography* <oxforddnb.com>
- Parry, ‘Llythyrau RV’ T.E. Parry, ‘Llythyrau Robert Vaughan, Hengwrt (1592–1667), gyda rhagymadrodd a nodiadau’ (traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1960)
- PWDN* Thomas Roberts ac Ifor Williams (gol.), *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Cardiff: The University of Wales Press Board, 1923)
- RMWL* J. Gwenogvryn Evans, *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, 2 gyf. (London: Her Majesty’s Stationery Office, 1898–1910)
- RWMS* Daniel Huws, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–c.1800*, 3 cyf. (Aberystwyth: National Library of Wales & University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, 2022)
- Rhagymadroddion* Garfield H. Hughes (gol.), *Rhagymadroddion 1547–1659* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1951)
- RhG 1300–1425* *Rhyddiaith Gymraeg 1300–1425*  
<rhyddiaithganoloesol.caerdydd.ac.uk/cy>
- SC* *Studia Celtica*, 1966–
- THSC* *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- TYP* Rachel Bromwich (gol. a chyf.), *Trioedd Ynys Prydein / The Triads of the Island of Britain*, pedwerydd arg. (Cardiff: University of Wales Press, 2014)
- Thomas, *HDStA* D.R. Thomas, *The History of the Diocese of St Asaph*, 3 cyf. (Oswestry: The Caxton Press, 1908–13)
- WATU* Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff: University of Wales Press, 1969)
- WCD* Peter C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary* (Aberystwyth: National Library of Wales, 1993)
- WG 1* Peter C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400*, 8 cyf. (Cardiff: University of Wales Press, 1974)
- WG 2* Peter C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500*, 18 cyf. (Aberystwyth: National Library of Wales, 1983)

- WG 3 Michael Powell Siddons, *Welsh Genealogies A.D. 1500–1600*  
(Aberystwyth: CMCS, 2017)
- Williams, IM G.J. Williams, *Iolo Morganwg. Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd: Gwasg  
Prifysgol Cymru, 1956)
- WPR Michael Powell Siddons, *Welsh Pedigree Rolls* (Aberystwyth: National  
Library of Wales, 1996)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, 1965–

iii. *Cyffredinol*

arg.	argraffiad, argraffwyd
c.	<i>circa</i> , oddeutu
cf.	<i>conferatur</i> , cymharer
cyf.	cyfrol
d.g.	dan y gair
f., ff.	ffolio(s)
<i>fl.</i>	<i>floruit</i> , blodeuai
gol.	golygydd(ion), golygwyd gan
gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
gw.	gweler
ibid.	<i>ibidem</i> , yn yr un lle
ll.	llinell(au)
LIGC	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
m.	bu farw
MS, MSS	<i>manuscript(s)</i>
r	<i>recto</i>
S.	Saesneg
<i>s.l.</i>	<i>sine loco</i> , heb leoliad
<i>s.n.</i>	<i>sine nomine</i> , heb enw
t., tt.	tudalen(nau)
v	<i>verso</i>

## *Crynodeb*

Rhennir y traethawd hwn yn bum pennod, ynghyd â rhagymadrodd a dau atodiad byr.

Ar Lewys Glyn Cothi, un o feirdd pwysicaf y bymthegfed ganrif, y canolbwyntir ym mhennod I, ac ar ei weithgarwch fel ysgrifwr yn benodol. Dangosir bod Llst. 7 – llawysgrif y credid gynt ei bod yn tarddu o lawysgrif goll yn llaw Lewys – yn enghraifft o law anffurfiol Lewys ei hun, ac yn sgil hynny olrheinir rhagor o enghreifftiau newydd o'i law mewn dyrnaid o lawysgrifau o'r pwys mwyaf, gan gynnwys Pen. 2 (Llyfr Taliesin), enghreifftiau sy'n bwrw rhagor o oleuni ar ddiddordeb y bardd yng Nghyfraith Hywel.

Llawysgrif y daethpwyd o hyd iddi yn Northampton yn Awst 2019 yw byrdwn pennod II. Trafodir ei chynnwys, ei ffynonellau a'i hanes diweddarach yn fanwl, a dangosir bod ei chynnwys amheuthun yn ychwanegu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o gymhellion ac anian ei hysgrifwr, sef Syr Siôn Prys (1501/2–55), brodor o Aberhonddu a fu'n gyfrifol am gyhoeddi'r llyfr printiedig Cymraeg cyntaf, *Yny lhyvyr hwnn* (1546), ac a fanteisiodd ar ei safle yn ystod diddymiad y mynachlogydd i achub rhai dwsinau o lawysgrifau canoloesol arwyddocaol.

Dyneiddiwr arall yw gwrthrych pennod III, cyfoeswr iau i Syr Siôn Prys, sef William Salesbury (c.1510–c.1580). Cynigir yno, yn sgil gwaith testunol manwl, dystiolaeth dros briodoli pedair llawysgrif ychwanegol iddo, llawysgrifau sy'n llenwi bylchau yn ein gwybodaeth ynghylch gweithgarwch y Salesbury ifanc. Yn ail hanner y bennod trafodir y modd y bu i Salesbury ymyrryd â thraethawd Richard Davies, esgob Tyddewi, *Epistol at y Cembra*, a gyhoeddwyd ymhlith y deunydd rhagarweiniol i Destament Newydd 1567, a'r modd y mae astudiaeth o'r copïau o'r cyhoeddiad hwnnw a oroesodd yn awgrymu mai'r ysgolheigion a gynorthwyai William Morgan a fu'n gyfrifol am gofnodi'r ystryw hwnnw ar ran Salesbury.

Arhosir yn Nyffryn Conwy ym mhennod IV, lle y trafodir un o lawysgrifau Thomas Wiliems o Drefriw (1545/6–c.1622), sef Add. 31055. Canolbwyntir ar ddau o'r testunau a geir yn y llawysgrif gyfoethog honno: yn gyntaf, cynigir golygiad o'r rhestr werthfawr o feirdd a'u manau claddu, rhestr a gamddehonglwyd yn ddybryd er yn gynnar iawn yn ei hanes, gan ddangos ei bod yn rhestr ddibynadwy sydd, ond odid, yn tarddu o etifeddiaeth lafar y beirdd;

yn ail, defnyddir y testun *Gorchestion Dafydd Nanmor* fel rhan o'r ddadl dros gredu y dylid uniaethu Thomas Wiliems â'r ysgrifwr anhysbys o Fangor a fedyddiwyd gan Daniel Huws yn X51 (*fl.*1566), sef ysgrifwr y flodeugerdd enwog a adwaenir fel 'Llyfr Bickar Wocking' (Card. 2.114) a rhan o Pen. 155.

Y catalog gwerthfawr a rhyfedd o lawysgrifau Hengwrt a gyhoeddwyd yn rhifyn 1818 o'r *Cambrian Register* yw testun pennod V. Dangosir bod dystiolaeth gref o blaid credu mai Hugh Thomas (1673–1720), yr hynafiaethydd a'r herodr o Aberhonddu a Llundain, oedd yn gyfrifol am y catalog hwnnw, lle y ceir yr unig dystiolaeth sy'n cysylltu Llyfr Du Caerfyrddin â phriordy Awstinaidd y dref honno. Yn sgil y priodoliad hwn, gwerthusir dibynadwyedd rhai o'r darnau unigryw o dystiolaeth a geir yn y catalog, a dangosir mai trwy gamddealltwriaeth ar ran Hugh Thomas y cysylltwyd y Llyfr Du â phriordy Awstinaidd Caerfyrddin ac â Syr Siôn Prys; cynigir, gan hynny, drywydd mwy tebygol ar gyfer disgyniad y Llyfr Du.

Yn Atodiad I ceir sensws o'r holl gopïau hysbys o Destament Newydd 1567, a fu'n hanfodol ar gyfer ail ran pennod III. Yn Atodiad II cynigir bywgraffiad cryno o William Thomas (*c.*1676–1764), ysgrifennydd Harley, sydd eto'n flaenllaw yn ail ran pennod III; dangosir bod angen adolygu'r hyn a ddywedir amdano yn *RWMS* a cheir ymgais i ail-greu llyfrgell Gymreig Thomas ar sail ei nodiadau yn ei gopi o waith Moses Williams, *Cofrestr o'r holl lyfrau printjedig* (1717).

## *Diolchiadau*

Yng ngeiriau bardd yr aeth ei enw'n angof yn niwl y canrifoedd, wrth geisio nodi fy niolchgarwch i'm cyfeillion a'm hamryfal ddyledion iddynt, 'gwaith anorffen sydd gennyf'. Rhaid yn gyntaf ddiolch i'r AHRC am ariannu'r astudiaeth hon ac am gynnig ystod eang o weithdai a chyfleon gwerthfawr i ymwneud ag efrydwyr eraill. Rhoes y gwaith gyfle dihafal imi deithio o lyfrgell i lyfrgell, lle y cefais gymorth hael yn ddieithriad, a bu sawl archifydd a churadur cyn gareddiced ag archwilio deunydd ar fy rhan yn ystod y misoedd caeth yn 2020 a 2021 pryd nad oedd modd teithio. Nid yw na chof na gofod yn caniatáu eu henwi, ond mawr yw fy niolch i bob un ohonynt.

Ni buasai'r gwaith wedi bod yn bosibl heb gyngor doeth a ffraeth fy nghyfarwyddwr, yr Athro Peredur Ionor Lynch; yr wyf hefyd yn dra diolchgar i'm hisgyfarwyddwr, Dr A. Cynfael Lake, Prifysgol Abertawe, am roi'n hael o'i amser a bwrw llygad craff ar fy ymdrechion cynnar i olygu testunau. Yn ogystal, elwais yn fawr o gyfeillgarwch a chefnogaeth y staff a'm cydfyfyrrwyr ym Mangor, a ysgafnaodd bob baich ar fy ysgwyddau.

Yn ystod y tair blynedd a mwy y bûm yn eistedd wrth draed Dr Daniel Huws yn Aberystwyth, daeth rhai aelodau o staff y Llyfrgell Genedlaethol a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yn gyfeillion agos ac yn anogwyr cyson. Mentraf enwi dau: yn gyntaf, Dr Maredudd ap Huw, Curadur Llawysgrifau LIGC, gŵr y cyfranogais bob cyfle o'i ddysg, ei ddoethineb a'i hiwmor; yn ail, yr Athro Ann Parry Owen, un na allaf yn gryno fynegi fy niolchgarwch iddi. Yn yr achau, ym Mrychan a'i ferched, neu Farchudd ei hunan, yn Llywarch, yng Ngwenllian, dwi heb gael dy debyg, Ann. Yr wyf hefyd yn fawr fy nyled i'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones, cyfarwyddwr y Ganolfan Uwchefrydiau, am ei haelioni'n caniatáu imi barhau i ddefnyddio adnoddau'r Ganolfan ar ôl dwyn maen trwm y *Repertory* i'r wal ym Mehefin 2022.

Ymysg y rhai a fu'n gyson eu cefnogaeth y mae Dr Claire Breay, Mary Burdett-Jones, yr Athro Marged Haycock, Dr Mel Humphreys, Eurig Salisbury a Dr Helen Williams-Ellis; diolch hefyd i Dr Sarah Ward Clavier, Timothy Cutts, yr Athro Ceri Davies, Dr Shaun Evans, yr Athro Paul Russell, yr Athro Patrick Sims-Williams, Graham Thomas, Dr Rebecca Thomas, yr Athro

Gruffydd Aled Williams a Dr Myriah Williams am ateb sawl ymholiad gennyf. Cydnabyddir mewn mannau priodol yn y traethawd sawl unigolyn arall nad oes modd eu henwi yma. Rhaid rhoi sylw arbennig i dri chyfaill a roes yn eithriadol o hael o’u hamser a’u galluoedd, sef Dr David Callander, Dr Ben Guy a Llewelyn Hopwood: gobeithio na fu imi fod yn ormod o draul ar eich amynedd! Rhaid hefyd grybwyll criw doniol, deifiol yr *Edefyn*, sy’n rhoi gwên lydan ar fy wyneb beunydd, ac ni wiw imi anghofio enwi’n benodol un ohonynt, sef fy nghyfaill Dr Elis Dafydd, dewin Trefor. Ac oni bai am gefnogaeth fy nheulu, ni buasai’r gwaith hwn byth wedi ei orffen: er nad oes ganddynt y mymryn lleiaf o ddiddordeb yn sylwedd y gwaith, bu eu cefnogaeth yn ddiamod bob amser, o’r dechrau hyd y diwedd.

Cyflwynaf y gwaith hwn i Daniel Huws. Er bod ‘mynyddde’r blynydde’ – trigain mlynedd union – rhyngom, daethom yn gyfeillion agos oddi ar ein cyfarfyddiad cyntaf yn hydref 2015. Bu’r amser a dreuliais yn ei gwmi rhwng Ionawr 2019 a Mehefin 2022 yn cydweithio ar y *Repertory* yn frain na chaf mo’i thebyg eto, ac y mae rhif ac amllder y cyfeiriadau at ‘*RWMS*’ yn y traethawd hwn yn dangos yn eglur ei fod yn waith na ellid bod wedi ei ddechrau, heb sôn am ei orffen, pe na bai Daniel wedi mynd ati, yn ystod ei ymddeoliad hir, i grynhoi ei ddysg ryfeddol mewn tair cyfrol las, odidog. Yn y traethawd hwn ni thynnir yn groes i’r hyn a ddywed Daniel yn y *Repertory* ond gyda thra pharchedig ofn, ond gwn y bydd ef, yn ei eangfrydedd, yn croesawu pob darganfyddiad newydd, waeth pa mor bitw, sy’n goleuo corneli tywyllaf a mwyaf diarffordd byd digyffelyb y llawysgrifau a’u hysgrifwyr.



## *Rhagymadrodd*

Ar 24–5 Ebrill 2019 cynhaliwyd cynhadledd yn Aberhonddu ac iddi'r teitl 'Reading, Writing and Collecting: Books and Manuscripts in Wales, 1450–1800'.<sup>1</sup> Ymgais oedd y gynhadledd honno i adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd gan y gyfrol arloesol *A Nation and its Books*, a gyhoeddwyd yn 1998, cyfrol sydd, mewn 34 pennod, yn cynnig trosolwg ar hanes y llyfr (boed yn brintiedig neu'n llawysgrif) yng Nghymru o'r cyfnod boreuaf hyd ddiwedd yr ugeinfed ganrif.<sup>2</sup> Y mae'r gyfrol honno – a'r gynhadledd, hithau – yn tystio i'r diddordeb cynyddol a welwyd yn ystod y degawdau diweddfaf yn y llyfr nid yn unig fel cyfrwng ar gyfer trosglwyddo testunau a syniadau ond fel arteffact yn ei hawl ei hun. Un o'r arloeswyr yn y maes hwnnw yw David Pearson, sef prif siaradwr y gynhadledd a gŵr y mae ei waith yn taflu llawer o oleuni ar berchnogaeth llyfrau yn Lloegr yn y cyfnod modern cynnar.<sup>3</sup> Y mae'n wir mai mewn llyfrau print y mae prif ddiddordeb Pearson, ond efallai mai ein tueddfrydau anacronistaidd ni sy'n peri inni weld ffin rhwng y llawysgrif a'r llyfr printiedig; ni wnaed hynny gan Robert Vaughan, Hengwrt, er enghraifft, yn y catalog a luniodd o'i lyfrgell ei hun tua 1659.<sup>4</sup>

Wrth gwrs, nid peth cwbl newydd yw'r diddordeb yn y llyfr fel arteffact. Diau mai arwydd o gyfryw ddiddordeb yw'r modd y bedyddid llawysgrifau ag enwau<sup>5</sup> megis Llyfr Coch Hergest (a geir gyntaf gan Syr Siôn Prys, c.1550),<sup>6</sup> Llyfr Du Caerfyrddin (enw na ellir ei olrhain ymhellach na dyddiau William Salesbury),<sup>7</sup> Llyfr Aneirin (a geir gyntaf gan Robert Vaughan),

---

<sup>1</sup> Trefnwyd y gynhadledd gan Dr Mary Chadwick a Dr Sarah Ward Clavier, a chyhoeddwyd detholiad o'r papurau a draddodwyd mewn rhifyn arbennig o *Cylchgrawn Hanes Cymru*; gw. Mary Chadwick, Sarah Ward Clavier a Shaun Evans, 'Introduction: Books and Manuscripts in Wales', *CHC*, 31 (2022–), 1–16.

<sup>2</sup> Gw. Philip Henry Jones ac Eiluned Rees (gol.), *A Nation and its Books. A History of the Book in Wales* (Aberystwyth: National Library of Wales, 1998).

<sup>3</sup> Gw. yn enwedig David Pearson, *Provenance Research in Book History. A Handbook*, ail arg. (Oxford: Bodleian Library & New Castle: Oak Knoll Press, 2019); idem, *Book Ownership in Stuart England* (Oxford: Oxford University Press, 2021); idem, *Speaking Volumes. Books with Histories* (Oxford: Bodleian Library, 2022). Gw. hefyd Christopher de Hamel, *Meetings with Remarkable Manuscripts* (London: Allen Lane, 2016); idem, *The Posthumous Papers of the Manuscripts Club* (London: Allen Lane, 2022).

<sup>4</sup> Gw. *RWMS*, I, t.241. Bydd golygiad Dr Maredudd ap Huw o'r catalog hwn, pan ymddengys, yn ychwanegu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o berchnogaeth llyfrau a llawysgrifau yng Nghymru'r cyfnod modern cynnar. Prin iawn, ysywaeth, yw'r enghreifftiau eraill o gatalogau fel hyn, ond yn Atodiad II ceir ymgais i ail-greu llyfrgell Gymreig William Thomas (c.1676–1764).

<sup>5</sup> Ceir rhestr hwylus ohonynt yn *RWMS*, II, tt.416–17 d.g. *books, named, extant*.

<sup>6</sup> Gw. pennod II.

<sup>7</sup> Gw. pennod V.

Llyfr Taliesin (enw nas gwelir cyn dyddiau Edward Lhwyd) a Llyfr Gwyn Rhydderch (enw a allai fod mor hen ag ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg).<sup>8</sup> Porthwyd y diddordeb hwn yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan ddwy gyfrol enwog William F. Skene, *The Four Ancient Books of Wales*,<sup>9</sup> ac yn ddiweddarach gan y dihafal J. Gwenogvryn Evans, a gyhoeddodd ffacsimiliau ac adargraffiadau ffyddlon o rai o'r llawysgrifau enwocaf, gan gynnwys Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Aneirin, Llyfr Taliesin a Llyfr Du'r Waun.<sup>10</sup> Erys *Report* Gwenogvryn, a gyhoeddwyd yn 1898–1910, yn ganllaw anhepgor i gynnwys oddeutu 900 o lawysgrifau; er bod gwaith diweddarach wedi golygu bod angen ailystyried llawer o'r hyn a gynnigir ganddo, ni ellir dannedd i Wenogvryn ei le fel arloeswr astudiaethau llawysgrifol yng Nghymru.<sup>11</sup>

Y mae Daniel Huws yn cydnabod ei ddyled fawr i Wenogvryn yn ei ragymadrodd i'w waith hirddisgwyliedig, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–c.1800*, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2022. Fel y nodais yn y diolchiadau uchod, ni fyddai'r traethawd hwn wedi bod yn bosibl heb y *Repertory*, gwaith y bu drafftiau ohono, trwy garedigrwydd yr awdur, yn cylchredeg ers rhai blynyddoedd bellach. Bûm yn ddigon ffodus i gael rhan fechan yn y gwaith o baratoi'r gwaith hwnnw ar gyfer y wasg, a gwnaed nifer o'r darganfyddiadau a drafodir yn y traethawd hwn mewn pryd iddynt gael eu cynnwys yn y *Repertory*; daethpwyd i ambell gasgliad arall, fodd bynnag, ar ôl i'r *Repertory* fynd i'w wely.

Bydd y sawl sy'n gyfarwydd â'r *Repertory* yn ymwybodol o hyd a lled uchelgais yr awdur: dyma'r ymgais gyntaf erioed i ddwyn dan yr un to yr holl lawysgrifau llenyddol Cymreig a ysgrifennwyd cyn 1800, tua 3,300 ohonynt i gyd. Ceir hefyd fywgraffiadau ar gyfer oddeutu 1,600 o ysgrifwyr (ac enghreifftiau o lawysgrifen tua 750 o'r rhai pwysicaf), ynghyd â mynegeion cynhwysfawr. Y mae gwaith hollgynhwysol o'r fath, un na cheir mo'i debyg ar gyfer unrhyw lenyddiaeth arall, yn ein galluogi, hyd yn oed heb fynd ar gyfyl llawysgrif, i amgyffred yn well y rhwydweithiau cymhleth o destunau, ysgrifwyr a chasglwyr, ac yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer darganfyddiadau a dyfaliadau pellach. Hyd yn oed cyn cyhoeddi'r

---

<sup>8</sup> Gw. *MWM*, tt.247–9.

<sup>9</sup> William F. Skene (gol.), *The Four Ancient Books of Wales*, 2 gyf. (Edinburgh: Edmonston and Douglas, 1868).

<sup>10</sup> Gw. J. Gwenogvryn Evans (gol.), *A Facsimile of the Black Book of Carmarthen* (Oxford: y golygydd, 1888); idem (gol.), *Facsimile & Text of the Book of Aneirin* (Pwllheli: y golygydd, 1908); idem (gol.), *Facsimile & Text of the Book of Taliesin* (Llanbedrog: y golygydd, 1910); idem (gol.), *Facsimile of the Chirk Codex of the Welsh Laws* (Llanbedrog: y golygydd, 1909 [1921]).

<sup>11</sup> Ar Wenogvryn, gw. Angela Grant, 'The view from the fountain head: the rise and fall of John Gwenogvryn Evans' (traethawd DPhil heb ei gyhoeddi, Prifysgol Rhydychen, 2018).

*Repertory*, bu arbenigedd Daniel Huws<sup>12</sup> yn sail ar gyfer swrn o astudiaethau testunol, a hefyd ar gyfer astudiaethau o lawysgrifau ac ysgrifwyr unigol;<sup>13</sup> bu hefyd yn sail ar gyfer astudiaethau o rwydweithiau llawysgrifol fel y rhai a gafwyd gan Helen Fulton a Matthew Lampitt.<sup>14</sup> Fel y dywed yr awdur, ‘the work is of a kind that ought to invite additions and improvements: most importantly, in putting names to some of the hundreds of hands which, doubtlessly, with patience and perserverance and luck be identified’;<sup>15</sup> y mae’n anochel y bydd gwaith mor eang ei gwmpas â’r *Repertory* yn esgor ar ddarganfyddiadau dirifedi.

Er bod ymdriniaeth â thestunau’n anorfod, yn arbennig felly ym mhennod IV, lle y cynigir golygiad o restr Thomas Wiliems o feirdd a’u manau claddu, gwelir mai â’r llyfr (sef y llawysgrif gan mwyaf) fel arteffact y mae a wnelo’r traethawd hwn yn bennaf. Serch hynny,

---

<sup>12</sup> Ailgyhoeddwyd nifer o’i erthyglau pwysicaf yn *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff: University of Wales Press & Aberystwyth: National Library of Wales, 2000) [= *MWM*].

<sup>13</sup> Yr enghraifft amlycaf yw ei ddadansoddiad meistrolgar o Lawysgrif Hendregadredd (Daniel Huws, ‘Llawysgrif Hendregadredd’, *CLIGC*, 22 (1981–2), 1–26; cyhoeddwyd cyfieithiad o’r erthygl yn *MWM*, tt.193–226), a fu’n sylfaen ar gyfer prosiect Beirdd y Tywysogion, sef prosiect cyntaf Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Bu’r tabl cronolegol o lawysgrifau a gyhoeddwyd yn *MWM*, tt.57–64 (ac y ceir fersiwn llawnach a diweddaedig ohono, hyd y flwyddyn 1547, yn *RWMS*, II, tt.221–9) yn sylfaenol bwysig ar gyfer prosiectau fel *Rhyddiaith y 13eg Ganrif* (Prifysgol Aberystwyth) a *Rhyddiaith Gymraeg 1300–1425* (Prifysgol Caerdydd), a hefyd ar gyfer gwaith ar ddatblygiadau orgraffyddol a chystrawennol fel ag a gafwyd gan Paul Russell (‘Scribal (in)consistency in thirteenth-century south Wales: the orthography of the Black Book of Carmarthen’, *SC*, 43 (2009), 135–74; idem, ‘Scribal (in)competence in thirteenth-century north Wales: the orthography of The Black Book of Chirk (Peniarth MS 29)’, *CLIGC*, 29 (1995–6), 129–76) a Simon Rodway (e.e. *Dating Medieval Welsh Literature: evidence from the verbal system* (Aberystwyth: CMCS, 2013)). Ymysg yr astudiaethau o lawysgrifau ac ysgrifwyr unigol y mae rhai Marged Haycock (‘Llyfr Taliesin’, *CLIGC*, 25 (1987–8), 357–81), Simon Rodway (‘The Red Book text of “Culhwch ac Olwen”: a modernising scribe at work’, *Studi Celtici*, 3 (2004), 93–161), Paul Russell (‘What did medieval Welsh scribes do? The scribe of the Dingestow Court manuscript’, *CMCS*, 37 (1999), 79–96), Nesta Lloyd (‘A History of Welsh Scholarship in the first half of the Seventeenth century, with special reference to the writings of John Jones, Gellilyfdy’ (traethawd DPhil heb ei gyhoeddi, Prifysgol Rhydychen, 1970)) a Christine James (‘Ysgrifydd anhysbys: proffil personol’, *YB*, 23 (1997), 44–72). Gw. hefyd Ceridwen Lloyd-Morgan, ‘Writing without borders: multilingual content in Welsh miscellanies from Wales, the Marches and beyond’, yn Margaret Connolly a Raluca L. Radulescu (gol.), *Insular Books: vernacular miscellanies in late medieval Britain* (Oxford: Oxford University Press, 2015), tt.175–91; Dafydd Johnston, ‘Welsh bardic miscellanies’, *ibid.*, tt.193–207; William Marx, ‘Aberystwyth, National Library of Wales, MS Peniarth 12: the development of a bilingual miscellany – Welsh and English’, *ibid.*, tt.247–62; Simon Rodway, ‘The where, who, when and why of medieval Welsh prose texts: some methodological considerations’, *SC*, 41 (2007), 47–89.

<sup>14</sup> Gw., e.e., Helen Fulton, ‘The Geography of Welsh Literary Production in Late Medieval Glamorgan’, *Journal of Medieval History*, 41 (2015), 325–40; eadem, ‘The Red Book and the White: gentry libraries in medieval Wales’, yn Aisling Byrne a Victoria Flood (gol.), *Crossing Borders in the Insular Middle Ages* (Turnhout: Brepols, 2019), tt.23–45; eadem, ‘Sir John Prise and his books: manuscript culture in the March of Wales’, *CHC*, 31 (2022–), 55–78; eadem, ‘Literary Networks and Patrons in Late Medieval Wales’, yn Geraint Evans a Helen Fulton (gol.), *The Cambridge History of Welsh Literature* (Cambridge: Cambridge University Press, 2019), tt.129–53; Matthew Siôn Lampitt, ‘Networking the March: The Literature of the Welsh Marches, c.1180–c.1410’ (traethawd DPhil heb ei gyhoeddi, King’s College London, 2019). Gw. hefyd Ceridwen Lloyd-Morgan, ‘Manuscripts and the Monasteries’, yn Janet E. Burton a Karen Stöber (gol.), *Monastic Wales: New Approaches* (Cardiff: University of Wales Press, 2013), tt.209–27; Christine James, ‘“Llwyr Wybodau, Llên a Llyfrau”: Hopcyn ap Tomas a’r Traddodiad Llenyddol Cymraeg’, yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Tawe* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1993), tt.4–44; eadem, ‘Hopcyn ap Tomas a “Llyfrgell Genedlaethol” Ynysforgan’ *THSC*, 13 (2007), 31–57.

<sup>15</sup> *RWMS*, I, t.xxxii.

gellid dadlau bod yr agwedd honno'n annatod glwm wrth gynnwys y llyfrau hynny. Trwy astudio'r gwrthrychau hyn gellir bwrw goleuni amhrisiadwy ar y testunau, ar eu hawduron a'u cynulleidfaoedd, ar gymhelliant eu hysgrifwyr ac ar ddiddordebau'r sawl a fu'n eu casglu ac yn eu diogelu ar hyd y blynyddoedd. Y mae gallu rhoi enw i ysgrifwr a fu gynt yn anhysbys, neu adnabod yr un llaw anhysbys mewn dwy neu ragor o llawysgrifau, yn ein galluogi i ddeall yn well y math o *milieu* lle y lluniwyd ac y casglwyd gwahanol destunau; enghraifft wiw o hyn yw'r modd y llwyddodd Ingo Mittendorf i adnabod llaw 'B' Llyfr Aneirin (Card. 2.81), sef 'X83' yn *RWMS*, mewn dwy llawysgrif arall, sef Pen. 14 rhan (i) a Pen. 17; gan fod yr olaf yn cynnwys *Historia Gruffudd ap Cynan*, y mae'n dystiolaeth gref dros gredu mai llawysgrif a luniwyd yng Ngwynedd – yn abaty Aberconwy, efallai – yw Llyfr Aneirin.<sup>16</sup> Mewn modd cyffelyb, y mae'r llawysgrifau eraill a ysgrifennwyd gan ysgrifwr Llyfr Taliesin (Pen. 2) yn greiddiol bwysig wrth geisio pennu tarddle'r llawysgrif honno.<sup>17</sup> Ac yn sgil damcaniaeth ddiweddar Daniel Huws mai ar gyfer Gruffudd ap Nicolas, gŵr grymusaf Deheubarth tua chanol y bymthegfed ganrif, y lluniwyd y llawysgrif gyfraith Wynnstay 36 ('Q'), y mae'r testun diddorol a geir yn y llawysgrif honno'n magu mwy byth o arwyddocâd.<sup>18</sup>

Cyflwynir sawl darganfyddiad newydd yn y traethawd hwn. Yn y pedair pennod gyntaf dangosir y gellir priodoli llawysgrifau 'newydd' i rai o'r ysgrifwyr pwysicaf oll, sef Lewys Glyn Cothi, Syr Siôn Prys, William Salesbury a Thomas Wiliems. Ceisir hefyd amlygu a chywiro ambell gamsyniad a lyncwyd yn ddihalen ac sydd wedi llesteirio ein dealltwriaeth o rai o'n llawysgrifau enwocaf, yn fwyaf amlwg Llyfr Du Caerfyrddin, a drafodir mewn manylder ym mhennod V. Enghreifftiau'n unig yw'r rhain o'r math o gynnydd sy'n bosibl yn sgil cyhoeddi'r *Repertory*, cynnydd a fydd yn dyfnhau ein dealltwriaeth o rai o'n pennaf trysorau ac o'r testunau a gynhwysir ynddynt.

---

<sup>16</sup> Gw. Ingo Mittendorf, 'Sprachliche und orthographische Besonderheiten eines mittelkymrischen Textes aus dem 13. Jahrhundert (*Gwyrthyeu e Wynvydedic Veir*)', yn Stefan Zimmer *et al.* (gol.), *Akten des zweiten deutschen Keltologen Symposiums (Bonn, 2–4 April 1997)* (Tübingen, 1999), tt.127–48.

<sup>17</sup> Haycock, 'Llyfr Taliesin'.

<sup>18</sup> Gw. *RWMS*, I, tt.485–6. Dim ond yn 2019 y sylweddolwyd mai'r un ysgrifwr (sef 'X25') a ysgrifennodd Rawl. B. 467 rhan (i), sy'n cynnwys testun meddygol a gysylltir â Meddygon Myddfai.

# I

## ‘I mewn hen ysgrifen gron’:<sup>1</sup> llawysgrifau Lewys Glyn Cothi

Yn 1617, gyda chymorth *amanuensis*,<sup>2</sup> aeth John Davies o Fallwyd ati i lunio casgliad o waith Lewys Glyn Cothi, un o feirdd pwysicaf y cyfnod a fedyddiwyd gan Saunders Lewis yn ‘Ganrif Fawr’ ein llên.<sup>3</sup> Yr oedd ganddo ddeunyddiau rhagorol ar gyfer y gwaith, sef llawysgrifau’r bardd ei hun. Cododd gynnwys y rheini i’r llawysgrif a adwaenir bellach fel Add. 14871 (*RMWL* 20), ac ar f.125<sup>r-v</sup> y mae’n disgrifio ei ffynhonnell gyntaf:

Allan or hen lyfr memrwn, yr hwn, hyd y mae yn gyffelyb, a scrifennasei Lewys Glynn Kothi ai law ei hun: ac felly tybiai Rys Kain. [...] Y llyfr memrwn hwnnw a fuasai yn eiddo Gruff: Dwinn, ac wedi hynny yn eiddo Huw Llŷn, ac yna yn eiddo Rys Kain, ac yr awrhon yn eiddo Sion Kain 1616.

Yn ddiweddarach daeth y llawysgrif honno, a adwaenir bellach fel Pen. 70, i feddiant Robert Vaughan o Hengwrt, cyfaill agos i Siôn Cain ac un a etifeddodd nifer o lawysgrifau amhrisiadwy’r bardd hwnnw. Yna, ar f.246<sup>v</sup>, y mae John Davies yn disgrifio un o’i ffynonellau eraill fel a ganlyn:

Allan o hên lyfr ar femrwn, o’r vn llaw a’r llyfr a gopiwyd o ddechreu’r llyfr yma hyd ddalen 115 ac o’r vn scrifennyddiaeth. Ac y mae yn gyffelyb iawn mai llaw’r Prydydd yw pob vn or ddau. Y mae yn y diweddaf o’r ddau, wrth ddechreu pob Cywydd ac Awdl, gan mwyaf, arfau y gwyr y cenid iddynt, yn eu lliwiau.

---

<sup>1</sup> Daw’r dyfyniad hwn o gywydd mawl Lewys Glyn Cothi i Hywel ap Rhydderch ac Annes Owbre (*GLGC*, rhif 148, ll.19). Ceir cyflwyniad hylaw i waith Lewys yn E.D. Jones, ‘Lewis Glyn Cothi’, yn A.O.H. Jarman a Gwilym Rees Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature 1282–c.1550*, adolygydd gan Dafydd Johnston (Cardiff: University of Wales Press, 1997), tt.222–39.

<sup>2</sup> Rhoddwyd y siglwm ‘X5’ i’r cynorthwydd anhysbys hwn gan Daniel Huws; gw. *RWMS*, II, t.210. Er mai fel cynorthwydd i John Davies y’i hystyrir yn bennaf, yr oedd hefyd yn cynorthwyo Robert Vaughan o Hengwrt ac eraill; gw., e.e., Pen. 233i a Pen. 236. Y mae’r dystiolaeth o blaid ei uniaethu â’r bardd Tuder Owen o Ddugoed, Mallwyd (gw. *RWMS*, II, t.126).

<sup>3</sup> Gw. Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1932), pennod 7; gthg. fodd bynnag farn Katharine K. Olson, “‘Y Ganrif Fawr’? Piety, Literature and Patronage in Fifteenth- and Sixteenth-Century Wales’, *Studies in Church History*, 48 (2012), 107–23, sy’n dadlau bod angen ailystyried ein syniadau ynghylch y cyfnod hwn.

Disgrifiad yw hwn o'r llawysgrif a adwaenir bellach fel Pen. 109, llawysgrif arall a ddaeth i feddiant Robert Vaughan, ond o gyfeiriad gwahanol: y mae'n debyg iddi, fel Pen. 70, fod yn rhan o gasgliad Gruffydd Dwinn o Ystradmerthyr tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg, cyn dod i feddiant y bardd-offeiriad 'Syr' Owain ap Gwilym (m.1563) o Dal-y-llyn, gwrthrych marwnad enwog Wiliam Llŷn,<sup>4</sup> ac ymddengys mai hi yw'r llawysgrif o waith Lewys a oedd yn Chwefror 1611[12] ym meddiant John Hughes, Maesypany, Tal-y-llyn, nid nepell o'r Wengraig, man geni Robert Vaughan.<sup>5</sup> Er nad yw John Davies yn nodi hynny wrth ddisgrifio ei ffynhonnell, y mae'n dra thebygol mai gan Robert Vaughan y cafodd ef fenthyl Pen. 109 er mwyn copïo ei chynnwys, ac mai'n ddiweddarach y daeth Pen. 70 i Hengwrt, a hynny trwy law Siôn Cain.

Ffynonellau eraill John Davies wrth lunio Add. 14871 oedd Llyfr Gwyn Hergest (llawysgrif ganoloesol goll a drafodir mewn rhagor o fanylder isod), Jesus 111 (Llyfr Coch Hergest) a Llst. 7, llawysgrif fechan y bu ei phwysigrwydd eithriadol yn hysbys gan ei bod yn cynnwys casgliad sylweddol o gerddi Lewys nas ceir yn Pen. 70 na Pen. 109. Yn ogystal, ceir yn llawysgrif John Davies beth deunydd a godwyd o ffynonellau a gollwyd ac na ellir eu holrhain, sy'n ychwanegu at werth testunol y casgliad pwysig hwn; y mae hefyd yn arwyddocaol gan mai llawysgrif John Davies oedd pennaf ffynhonnell Owen Jones (Owain Myfyr) ar gyfer ei gasgliad o waith Lewys yn Add. 14963, sef y llawysgrif a fu'n sail i'r argraffiad cyntaf o'i waith, a ymddangosodd dan olygyddiaeth Gwallter Mechain ac Ioan Tegid yn 1837.<sup>6</sup>

Y mae disgrifiadau John Davies o Pen. 70 a Pen. 109 yn dangos iddo sylweddoli – a hynny'n gywir – bod y ddwy llawysgrif yn yr un llaw, a dilynodd farn Rhys Cain (m.1614), tad Siôn Cain, a gredai mai llaw Lewys Glyn Cothi ei hun ydyw. Y mae'n rhaid troi at llawysgrif arall,

---

<sup>4</sup> Gw. *OBWV*, rhif 98. Ceir cerddi yn llaw Syr Owain ei hun yn llyfr llys Gruffydd Dwinn, Llst. 40.

<sup>5</sup> Gw. Daniel Huws a Gruffudd Antur (gol.), *Rhestr John Jones, Gellilyfdy o Berchnogion Llawysgrifau* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2022).

<sup>6</sup> Walter Davies a John Jones (gol.), *Gwaith Lewis Glyn Cothi. The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi* (Oxford: The Cymmrodorion, or Royal Cambrian Institution, 1837). Y golygiad diweddaraf yw'r eiddo Dafydd Johnston [=GLGC], a etifeddodd brosiect hirdymor E.D. Jones i gyhoeddi gwaith y bardd. Bwriad E.D. Jones oedd cyhoeddi argraffiadau diplomataidd o ddwy llawysgrif holograff y bardd, Pen. 70 a Pen. 109, ond dim ond y gyfrol gyntaf (testun Pen. 109) a gyhoeddwyd (E.D. Jones (gol.), *Gwaith Lewis Glyn Cothi: y gyfrol gyntaf* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru & Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1953); gw. hefyd idem (gol.), *Lewys Glyn Cothi (Detholiad)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1984). Trafodir Add. 14871 a'i ffynonellau'n fanwl gan Dafydd Johnston yn *GLGC*, tt.xxxi–xxxii. Nid annichon fod y llawysgrif hon yn un o'r rhai a grwydrodd o Hengwrt yn ystod y ganrif ar ôl marwolaeth Robert Vaughan yn 1667; fe'i prynwyd yn 1728 gan Lewis Morris, sy'n nodi ar f.125<sup>v</sup> 'this MS. by good luck came through abundance of ignorant hands, and like Æsop the Grecian was this year 1728 sold for 12 pence'.

fodd bynnag, er mwyn dod o hyd i'r dystiolaeth sy'n cloi'r ddadl, sef Pen. 40, llawysgrif a ysgrifennwyd gan Lewys ar gyfer Ieuan ap Phylip o Gefn-llys, sir Faesyfed, a'i wraig, Angharad, rywbyrd ar ôl 1469, ac sy'n cynnwys fersiwn o *Lyfr Iorwerth*.<sup>7</sup> Rhagflaenir y testun hwnnw (ar tt.3–8, sef y cydiant cyntaf) gan awdl a thri chywydd i Ieuan ap Phylip a'i deulu,<sup>8</sup> ac ar t.5 ceir y nodyn canlynol:

Le6ys Glyn[n] Kothi ai kant ac ai hysg[ri]ue[n]odd.

Fel y dangosodd E.D. Jones, y mae'r dystiolaeth hon yn profi bod John Davies o Fallwyd yn llygad ei le ac nad oes sail i gyndynrwydd J. Gwenogvryn Evans i dderbyn mai gwaith llaw'r bardd ei hun yw Pen. 70 a Pen. 109,<sup>9</sup> dwy lawysgrif y credir bellach, ar sail y testunau a geir ynddynt, iddynt gael eu hysgrifennu yn yr 1470au.

Er gwaetha'r ffaith fod rhyw 245 o gerddi Lewys wedi goroesi, corff llawer mwy sylweddol o waith na'r eiddo'r un o'i gyfoeswyr, erys nifer o agweddau sylfaenol ar ei fywyd yn dywyll. Gwyddom ei fod yn ei flodau o tua 1447 hyd 1489, ond ni wyddom ddim am ei ach,<sup>10</sup> ac er bod ei enw barddol yn ei gysylltu'n benodol â'r ardal o boptu afon Cothi yn sir Gâr, ni wyddom ymhle'r oedd ei gartref.<sup>11</sup> Ymhellach, gwelir ambell nodwedd ar waith Lewys sy'n awgrymu ei fod yn sefyll fymryn ar wahân i brif ffrwd y canu mawl.<sup>12</sup> Ni chysylltir mohono ag unrhyw athro na disgybl barddol; o blith ei holl gerddi ni cheir yr un gerdd ymryson, nac ychwaith unrhyw farwnad i fardd arall; ac er ei fod yn cyfeirio yn un o'i gerddi<sup>13</sup> at Ddafydd Nanmor,

---

<sup>7</sup> Trafodir y llawysgrif yn fanwl yn Morfydd E. Owen, 'A fifteenth-century lawbook from Cefnlllys', *Transactions of the Radnorshire Society*, 81 (2011), 77–93.

<sup>8</sup> Fe'u hargraffwyd, gyda chyflwyniadau Saesneg, yn E.D. Jones, 'The Cefn Llys poems of Lewis Glyn Cothi', *ibid.*, 6 (1936), 15–27.

<sup>9</sup> Gw. *RMWL*, I, t.654: 'This MS. has been supposed to be in the autograph of the author [...] still there appears to have been more than one hand at work'. Ceir disgrifiadau manwl o'r ddwy lawysgrif, gyda ffacsiliau, yn E.D. Jones, 'A Welsh *pencerdd*'s manuscripts', *Celtica*, 5 (1960), 18–27; gw. hefyd *RWMS*, I, tt.366–7, 381. Am drafodaeth o'r agweddau ysgrifenedig a llafar ar waith Lewys, gw. Tudur Hallam, 'Ysgrifenu) Lewys Glyn Cothi', *LIC*, 23 (2000), 74–94.

<sup>10</sup> Awgrymir yn M.P. Bryant-Quinn, "'Aur yw pris y wisg": Llywelyn ap Morgan a'r Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, 16 (2010), 51–91, y dylid uniaethu Lewys â'r bardd Llywelyn ap Morgan, bardd a chanddo gysylltiadau ag Aberhonddu na chadwyd ond dwy gerdd o'i waith.

<sup>11</sup> Gw. erthygl Dafydd Johnston yn *ODNB*. Y mae traddodiad yn ei gysylltu â Phwllcynbyd/Pwlltinbyd ym mhlwyf Llanybydder, ond anodd gwybod pa mor ddibynadwy yw'r traddodiad hwnnw. Dylid cofio y gall enwau barddol fod yn gamarweiniol: un o Langollen oedd Gruffudd Hiraethog, er enghraifft, ac ymddengys mai brodor o Iâl, nid o Lansannan fel y myn traddodiad, oedd Tudur Aled, gw. Cledwyn Fychan, 'Tudur Aled: ailystyried ei gynefin', *CLIGC*, 23 (1983–4), 45–74. Ar addysg Lewys, gw. n.26 isod.

<sup>12</sup> Ar grefft Lewys, gan gynnwys yr enghreifftiau mynych o'r bai 'crych a llyfn' yn ei waith, gw. *GLGC*, tt.xxiii–xxv.

<sup>13</sup> *GLGC*, rhif 101.

Hywel Dafi, Gwilym Tew ac Ieuan Deulwyn (ac at Lywelyn Goch y Dant a Hywel Swrdwal mewn manau eraill), ni wyddys am unrhyw gyfeiriad at Lewys gan feirdd cyfoed ag ef.

Agwedd arall ar weithgarwch Lewys sy'n peri ei fod yn gymeriad diddorol odiaeth yw ei weithgarwch fel ysgrifwr. Yr oedd yn ei flodau mewn cyfnod pryd yr ymddengys (a barnu wrth yr hyn a ddiogelwyd inni, o leiaf) fod y beirdd yn fwy chwannog i gofnodi eu gwaith eu hunain.<sup>14</sup> I'r cyfnod hwn y perthyn Pen. 54, Pen. 55 a Pen. 60, tair llawysgrif dra gwerthfawr y credir eu bod yn deillio o ardal Aberhonddu ac sy'n cynnwys y casgliadau sylweddol cynharaf (ac eithrio llawysgrifau Lewys Glyn Cothi) o gerddi awtograff gan y Cywyddwyr, cynifer â rhyw ugain o wahanol feirdd rhwng y tair, gan gynnwys Y Nant a'i lawysgrifen a'i orgraff ryfeddol. I'r un cyfnod hefyd y perthyn tair llawysgrif bwysig arall: Pen. 52, sy'n cynnwys dyrnaid o gerddi gan Ddafydd Nanmor yn ei law ardderchog ei hun;<sup>15</sup> Pen. 67, casgliad o gywyddau ac awdlau yn llaw Hywel Dafi, y trwch ohonynt o'i waith ei hun;<sup>16</sup> a Pen. 189 rhan (ii), dernyn o lawysgrif yn cynnwys cerddi yn llaw Huw Cae Llwyd, ei waith ei hun yn bennaf.<sup>17</sup> I gyfnod ychydig yn ddiweddarach y perthyn Llst. 7 rhan (i), sy'n cynnwys cerddi awtograff gan Ieuan Brechfa o'r blynyddoedd 1505–8.

Er bod casgliadau Lewys Glyn Cothi yn Pen. 70 a Pen. 109 yn rhan o ffasiwn a oedd ar gynydd, y maent yn drawiadol o wahanol i'w cyfoeswyr. Llawysgrifau bychain, digon anneniadol yw'r rheini, wedi'u hysgrifennu ar bapur, heb fawr o addurn. Tra gwahanol yw

---

<sup>14</sup> Y mae lle i gredu, fodd bynnag, fod beirdd cynharach yn copïo eu gwaith eu hunain: disgrifir Iolo Goch yng Ngramadeg Gwysanau fel un a allai 'ysgrivennu y gerd yn yawn', gw. Ann Parry Owen, 'Gramadeg Gwysanau', *LIC*, 33 (2010), 1–31 (29) (cf. hefyd eadem, 'Gramadeg Gwysanau: a fragment of a fourteenth-century Welsh bardic grammar', yn Deborah Hayden a Paul Russell (gol.), *Grammatica, Gramadach and Gramadeg. Vernacular Grammar and Grammarians in Medieval Ireland and Wales* (Amsterdam & Philadelphia: John Benjamins Publishing Company, 2016), tt.181–200. Ar lythrennedd a llafaredd y beirdd yn gyffredinol, gw., e.e., Daniel Huws, 'From song to script in medieval Wales', *Quaestio Insularis*, 9 (2008), 1–16; idem, 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym', yn *MWM*, tt.84–103; idem, *Cynnull y Farddoniaeth* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2004); Dafydd Johnston, 'Trosglwyddiad Cerddi Guto'r Glyn', yn Dylan Foster Evans *et al.* (gol.), *Gwalch Cywyddau Gwŷr. Ysgrifau ar Guto'r Glyn a Chymru'r Bymthegfed Ganrif* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2014), tt.21–51; idem, 'Dafydd ap Gwilym and Oral Tradition', *SC*, 37 (2003), 143–61; Nicolas Jacobs, 'Amrywiad mewn traddodiad llafar: rhai agweddau ar hanes testunol "Marwnad Angharad"', *Dwned*, 26 (2020), 25–40; Owen Thomas, 'Dafydd Epynt: Bardd Llythrennog o Frycheiniog', *Dwned*, 6 (2000), 77–94.

<sup>15</sup> Gw. Owen Thomas, 'Trwy Lygaid Peniarth 52', yn idem (gol.), *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt.73–112; idem, 'Awdl Dafydd Nanmor i Rys ap Maredudd o'r Tywyn (*PWDN* cerdd III)', *Dwned*, 12 (2006), 73–91.

<sup>16</sup> Gw. A. Cynfael Lake, "'O gedais lythyr yn eisiau": llawysgrif Peniarth 67 a'i disgynyddion', *LIC*, 37 (2014/15), 1–18.

<sup>17</sup> *RWMS*, I, tt.414–15. Yn annisgwyl, efallai, er gwaethaf ei weithgarwch mawr fel copiwr, ni oroesodd casgliad o waith Gutun Owain yn ei law ei hun; awgryma Daniel Huws, fodd bynnag, fod y casgliad o waith Gutun yn Add. 14967 yn tarddu o lawysgrif goll yn ei law ei hun (gw. *RWMS*, II, t.43).



llawysgrifau Lewys: fe'u hysgrifennwyd ar femrwn, mewn *textura*, gyda theitlau wedi'u rhuddellu ac addurn ar ffurf yr arfbeisiau herodrol a berthynai i wrthrychau'r cerddi. Llyfr cul yw Pen. 109, sy'n dilyn siâp y cywyddau a'r awdlau a geir ynddo, tra bo Pen. 70 yn llyfr mwy sgwarog, a'r ysgrifen mewn dwy golofn. Prin y gellir eu cymharu â chasgliadau'r beirdd cyfoes o ran y gofal a'r uchelgais a berthyn iddynt.<sup>18</sup> Nodwedd anarferol arall, sydd eto'n ategu'r dyb fod Lewys yn sefyll ar wahân i'r brif ffrwd, yw ei fod, yn ysbeidiol, yn defnyddio'r ddraenen (*S. thorn*) i gynrychioli /ð/, nodwedd nas ceir ond yn achlysurol iawn mewn llawysgrifau Cymraeg, ac sy'n awgrymu bod Lewys wedi derbyn o leiaf beth o'i addysg yn Lloegr neu'r gororau.<sup>19</sup> Y mae'r ddwy lawysgrif yn taro dyn fel gwaith comisiwn ar gyfer noddwr, ond anodd felly yw esbonio'r ffaith fod Lewys wedi gadael nifer o gerddi ar ffurf hanner llinellau'n unig. Dichon ei fod yn eu codi o'i gof, ac er bod rhai bylchau wedi eu llenwi'n ddiweddarach gan Lewys ei hun, erys y posibilrwydd nad gwaith comisiwn mohonynt.<sup>20</sup>

Gwyddom fod y ddwy lawysgrif hyn erbyn tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg yn eiddo i Ruffydd Dwinn o Ystradmerthyr ym mhlwyf Llandyfaelog, perchennog y llyfrgell fwyaf nodedig o lawysgrifau Cymreig y gwyddys amdani yn ei chyfnod.<sup>21</sup> Yr oedd Ystradmerthyr yn gyrchfan boblogaidd i feirdd, fel y dengys y casgliad gwerthfawr o gerddi i Ruffydd a'i deulu yn Llst. 40, a hefyd i ysgolheigion, gan gynnwys William Salesbury, a dreuliodd amser yno tra oedd yn lletya gyda Richard Davies yn Abergwili yn paratoi'r Testament Newydd.<sup>22</sup> Disgrifir Gruffydd gan Thomas Wiliems, mewn nodyn yn Card. 4.330, t.223, fel '[m]eistr a phorth da i gychwyn athrawaeth cerdd davod i Wiliam Lleyrn ai vrawd Hugh Lleyrn', a bu'r cysylltiad hwn yn hollbwysig o ran diogelu rhai o lawysgrifau Gruffydd, wrth iddynt fudo o'r de i'r gogledd ac, yn y pen draw, ar ôl bod am beth amser yn eiddo i Rys Cain a'i fab Siôn, i ddwylo Robert Vaughan yn Hengwrt.<sup>23</sup>

---

<sup>18</sup> Dengys y profion pin o waith Dafydd Nanmor mewn dwy lawysgrif (NLW 3024C (*olim* Mostyn 83), f.65<sup>v</sup>; Add. 14912, ff.16, 61, 91<sup>v</sup>) ei fod wedi meistrolu *textura*, a'i fod yn ablach ysgrifwr na Lewys o bosib, ond hyd y gwyddom, ni ddefnyddiodd y llaw hon ar gyfer copïo ei waith ei hun.

<sup>19</sup> Anfynych iawn y gwelir y ddraenen mewn cyd-destun Cymreig. Ymhlith yr enghreifftiau prin y mae rhai cyfraniadau at Pen. 55 a Pen. 60, ill dwy o gyffiniau Aberhonddu (fe'u trafodir yn Marged Haycock, 'Llyfr Taliesin', *CLIGC*, 25 (1987–8), 357–81, (374, n.29)), a hefyd Add. 14913 rhan (i), llawysgrif feddygol o'r gogledd-ddwyrain.

<sup>20</sup> E.D. Jones (gw. 'A Welsh *pencerdd*'s manuscripts', 23–4) piau'r awgrym ei bod yn bosib mai fel llawysgrif i'w chyflwyno i William Herbert, iarll Penfro, y bwriedid Pen. 109; efallai fod dienyddiad Herbert yn dilyn brwydr Banbri yn 1469 wedi golygu na chwblhawyd mo'r llawysgrif.

<sup>21</sup> Yn ôl ei dystiolaeth ei hun mewn nodyn ar ymyl dalen yn un o'i lawysgrifau, NLW 3063E (*olim* Mostyn 184), yr oedd gan Ruffydd Dwinn 64 o lawysgrifau Cymraeg yn ei feddiant. Ymysg y rheini yr oedd NLW 6680B (Llawysgrif Hendregadredd).

<sup>22</sup> Gw. *RWMS*, II, t.165. Digwydd llaw Salesbury ar ymyl y ddalen yn rhai o lawysgrifau Gruffydd Dwinn, e.e. NLW 3063E a Llst. 116.

<sup>23</sup> Ceir nodiadau yn llaw Huw Llŷn yn Pen. 70.

Diau mai'r ffaith ei fod yn gyfarwydd â llawysgrifau trawiadol Lewys, Pen. 70 a Pen. 109, a barodd i wŷr o'r enw Ieuan ap Rhisiart ab Ieuan ap Rhys o Abergwili dalu'r deyrnged hon iddo:

Lewys y Glynn Cothi lldingwr da yn y am[s]er a thestwr or gorav oll.  
ny sgrifennwys Lewys y Glynn ar joed ar bapur ond ar [bar]sment, kans  
tegstwr da oedd ef yn wir.<sup>24</sup>

Ni wyddys rhyw lawer am Ieuan heblaw ei fod yn ei flodau yn y flwyddyn 1573 a bod ei law'n digwydd mewn dyrnaid o lawysgrifau nodedig: Pen. 10 (llawysgrif o'r bedwaredd ganrif ar ddeg sy'n cynnwys *Historia de Carolo Magno*), Pen. 182 (casgliad amrywiol yn llaw Huw Pennant, c.1510), Add. 14986 (Llyfr Llelo Gwta, gan gynnwys englynion gan Ieuan i Lelo) a Stowe 959 (casgliad o gywyddau o ardal Trimsaran, ffynhonnell y dyfyniad uchod).<sup>25</sup> Y mae'r ffaith mai gŵr o Abergwili, lle y credir yr addysgwyd ac y claddwyd Lewys,<sup>26</sup> oedd Ieuan yn rhoi peth awdurdod i'w ddatganiad; er na ddichon ei fod yn adnabod y bardd os oedd yn dal yn ei flodau yn 1573, erys y posibilrwydd ei fod yn cofnodi traddodiad dilys. Yn anffodus, fel y gwelwn yn fuan, er gwaethaf ei fwriadau didwyll wrth dalu teyrnged i Lewys, llesteirio ein dealltwriaeth o'r bardd a wnaeth y sylw bychan hwn.

Yn ogystal â'r ddau brif gasgliad o'i waith, cadwyd trydedd lawysgrif gynnar o waith Lewys, sef Llst. 7 rhan (ii) a rhan (iv).<sup>27</sup> Bu pwysigrwydd y llawysgrif hon yn hysbys ers peth amser. Fel Pen. 70 a Pen. 109, gwaith Lewys yn unig a geir ynddi, gyda'r un priodoliadau moel (e.e. 'Glynn', 'Glynn Kothi'), ac at ei gilydd, nid yw'r cerddi a gynhwysir ynddi'n digwydd yn y ddwy lawysgrif arall.<sup>28</sup> Tebygrwydd arall rhyngddi a'r ddwy lawysgrif arall yw y ceir ynddi ddefnydd ysbeidiol o'r ddraenen, a rhai cerddi ar ffurf hanner llinellau. Eto i gyd, y mae'n

<sup>24</sup> Dyfynnir o Stowe 959, f.199 yn Jones, 'A Welsh *pencerdd*'s manuscripts', 17.

<sup>25</sup> Crynhoir yr hyn sy'n hysbys amdano yn *RWMS*, II, t.65.

<sup>26</sup> Dyna awgrym Dafydd Johnston yn *GLGC*, t.xxiv, ar sail rhif 154, ll.21–4 ('Syr Huw Iolo'n athro ni / ar golais [*< S. college*] Abergwili'), ac yn y rhestr o fannau claddu'r beirdd yn Add. 31055 nodir mai yn Abergwili y claddwyd Lewys. Cynigir golygiad o'r rhestr hon ym mhennod IV, lle yr amlygir sawl camsyniad sydd wedi ymddangos droeon mewn print yn sgil ei chamddehongli dros y blynyddoedd, ond dangosir hefyd fod y rhestr, i'r graddau y mae tystiolaeth allanol yn ein galluogi i farnu ei chywirdeb, yn bur ddibynadwy, felly ni welaf le i amau dilysrwydd y cofnod mai yn Abergwili y claddwyd Lewys.

<sup>27</sup> Llawysgrif gyfansawdd ac iddi bedair rhan yw Llst. 7: yn rhan (i), a grybwyllwyd uchod, ceir cerddi yn llaw Ieuan Brechfa, ac yn rhan (iii), yn llaw 'C', sy'n perthyn i hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg, ceir copiau o gywyddau, yn bennaf gan Ieuan Brechfa a Lewys. Ymddengys fod y pedair rhan wedi bod yn uned ers yr unfed ganrif ar bymtheg.

<sup>28</sup> Ceir 94 o gerddi yn Llst. 7, a 75 ohonynt heb fod yn digwydd yn y ddwy lawysgrif arall; gw. *GLGC*, tt.xxx–xxxii. Ar berthynas y llawysgrifau, gw. tt.15–21 isod.

llawysgrif bur wahanol i ddwy lawysgrif Peniarth: llawysgrif fechan ydyw, ar bapur, heb ddefnydd o *textura* a heb addurn. Fel yr awgrymodd E.D. Jones, y mae'r dystiolaeth yn arwain at y casgliad anorfod fod yma gopi cynnar o lawysgrif holograff goll, llawysgrif a berthynai i'r 1490au, a bod y sawl a gopiodd y llawysgrif goll honno yn Llst. 7 wedi gwneud hynny'n ffyddlon, gan atgynhyrchu rhai o hynodion llawysgrifau'r bardd.<sup>29</sup>

Derbyniwyd yr awgrym hwnnw am ddegawdau. O werthuso'r dystiolaeth, fodd bynnag, daw'n amlwg fod gwir arwyddocâd Llst. 7 heb ei lawn werthfawrogi. Mi dybiaf fod dau brif reswm dros hynny: yn gyntaf, sylw Ieuan ap Rhisiart o Abergwili; yn ail, y ffaith fod Gwenogvryn Evans, heb fawr sail, wedi dyddio'r llawysgrif i chwarter cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg, hynny yw, ar ôl dyddiau'r bardd.<sup>30</sup> O ddiystyru'r ddau dyst camarweiniol hyn, ac o graffu ar y testunau, daw'r casgliad yn amlwg: nid copi ffyddlon o lawysgrif goll yn llaw Lewys yw Llst. 7, eithr llawysgrif yn llaw'r bardd ei hun, yn ei law anffurfiol. Y mae'r dystiolaeth yn doreithiog: yn gyntaf, cywirdeb y testunau, heb unrhyw olion camgopïo na ellir eu hesbonio fel llithriadau;<sup>31</sup> yn ail, y ffaith fod rhai hanner llinellau wedi'u cwblhau'n ddiweddarach gan yr un llaw ond mewn inc gwahanol (e.e. tt.72–3); yn drydydd, y ffaith y ceir ambell gywriad na ellir mo'u hesbonio ond fel newidiadau awdurol, e.e. tt.44, 157, 276, 283('ar ryw bost o wr y bydd' > 'ar swrn o bilerev sydd'). Ceir hefyd ambell deitl mewn *textura* ac wedi ei ruddellu (e.e. tt.276, 283). Tystiolaeth bellach yw'r nodyn a ychwanegwyd at y llawysgrif yn ddiweddarach gan Syr Siôn Wiliam, a drafodir isod.

Prin, mewn gwirionedd, ei bod yn syndod fod Ieuan ap Rhisiart o Abergwili, a nododd mai dim ond ar femrwn yr ysgrifennai Lewys, yn cyfeiliorni. Byddai cyfoeswr i Lewys, Gutun Owain, yn ysgrifennu *textura* ar femrwn ac *anglicana* ar bapur, felly gellid disgwyl y byddai ysgrifwr mor doreithiog â Lewys yn defnyddio llaw wahanol ar brydiau wrth ysgrifennu'n anffurfiol, fel yn Llst. 7 – drafft, efallai, o lawysgrif femrwn fwy ffurfiol a allai fod ganddo yn

---

<sup>29</sup> 'Llanstephan MS. 7 [...] preserves with great fidelity the orthography of the original manuscript source lost at an early date' (Jones, 'A Welsh *pencerdd*'s manuscripts', 17).

<sup>30</sup> Ym marn Gwenogvryn, yr oedd dwy law ar waith yn copïo gwaith Lewys; fe'u bedyddiwyd ganddo yn B a B<sup>b</sup>, sy'n dangos ei fod yn credu y gall mai llaw'r un ysgrifwr yw'r ddwy. Fel y noda Daniel Huws, er bod rhai mân wahaniaethau cyson rhyngddynt, y mae'r dystiolaeth o blaid eu priodoli i'r un ysgrifwr, yn ysgrifennu ar gyfnodau gwahanol. Un gwahaniaeth pendant yw bod B yn defnyddio'r ddraenen, gan amlaf, ar gyfer *dd*; defnyddir y ffurf 6 gan y ddwy law (ar y ffurf honno, gw. Paul Russell, 'The Joy of Six: spelling and letter forms among fourteenth-century Welsh scribes', yn Simon Rodway *et al.* (gol.), *Celts, Gaels, and Britons. Studies in Language and Literature from Antiquity to the Middle Ages in Honour of Patrick Sims-Williams* (Turnhout: Brepols, 2022), tt.257–88).

<sup>31</sup> Cyfeiria Dafydd Johnston at 'ansawdd dibynadwy' y testunau (*GLGC*, t.xxxi).

yr arfaeth. Y mae gallu dangos mai gwaith llaw Lewys ei hun yw Llst. 7 yn arwyddocaol am sawl rheswm, nid lleiaf y ffaith y gwyddom bellach fod 230 o'i gerddi – ymron i 94% o gyfangorff ei waith – wedi eu cadw yn ei law ei hun, a nifer ohonynt mewn copïau lluosog, sy'n cynnig tystiolaeth brin a gwerthfawr wrth ystyried sut y gallai'r beirdd eu hunain fod yn gyfrifol am amrywiadau testunol.

Erbyn canol y bymthegfed ganrif yr oedd Llst. 7, fel Pen. 70 a Pen. 109, yn eiddo i Ruffydd Dwinn, ac y mae dau ddarn o dystiolaeth yn awgrymu iddi unwaith fod yn llyfrgell Hengwrt, sef presenoldeb nodiadau yn llaw Gruffudd Hiraethog (e.e. tt.355, 357, 360), bardd y cyrhaeddodd ei lawysgrifau lyfrgell Hengwrt drwy ddwylo Rhys a Siôn Cain, a'r ffaith fod John Davies o Fallwyd wedi gwneud copi ohoni yn Add. 14871 tua 1616–17 (dichon ei bod, fel Pen. 70, yn eiddo i Siôn Cain bryd hynny).<sup>32</sup> Yn wahanol i ddwy lawysgrif Peniarth, fodd bynnag, gwyddom beth o hynt Llst. 7 rhwng troad yr unfed ganrif ar bymtheg a'r cyfnod y daeth i ddwylo Gruffydd Dwinn. Ar t.329 ceir nodyn tra diddorol yn llaw rhyw Syr Siôn Wiliam yn cyfarch Syr John Lewys, 'perchen y llyfr yma'. Y mae'n werth ei ddyfynnu'n llawn:

Sir John, kadw du lyfr yn dda rag dadgainiait, kanys y may indo ef lawer o bethau da. Ymovin oth hynn ac oth Iay a doethach avydd dithay. Bit y tad a[r] vam val y bo; gwynn yvyd y mab a ddysco. Dwgwch vy gorchymyn at y Maestr Lewys vil o waithay dan obeitho y vod ef yn iach ay holl drassay. Amen poed gwir. O the [*sic*] wrth y ss[yr] chaplaen / telawd ay weddiwr Sshion / Wiliam offeiriad.<sup>33</sup>

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Athro Dafydd Johnston am ddwyn fy sylw, pan drafodais y darganfyddiadau hyn yn gyhoeddus gyntaf mewn seminar yn Aberystwyth yn 2018, at gywydd moliant Lewys i Ieuan ap Lewys a'i wraig Tanglwyst o Aber-mad (ond a gysylltir yn y cywydd hwn â Llangathen yn Nyffryn Tywi), lle y mae'r bardd yn sôn am y clefyd a'i trawodd Wyl Badarn:<sup>34</sup>

---

<sup>32</sup> Ymddengys mai yn llaw John Davies y mae'r nodiadau ar ymylon tt.51, 340 a 341. Ceir rhestr o 'MSS. missing from the Hengwrt collection' gan berchennog y casgliad, W.W.E. Wynne, Peniarth, yn AC, pedwaredd gyfres, 2 (1871), 129–37; nid annichon mai Llst. 7 yw'r 'small book of Cywyddau, 8vo, paper' a restrir dan rif 63. Os oedd Llst. 7 gynt yn Hengwrt, rhaid ei bod wedi dianc erbyn 1691/[2], sef dyddiad y nodiadau gan Evan Hughes ac Elis William Owen 'of the Munte' (t.143).

<sup>33</sup> Dyfynnir yn llawn yn *RMWL*, II, t.440; myfi piau'r atalnodi.

<sup>34</sup> *GLGC*, rhif 88.

Peri imi<sup>35</sup> alw'r Mab Rhad,  
a pheri ym offeiriad.  
Torri o Grist y tri gwres  
wedy caffael deg cyffes.  
Bwrw o'm enaid naid di-nam  
yn nwyllaw Syr Siôn Wiliam.

Ni welaf fod angen petruso cyn uniaethu'r offeiriad hwn, a gynorthwyodd y bardd yn ei gustudd, â'r caplan a ysgrifennodd y nodyn yn Llst. 7 ac a anfonodd ei gyfarchion 'at y Maestr Lewys'.<sup>36</sup> Gellir hefyd ddweud mwy am berchennog Llst. 7, Syr John Lewys. Ar t.235 ceir yr englyn proest masweddu canlynol:

Y dokdor Ssion, vy gyfyon gynt,  
aeth i Rydychen hen hwnt;  
try vo yno'n rifo rent,  
bid pob vn a'i gyn ny gont.

Gellir casglu felly fod John Lewys yn glerigwr a fu'n fyfyrwr yn Rhydychen. Fel yr awgrymodd Daniel Huws, yr unig ymgeisydd sy'n ei gynnig ei hun yw'r John Lewis a raddiodd yn BCL yn Rhydychen yn 1509 ac a ddaeth yn ddiweddarach yn rheithor Treletert, yn ganon yn Abergwili ac yn drysorydd eglwys gadeiriol Tyddewi.<sup>37</sup> Fe berthyn i'r John Lewis hwn beth enwogrwydd fel y gŵr y dywedir iddo roi Llyfr Du Caerfyrddin i Syr Siôn Prys adeg diddymu'r mynachlogydd, ynghyd â dwy llawysgrif gynnar o Dyddewi, Cotton Domitian A.i ac A.v.<sup>38</sup> Y mae'r cysylltiad ag Abergwili, a'r diddordeb mewn llawysgrifau, yn ogleisiol: credaf fod y dystiolaeth yn gryf o blaid derbyn y ddadl dros uniaethu'r John Lewis hwn â'r John Lewys a oedd yn berchen ar Llst. 7. Ar sail hynny gellir damcaniaethu ymhellach. Gwyddom fod Lewys Glyn Cothi wedi anfarwoli ei fab pum mlwydd oed, Siôn, yn ei farwnad nodedig iddo, ac y byddai'n arferol ailddefnyddio enwau meibion a merched a fu farw wrth enwi plant diweddarach;<sup>39</sup> gellir dychmygu felly y gallasai Lewys fod wedi rhoi'r enw Siôn [ap] Lewys ar fab a anwyd ar ôl marwolaeth ei fab ifanc. O ystyried y dystiolaeth, credaf ei bod yn rhesymol

---

<sup>35</sup> Y mae darlleniad y llawysgrif (Llst. 7, t.72) yn aneglur.

<sup>36</sup> Nid yw'n eglur p'un ai caplan i John Lewys ynteu'r 'Maestr Lewys' oedd Siôn Wiliam.

<sup>37</sup> Gw. A.B. Emden, *A Biographical Register of the University of Oxford A.D. 1501 to 1540* (Oxford: Clarendon Press, 1974), tt.354–5; *RWMS*, II, t.91. Profwyd ei ewyllys, a luniwyd yn 1539, yn 1541.

<sup>38</sup> Dangosir ym mhennod V fod yr hanesyn ynghylch y Llyfr Du yn gyfeiliornus, ond fel y gwelir ym mhennod II, y mae'n sicr mai John Lewis a roes Cotton Domitian A.i i Brys.

<sup>39</sup> Gw. Scott Smith-Bannister, *Names and Naming Patterns in England 1538–1700* (Oxford: Clarendon Press, 1997), tt.70–4.

awgrymu bod John Lewis, perchennog llawysgrif Lewys Glyn Cothi tua throad yr unfed ganrif ar bymtheg, trysorydd eglwys gadeiriol Tyddewi a chyfaill Syr Siôn Prys, yn fab i'r bardd.

O adnabod llaw anffurfiol Lewys Glyn Cothi yn Llst. 7, ac o dderbyn bod ei law'n un gyfnewidiol, gellir derbyn y tebygolrwydd mai yn ei law ef y mae'r copïau cyfoes o gywyddau ac awdlau o'i waith yn Pen. 54, tt.290–3 (ceir cyfraniadau eraill yn yr un llaw ar tt.140, 168–75, 204–6 a 297–8),<sup>40</sup> ac yn Pen. 55, tt.117–24,<sup>41</sup> dwy lawysgrif sydd, gan mwyaf, fel y crybwyllwyd uchod, yn cynnwys cerddi awtograff.

Daw hyn â ni at ddarganfyddiadau newydd o ran ymwneud Lewys â Chyfraith Hywel. Yn gyntaf, Pen. 258 ('ε' neu 'Ep'), llawysgrif ffolio sy'n cynnwys copi uniongyrchol o Wynnstay 36 ('Q'). O ran ei maintioli, yr uchelgais a berthyn iddi, a hyd yn oed arddull yr ysgrifen, gellir dweud bod Wynnstay 36, a ysgrifennwyd ryw genhedlaeth ar ôl Llyfr Coch Hergest (yn yr 1440au, efallai),<sup>42</sup> yn etifedd i'r llyfr enwog hwnnw. Fe'i hysgrifennwyd ar femrwn da gan ysgrifwr medrus, ac er na chwblhawyd mo'r gwaith rhuddellu, byddai wedi bod yn drysor i ryfeddu ato. Fe'i bedyddiwyd yn ddiweddar yn 'Llyfr Gruffudd ap Nicolas' ar ôl i Daniel Huws ddod i'r casgliad anesgor mai Gruffudd ap Nicolas o Ddinefwr, noddwr enwog eisteddfod Caerfyrddin a'r unigolyn grymusaf yn Neheubarth yn y cyfnod hwnnw, a'i comisiynodd,<sup>43</sup> ac mai ei ddiddordebau cyfreithiol ef a adlewyrchir gan y ffaith fod yma destun wedi'i ailwampio a'i olygu'n sylweddol.<sup>44</sup> Bu'r testun hwn yn ddylanwadol, a chadwyd dau gopi ohono a wnaed yn ail hanner y bymthegfed ganrif, y naill (Pen. 258, ar bapur) yn gopi uniongyrchol, a'r llall

---

<sup>40</sup> Golygwyd y cywydd sydd ar tt.290–3, cywydd nas gwelwyd cyn cyhoeddi *GLGC*, yn Dafydd Johnston, 'Cywydd Newydd gan Lewys Glyn Cothi', *Dwned*, 18 (2012), 49–60.

<sup>41</sup> Ni ddefnyddir y ddraenen yn yr un o'r ddwy lawysgrif hyn, ond rhaid cofio nad yw'n digwydd yn gyson yn Llst. 7, dim ond yn y fersiwn o law Lewys a fedyddiwyd yn 'B' gan Gwenogvryn Evans. Yn Pen. 55, tt.122–4 ceir copi o gywydd o waith Ieuan ab y Guto, sef – os llaw Lewys ydyw mewn gwirionedd – yr unig enghraifft hysbys ohono'n copïo cerdd o waith bardd arall.

<sup>42</sup> Yn llys Syr Thomas Vaughan yn Nhrefw'r-tŵr yr oedd Llyfr Coch Hergest (Jesus 111) pan ychwanegodd Lewys, tua 1483, ddwy awdl ar ddalennau gwynion tua'r cefn, un i Thomas Vaughan ac un i'w feibion. Ar hynt y Llyfr Coch yn ystod y tair canrif cyn iddo ddod yn eiddo i Goleg Iesu yn 1701, gw. Prys Morgan, 'Glamorgan and the Red Book', *Morgannwg*, 22 (1978), 42–60.

<sup>43</sup> Efallai mai Wynnstay 36 yw'r 'verie bigge booke in fol: written on parchement treatinge of the lawes of Howell Dha' y noda Robert Vaughan i Syr John Perot ei roi ar fenthyg i Syr Robert Cecil; gw. *MWM*, t.302.

<sup>44</sup> Gw. Sara Elin Roberts, 'Creu trefn o anhrefn – gwaith copïydd testun cyfreithiol', *CLIGC*, 32 (2001–2), 397–420; disgrifir Wynnstay 36 yn *RWMS*, I, tt.485–6. Ceir trawsgrifiad o'r llawysgrif yn ei chrynsyth ar wefan *Cyfraith Hywel*; trafodir y trioedd a geir ynddi yn Sara Elin Roberts (gol.), *The Legal Triads of Medieval Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2011); gw. hefyd eadem, *The Growth of Law in Medieval Wales c.1100–c.1500* (Woodbridge: The Boydell Press, 2022). Y mae'r diarhebbion ar ff.144<sup>v</sup>–150 ac 150–159<sup>v</sup> yn perthyn yn agos i'r rhai a geir yn Llyfr Coch Hergest, ac o bosib yn tarddu'n uniongyrchol o'r llawysgrif honno. Dylid cofio, fodd bynnag, fod llawysgrif arall o waith yr un ysgrifwr (sef X25 yn *RWMS*), Pen. 263, yn cynnwys copïau o *Ystoria Dared a Brut y Brenhinedd* sydd ill dau'n perthyn yn agos i'r testunau cyfatebol yn y Llyfr Coch ond heb fod yn tarddu'n uniongyrchol ohono (gw. *RWMS*, I, t.437).

(Pen. 259A ('P'), ar femrwn) o bosib yn gopi o gopi. Gwaith tair llaw yw Pen. 258: A (tt.1–39); B (tt.39–115, 199–273); C (tt.116–98). Gellir bellach uniaethu llaw A â'r llaw a ddefnyddiai Lewys Glyn Cothi pan ysgrifennai ar bapur, darganfyddiad sy'n ategu awgrym Daniel Huws mai ar gyfer llys Gruffudd ap Nicolas yn Ninesfwr y lluniwyd y gynsail, Wynnstay 36, gan mai Gruffudd ap Nicolas a'i deulu, fel y noda Dafydd Johnston, oedd prif noddwyr Lewys.<sup>45</sup>

Yn ogystal â Wynnstay 36 a Llyfr Coch Hergest, gellir bod yn bur hyderus fod Lewys wedi gweld Pen. 2 (Llyfr Taliesin). Yn ei herthygl ar y llawysgrif honno,<sup>46</sup> y mae Marged Haycock yn trafod cyfeiriad Lewys at 'gywydd Gwiawn' (sef Taliesin) yn ei gywydd i Ddafydd ap Rhys ap Meurig o Bencraig a Thre'rdelyn,<sup>47</sup> un o hynafiaid Hugh Myles, perchennog hysbys cyntaf y llawysgrif:

Fy swydd, er hyd fo'r flwyddyn,  
gyda'r llew, bes gadai'r llyn,  
darllain ein dau'r llyfrau'n llwyr [...]  
Dafydd wrth gywydd Gwiawn  
a'i dyeill ym mewn dull iawn.<sup>48</sup>

Trafodir hefyd y testun cyfreithiol byr a geir ar odre ff.21<sup>v</sup>–22, mewn llaw a berthyn i'r bymthegfed ganrif:

K' a syþ ny þylyir y gwrandaŵ / ac arall ny dylyir ateb / ac arall y  
dylyir y bod yn coll Neu yn caffel [d]ydd y dyly o / sef K' Ny dylyir y  
gwrandaŵ K a ryffo gynt rwng deudyn ac a vo diura[d] ar y naill Neu

<sup>45</sup> Dafydd Johnston, 'Lewys Glyn Cothi, clerwr Dyffryn Tywi', *THSC*, cyfres newydd, 3 (1997 ar gyfer 1996), 9–20. Dywed y bardd iddo fynd ar herw i Wynedd gydag Owain ap Gruffudd ap Nicolas, a hynny, y mae'n debyg, yn dilyn buddugoliaeth yr Iorciaid ym mrwydr Mortimer's Cross yn 1461; gw. *GLGC*, tt.xxv–xxvi.

<sup>46</sup> Gw. n.19 uchod.

<sup>47</sup> Ar gysylltiadau Lewys â sir Faesyfed, gw. Marged Haycock, 'Lewis Glyn Cothi and Radnorshire', *Transactions of the Radnorshire Society*, 64 (1994), 25–35.

<sup>48</sup> *GLGC*, rhif 157, ll.27–29, 31–2. Gw. hefyd rif 58, ll.27–34, lle ceir cyfeiriad tebyg gan Lewys at ddarllen gyda'i noddwr, Wiliam Siôn o Lanegwad, y trafodir ei arwyddocâd ym mhennod V. Cf. llinell gyntaf cywydd Tudur Penllyn i Watcyn Fychan o Hergest (Thomas Roberts (gol.), *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1958), rhif 11): 'I nai'r iarll yr wy'n darllain'; cf. hefyd eiriau Llywelyn Goch ap Meurig Hen yn ei gywydd i Hywel a Meurig Llwyd o Nannau (Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth: Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1998), rhif 8, ll.45–6): 'Darllen cyfraith, rugliaith raid, / Sifil, i'm cyfneseifiaid'. Am gyfeiriadau pellach gan y beirdd at ddarllen yng nghwmni eu noddwyr, gw. Llinos Beverley Smith, 'Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales', yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Cambridge: Cambridge University Press, 1998), tt.202–22 (206).

dygymod / Neu gedernyta vo iawn coelaw idaw / y K' honno nid iaw[n].<sup>49</sup>

Fel y noda Haycock, y mae'r defnydd o'r ddraenen 'yn peri chwilfrydedd'. O ystyried y defnydd hwn, y ffaith y gwyddom fod gan Lewys ddiddordeb yn y gyfraith a bod peth tebygrwydd rhwng y llaw a'r llaw gyfnewidiol a welir yn Llst. 7, anodd yw peidio â dod i'r casgliad mai Lewys piau'r nodyn hwn. Mewn cerdd i noddwr arall o sir Faesyfed, Ieuan ap Llywelyn Fychan, cyfeiria Lewys at 'Armes Brydyn';<sup>50</sup> yr unig ffynhonnell ganoloesol y gwyddys amdani ar gyfer y gerdd honno yw Llyfr Taliesin.

Llawysgrif arall a all fod yn rhan o waddol Lewys yw Pen. 41, llawysgrif femrwn sy'n cynnwys copi mewn *textura* o ail hanner y bymthegfed ganrif o fersiwn Cymraeg o Statud Rhuddlan. Ar ddiwedd y testun ceir 'Explicit liber lln' y glynn'; nid yw'r llaw, fodd bynnag, yn hawdd ei chysoni â'r llaw a geir yn Pen. 40, Pen. 70 a Pen. 109. Rhaid, felly, fod yma un ai gopi ffyddlon a chynnar o lawysgrif yn llaw Lewys, neu, yn fwy tebygol, enghraifft o law Lewys cyn iddi gyrraedd ei llawn aeddfedrwydd yn y llawysgrifau a luniodd yn yr 1470au. O blaid y posibilrwydd cyntaf, fodd bynnag, y mae'r ffaith fod copi o Statud Rhuddlan i'w gael yn Llyfr Gwyn Hergest, llawysgrif o gyfnod Edward IV a gollwyd mewn tân yng ngweithdy'r rhwymwr John Mackinlay yn Covent Garden yn 1808.<sup>51</sup> Credai Robert Vaughan mai gwaith llaw Lewys oedd y Llyfr Gwyn yn ei grynswth,<sup>52</sup> ond ymddengys y credai Ieuan Fardd mai dim ond yr ychwanegiadau diweddarach yr oedd Lewys yn gyfrifol amdanynt,<sup>53</sup> nid yn annhebyg, efallai, i'r awdlau a ychwanegwyd ganddo at Lyfr Coch Hergest. Yn ffodus, goroesodd nifer o destunau'r Llyfr Gwyn, gan gynnwys y darnau o Gyfraith Hywel a geid ynddi, mewn copïau a wnaed gan hynafiaethwyr fel Thomas Wiliems, John Davies o Fallwyd ac Ieuan Fardd; diau y byddai astudiaeth drylwyr yn cynnig mwy o oleuni ar berthynas Lewys Glyn Cothi â'r llawysgrif goll hon.<sup>54</sup> Yn y cyfamser, fodd bynnag, y mae'n anodd meddwl am ymgeisydd mwy cymwys na Lewys fel yr ysgrifwr a aeth ati, yn nhrydydd chwarter y bymthegfed ganrif,

<sup>49</sup> Dyfynnir yn Haycock, 'Llyfr Taliesin', 358.

<sup>50</sup> *GLGC*, rhif 165, ll.27–8: 'minnau i Ieuan, fardd meinwyn – araf, / iso a brydaf Armes Brydyn'.

<sup>51</sup> Gw. Thomas Jones, 'Testun Llyfr Gwyn Hergest o'r "Bibyl Ynghymraec"', *BBCS*, 10 (1939–41), 15–21; J.E. Caerwyn Williams, 'Y Llyfr Gwyn o Hergest a Llanstephan 3', *ibid.*, 120–4. Cynigiwyd sawl dyddiad ar gyfer y tân, ond ymddengys mai'r tân yn theatr Covent Garden fis Medi 1808 yw'r un a ddiinstriodd weithdy Mackinlay.

<sup>52</sup> Ymddengys y ceid nodyn i'r perwyl hwn yn llaw Vaughan yn y Llyfr Gwyn, gw. Williams, 'Y Llyfr Gwyn', 121. Awgryma Daniel Huws ei bod yn debygol fod barn Robert Vaughan yn ddibynadwy.

<sup>53</sup> '[Y] Llyfr Gwynn of Hergest y rhann ddiweddaf a ysgrifennwyd gann Lewys Glynn Cothi' (NLW 1996B, t.83).

<sup>54</sup> Ceir gwaith rhagarweiniol tuag at astudiaeth o'r fath yn Lucie Hobson, 'Recovering the White Book of Hergest: A Survey of Manuscripts in Estate Collections at the National Library of Wales' (traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Aberystwyth, 2020).



i greu casgliad cyfoethog o destunau amrywiol – testunau cyfreithiol, crefyddol a herodrol,<sup>55</sup> a chasgliad sylweddol o waith Dafydd ap Gwilym. Noda Ieuan Fardd yn ei restr o gynnwys y Llyfr Gwyn<sup>56</sup> fod pwyslais arbennig ar ‘hynaif Arglwydd Herbert’ yn y rhan herodrol, sy’n ategu’r dyb mai Lewys a’i lluniodd.<sup>57</sup>

Wrth werthuso Lewys, efallai fod ei ysgrifen yn cynnig allwedd annisgwyl inni. Fel yr awgrymwyd uchod, y mae sawl peth yn peri i ddyn gredu bod cefndir a bydolwg Lewys fymryn yn wahanol i feirdd eraill y cyfnod. Tuedda i roi mwy o bwys yn ei gerddi ar warineb y llys nag ar gampau milwrol, ac yn ei arddull uniongyrchol a’i gynganeddu rhwydd (os nad llac ar brydiau) ceir llais gwahanol iawn i drwch ei gyfoedion. Yr oedd ymysg y cyntaf i gyfeirio at ei gerddi ei hun fel pethau i’w darllen yn ogystal â’u datgan, ac y mae ei ddefnydd anarferol o’r ddraenen yn awgrymu’n gryf nad yng ngorllewin Cymru y derbyniodd ei addysg. Mewn drafftiau cynnar o *RWMS*, awgrymai Daniel Huws mai llaw gŵr prifysgol a geir yn Ll. 7. Tybed a gafodd bydolwg Lewys, ei annibyniaeth barn a’i weledigaeth anarferol, eu meithrin yn rhywle fel Rhydychen, lle’r aeth John Lewis yn fyfyrwr tua throad y ganrif ganlynol?<sup>58</sup>

I gloi, gair byr am Pen. 39 (‘Lew’), llawysgrif femrwn sy’n cynnwys fersiwn o *Lyfr Iorwerth* mewn llaw sy’n perthyn i ganol y bymthegfed ganrif. Y mae’r testun yn perthyn yn agos i destun Pen. 32 (‘D’) ac – yn arwyddocaol efallai – i destun Pen. 40 (‘K’); yn y cydiant cyntaf ceir testun diffygiol sy’n dangos perthynas â Wynnstay 36 (‘Q’) ac Add. 22356 (‘S’).<sup>59</sup> Yn Pen. 39, yn anarferol mewn llawysgrifau Cymraeg canoloesol,<sup>60</sup> ceir coloffon yn enwi’r ysgrifwr a’r noddwr:

Y llyver hwnn a beris Ho’ ap Gr’ Lloyd y Lewys ysgolheic o Lann  
vynnydd y ysgruennv o ddethol y llyfrev gorev ac a gauas ef.<sup>61</sup>

I’r gorllewin o blwyf Llanfynydd saif plwyf Llanegwad; y ffin rhyngddynt yw afon Cothi, ar ei hynt tua Thywi. Ni allaf lai na gofyn tybed ai dyma’r Lewys ifanc, yn ysgrifennu *textura* llafurus ac anystwyth, cyn i’r *Lewys Ysgolhaig* aeddfedu’n *Lewys Glyn Cothi*, ac awgrymu

<sup>55</sup> Nodir ‘llyfr Lewys y Glyn’ fel ffynhonnell testun herodrol yn Pen. 134.

<sup>56</sup> NLW 1986B, f.68<sup>r-v</sup>.

<sup>57</sup> Gw. n.20 uchod.

<sup>58</sup> Rhaid cofio bod y rhestrau o *alumni* ar gyfer y cyfnod hwn yn fylchog iawn.

<sup>59</sup> Aled Rhys Wiliam, *Llyfr Iorwerth* (Cardiff: University of Wales Press, 1979), tt.xxviii–xxix.

<sup>60</sup> Diau mai’r ffaith fod cynifer o’r llawysgrifau canoloesol yn anghyflawn sy’n esbonio’r prinder coloffonau.

<sup>61</sup> Pen. 39, f.74<sup>v</sup>.

hefyd y posibilrwydd fod y gwirionedd ynghylch cartref y bardd wedi bod yn syllu arnom cyhyd.

*Perthynas Llst. 7 â'r llawysgrifau eraill*

Er mwyn dangos yn weledol y berthynas rhwng y tri phrif gasgliad yn llaw Lewys Glyn Cothi ei hun, cynigir isod dabl (yn seiliedig ar *GLGC*) yn nodi pa lawysgrifau sy'n cynnwys y gwahanol gerddi. Dynoda 'Arall' gerdd yn llaw'r bardd ei hun y tu allan i'r tri phrif gasgliad (sef y rhai yn Pen. 40, Pen. 54, Pen. 55 a Jesus 111); dynoda 'X' gerdd na chadwyd copi ohoni yn llaw'r bardd ei hun.

Yn *GLGC* trefnir y cerddi yn bennaf yn ôl rhaniadau daearyddol. Gan y gall y tabl roi syniad gwledol o ba siroedd a gynrychiolir gan y tair prif lawysgrif, rhoddir hwy isod:

<i>GLGC</i> 1–9	Cerddi crefyddol
<i>GLGC</i> 10–15	Y Tuduriaid
<i>GLGC</i> 16–70 a [239]	Sir Gaerfyrddin
<i>GLGC</i> 71–90	Sir Aberteifi
<i>GLGC</i> 91–3	Sir Benfro
<i>GLGC</i> 94–109	Sir Forgannwg
<i>GLGC</i> 110–22	Sir Fynwy a'r Gororau
<i>GLGC</i> 123–40	Sir Frycheiniog a'r Gororau
<i>GLGC</i> 141–90	Sir Faesyfed
<i>GLGC</i> 191–206	Sir Drefaldwyn
<i>GLGC</i> 207–12	Sir Amwythig
<i>GLGC</i> 213–16	Sir y Fflint
<i>GLGC</i> 217–21	Sir Ddinbych
<i>GLGC</i> 222–5	Sir Gaernarfon
<i>GLGC</i> 226–9	Môn
<i>GLGC</i> 230–4	Sir Feirionnydd
<i>GLGC</i> 235–8	Amryw
Atodiad	Testunau anghyflawn

<i>GLGC</i>	Pen. 70	Pen. 109	Llst. 7	Arall	X
1	*				
2			*		
3					*
4					*
5			*		
6			*		
7		*			
8			*		
9			*		
10	*				
11	*				
12	*				
13			*		
14					*
15			*		
16	*				
17		*			
18		*			
19		*			
20		*			
21		*			
22		*			
23		*			
24			*		
25		*			
26			*		
27			*		
28		*			
29		*			
30			*		
31			*		
32			*		
33		*			
34		*			
35	*				
36			*		
37			*		
38			*		
39					*
40			*		
41		*			

<i>GLGC</i>	Pen. 70	Pen. 109	Llst. 7	Arall	X
42		*			
43			*		
44			*		
45			*		
46					*
47			*		
48			*		
49		*			
50			*		
51		*			
52	*	*			
53	*	*			
54	*	*			
55	*	*			
56	*	*			
57			*		
58			*		
59			*		
60					*
61			*		
62					*
63			*		
64			*		
65			*		
66	*				
67			*		
68			*		
69			*		
70			*		
71		*			
72			*		
73			*		
74			*		
75			*		
76			*		
77	*	*			
78	*		*		
79			*		
80	*				
81			*		
82			*		

<i>GLGC</i>	Pen. 70	Pen. 109	Llst. 7	Arall	X
83	*	*			
84	*				
85		*			
86			*		
87			*		
88			*		
89		*			
90		*			
91			*		
92			*		
93			*		
94			*		
95		*			
96		*			
97		*			
98	*	*			
99	*	*			
100		*			
101		*			
102		*			
103		*			
104					*
105			*		
106			*		
107			*		
108			*		
109			*		
110		*	*		
111	*				
112		*			
113					*
114		*			
115			*		
116		*			
117		*			
118			*		
119		*			
120	*				
121		*			
122		*			
123		*		*	

<i>GLGC</i>	Pen. 70	Pen. 109	Llst. 7	Arall	X
124		*			
125		*			
126		*			
127		*			
128		*	*		
129		*			
130				*	
131				*	
132		*			
133		*			
134		*			
135		*			
136			*		
137		*			
138		*			
139	*				
140	*				
141			*		
142		*	*		
143			*		
144		*			
145	*	*			
146		*			
147		*			
148		*			
149	*				
150	*				
151	*				
152	*				
153	*				
154	*		*		
155	*				
156		*			
157			*		
158	*	*			
159		*			
160		*			
161	*				
162		*			
163	*	*			
164		*			

<i>GLGC</i>	Pen. 70	Pen. 109	Llst. 7	Arall	X
165	*	*			
166	*	*			
167		*			
168	*	*			
169	*	*		*	
170		*		*	
171	*	*		*	
172		*		*	
173		*			
174		*			
175	*	*			
176		*			
177	*	*	*		
178			*		
179	*	*	*		
180		*			
181		*			
182		*			
183	*	*			
184			*		
185		*			
186		*			
187	*				
188			*		
189	*	*			
190	*	*	*		
191	*				
192	*				
193	*				
194			*		
195	*				
196	*				
197	*				
198	*				
199	*				
200	*				
201	*				
202		*	*		
203		*			
204	*				
205		*			



<i>GLGC</i>	Pen. 70	Pen. 109	Llst. 7	Arall	X
206			*		
207			*		
208		*			
209		*			
210	*				
211	*				
212	*	*	*		
213	*				
214					*
215					*
216			*		
217		*	*		
218		*			
219			*		
220			*		
221	*				
222			*		
223			*		
224		*			
225	*				
226					*
227		*			
228			*		
229			*		
230	*				
231			*		
232	*				
233	*	*	*		
234	*				
235					*
236					*
237			*		
238					*
[239] <i>Dwned</i> , 18 (2012), 49–60				*	
Atodiad I			*		
Atodiad II			*		
Atodiad III		*			
Atodiad IV	*				
Atodiad V	*				
Atodiad VI		*			



## II

### ‘Yn y llyfr hwn’: golwg ar lawysgrif newydd gan Syr Siôn Prys

Gan mor enwog yw'r casgliad o lawysgrifau a geid ynddi, efallai ei bod yn hawdd anghofio bod y llyfrgell a gynullwyd gan Robert Vaughan (c.1592–1667) yn Hengwrt, Llanelltud, yn cynnwys casgliad eithriadol gyfoethog o lyfrau printiedig.<sup>1</sup> Ysywaeth, ni bu tynged y llyfrau printiedig mor ffodus â'r llawysgrifau. Arhosodd y llyfrgell yn uned gyfan (ac eithrio'r colledion gresynus a achoswyd gan lygod, lleithder a lladrad<sup>2</sup> rhwng marwolaeth Robert Vaughan yn 1667 a marwolaeth y methdalwr Hugh Vaughan yn 1783) tan farwolaeth Syr Robert Williames Vaughan, y trydydd barwnig, a breswyliai'n bennaf yn y Rug gerllaw Corwen, yn ddiethfedd yn 1859.<sup>3</sup> Cymynroddodd Williames Vaughan y casgliad o lawysgrifau i'w gyfaill W.W.E. Wynne, Peniarth, ond cael eu gwasgaru oedd ffawd y rhan fwyaf o'r llyfrau printiedig, rhai ohonynt yn anhraethol werthfawr. Gwerthwyd rhai trwy ocsiwn gan William Dew ar 1–3 Awst 1859,<sup>4</sup> ond prynwyd trwch y casgliad gan Thomas Kerslake (1812–91), yr

---

<sup>1</sup> Cynhwysir hwy yn y catalog a luniodd Robert Vaughan o'i lyfrgell ei hun. Gwyddys na luniwyd y catalog hwnnw cyn 1658 gan ei fod yn cynnwys llawysgrifau a llyfrau printiedig a fu'n eiddo i John Jones, Gellilyfdy, a fu farw yn 1657/8; daethant i feddiant Robert Vaughan trwy law gweddw John Jones. Awgryma Daniel Huws (*RWMS*, II, t.180) mai'n fuan ar ôl derbyn llawysgrifau John Jones y'i lluniwyd; noda hefyd (*ibid.*) y posibilrwydd fod drafft arall, dyddiedig 1661, wedi diflannu ar ôl bod ym meddiant Thomas Ellis, rheithor Ddolgellau. Dylid nodi yma ei bod yn debygol mai chwedl yn unig yw'r stori a gofnodwyd gan Edward Lhwyd fod cytundeb rhwng John Jones a Robert Vaughan y byddai'r naill yn etifeddu llyfrgell y llall: go brin y buasai casglwr mor ofalus â Robert Vaughan wedi peryglu dyfodol ei gasgliad trwy ei gymynroddi i John Jones, gŵr a dreuliodd ran helaeth o'i oes yng ngharchar fel dyledwr. Ymhellach, gw. pennod V.

<sup>2</sup> Y lleidr mwyaf nodedig, hyd y gwyddom, oedd Richard Thomas (1753–80; gw. *RWMS*, II, t.176), sy'n nodi mewn llythyr at Owen Jones (Owain Myfyr) ar 17 Mai 1778: 'oh fi! mae'r Llygod Freingig [*sic*], Gwllaw, drwg Gadwraeth, gwedi gwneud Anrhaith didrefn yn eu mysg – a'r rhan fwyaf o'r Llyfrau gorau gwedi eu dwyn' (dyfynnir yn W.Ll. Davies, "John Thomas: A Forgotten Antiquary." A Postscript', *JWBS*, 6 (1943–9), 65–7 (67)); hyd y gellir barnu, fodd bynnag, Richard Thomas ei hun a fu'n gyfrifol am ddwyn y llawysgrifau mwyaf nodedig, gan gynnwys Llyfr Aneirin, Llawysgrif Hendregadredd a Hanesyn Hen (Hengwrt MS 33; gw. n.121).

<sup>3</sup> Ceisiodd tad y trydydd barwnig, Syr Robert Williames Vaughan, yr ail farwnig (1768–1843), adfer bri'r llyfrgell a esgeuluswyd gan ei hynafiaid trwy brynu rhai o lawysgrifau Edward Lhwyd yn arwerthiant Syr Thomas Sebright yn 1807, trwy brynu casgliad Griffith Roberts (1737–1808; gw. *RWMS*, II, tt.150–1), y meddyg o Ddolgellau, a thrwy brynu nifer o'r llawysgrifau a werthwyd yn arwerthiant John Lloyd o Hafodunos yn 1816. Y mae'n werth nodi bod nifer o'r llawysgrifau a ddaeth i Hengwrt o gasgliadau Griffith Roberts a John Lloyd yn rhai a fuasai yn Hengwrt cyn hynny; daeth nifer i feddiant John Lloyd tua 1778 pan roddwyd Hengwrt ar werth gan y methdalwr Hugh Vaughan. Gw. *RWMS*, I, tt.331–2; II, tt.101, 182.

<sup>4</sup> Ceir copi o'r catalog yn Pen. 326.

hynafiaethydd a'r llyfrwerthwr o Fryste.<sup>5</sup> Creodd Kerslake, mewn dwy ran, gatalog ac iddo'r teitl canlynol:<sup>6</sup>

REMAINS OF THE RENOWNED LIBRARY | COLLECTED AT | HENGWRT | DURING THE REIGNS OF K JAMES I AND K CHARLES I BY | ROBERT VAUGHAN ESQ | AUTHOR OF BRITISH ANTIQUITIES REVIVED | MANY BOOKS IN BINDINGS OF THEIR TIMES WITH AUTOGRAPHS OF ENGLISH REFORMERS AND OTHERS | RARE WELSH BOOKS | SEVERAL UNIQUE AND NONDESCRIPT BOOKS | OLD MATHEMATICS | SOME PRIVATELY PRINTED BOOKS | MANUSCRIPTS | &C.<sup>7</sup>

Felly y chwalwyd gweddillion llyfrgell ddihafal Hengwrt. Yn ffodus, cofnododd Kerslake yn ei gatalog fanylion o ran *provenance* nifer o'r cyfrolau, gan argraffu rhai o'r nodiadau llawysgrif danteithiol a geid ynddynt.<sup>8</sup> Mewn erthygl ddiennw yn 1911–12 argraffwyd detholion o'r catalog, ynghyd â nodiadau Kerslake; diau mai'r golygydd, J.H. Davies, Cwrt-mawr, oedd yn gyfrifol amdanynt.<sup>9</sup> Fe'n hatgoffir fod rhai eitemau yn y catalog wedi dod o gasgliad rhyw John Jones, Dinorben, Amlwch, yn hytrach nag o gasgliad Syr Robert William Vaughan, ond y mae rhai o'r nodiadau'n dangos yn ddiamwys mai Hengwrt oedd eu tarddle. Ceir sawl cyfrol ac ynddi nodiadau yn llaw John Jones, Gellilyfdy (gan gynnwys ei arwyddair, *Na werth nef er benthic byyd [sic]*) ac ambell un ac ynddi nodiadau yn llaw Robert Vaughan (e.e. rhifau 1751, 2559 a 2978).

Y nodyn mwyaf arwyddocaol o ran y bennod hon yw'r un a geir dan rif 3297, copi o gyfrol Syr Siôn Prys, *Historiae Brytannicae defensio* (1573):

---

<sup>5</sup> Ar Kerslake, gw. *ODNB*.

<sup>6</sup> Nid oes dyddiad ar y catalog; ni wn ar ba sail y dywedir yn *RWMS*, II, t.182 mai yn 1861 yr ymddangosodd, ond nid annichon fod hynny'n gywir. Gwyddys mai yn 1860 y prynwyd y casgliad gan Kerslake (gw. Bodl. Philipps-Robinson c. 555). Y flwyddyn honno aeth siop Kerslake yn Park Street ar dân a chollwyd nifer o lawysgrifau a llyfrau prin; ymddengys, fodd bynnag, nad oedd llyfrau Hengwrt yn eu plith gan fod nifer wedi dod i feddiant J.E. Cornish, Manceinion, yn dilyn marwolaeth Kerslake yn 1891.

<sup>7</sup> Ar wynebdalen y copi anghyflawn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ceir y nodyn canlynol: 'These were some books sold by the Miss Lloyd to Kerslake. It seems to imply that the Hengwrt MSS are scattered to the winds!!'.

<sup>8</sup> Ymysg y cyfrolau prin a gynigid y mae copi o Lyfr Gweddi 1567 a chopi o William Salesbury, *A Dictionary in Englyshe and Welshe* (1547). Ceir hefyd ambell lawysgrif, e.e. rhif 3400, casgliad rhyw John Rowland o alawon ffidil nad ydyw, hyd y gwyddys, bellach ar glawr (gw. *RWMS*, II, t.156).

<sup>9</sup> [J.H. Davies,] 'The Hengwrt Library of Printed Books', *JWBS*, 1 (1910–14), 76–83, 123–8. Mewn nodyn ar ddiwedd yr ail ran dywedir: 'We are under the impression that many of them were bought by Mr. [Henry] Bradshaw for the Cambridge University Library'; ni lwyddais hyd yn hyn i olrhain unrhyw gyfrol yn y llyfrgell honno a ddaeth o Hengwrt.

From Hengwrt: with some notes by Jo. Jones, Esq., of Gelli Lyvdy. ‘A booke of Sr. John Prise of petegries in rundelets in the custodie of ye. Executors of Justice Tate, to ye use of his sonne: Jo: Jo: sawe it[’].

Prin y gall fod unrhyw amheuaeth, am resymau a ddaw’n amlwg maes o law, nad cyfeiriad yw hwn at y llawysgrif a adwaenir bellach fel FH/7<sup>10</sup> yn archifdy Northampton, llawysgrif na sylweddolwyd ei llawn werth tan 2019 ac y trafodir ei chynnwys, ei ffynonellau, ei hysgrifwr a’i hanes diweddarach mewn manylder isod.

Y mae FH/7 yn rhan o gasgliad Finch Hatton, casgliad o ddeunydd llenyddol, gwleidyddol, hynafiaethol a herodrol o bwys rhyngwladol. Archif teulu Hatton o Kirby Hall ger Gretton, swydd Northampton, yw trwch y casgliad hwn, ond y mae hefyd yn cynnwys nifer o ddogfennau pwysig sy’n perthyn i deulu Finch o Eastwell, de Kent. Diau mai’r enwocaf o blith teulu Hatton yw Syr Christopher Hatton (c.1540–91), a benodwyd yn Arglwydd Ganghellor yn 1587 ac a ddaeth yn un o ffefrynnau Elisabeth I.<sup>11</sup> Er iddo brynu Kirby Hall – tŷ newydd ar y pryd – yn 1576, yn Holdenby, ryw ugain milltir i’r de-orllewin o Kirby Hall, y preswyliai Hatton yn bennaf. Yr oedd ganddo uchelgais i droi Holdenby yn dŷ mawreddog ac urddasol, uchelgais a’i gwnaeth yn fethdalwr i bob diben. Bu farw’n ddietifedd yn 1597, a throsglwyddwyd y stad i’w gefnder o’r un enw, Syr Christopher Hatton (m.1619); gwerthodd hwnnw Holdenby i’r Brenin gan ymsefydlu yn Kirby Hall. Etifedd y Syr Christopher Hatton hwnnw oedd ei fab hynaf, Christopher Hatton, barwn cyntaf Hatton (1605–70), gwleidydd a ddaeth yn ddylanwadol yn llys Siarl I.<sup>12</sup> Yr oedd Hatton yn ŵr llengar (ymhlith ei gydnabod yr oedd Edward Hyde, iarll cyntaf Clarendon, Syr William Dugdale a Roger Dodsworth) a gynullodd yn Kirby Hall – a ddisgrifiwyd gan John Evelyn yn 1651 fel ‘a very noble house’<sup>13</sup> – lyfrgell ragorol y prynwyd rhan ohoni ar ôl ei farwolaeth gan Lyfrgell Bodley.<sup>14</sup> Arhosodd y deunydd archifol, fodd bynnag, yn Kirby Hall.

Olynwyd y barwn cyntaf gan ei fab, Christopher (1632–1706), yr ail farwn, a ddyrchafwyd yn is-iarll yn 1683.<sup>15</sup> Fe ddarfu am y teitl hwnnw gyda marwolaeth y trydydd is-iarll – a

---

<sup>10</sup> ‘FH 7’ yw’r ffurf a ddefnyddir yn *RWMS*, I, tt.716–17 *et passim*; ‘FH/7’ yw’r ffurf a ffefrir gan yr Archifdy ac a ddefnyddir yma o’r herwydd.

<sup>11</sup> Ar Hatton, gw. *ODNB*.

<sup>12</sup> Gw. *ODNB*.

<sup>13</sup> *Ibid*.

<sup>14</sup> Sef casgliad ‘Hatton’; fe’i prynwyd gan Lyfrgell Bodley yn 1671 oddi wrth Robert Scot, llyfrwerthwr o Lundain.

<sup>15</sup> Gw. *ODNB*.

esgeulusodd Kirby Hall, fel y gwnaeth ei frawd hŷn, yr ail is-iarll, yntau – yn 1762; etifeddwyd ei stad sylweddol gan ei nai, Edward Finch[-Hatton] (1697?–1771), a fabwysiadodd Hatton fel rhan o'i gyfenw. Gan mai yn Eastwell Park ger Ashford yng Nghaint y preswyliai Finch-Hatton a'i deulu, esgeuluswyd Kirby Hall ac aeth yn adfail i raddau helaeth; y mae bellach yng ngofal English Heritage.

Rhodddwyd archif teulu Finch Hatton ar adnau yn archifdy swydd Northampton yn 1930. Yr oedd yr hynafiaethydd Charles Wilmer Foster, canon Lincoln, eisoes wedi paratoi catalog o'r cyfrolau yn y casgliad (sef FH/1–345); crëwyd catalog o weddill y casgliad (FH/346–4240) yn 1931.<sup>16</sup> Tebyg felly mai Foster oedd yn gyfrifol am cofnod ar gyfer FH/7 fel y safai yn 2019:

Pedigree of James I from Adam, and Welsh genealogical tracts [...] c.1550

Er bod y disgrifiad cryno hwn wedi bod ar gael am y rhan helaethaf o ganrif, ymddengys na ddaeth i sylw ysgolheigion Cymraeg, neu o leiaf nad ysgogwyd neb i ddilyn y trywydd. Y mae'r disgrifiad ei hun yn anghyson: y mae'n berffaith amlwg na ellid bod wedi llunio ach Iago I tua'r flwyddyn 1550. Yn annisgwyl, efallai, y dyddiad – yn hytrach na'r cyfeiriad at Iago I – sy'n gywir, ond prin fod y cofnod yn gwneud cyfiawnder â'r cyfoeth aruthrol a geir yn y llawysgrif hon.

Ni pherthyn unrhyw arbenigrwydd i FH/7 o ran ei phryd a'i gwedd. Llawysgrif ffolio ydyw ac iddi 91 o ddalennau wedi eu pwytho o fewn y cloriau memrwn gwreiddiol; yn anffodus, y mae'r clawr ôl yn eisiau, ac o'r herwydd ceir peth difrod i gorneli'r dalennau, yn enwedig tua'r diwedd. Treuliodd y clawr blaen yn ogystal, sy'n golygu bod rhannau o'r teitl (yn llaw'r prif ysgrifwr) yn eisiau, a cheir tystiolaeth (a drafodir ymhellach isod) fod 98 o ddalennau'n bresennol tua throad yr ail ganrif ar bymtheg. Ac eithrio'r nodiadau mewn llaw anhysbys o'r ail ganrif ar bymtheg ar f.55<sup>v</sup>, nid oes unrhyw dystiolaeth fod y llawysgrif wedi derbyn unrhyw sylw er blynyddoedd cynnar y ganrif honno.<sup>17</sup> Awgryma hyn iddi lechu'n dawel yn Kirby Hall er dyddiau'r barwn cyntaf, yn hytrach nag mewn meddiant Cymreig, ac ategir hyn gan y dystiolaeth (a drafodir yn fanwl isod) ynghylch ei hanes diweddarach.

---

<sup>16</sup> Ychwanegiadau diweddarach yw FH/4241–4282 a'r deunydd ychwanegol a dderbyniwyd rhwng 1953 ac 1971 (FH/4283–4993).

<sup>17</sup> Hyd y gwn i, nid oes unrhyw llawysgrif y gellir dangos bod ei thestunau'n tarddu o'r llawysgrif bresennol.

Hyd yn oed pe na bai'r prif ysgrifwr wedi torri ei enw yn y llawysgrif, nid gwaith anodd fuasai adnabod perchennog y brif law, a ddisgrifiwyd fel a ganlyn gan Neil R. Ker:

His script [...] belongs to the interesting period when the medieval secretary hand [...] was developing into the Tudor secretary, when medieval habits of Latin orthography were giving place to modern classical habits, and when, in learned as distinct from merely clerical circles, proficiency in the script of the Italian renaissance was fashionable.<sup>18</sup>

Er bod y llaw drawiadol hon yn digwydd ar ymylon y dalennau mewn myrdd o lawysgrifau canoloesol o'r pwys mwyaf, dim ond dyrnaid o lawysgrifau a ysgrifennwyd yn gyfan gwbl (neu i raddau helaeth) ganddi, ac er bod prif law FH/7 yn bur amrywiol ar brydiau, yn enwedig wrth gopïo testunau Lladin a Saesneg, gellir bod yn bur hyderus (ac eithrio'r ychwanegiadau gan lawiau eraill) mai'r un llaw sydd ar waith drwy gydol y llawysgrif.

Y mae'r ysgrifwr yn datgelu ei enw mewn pedwar lle yn y llawysgrif hon. Yn gyntaf, ar f.38<sup>v</sup>:

Sion ap Rhys a escrivenodd y llyfyr hwnn[.]<sup>19</sup>

A thrachefn ar f.47<sup>v</sup>:

Gohelyth perchen y llyvyr hwnn [...] 1545: Sion nev Ievan ap Rhys ap Gwilym Gwynn [...] ap Japheth ap Noe Hen.

Yn ogystal, ceir ei lofnod ar ff.61 ('Jo. Preiseus') a 91<sup>v</sup> (sy'n rhannol aneglur oherwydd traul). Cyn troi at y llawysgrif a'i chynnwys, rhoddir ychydig o gefndir y gŵr hwn.

Y mae'r gŵr a adwaenir fynychaf fel John Preise<sup>20</sup> (ac yn aml mewn cyd-destunau Cymreig fel Siôn ap Rhys neu Siôn Prys, sef y ffurf a ddefnyddir yma) ymhlith yr enwau mwyaf blaenllaw

<sup>18</sup> Neil R. Ker, 'Sir John Preise', *The Library*, 5ed gyfres, 10 (1955), 1–24 (6).

<sup>19</sup> Dylid yn y fan hon egluro'r egwyddorion a ddilynais wrth drawsgrifio testun y llawysgrif. Dilyniir mor agos ag y bo modd yr hyn a geir yn y ffynhonnell; rhoddir priflythrennau i enwau priod a myfi piau'r atalnodi. Estynnir talfyriadau Lladinaidd mewn llythrennau italig. Y mae Siôn Prys yn cynrychioli /ð/ – gyda rhai eithriadau lle y defnyddir *dd* – â *d* gyda strôc fechan ar ochr dde'r esgynnydd (fel ag a ddefnyddir ganddo yn *Yny llyvyr hwnn*); defnyddir *dd* i'w cynrychioli yma.

<sup>20</sup> Dyna'r ffurf a ddefnyddir yn *ODNB* a chan yr Athro Ceri Davies, ein pennaf awdurdod ar Brys (gw. n.31 isod); 'PRICE, neu PRYS, Syr JOHN' yw'r ffurf a geir yn *BC*.

yn hanes llenyddiaeth Gymraeg. Diau mai fel y sawl a fu'n gyfrifol am gyhoeddi *Yny llyvyr hwnn*, y llyfr Cymraeg cyntaf a argraffwyd erioed, y'i dehlir yn bennaf yng Nghymru, ond y mae iddo bwysigrwydd ehangach fel awdur ac fel un a fanteisiodd ar ei freiniau fel un o swyddogion Harri VIII adeg diddymiad y mynachlogydd i ddiogelu nifer fawr o lawysgrifau canoloesol.

Ganed Siôn Prys rywbryd rhwng 12 Hydref 1501 ac 11 Hydref 1502, yn fab i Rys ap Gwilym Gwyn ap Llywelyn o Aberhonddu a Gwenllian ferch Hywel ap Madog.<sup>21</sup> Yr oedd ei fam, fel ei dad, yntau, yn hanu o waed uchelwrol, a pherthynas waed iddo oedd y bardd Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys, a adwaenir fynychaf fel Hywel Dafi.<sup>22</sup> Derbyniodd Siôn Prys radd Baglor yn y Gyfraith Sifil o Gaer-grawnt yn 1535/6, ond cyn hynny astudiasai am gyfnod yn Rhydychen, ac erbyn 1530 yr oedd yng ngwasanaeth Thomas Cromwell. Erbyn 1536 yr oedd yn notari cyhoeddus, ac yn rhinwedd ei gysylltiad â Cromwell bu ganddo ran uniongyrchol yn niddymiad y mynachlogydd o 1534 ymlaen – swydd a roes iddo gyfle heb ei ail, fel y soniwyd eisoes, i achub llawysgrifau canoloesol o'r mynachlogydd hyn – ond dywedir ei fod yn ffafrio dull mwy cymedrol na'r eiddo Thomas Lee ac eraill, ac er gwaethaf ei sêl ymddangosiadol dros bolisiâu Harri VIII, ymddengys fod rhyw gymaint o amwysedd ynghylch ei argyhoeddiadau crefyddol ar hyd ei oes.<sup>23</sup> Fe'i ceir hefyd yng nghrombil rhai o ddigwyddiadau cythryblus eraill yr oes, gan gynnwys ysgariadau Harri VIII oddi wrth Anne Boleyn ac Anne of Cleves.

Cryfhawyd cysylltiad Siôn Prys â Thomas Cromwell yn 1534 pan briodwyd ef â Joan Williamson, nith trwy briodas i Cromwell, ac enwyd eu mab hynaf, Gregory, ar ôl mab hynaf Cromwell. Y mae'n amlwg fod Cromwell yn ddylanwad aruthrol ar Siôn Prys yn y

---

<sup>21</sup> Pwysir yn drwm yma ar erthygl Huw Pryce yn *ODNB*. Ceir hefyd gyflwyniad hylaw i Brys a'i waith yn Glanmor Williams, 'Sir John Pryse of Brecon', *Brycheiniog*, 31 (1998–9), 49–63; gw. hefyd Ceri Davies, 'Two Welsh Renaissance Latinists: Sir John Pryse of Brecon and Dr John Davies of Mallwyd', yn Charles Burnett a Nicholas Mann (gol.), *Britannia Latina. Latin in the Culture of Great Britain from the Middle Ages to the Twentieth Century* (London: The Warburg Institute & Torino: Nino Aragno Editore, 2005), tt.129–44; idem, *Latin Writers of the Welsh Renaissance* (Cardiff: University of Wales Press, 1981), tt.16–20; idem, *Welsh Literature and the Classical Tradition* (Cardiff: University of Wales Press, 1995), tt.60–4; G.J. Williams, *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg*, gol. Aneirin Lewis (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1969), tt.16–17; Philip Schwyzer, *Literature, Nationalism, and Memory in Early Modern England and Wales* (Cambridge: Cambridge University Press, 2004), tt.85–9; Helen Fulton, 'Sir John Pryse and his Books: Manuscript Culture in the March of Wales', *CHC*, 31 (2022–), 55–78.

<sup>22</sup> Gw. A. Cynfael Lake, 'Dau o'r Deheuwyd: Hywel Dafi a Lewys Morgannwg', *LIC*, 38 (2015–16), 12–27; idem, 'The fifteenth-century poet Hywel Dafi and his connection with Breconshire', *Brycheiniog*, 46 (2015), 67–82; idem (gol.), *Gwaith Hywel Dafi*, 2 gyf. (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2015), I, tt.1–3.

<sup>23</sup> Noda Huw Pryce yn *ODNB* fod ewylllys Siôn Prys yn 'essentially Catholic'.



blynyddoedd cynnar hyn yn ei yrfa, ond er iddo lwyddo i beidio â cholli ffafr yr awdurdodau yn dilyn cwmp Cromwell a'i ddiennyddiad yn 1540, troes Siôn Prys oddi wrth y llys brenhinol i raddau helaeth y flwyddyn honno, gan ymgartrefu ym mhriordy Benedictaidd St Guthlac yn Henffordd. Daeth priordy arall a oedd newydd ei ddiddymu, sef priordy Aberhonddu, i'w feddiant yn 1542, ond nid ymddengys iddo erioed breswyllo yno. Fe'i penodwyd yn ysgrifennydd Llys y Gororau yn Llwydlo yn 1540, a bu'n siryf sir Frycheiniog yn 1542–3 a swydd Henffordd yn 1553–4, yn ynad heddwch mewn amryw siroedd, ac ar 22 Chwefror 1547, ddeuddydd ar ôl coroni Edward VI, fe'i hurddwyd yn farchog.<sup>24</sup> Arwydd o'i graffter diplomyddol yn ddiau yw'r ffaith iddo barhau'n ddylanwadol wedi esgyniad Mari i'r orsedd yn 1553; goroesodd y traethawd ar arian bath a gyflwynwyd ganddo i Mari y flwyddyn honno.<sup>25</sup> Yn dilyn gyrfa lachar, bu farw'n ŵr cefnog yn Henffordd ar 15 Hydref 1555 ac fe'i claddwyd yn yr eglwys gadeiriol yno.

Soniwyd eisoes mai Siôn Prys oedd yn gyfrifol am y gyfrol Gymraeg brintiedig gyntaf erioed, sef *Yny lhyvyr hwnn* (1546).<sup>26</sup> Yr ydym yn ddyledus i Richard Davies, esgob Tyddewi, am yr wybodaeth hon:<sup>27</sup>

Gosodes Wiliam Salsburi yr Efengylon a'r epystelay, a arferit yn yr Eglwys tros y flwyddyn, yn Gymraeg yn print,<sup>28</sup> a Syr Iohn Prys yntay y Pader, y Credo, a'r X Gorchymyn.

Yr oedd rhyw bedair mil o eitemau Saesneg printiedig wedi ymddangos erbyn cyhoeddi *Yny lhyvyr hwnn* yn 1546. Yn bennaf trwy ddyfal lafur William Salesbury, ymddangosodd dyrnaid o gyhoeddiadau Cymraeg pwysig rhwng 1547 ac 1551, ond i Siôn Prys y perthyn y clod am y cyhoeddiad cyntaf oll. Cyfrol heb iddi ond 17 tudalen ar ffurf cwarto bychan yw *Yny lhyvyr*

---

<sup>24</sup> Diogelwyd cywydd gan Gruffudd Hiraethog (*GGH*, rhif 19) a chywydd ac awdl gan Lewys Morgannwg (A. Cynfael Lake (gol.), *Gwaith Lewys Morgannwg*, 2 gyf. (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2004), rhifau 55–6) i Brys ar ôl ei urddo'n farchog; diogelwyd hefyd gywydd gan Lewys a ganwyd, o bosibl, yn 1546.

<sup>25</sup> Sef New College 317 rhan (iii) (ff.90–104). Fel y sonnir isod, y mae'r traethawd yn llaw Siôn Prys ei hun ond wedi ei ysgrifennu â gofal anarferol.

<sup>26</sup> Dim ond un copi a gadwyd, hyd y gwyddys, sef y copi a ddiogelir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Fel y gwelir yn Atodiad II, y mae'n debygol i'r copi hwn fod ym meddiant Humphrey Humphreys a William Thomas cyn dod i feddiant Moses Williams. Ymdrinnir yn fanwl ag *Yny lhyvyr hwnn* yn R. Geraint Gruffydd, 'Y print yn dwyn ffrwyth i'r Cymro: *Yny lhyvyr Hwnn*, 1546', *Y Llyfr yng Nghymru*, 1 (1998), 1–20, a hefyd yn idem, 'Yny lhyvyr hwnn (1546): the earliest Welsh printed book', *BBCS*, 23 (1968–70), 105–16. Ei awgrym gogleisiol yw y gallasai'r copi a welsai Humphrey Humphreys fod wedi dod i'w feddiant tra oedd yn esgob Henffordd, 1701–12.

<sup>27</sup> Gw. *Rhagymadroddion*, tt.24–5.

<sup>28</sup> Sef *Kynniver Llith a Ban* (1551). Ymhellach ar y cyhoeddiad hwn, gw. pennod III.

*hwinn*, ac y mae'n cynnwys calendr, almanac dros ugain mlynedd, llythyr 'annerch at y darlheawdyr' ac ambell destun byr, Catholig eu hanian fel *Ave Maria* a 'Saith Rinwedd yr Eglwys'. Dygir ein sylw gan R. Geraint Gruffydd<sup>29</sup> at y tebygrwydd rhwng *Yny lhyvyr hwinn* a phamffledyn byr a argraffwyd gan Richard Pynson yn 1520 ac iddo'r teitl *In this boke* [...], ond pwysleisia fod *Yny lhyvyr hwinn* yn waith mwy uchelgeisiol.

Er i *Yny lhyvyr hwinn* ennill iddo ei le haeddiannol yn oriel yr anfarwolion, diau mai'r gwaith y rhoddwyd iddo'r teitl *Historiae Brytannicae defensio* ac a gyhoeddwyd yn 1573, ddeunaw mlynedd ar ôl ei farwolaeth, yw *magnum opus* Siôn Prys.<sup>30</sup> Yn y gwaith hwnnw, a lywiwyd trwy'r wasg gan ei ail fab, Richard (a etifeddodd, fel y gwelir isod, rai o llawysgrifau a llyfrau printiedig ei dad), y mae Prys yn amddiffyn fersiwn Sieffre o Fynwy o hanes Prydain yn erbyn ymosodiadau gan haneswyr fel Polydore Vergil. Ymdrinnir â'r gwaith pwysig hwn, a chynigir cyfieithiad Saesneg ohono, yng nghyrol feistrolgar yr Athro Ceri Davies a gyhoeddwyd yn 2015.<sup>31</sup> Er mai ysbryd dyneiddiol a nodweddi Siôn Prys ar y cyfan, pwysleisia Ceri Davies fod dadleuon Prys yn y *Defensio* yn ganoloesol yn eu hanfod.<sup>32</sup>

Goroedd dau ddrafft llawysgrif o'r *Defensio*. Ceir y cynharaf yn llawysgrif Cotton Titus F.iii, ff.170–216<sup>v</sup>,<sup>33</sup> drafft yn llaw'r awdur ei hun gyda llawer o newidiadau a chywiriadau a nodyn yn cyflwyno'r gwaith i Syr Brian Tuke (m.1545).<sup>34</sup> Y mae'r drafft diweddarach – a geir yn Balliol 260 ac sy'n cyfateb yn agos i'r hyn a argraffwyd yn 1573 – yn llaw *amanuensis*, ond ceir rhai cywiriadau yn llaw'r awdur (ar, e.e., ff.101–2). Nid yw'r nodyn cyflwyno'n bresennol yn y drafft hwn, a gellir ei ddyddio i 1550×1555.<sup>35</sup> Diau, fodd bynnag, mai copi arall – sydd bellach ar goll – a ddefnyddiwyd gan yr argraffwyr.

<sup>29</sup> Gruffydd, 'Y print yn dwyn ffrwyth', 9.

<sup>30</sup> Gwnaed o leiaf ddau gyfieithiad annibynnol o'r *Defensio* i'r Saesneg yn y ddeunawfed ganrif. Y mae'r cyfieithiad yn Card. 4.37 yn rhannol yn llaw Thomas Richards (c.1710–90), clerigwr a geiriadurwr o Langrallo y dichon ei fod yn rhannol gyfrifol, o leiaf, am y cyfieithiad ei hun (gw. *RWMS*, I, t.569). Gwnaed y cyfieithiad a ddiogelir yn Add. 14925 yn 1757 ar gais Lewis Morris gan ŵr anhysbys a ddisgrifir gan Lewis fel 'a good scholar and poet'; gw. *RWMS*, I, t.619, gan ddyfynnu o *ML*, I, t.466.

<sup>31</sup> John Prise, *Historiae Britannicae Defensio / A Defence of the British History*, gol. a chyf. Ceri Davies (Toronto: Pontifical Institute of Medieval Studies & Oxford: The Bodleian Library, 2015) [=Davies, *John Prise*]. Dewisodd y golygydd ddilyn y ffurf *Britannicae*, sef y ffurf a geir gan Brys ei hun, yn hytrach na *Brytannicae*, a ymddangosodd yn fersiwn printiedig 1573; er mwyn osgoi unrhyw ddryswch, dilynir yr ail ffurf yma.

<sup>32</sup> Trafodir yr elfennau canoloesol ym meddylfryd Prys yn Ceri Davies, 'Syr Siôn Prys: Canoloeswr ynteu Dyneiddiwr?', *Gwerddon*, 24 (2017), 8–21; gw. hefyd idem, 'Polidor Vergil, Syr John Prise ac Urddas y Cymry', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Cof Cenedl XX: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005), tt.33–64; idem, 'Syr John Prise ac Amddiffyn Hanes Prydain', *Y Traethodydd*, 158 (2003), 164–85.

<sup>33</sup> Ar y llawysgrif, gw. *RWMS*, I, t.666.

<sup>34</sup> Ar Tuke, gw. *ODNB*.

<sup>35</sup> Gw. *RWMS*, I, t.718.

Daw hynny â ni at y llawysgrifau eraill a ysgrifennwyd yn gyfan gwbl neu i raddau helaeth gan Siôn Prys. O ystyried bod ei law'n digwydd ar ymyl y ddalen mewn dwsinau o llawysgrifau, efallai nad ydynt mor niferus ag y disgwyliid. Dechreuwn â Balliol 353,<sup>36</sup> cyfrol a fwriedid gan Brys, efallai cyn 1539, fel 'llyfr amrywiaeth' (S. *commonplace-book*), llyfr y codir iddo ddetholion a dyfyniadau o ddiddordeb personol. Rhannwyd y gyfrol – a brynwyd, yn ddiau, fel cyfrol wag rwymedig – gan Brys yn ôl llythrennau'r wyddor, ac er iddo gofnodi ambell ddyfyniad Lladin, prin iawn yw'r cynnwys sy'n adlewyrchu'r bwriad gwreiddiol hwnnw; yn hytrach, defnyddiodd Prys y gwagle yn y gyfrol er mwyn copïo ystod eang o destunau, Cymraeg yn bennaf, o amryfal ffynonellau. Yn ogystal â chasgliad o gywyddau ac awdlau, ceir ynddi gopi o ramadeg Einion Offeiriad,<sup>37</sup> detholion o Jesus 111 (a enwir yma, am y tro cyntaf, yn '[I]lyvyr Hergest'),<sup>38</sup> rhestr o gantrefi Cymru wedi ei chodi o Lyfr Coch y Siecr (TNA E 164/2), diarhebion, croniclau, *memoranda* personol a sawl testun byr diddorol odiaeth. Ymysg yr ychwanegiadau diweddarach y mae awdlau yn llaw Siôn Mawddwy (m.1613), gan gynnwys awdl farwnad i Thomas Vaughan (m.1590; mab Syr William Vaughan o Borth-aml, sir Frycheiniog), gŵr sy'n ganolog i'r ymdriniaeth â FH/7 isod.

Crybwyllwyd eisoes draethawd Siôn Prys ar arian bath a gyflwynwyd i'r Frenhines Mari yn 1553; diogelwyd hwnnw yn New College 317, ff.90–104<sup>v</sup>, sy'n cynnig enghraifft o law Siôn Prys ar ei mwyaf gofalus.<sup>39</sup> Llawysgrif arall yr ysgrifennwyd y rhan helaethaf ohoni gan Brys yw NLW 3020D (*olim* Mostyn 172). Yn wahanol i'r llawysgrifau Cymreig eraill o gasgliad Mostyn, ni chyrrhaeddodd y llawysgrif hon y Llyfrgell Genedlaethol hyd 1931, pryd y'i prynwyd oddi wrth E.P. Goldschmidt, Llundain, am £18 18s; diau mai'r ffaith nad oedd neb wedi adnabod Prys fel perchennog y brif law sy'n esbonio pam na ddaeth i'r Llyfrgell Genedlaethol o lyfrgell Mostyn gyda gweddill y llawysgrifau Cymreig yn 1918. Daniel Huws oedd y cyntaf i sylweddoli mai Prys piau prif law NLW 3020D, a llwyddodd hefyd i adnabod y llaw italig a lenwodd y *lacunae* yn y testun fel eiddo Robert Cecil (1563–1612), iarll cyntaf Caersallog. Y mae'r llawysgrif yn cynnwys, ar ff.1–23<sup>v</sup>, gopi o ddisgrifiad o Brydain yn seiliedig ar *Polychronicon* Ranulf Higden, ac ar ff.24–61 gopi o gronicle achyddol o Adda hyd Harri VI a luniwyd yn wreiddiol yn 1446[/7]; ar f.46 ceir tystiolaeth sy'n awgrymu i'r rhan hon

<sup>36</sup> Trafodir y llawysgrif yn E.D. Jones, 'Llyfr Amrywiaeth Syr Siôn Prys', *Brycheiniog*, 8 (1962), 97–104. Fel Balliol 260, fe'i cyflwynwyd i Goleg Balliol yn 1766 gan Dr George Coningsby.

<sup>37</sup> Gw. *GP*, tt.cx–cxi.

<sup>38</sup> Ar ddisgyniad y Llyfr Coch, gw. Prys Morgan, 'Glamorgan and the Red Book', *Morgannwg*, 22 (1978), 42–60.

<sup>39</sup> Hoffwn ddiolch i Dr Christopher Skelton-Foord am ddarparu delweddau o'r llawysgrif hon er mwyn gallu barnu ai llaw Prys ydyw ai peidio.

gael ei hysgrifennu cyn 1538. Daeth y llawysgrif i feddiant Robert Bruce (1626–85), ail iarll Elgin ac iarll cyntaf Ailesbury, ac fe'i prynwyd yn arwerthiant Ailesbury yn 1687 gan y casglwr brwd o Loddaith, Thomas Mostyn (1651–92), yr ail farwnig.<sup>40</sup>

Er bod llawysgrifau llenyddol a ysgrifennwyd yn gyfan gwbl neu i raddau helaeth gan Siôn Prys yn annisgwyl o brin, nid oes prinder o enghreifftiau o'i waith fel notari cyhoeddus,<sup>41</sup> nac ychwaith brinder o lawysgrifau canoloesol y mae ei law'n digwydd ynddynt neu a fu'n eiddo iddo. Gwnaed arolwg o'r llawysgrifau hyn gan Neil R. Ker mewn erthygl olau a gyhoeddwyd yn 1955.<sup>42</sup> Fe'u rhennir gan Ker yn bedair rhan: yn gyntaf, y llawysgrifau ym meddiant Coleg Iesu, Rhydychen (cyfanswm o 47); yn ail, y llawysgrifau ym meddiant Eglwys Gadeiriol Henffordd (cyfanswm o 30); yn drydydd, llawysgrifau ar wasgar (cyfanswm o 26),<sup>43</sup> ac yn bedwerydd, llyfrau printiedig (cyfanswm o 31; 30 ohonynt yn Henffordd).<sup>44</sup> Yn wahanol i'r llawysgrifau yn Henffordd (a gymynroddwyd trwy ewyllys Prys), trwy law ei ail fab, Richard, y daeth y llawysgrifau eraill i feddiant Coleg Iesu (a sefydlwyd yn 1571); yn ei ewyllys noda Prys: 'I bequeathe to my sonne Richarde all my written bookes of histories and humanitie'.<sup>45</sup> Dymuniad Prys oedd rhannu'r llyfrau printiedig (ac eithrio'r rhai a gymynroddwyd i 'master

---

<sup>40</sup> Gw. *RWMS*, I, t.183. Ar Thomas Mostyn a'i lyfrgell, gw. *MWM*, tt.303–29; Mary Chadwick a Shaun Evans, "'Ye Best Tast of Books & Learning of Any Other Country Gentn". The Library of Thomas Mostyn of Gloddaith, c.1676–1692', yn Annika Bautz a James Gregory (gol.), *Libraries, Books, and Collectors of Texts, 1600–1900* (London & New York: Routledge, 2018), tt.87–103; Sue Niebrzydowski, 'Sir Thomas Mostyn and John Lydgate's *The Lyf of Our Lady*: a Middle English devotional work and its north Walian afterlife', *CHC*, 31 (2022–), 79–100.

<sup>41</sup> Am enghraifft o'i waith (dyddiedig 1543/4), gw. J.S. Purvis, *Notarial Signs from the York Archbishopal Records* (London & York: St Anthony's Press, 1957), t.68.

<sup>42</sup> Ker, 'Sir John Prise'. Adargraffwyd gyda chywiriadau yn N.R. Ker, *Books, Collectors, and Libraries. Studies in the Medieval Heritage*, gol. Andrew G. Watson (London & Ronceverte: The Hambleton Press, 1985), tt.471–96.

<sup>43</sup> Fel y gwelir isod, gellir ychwanegu Queen's 304 at y cyfrif hwn. Ni chynhwysir yno Pen. 1, sef Llyfr Du Caerfyrddin, y dywedir iddo gael ei roi i Brys gan John Lewis (mab, ond odid, i Lewys Glyn Cothi, fel y gwelwyd ym mhennod I). Fel y dangosir ym mhennod V, fodd bynnag, ar gam y cysylltwyd y llawysgrif enwog honno â Phrys. Rhaid hefyd ystyried NLW 3024C (*olim* Mostyn 83), llawysgrif o ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg sy'n cynnwys dau o weithiau Gerallt Gymro (*Itinerarium Cambriae* a *Descriptio Cambriae*) ac a ysgrifennwyd, fe ddichon, yn Nhyddewi. Y mae'n cynnwys ambell nodyn ar ymyl y ddalen yn llawiau Dafydd Nanmor a David Powel, nifer fawr yn llaw William Salesbury (un ohonynt yn ddyddiedig 1554), a bu ym meddiant Richard Davies, esgob Tyddewi, a'i gyrrodd at William Cecil, Arglwydd Burghley, yn 1564; yr oedd Robin Flower ('Richard Davies, William Cecil, and Giraldus Cambrensis', *CLIGC*, 3 (1943–4), 11–14) o'r farn ei bod hefyd yn cynnwys nodiadau yn llaw Prys, ond gwrthod yr awgrym hwnnw a wnaeth Neil R. Ker ('Sir John Prise', 15), a phetrus yw Daniel Huws, yntau, yn *RWMS*, I, tt.183–4. Yr wyf i, fodd bynnag, o'r farn fod Flower yn llygad ei le: y mae'r nodyn hwyaf yn y llaw dan sylw, sef yr un ynghylch priodas Gerald o Windsor a Nest ferch Rhys ap Tewdwr ar f.37<sup>v</sup>, mewn llaw y byddwn yn barod iawn i'w derbyn fel eiddo Prys; yr un llaw, fe ymddengys, a ychwanegodd 'Pater Noster' ar ymyl f.91<sup>v</sup>.

<sup>44</sup> At y cyfrif hwn gellir ychwanegu copi arall o'r argraffiad a wnaed ym Mharis yn 1517 o'r *Historia Brittonum*, copi a oedd gynt yn eiddo i Rudolf B. Gottfried (gw. ei erthygl 'Antiquarians at work', *Renaissance News*, 11 (1958), 114–20 (114–16)) ac sydd bellach ym meddiant Prifysgol Indiana (rhif silff DA140.G3 1517); fe'i prynwyd gan Brys ar 7 Tachwedd 1530 am swllt a chwech.

<sup>45</sup> Gw. F.C. Morgan, 'The will of Sir John Prise of Hereford, 1555', *CLIGC*, 9 (1955–6), 255–61.

Smithe vicar of bromeyarde’) rhwng Gregory a Richard, a bod Richard yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb o argraffu’r ‘booke [...] that I haue made againste Polidorus stoye of Englande’, sef, wrth gwrs, y gwaith a ymddangosodd o’r wasg yn 1573, ddeunaw mlynedd ar ôl marwolaeth yr awdur, dan y teitl *Historiae Brytannicae defensio*.

Cymal arall yn ewylllys Prys yw’r canlynol:

Item I geue my welche bookes to Thomas Vaughan of Glamorganshere.

Enwir yr un gŵr yn FH/7, f.38<sup>v</sup>:

Sion ap Rhys a escrivennodd y lhyfyr hwnn i Thomas Vychan brydydd.

At hyn, yn llyfr amrywiaeth Siôn Prys ceir awdl foliant i Brys gan ryw ‘Thomas Vychan’;<sup>46</sup> ychwanegodd y bardd Siôn Mawddwy (m.1613) gopïau o’i awdlau marwnad i’r ‘meisdr Thomas Vychan’ a’i chwaer, Ann Games, at yr un llawysgrif.<sup>47</sup> Fel y noda R. Geraint Gruffydd, y mae’n anodd credu nad yr un gŵr, sef Thomas Vaughan (m.1590), pedwerydd mab Syr William Vaughan o Borth-aml ger Talgarth, sir Frycheiniog, a enwir yn ewylllys Prys.<sup>48</sup>

Gwyddys felly mai ar gyfer y bardd Thomas Vaughan yr ysgrifennodd Siôn Prys y llawysgrif sydd dan sylw yn y bennod hon.<sup>49</sup> A barnu wrth y dystiolaeth sydd gennym, fodd bynnag, ni bu Vaughan erioed yn berchen arni; fel y gwelir maes o law, ymddengys ei bod yn dal ym meddiant Prys pan fu farw ac iddi gael ei hetifeddu gan Richard ei fab. Gyda hynny o gefndir, trown at y llawysgrif ei hun ac at y testunau gwerthfawr a ddiogelir ynddi.

---

<sup>46</sup> Balliol 353, ff.22<sup>v</sup>–23<sup>v</sup>.

<sup>47</sup> Ibid., ff.130<sup>v</sup>–133.

<sup>48</sup> Gruffydd, ‘Y print yn dwyn ffrwyth’, 7; Davies, *John Prise*, tt.xxiv, xxix–xxx.

<sup>49</sup> Goroedd dyrnaid o gerddi Thomas Vaughan, yn fwyaf nodedig ei gerddi i Ruffydd Dwinn o Ystradmerthyr yn Ll. 40 (gw. *RMWL*, II, tt.499–504).

## *Cynnwys y llawysgrif*

Prif gynnwys FH/7, a'r hyn sy'n ganolog i'r deunydd atodol a geir ynddi, yw croniclel achyddol (*S. pedigree-chronicle*) sy'n olrhain ach Edward VI o Adda trwy frenhinoedd Prydain, Cymru a Lloegr. Y mae croniclelau o'r fath yn aml ar ffurf rholiau, fformat addas ar gyfer cofnodi achau,<sup>50</sup> ond ceir hefyd nifer ar ffurf codecs.<sup>51</sup> Yn dilyn y croniclel achyddol, sy'n hawlio ff.2–39, ceir casgliad o destunau amrywiol yn Gymraeg, Lladin a Saesneg. Yn ffodus, rhoes Siôn Prys ddyddiadau wrth nifer o'r testunau. Digwydd y dyddiadau canlynol hwnt ac yma yn y llawysgrif: 1540 (f.66), 1545 (ff.47<sup>v</sup>, 75<sup>v</sup>),<sup>52</sup> 1550 (ff.27<sup>v</sup>, 56, 66, 91<sup>v</sup>). Ar yr olwg gyntaf, hawdd fyddai tybio mai'r hyn a wnaeth Siôn Prys oedd manteisio ar y dail gwynion ar ôl gorffen copïo'r prif destun, sef y croniclel achyddol, er mwyn copïo deunydd amryfal ei natur a oedd yn mynd â'i fryd. Y mae'r dyddiadau a restrir uchod, fodd bynnag, yn awgrymu bod peth o'r deunydd tua diwedd y llawysgrif wedi ei ysgrifennu'n gynharach na'r prif destun. Gwyddys nad ysgrifennwyd y prif destun cyn esgyniad Edward VI i'r orsedd yn 1547; y mae'r nodyn dyddiedig 1550 ('yn awr nyd amgen pan [oedd] oed Crist 1550') ar f.27<sup>v</sup> yn ymddangos fel ychwanegiad, felly gellir yn hyderus nodi 1547×1550 fel dyddiad ysgrifennu'r prif destun. Y testun dyddiedig cynharaf yn y llawysgrif yw'r nodyn Saesneg ar Gadwaladr Fendigaid ar f.66 ('Henry the VIII<sup>th</sup> [...] who nowe reigneth moste prosperously 1540'); yn 1545 yr ysgrifennodd Siôn Prys ei ach ei hun ar f.47<sup>v</sup>, ac y mae'r rhestr o 'enwey beyrdd y Brytanyeid' ar f.75<sup>v</sup> yn dwyn yr un dyddiad. Y mae'n ymddangos, fodd bynnag, fod ff.49–51, sy'n cynnwys disgyniad Harri VIII o Gadwaladr Fendigaid ac o Alfred Fawr, gryn dipyn yn hŷn. Ni chyfeirir at unrhyw un o wragedd y brenin ar ôl Catherine o Aragon ac ni nodir unrhyw blentyn iau na Mari (ychwanegiad diweddarach yw Edward, ac nid oes sôn am Elisabeth): gellir felly nodi'n hyderus nad ysgrifennwyd y rhan hon ar ôl 1533.<sup>53</sup>

<sup>50</sup> Gw., e.e., Chirk F 11549, croniclel achyddol Lladin a luniwyd c.1300 ac sy'n dangos ach Edward I; gw. *RWMS*, I, tt.19–20. Enghraifft Gymreig bwysig o groniclel achyddol ar ffurf rhodyn yw Flint. RO D/LE 1389, a luniwyd gan Gutun Owain ac sy'n dangos disgyniad Rhodri Mawr o Adda; gw. *RWMS*, I, t.595 ac *WPR* 285. Cf. hefyd Llst. 195, tt.6–33, sy'n cynnwys croniclel achyddol, yn Gymraeg, o Adda hyd Gadwaladr Fendigaid; gw. *RWMS*, I, t.101.

<sup>51</sup> Er enghraifft, NLW 12389E, croniclel achyddol Lladin sy'n dangos disgyniad Harri VI o Adda ac a orffennwyd ar 25 Ionawr 1453[4]; gw. *RWMS*, I, t.256. Cf. hefyd NLW 3020D (*olim* Mostyn 172), ff.24–61, a drafodwyd uchod. Anodd barnu ai rhodyn ynteu codecs oedd y croniclel achyddol Cymraeg coll o Adda hyd y flwyddyn 1460 a luniwyd gan Siôn Gruffudd Eutun yn 1513 ac y diogelwyd ei destun mewn copïau diweddarach; gw. *RWMS*, II, t.161.

<sup>52</sup> Nid yw'r dyddiad ar f.47<sup>v</sup> yn gwbl eglur; cynigir 1543 yn *RWMS*, ond ymddengys 1545 yn fwy tebygol.

<sup>53</sup> Priodol yw nodi bod edrychiad pur wahanol i'r llaw yn y rhan hon, ond nid oes gennyf unrhyw amheuaeth nad eiddo Siôn Prys ydyw; y mae'r ffaith fod y rhan hon yn gynharach na thrwy y llawysgrif yn gyson â'r gwahaniaeth yn y llaw. Ni sylweddolwyd wrth baratoi'r disgrifiad o'r llawysgrif ar y cyd â Daniel Huws ar gyfer *RWMS*, I, tt.716–17 fod y rhan hon yn gynharach: dylid addasu'r disgrifiad (a chan hynny'r tabl cronolegol yn

Dyma, felly, lawysgrif a ysgrifennwyd dros gyfnod estynedig, ac ni rwymwyd y dalennau yn y drefn y'u hysgrifennwyd. Fel y dangosir isod, yr hyn a geir yn y deunydd amrywiol yn ail hanner y llawysgrif yw'r deunydd crai a ddefnyddiwyd gan Siôn Prys ar gyfer llunio'r cronicl achyddol ar ff.2–39. Y mae'r ffaith fod Siôn Prys yn nodi ffynonellau llawer iawn o'r testunau hyn yn ychwanegu'n aruthrol at arwyddocâd y llawysgrif hon, a phrin y gall fod amheuaeth nad y deunydd amrywiol hwn a'r ffynonellau a nodir gan Siôn Prys ar ei gyfer, yn hytrach na'r cronicl achyddol a fwydwyd ganddo, yw pennaf gogoniant FH/7. Cynigir isod amlinelliad o gynnwys y llawysgrif, sef y testunau sydd yn llaw Siôn Prys; rhoddir sylw penodol maes o law i'r ychydig destunau mewn llawiau eraill.

ff.39 <sup>v</sup> –42 <sup>v</sup>	Achau Cymreig, weithiau ar ffurf <i>gwehelythau</i> . Y cofnod cyntaf yw: 'Mam Einion ap Gwalchmai oedd Genellys vz Wrgenav [...]'. <sup>54</sup> Ar f.42 ceir rhai trioedd (e.e. 'Tri dyn a gyvanhedda llys'); ar f.42 <sup>v</sup> , yn annisgwyl, ceir agoriad y testun a adwaenir fel <i>Y Lapidari</i> ('Yma y mae y lapidare yn dechrev, yr hwnn y sydd yn traethv o [...]'), ond nid aeth Prys ymhellach. <sup>55</sup>
f.43	'Of the kynges of England': cerdd Saesneg 20 llinell o hyd yn olrhain disgyniad coron Lloegr o Wiliam I i Harri VIII.
ff.43–4	Achau Cymreig ar ddelw'r rhai ar ff.39 <sup>v</sup> –42 <sup>v</sup> .
f.45	Ach Gruffudd ap Dafydd ab Elisau ab Iorwerth ab Owain Brogyntyn.
f.45 <sup>v</sup>	'Gohelyth Kydwaladr brawd Ywain Gwynedd', ynghyd ag achau meibion eraill Gruffudd ap Cynan.
f.46	'Henway Pymtheghlwyth Gwynedd ac arvey rrei o honynt.'
f.46 <sup>v</sup>	'Plant Cau o Durkelyn', y testun wedi ei godi 'o hen lyvyr Hiraethawc'. Trafodir y testun hwn, ynghyd â'r ffynhonnell ganoloesol, isod. Fe'i dilynir gan driawd ('Tri Gwelygordd Saint Kymry' a nodyn ar etymoleg <i>Brycheynyawg</i> , testun byr a godwyd o'r un ffynhonnell i NLW 16962–3A, ff.276 a 397 gan Thomas Wiliems. <sup>56</sup>

ibid., II, tt.221–9) drwy gynnig c.1530–50 fel dyddiad ei chreu. Fel y gwelwyd uchod, yr oedd Siôn Prys yng ngwasanaeth Thomas Cromwell erbyn 1530.

<sup>54</sup> Ar bwysigrwydd Einion ap Gwalchmai, gw. Ben Guy, *Medieval Welsh Genealogy. An Introduction and Textual Study* (Woodbridge: The Boydell Press, 2020), tt.209–16.

<sup>55</sup> Dim ond tair ffynhonnell ar gyfer y testun hwn a nodir yn David Greene, 'A Welsh Lapidary', *Celtica*, 2 (1956), 96–116, sef Pen. 114, Pen. 155 ac NLW 2031B (*olim* Panton 65); ysgrifennwyd y tair ar ôl dyddiau Prys. Cynhwyswyd y *Lapidari* gan Ruffudd Hiraethog yn ei flodeugerdd o destunau, *Lloegr Drigiant Ddifyrwch Brytanaidd Gymro*; fel y gwelir isod, y mae FH/7 yn arddangos cysylltiadau agos â Gruffudd, felly nid annichon mai llawysgrif o'r eiddo ef oedd ffynhonnell Prys.

<sup>56</sup> Gw. Guy, *Medieval Welsh Genealogy*, tt.292–3.

f.47 <sup>v</sup>	‘Gohelyth perchen y llyvyr hwnn [...] 1545’: ach Siôn Prys ei hun, gan orffen â ‘Japheth ap Noe Hen’. Y mae Prys yn nodi ei ffynhonnell fel a ganlyn: ‘Hwn a ddangoses Ieuan ap Hugh Cae Llwyd ymmi’. <sup>57</sup> Fe’i dilynir gan fersiwn arall o’r ach ‘o Einion Sais y vynydd’ wedi ei darparu gan ‘Thomas Vaghan’. Y mae’r ach yn parhau ar f.48.
f.48	‘Ex Giraldo Cambrensi Odoporion siue Itinerarium Cambrie’: nodyn Lladin ar Rodri Mawr wedi ei godi o Cotton Domitian A.i. <sup>58</sup> Wedi ei ddileu ar ôl y nodyn hwn y mae pennawd ar gyfer y deunydd ar y tair dalen ddilynol, sef ‘The petygrees of the kynges of Englande ffrom Cadwalader to king Henry the seventh’; fel y dangoswyd uchod, y mae’r rhan honno gryn dipyn yn hŷn na thrwch y llawysgrif.
ff.49–51	Testun Saesneg yn dangos disgyniad Harri VIII o Gadwaladr Fendigaid ac Alfred Fawr.
f.51 <sup>v</sup>	‘Lliuer Lhwelyn ap Iorwerth Drwyndwn Tywysog Gwynedd’: disgyniad Llywelyn Fawr o Brutus ‘y brenhin kyntaf a ddyvu yr ynys hon ag or henw a elwir Ynys Brydain’.
f.52	‘Hec est geneologia Regum Ffrancorum’: testun Lladin ar ddisgyniad coron Ffrainc. Ni lwyddwyd i olrhain y ffynhonnell uniongyrchol.
ff.52 <sup>v</sup> –53 <sup>v</sup>	‘The right petygrewe of king Edward the VI <sup>th</sup> ’: cronicl achyddol Saesneg yn dangos disgyniad Edward VI o Gadwaladr Fendigaid a Choel Godebog; ‘o roll y Gyttytyn Owein y kavad hynn’.
f.54	‘Gwehelyth Edynyvet Vychan y goffair yn lliuer y brenhin Edward VI’: disgyniad Ednyfed Fychan, distain Llywelyn Fawr, o Goel Godebog a Beli Mawr. Y ffynhonnell oedd ‘hen lyvyr Hiraethog’ (gw. isod). Nid yw union ergyd ‘lliuer y brenhin Edward VI’ yn amlwg.
f.54 <sup>v</sup>	Cerdd Saesneg o waith ‘Mr John Dy’ [John Dee]; gw. ‘Testunau’ isod.
f.55 <sup>v</sup>	Detholion o’r ‘lhyfyr o Hergest’ [Jesus 111], gan gynnwys copi o’r cronicl <i>Blwydyn eiseu</i> . <sup>59</sup>

<sup>57</sup> Trafodir y nodyn hwn ymhellach yn yr adran ar ffynonellau FH/7.

<sup>58</sup> Ar y gair *odoporion*, gw. y rhuddelliad ar dudalen agoriadol yr *Itinerarium Cambriae* yn Cotton Domitian A.i (sef f.56): ‘Stephano Cantuariensi archiepiscopo in Odoporion Giraldi prefatio prima’.

<sup>59</sup> Gw. Rebecca Try, ‘A Forgotten Welsh Chronology in Aberystwyth, National Library of Wales, MS 5267B, in MS Peniarth 50, and in the Red Book of Hergest’, yn *CMWM*, tt.341–73.



ff.56–8	Copi o'r cronicl <i>O Oes Gwrtheyrn</i> wedi ei godi 'o hen lyvyr a gaweis gan Ryffydd Hiraethog pan oedd oet Christ 1550'. Ar y testun hwn, gw. ymhellach isod.
f.59	'De Oeno Glyndwr': blwyddgofnodion unigryw, AD 1400–63, yn bennaf ynghylch gwrthryfel Glyndŵr. Y mae'r cofnod ar gyfer 1415 yn awgrymu'n gryf mai'r bardd Maredudd ap Rhys <sup>60</sup> a luniodd y blwyddgofnodion hyn: 'Pan oedd oet Christ 1415 [...] y by varw Owein ap Gruffydd [...] ag y ganed Meredyd ap Rys'.
ff.60–1	Detholion o Queen's 304 ('ex libro Johannis Myrylynch Glaston'), sef disgrifiad o Ynys Prydain; gw. ymhellach isod.
f.62 <sup>r-v</sup>	Dalen rydd, efallai wedi ei chamleoli (cf. f.75 <sup>r-v</sup> ). Rhestr o feirdd Cymraeg (o'r bymthegfed ganrif gan mwyaf) a'u prif noddwyr.
ff.63–65 <sup>v</sup>	Cronicl Lladin, AD 420–1403. Ymddengys mai'r ffynhonnell oedd gwaith John de Foxton, <i>Liber Cosmographiae</i> , penodau 102–4. <sup>61</sup> Ar y diwedd atodir fersiwn Lladin o'r cronicl Cymraeg ar f.59 (y cofnodion ar gyfer AD 1400–22 yn unig); diau mai'r fersiwn Cymraeg oedd y gwreiddiol ac mai Prys ei hun a'i troes i'r Lladin.
f.66	Nodyn ar Gadwaladr Fendigaid wedi ei ysgrifennu yn 1540 ('Henry the VIII <sup>th</sup> [...] who nowe reigneth moste prosperously 1540') gydag ychwanegiad diweddarach ('Edward the VI <sup>th</sup> which nowe reigneth 1550').
ff.67–74 <sup>v</sup>	Barddoniaeth Taliesin (gw. ymhellach isod).
f.75 <sup>r-v</sup>	'Enwey beyrdd y Brytanyeid [...] hyd yn oed Krist 1545': rhagor o feirdd a'u noddwyr, gan gynnwys beirdd cynnar. Efallai y dylai f.62 ddilyn y ddalen hon.
ff.76–77 <sup>v</sup>	Cywyddau brud (gw. ymhellach isod).
ff.78–9	'O'r trioedd y tynnwyd hynn': saith triawd ( <i>TYP</i> 35, 51, 52, 3, 16, 37, 44).

<sup>60</sup> Ar Faredudd ap Rhys, gw. *BC*; Enid Roberts (gol.), *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2003).

<sup>61</sup> Gw. John B. Friedman (gol.), *John De Foxton's Liber Cosmographiae (1408). An Edition and Codicological Study* (Leiden: Brill, 1988). Dim ond un llawysgrif sy'n cynnwys y testun hwn, sef Camb. Trinity R. 15. 21, ond nid yw llaw Prys yn digwydd ynddi hyd y gwelaf i. Dengys Friedman (t.xxxi) fod y rhan dan sylw (sef penodau 99–104), sy'n cynnwys hanes y byd o'r Cread, gan ganolbwyntio ar hanes eglwysig a chyda sylw arbennig i ogledd Lloegr, yn tarddu o dablau hanesyddol ar femrwn a luniwyd yn 1377 ac a grogai gynt ar furiau eglwys gadeiriol Efrog at ddefnydd disgyblion a phererinion hyd nes iddynt gael eu tynnu i lawr yn 1534; gw. idem, 'John Siferwas and the Mythological Illustrations in the *Liber cosmographiae* of John de Foxton', *Speculum*, 58 (1983), 391–418.

f.79 <sup>v</sup>	Fersiynau Cymraeg o <i>Pater Noster</i> ac <i>Ave Maria</i> (gw. ‘Testunau’ isod). Fe’u dilynir gan englynion o waith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd (gw. ymhellach isod).
f.80	‘Diaryrhebion’: ugain dihareb yn cyfateb yn fras i <i>DLICH</i> 978, 481, 149, [ ], [ ], 179, 195, 225, 316, 823, 811, 27, 68, 182, 189, 239, 292, 297, 298 a 399 (sef ‘Testun A’ Llyfr Coch Hergest). Y mae’r drefn a’r darlleniadau’n awgrymu, fodd bynnag, nad y Llyfr Coch oedd ffynhonnell Prys. Yn hytrach, gwelir mai’r hyn a wnaeth Prys oedd codi llinell olaf rhai o’r englynion o’r gyfres a adwaenir fel ‘Englynion y Clywaid’, sef <i>BBGCC</i> 31, ll.40c, [ ], 41c, 42c, 43c, 44c, 45c, 46c, 47c, 50c, 51c, 52c, 53c, 55c, 56c, 59c, 62c, 63c, 64c, 66c. <sup>62</sup> Gan fod y drefn yn cyfateb, nid oes amheuaeth nad ‘Englynion y Clywaid’ oedd ffynhonnell Prys. Ceir dau gopi canoloesol o’r testun hwnnw, sef Llst. 27 (Llyfr Coch Talgarth), ff.161 <sup>v</sup> –163, a Jesus 20 ( <i>RMWL</i> 3; llawysgrif o Forgannwg), ff.12–15 <sup>v</sup> ; nid oes tystiolaeth arall, hyd y gwn i, i Brys weld yr un o’r ddwy, ond ymddengys mai’r ail oedd ei ffynhonnell.
f.81	‘Kyffes Taliessin’ (gw. ymhellach isod). Fe’i dilynir gan ‘Kynghoreu y gwr dall yddi vab’, sef cyfres o 21 darn o gyngor, gan ddechrau: ‘Na cheis ymddired yr neb ath vygytha’.
f.81 <sup>v</sup>	‘Y tywyssogion a vuant wedy hynny [...]’: epillog fersiwn Dingestow o <i>Frut y Brenhinedd</i> . <sup>63</sup> Nid ymddengys ei fod yn deillio o unrhyw un o’r llawysgrifau o’r fersiwn hwn a oroesodd. <sup>64</sup>
f.82	‘In Mon quod est Angleseye tres cantredi’: rhestr o gantrefi Cymru ‘ex libro rubeo’, sef Llyfr Coch y Siecr (TNA E 164/2). <sup>65</sup> Ceir yr un testun yn Balliol 353, f.164 <sup>v</sup> , a ysgrifennwyd yn 1539; y mae Prys yn nodi yno mai Thomas

<sup>62</sup> Gw. hefyd Ifor Williams a T.H. Parry-Williams, ‘Englynion y Clyweit’, *BBCS*, 3 (1926–7), 4–21; Richard Glyn Roberts, ‘Y Traddodiad Paremiologol yng Nghymru’r Oesau Canol III. Ailystyried “Englynion y Clyweit”’, *Dwned*, 14 (2008), 47–59.

<sup>63</sup> Gw. Brynley Francis Roberts, ‘Astudiaeth Destunol o’r Tri Chyfieithiad Cymraeg Cynharaf o *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy’ (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1969), tt.liiii–lxxvi; Henry Lewis (gol.), *Brut Dingestow* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1942), t.208; Patrick Sims-Williams, *Rhai Addasiadau Cymraeg Canol o Sieffre o Fynwy* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2011); Brynley F. Roberts, ‘Fersiwn Dingestow o *Brut y Brenhinedd*’, *BBCS*, 27 (1976–8), 331–61.

<sup>64</sup> Sef Llst. 5, NLW 3036B, NLW 5266B, Pen. 16 rhan (ii), Pen. 45, Pen. 46, Pen. 47 rhan (i) a Card. 1.362.

<sup>65</sup> Ceir copi cynnar o Lyfr Coch y Siecr yn Harg. 313; argreffir testun y rhestr o’r llawysgrif honno yn *RMWL*, II, tt.939–40. Hoffwn ddiolch i Dr Euryn Rhys Roberts am adael imi weld drafft o’i erthygl ar y rhestr hon.

	Soulemont (m.1541) <sup>66</sup> a gopiodd y testun o Lyfr Coch y Siecr ac a'i gyrodd ato.
f.83 <sup>r-v</sup>	Rhestr o gantrefi a chymydau sir Gaernarfon, Môn a sir Feirionnydd yn deillio o Cotton Domitian A.viii (sy'n cynnwys nodiadau yn llaw Prys). <sup>67</sup>
f.85	Englyn a briodolir i Iolo Goch.
f.86 <sup>r-v</sup>	Rhagor o drïoedd, yn dechrau 'Tri santaidd Linys Ynys Prydain', <sup>68</sup> y mae'n cyfateb yn agos i destun Pen. 50 (Y Cwttā Cyfarwydd), tt.149–52, sef y ffynhonnell uniongyrchol yn ddiâu. Dyma'r unig dystiolaeth, hyd y gwn i, i Brys weld y llawysgrif honno. <sup>69</sup>
f.87 <sup>v</sup>	'Thynges to be copied here': rhestr fer o destunau y bwriadai Prys eu copïo, barddoniaeth yn bennaf; gw. ymhellach isod, lle y trafodir hefyd y ddau bennill sy'n dilyn y rhestr.
f.88	'Ex Gilda': sef, mewn gwirionedd, <i>Historia Brittonum</i> . Y mae copi Prys o'r testun hwnnw, a grybwyllir yn fynych ganddo yn <i>Historiae Brytannicae defensio</i> , ar goll, ond diogelwyd copïau ohono yn Pen. 252 (yn llaw Siôn Dafydd Rhys), Cotton Vitellius F.ix ac Add. 4787. <sup>70</sup>
ff.88 <sup>v</sup> –90	Detholion o Henry of Huntingdon, <i>Historia Anglorum</i> . <sup>71</sup> Nid yw'r union gopi o'r testun poblogaidd hwn a oedd yn eiddo i Brys wedi ei adnabod hyd yma.
f.91 <sup>v</sup>	'De Arthuro': detholion o William of Malmesbury, <i>Gesta Regum Anglorum</i> ynghylch Arthur. <sup>72</sup> Trafodir ymhellach isod ffynhonnell y detholion hyn, sef Royal 13.D.v.

Isod ymdrinnir yn fanylach â rhai o'r testunau mwyaf arwyddocaol a geir yn y llawysgrif hon, ynghyd â ffynonellau Prys.

<sup>66</sup> Ar Soulemont, gw. *ODNB*.

<sup>67</sup> Argreffir testun Cotton Domitian A.viii yn *RMWL*, II, tt.940–3, a nodyn Prys ar sir Frycheiniog ar t.944.

<sup>68</sup> Gw. *TYP*, tt.246–55.

<sup>69</sup> Defnyddiwyd Pen. 50 gan Rice Merrick; gw. Rice Merrick, *Morganiae Archaio-graphia. A Book of the Antiquities of Glamorganshire*, gol. Brian Ll. James (Barry Island: South Wales Record Society, 1983), tt.xxviii–xxix; ymddengys hefyd i'r llawysgrif fod ym meddiant Siôn Dafydd Rhys (gw. *RWMS*, I, tt.358–9). Ar y cyswllt rhwng Siôn Prys a Siôn Dafydd Rhys, gw. ymhellach isod.

<sup>70</sup> Gw. Daniel Huws, 'Gildas Prisei', *CLIGC*, 17 (1971–2), 314–20.

<sup>71</sup> Sef Diana Greenway (gol. a chyf.), *Henry, Archdeacon of Huntingdon. Historia Anglorum (History of the English People)* (Oxford: Clarendon Press, 1996), [Liber I], §1–6.

<sup>72</sup> Sef R.A.B. Mynors *et al.* (gol.), *William of Malmesbury. Gesta Regum Anglorum. The History of the British Kings*, 2 gyf. (Oxford: Clarendon Press, 1998), §8.2–3.

Ac eithrio'r gerdd ar f.54<sup>v</sup>, a drafordir mewn rhagor o fanylder yn yr adran ar y cyfraniadau gan lawiau eraill isod, yr unig gerdd mewn iaith heblaw'r Gymraeg yn FH/7 yw'r gerdd Saesneg ar f.43, 'Of the kynges of England', cerdd dra anarbennig sy'n dangos disgyniad coron Lloegr o Wiliam I i Harri VIII, efallai o waith Prys ei hun. Dyfynnir isod y pennill cyntaf:

Ffirst here by conquestes raygned the Conqueror,  
After hym William his soon [*sic*] by successione,  
Than Harry the Fyrst, his next brother,  
And so to Stephan was geuyn the domynyon.

Y mae'r farddoniaeth Gymraeg yn haeddu rhagor o sylw. Ceir ambell ddarn byr o farddoniaeth berthnasol yng nghrombil y cronicl achyddol ei hun, er enghraifft ar f.38, lle y ceir copi o englyn (a briodolir weithiau i Rys Pennardd) ynghylch gwrthryfel Glyndŵr,<sup>73</sup> ond y mae trwch y farddoniaeth yn FH/7 i'w chael ar ff.67–77<sup>v</sup>, 79<sup>v</sup>, 81 ac 87. Egyr y bloc hwn â chorff bychan ond arwyddocaol o gerddi a briodolir i Daliesin, cerddi y dychwelir atynt yn y man. Ar ff.76–77<sup>v</sup> ceir dau gywydd brud, y cyntaf wedi ei briodoli i Ddafydd Llwyd o Fathafarn<sup>74</sup> a'r llall yn ddiennw.<sup>75</sup> Ar f.79<sup>v</sup> wedyn ceir copi o 'Englynion y tair llythyren' o waith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, arwydd pendant o argyhoeddiadau crefyddol amwys Prys (yn enwedig o ystyried y ceir fersiynau Cymraeg o *Pater Noster* ac *Ave Maria* ar yr un tudalen); y mae'r testun yn cyfateb yn agos i destun Llyfr Coch Hergest, sef y ffynhonnell yn ddiau.<sup>76</sup> Ac fe fwriadai Prys gopiö rhagor o farddoniaeth: ar f.87<sup>v</sup>, ymysg y rhestr o 'thynges to be copied here', ceir 'confessio Gr' ap Mered',<sup>77</sup> 'Dadolwch Kyndelw',<sup>78</sup> a 'Marwnad Gronw Du'.<sup>79</sup> Yn

---

<sup>73</sup> Gw. sylwadau Gruffydd Aled Williams yn Michael Livingston a John K. Bollard (gol.) *Owain Glyndŵr. A Casebook* (Liverpool: Liverpool University Press, 2013), tt.214, 395–6. Cf. hefyd f.85, lle y dyfynnir englyn perthnasol a briodolir i Iolo Goch.

<sup>74</sup> Egyr y cywydd â'r llinell *Dylid y brophodoliaeth* a chly â'r llinell *affryd oer na ffryderwch*, felly y mae'n dra gwahanol i'r cywydd a briodolir i Ddafydd Llwyd ac iddo'r llinell gyntaf debyg, 'Deliais ar broffwydoliaeth', sy'n cloi â'r llinell 'Arwyrain oll Yryri'; gw. W. Leslie Richards (gol.), *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964), rhif 12. Ymddengys fod y cywydd yn FH/7 yn gopi o gywydd anolygedig a briodolir weithiau i Robin Ddu o Fôn.

<sup>75</sup> Argraffwyd y cywydd yn *ibid.*, rhif 4. O'r 29 copi a welwyd gan olygydd diweddaraf gwaith Dafydd Gorlech, y mae 14 yn ei briodoli i'r bardd hwnnw a'r lleill – ac eithrio'r ddau gopi lle na cheir priodoliad, fel yn FH/7 – yn ei briodoli i Ddafydd Llwyd; gw. Erwain H. Rheinallt (gol.), *Gwaith Dafydd Gorlech* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2007), t.8.

<sup>76</sup> Gw. Barry J. Lewis (gol.), *Gwaith Gruffudd ap Maredudd II. Cerddi Crefyddol* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2005), rhif 12.

<sup>77</sup> Sef awdl gyffes Gruffudd ap Maredudd: gw. *ibid.*, rhif 15.

<sup>78</sup> Sef, ond odid, yr awdl neu'r gyfres o englynion dadolwch a ganodd Cynddelw i'r Arglwydd Rhys; gw. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (gol.), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr II* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995), rhifau 9 a 10.

<sup>79</sup> Sef y 'teitl camarweiniol' a roddwyd ar gerdd sy'n 'bregeth ysgubol ar thema angau' (gw. Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, ail arg. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014) t.209n). 'Marwnad Gronw Ddu ap Tudur ap Heilyn' yw'r teitl a roes John Davies o Fallwyd i'w gopi ef o'r gerdd yn NLW 4973B ('Liber B'), ff.132<sup>v</sup>–133.

union o dan y rhestr fer honno ceir englyn o waith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur;<sup>80</sup> fe'i dilynir gan ddau englyn proest dychanol sydd, hyd y gwelaf i, yn unigryw. Argreffir hwy isod fel y'u ceir yn y llawysgrif:

Vnic dyrn treis gilwyrn trwsgyl  
anaf drwyn dysged dwyn dysgyl  
anhaedd ar gyrrrod baedd baskyl  
ymladdgar ym masgar mwskyl

Tad ywr coch trawsglwydvoch tresgyl  
taer drythein eskeirvein osgyl  
lheidyr crogvam mingarn mangasgyl  
lhawn drygwaed crindraen<sup>81</sup> croendrwsgyl

Dychwelwn felly at y bloc o gerddi Taliesin. Ar ff.67–68<sup>v</sup> ceir copi o'r gerdd faith, siwdo-Daliesinaidd *Difregwawd Taliesin*,<sup>82</sup> cerdd y ceir fersiwn arall ohoni ar ff.72–73<sup>v</sup>, lle'r aeth Prys ati i nodi'r darlleniadau amrywiol; ymddengys mai Llyfr Coch Hergest oedd ffynhonnell y testun cyntaf a'r darlleniadau amrywiol a ychwanegwyd at yr ail. Ar f.71 ceir fersiwn o'r gerdd y rhoddydd iddi'r teitl 'Cân Fawr am y Byd'<sup>83</sup> sy'n dra gwahanol i'r testun a geir yn Pen. 2 (Llyfr Taliesin). Ar f.70<sup>f-v</sup> ceir copi o'r gerdd *Hanes Taliesin*, cerdd y cadwyd y copi cynharaf ohoni yn Card. 3.4 yn llaw Elis Gruffydd, y milwr o Galais, c.1527, fel rhan o *Ystoria Taliesin*, ond yn FH/7 ni cheir y rhyddiaith sy'n cyd-fynd â'r gerdd, a gwelir bod rhai gwahaniaethau o ran darlleniadau a threfn y llinellau o gymharu â'r testun a olygwyd gan Patrick Ford;<sup>84</sup> ceir hefyd (ar f.74) destun pur wahanol o'r gerdd sy'n dechrau 'Kuluerdd, keisshio Jr wyf' yn *Ystoria Taliesin*.<sup>85</sup>

---

Yn union ar ôl y gerdd hon yn y llawysgrif honno ceir tudalen a hanner a adawyd yn wag, ac wedyn o f.134 hyd f.374 ceir cerddi sy'n tarddu o Lyfr Coch Hergest (gw. 'Ex' per Ll.C.' ar f.134). Nid yw Jenny Rowland ('The Manuscript Tradition of the Red Book *Englynion*', *SC*, 18/19 (1983/4), 79–95 (83)) yn cynnig ffynhonnell ar gyfer cerdd Gronw Ddu, ond y mae'n digwydd yn union ar ôl cyfres o destunau a godwyd o llawysgrifau coll, e.e. 'Marwnad Cynddylan' (ff.108–9) a'r fersiwn unigryw o englynion Llywarch Hen (ff.123<sup>v</sup>–132). Gan fod y 'teitl camarweiniol' yn hysbys i John Davies a Siôn Prys fel ei gilydd, ymddengys yn debygol mai'r llawysgrif a welsai Siôn Prys oedd yr un a fu'n ddiweddarach yn ffynhonnell i John Davies: tybed ai dalennau strae a gedwid yn rhydd yn y Llyfr Coch oeddent?

<sup>80</sup> Sef englyn olaf y gyfres o englynion i ofyn bwa; gw. N.G. Costigan *et al.* (gol.), *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1995), rhif 2. Llyfr Coch Hergest oedd ffynhonnell Prys.

<sup>81</sup> Darllener *crindraed*.

<sup>82</sup> *BBGCC*, rhif 33.

<sup>83</sup> *Ibid.*, rhif 6.

<sup>84</sup> Patrick K. Ford (gol.), *Ystoria Taliesin* (Cardiff: University of Wales Press, 1992), tt.77–8.

<sup>85</sup> *Ibid.*, tt.78–9.

Diau mai'r testun mwyaf arwyddocaol, fodd bynnag, yw'r gerdd a geir ar f.69 dan y teitl 'Angkynnif Kadwallhawn [*sic*]',<sup>86</sup> testun unigryw sy'n amlwg yn perthyn i'r cylch o ganu i Gadwallon ap Cadfan, brenin Gwynedd c.625–35, na chadwyd ond darnau gwasgarog ohono. Ni nodir nac enw bardd na ffynhonnell wrth y gerdd, ond o droi at f.17<sup>v</sup>, gyferbyn ag enw Cadwallon, ceir y gosodiad canlynol:

Yr hwn y cannoedd Taliessin y kany a elwir Angkynnif Kadwallhawn  
[...] kais honn yn hen lyvyr Hiraethog.

Wrth gwrs, y mae'n llwyr bosibl mai dychymyg Prys sy'n cyfrif am y priodoliad i Daliesin, yn enwedig gan iddo gopiö'r gerdd yng nghanol nifer o gerddi eraill wedi eu priodoli i'r un bardd,<sup>87</sup> ond y mae'r dystiolaeth ynghylch y ffynhonnell yn dra phwysig. Gan nad mewn trosolwg cyffredinol fel hwn y mae gwneud cyfiawnder â cherdd astrus a phwysig fel hon, a chan fod gennyf olygiad ohoni yn yr arfaeth, ni chynigir yma ond ychydig sylwadau rhagarweiniol ynghylch arwyddocâd presenoldeb y gerdd unigryw hon yn llawysgrif Siôn Prys.

Mewn llawysgrif nad yw bellach ar glawr,<sup>88</sup> aeth Robert Vaughan o'r Hengwrt ati i gasglu'r canu i Gadwallon.<sup>89</sup> Cynullodd ynghyd bedair cerdd, ond yn sgil colli'r llawysgrif, y mae un ohonynt, a elwir gan Vaughan yn 'I Gadwallon ap Cadfan, brenin Prydain', ar gyfrgoll; er nad yw'n gwbl amhosibl, y mae'n annhebygol mai'r un ydyw â'r gerdd a gopiwyd gan Siôn Prys yn FH/7 gan y disgwyliid gweld y teitl *Anghynnif Cadwallon* yno, teitl cynnar yn ddiau. Yn ffodus, goroesodd dwy ddalen o llawysgrif goll Robert Vaughan ymhlith papurau Lewis Morris yn Add. 14907; y mae un o'r dalennau'n cynnwys y rhan helaethaf o'r gerdd a adwaenir bellach fel 'Moliant Cadwallon'. Y mae ein gwybodaeth am y cylch hwn o ganu'n ddyledus i raddau helaeth i waith Graham C.G. Thomas.<sup>90</sup> Ffaith drawiadol ynghylch un o'r darnau a drafodir ganddo, sef y gerdd fer a briodolir i Gadwallon yn Pen. 21, f.38 yw ei fod yn cael ei ddefnyddio

---

<sup>86</sup> Ni cheir *anghynnif* yn *GPC*, ond yr hyn a geir yma yw'r rhagddodiad cadarnhaol *an-* + *cynnif* 'llafur, ymdrech, trafferth, helbul'.

<sup>87</sup> Afan Ferddig yw'r bardd a gysylltir â Chadwallon yn y trioedd; gw. *TYP*, tt.275–6.

<sup>88</sup> Sef Hengwrt MS 120; gw. W.W.E. Wynne, 'MSS. missing from the Hengwrt collection', *AC*, pedwaredd gyfres, 2 (1871), 129–37.

<sup>89</sup> Pwysir yn drwm yma ar R. Geraint Gruffydd, 'Canu Cadwallon ap Cadfan', yn Rachel Bromwich a R. Brinley Jones (gol.), *Astudiaethau ar yr Hengerdd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1978), tt.25–43; gw. hefyd John Koch (gol. a chyf.), *Cunedda, Cynan, Cadwallon, Cynddylan. Four Welsh Poems and Britain 383–655* (Aberystwyth: University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, 2013), tt.161–229.

<sup>90</sup> Gw. Graham C.G. Thomas, 'Dryll o hen lyfr ysgrifen', *BBCS*, 23 (1968–70), 309–16; idem, 'Llinellau o Gerddi i Gadwallon ap Cadfan', *ibid.*, 26 (1974–6), 406–10; idem, 'A verse attributed to Cadwallon fab Cadfan', *ibid.*, 34 (1987), 67–9.

mewn modd nid annhebyg i'r modd y'i defnyddir gan Brys yn FH/7, sef fel ateg i naratif hanesyddol ynghylch Cadwallon (sef, yn achos Pen. 21, *Brut y Brenhinedd*).

Cynigir trawsgrifiad o destun Prys yn yr adran 'Testunau' isod. A barnu wrth y bylchau yn y testun, yr oedd y gysail yn annarllenadwy mewn manau, ac efallai'n garbwl; y mae'n amlwg i Brys gael trafferth ei deall, ac efallai fod hynny'n esbonio pam na chafwyd ymgais gan neb arall i'w chopio. Posiblwydd arall yw nad oedd y gysail, 'Hen Lyfr Hiraethog', ar gael i unrhyw hynafiaethydd arall; os Gruffudd Hiraethog oedd ei pherchennog, buesid yn disgwyl iddi fod wedi cyrraedd Hengwrt maes o law, a chan hynny disgwylid gweld ymgais gan Robert Vaughan i gopïo 'Anghynnif Cadwallon'. Erys llawer o waith i'w wneud ar y gysail, ond gan nad ymddengys i Robert Vaughan ei gweld, y tebyg yw ei bod wedi mynd ar gyfrgoll cyn ei ddyddiau ef; dichon ei bod mewn cyflwr gwael pan welwyd hi gan Brys.

### *Ffynonellau coll*

Nodwyd eisoes mai un o bennaf gogoniannau'r llawysgrif hon yw'r ffaith fod Prys, mewn modd sy'n nodweddiadol o'i ysbryd Dyneiddiol, yn cofnodi nifer o'i ffynonellau; nodwyd y mwyafrif ohonynt yn y tabl a gynigiwyd uchod o gynnwys y llawysgrif. Y mae ambell ffynhonnell, fel Jesus 111 (Llyfr Coch Hergest), Pen. 50 (Y Cwta Cyfarwydd), Cotton Domitian A.i a TNA E 164/2 (Llyfr Coch y Siecr), wedi goroesi, ond ceir hefyd sawl cyfeiriad at ffynonellau a aeth ar lwyr gyfrgoll, gan gynnwys ffynonellau llafar. Ymdrinnir â'r ffynonellau hynny isod.

Crybwyllwyd uchod, yng nghyd-destun *Anghynnif Cadwallon*, gyfeiriad Prys at 'hen lyvyr Hiraethawc', llawysgrif a oedd, ond odid, yn eiddo i Ruffudd Hiraethog ac a ddangoswyd i Brys pan ymwelodd Gruffudd ag ef tua 1550. Y mae Prys yn nodi'r un ffynhonnell mewn dau le arall, sef f.46<sup>v</sup>, lle y ceir 'Plant Cau o Durkelyn', triawd ('Tri Gwelygordd Saint Kymry') a nodyn ar etymoleg *Brycheiniog*, ac ar f.54, lle y ceir ach Ednyfed Fychan; nid annichon mai'r un llawysgrif yw'r 'hen lyvyr a gaveis gan Ryffydd Hiraethog pan oedd oet Christ 1550', sef ffynhonnell y copi o *O Oes Gwrtheyrn* ar ff.56–8. At hynny, y mae'n llwyr bosibl fod rhagor o destunau FH/7 yn deillio o'r un ffynhonnell. Gwelwyd eisoes fod Thomas Wiliems wedi codi'r nodyn ar etymoleg *Brycheiniog* i NLW 16962–3A o'r un ffynhonnell; gan mai casgliad

o achau yw'r llawysgrif honno gan mwyaf, nid yw'n amhosibl mai Hen Lyfr Hiraethog oedd ffynhonnell peth, o leiaf, o'r deunydd achyddol hwnnw. Y mae astudiaeth destunol fanwl o destunau FH/7 er mwyn ceisio pennu pa rai a allai ddeillio o Hen Lyfr Hiraethog yn syrthio y tu hwnt i ffiniau'r gipdrem a gynigir yma. Gellir nodi, fodd bynnag, fod peth tystiolaeth yn awgrymu mai llawysgrif ddeheuol ydoedd: noda Owain Wyn Jones fod testun *O Oes Gwrtheyrn* yn gytras â thestunau Jesus 111 (Llyfr Coch Hergest) a Pen. 32 (Y Llyfr Teg),<sup>91</sup> dwy lawysgrif o Forgannwg, ac ategir hyn gan y nodyn ar etymoleg Brycheiniog; y mae *Anghynnif Cadwallon* ac ach Ednyfed Fychan, fodd bynnag, yn awgrymu cysylltiadau gogleddol, a dadleuodd Owain Wyn Jones<sup>92</sup> yn argyhoeddiadol mai yn abaty Aberconwy y lluniwyd *O Oes Gwrtheyrn*, lleoliad a fyddai'n dra addas ar gyfer copïo *Anghynnif Cadwallon* o ystyried y cyfeiriadau a geir ynddi at Ddegannwy. Ac a barnu wrth gopi Prys o 'Plant Cau o Durkelyn', lle y ceir *u* yn cynrychioli /u/, yr oedd yn llawysgrif o gryn hynafiaeth: llawysgrif y byddai'n dra boddhaol gwybod rhagor amdani.

Ffynhonnell goll arall a enwir yw 'roll y Gytyn Owein', sef ffynhonnell y cronicle achyddol byr ar ff.52<sup>v</sup>–53<sup>v</sup> sy'n dangos disgyniad Edward VI o Gadwaladr Fendigaid.<sup>93</sup> Yn annisgwyl, Saesneg yw iaith y testun hwn; anodd dychmygu mai Saesneg fuasai iaith rholyn gwreiddiol Gutun Owain gan mai prin iawn yw'r deunydd Saesneg yn ei lawysgrifau ef. Haws fyddai credu mai cyfieithiad gan Brys a geir yma. Ymddengys mai rholyn gwahanol yw'r un a grybwyllir ar f.35, yng nghrombil y prif gronicle achyddol, sef 'rol Hiraddyc'. Y mae enw un gŵr yn annatod glwm wrth y lle hwnnw, sef Dafydd Ddu o Hiraddug, a oedd yn ei flodau yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg; ni ellir ond dyfalu ynghylch unrhyw gysylltiad rhwng Dafydd Ddu a'r rholyn a welsai Prys.

Ar f.38<sup>v</sup>, tua diwedd y cronicle achyddol, ceir y coloffon diddorol canlynol:

[ ] a escrivennodd y llyvyr hwnn pan oedd oed Crist  
1508 mlynedd.

Ef a ddywaid ymi Sion ap Rhys, a escrivennodd y llyfyr hwnn i  
Thomas Vychan brydydd, mae Ievan ap Howell Swrdwall oed[d] athro  
y llyvyr hwnn, a elwid y Cronik Byrr or kyntaf. Ythyr vn o henw

<sup>91</sup> Gw. Owain Wyn Jones, 'O Oes Gwrtheyrn: A Medieval Welsh Chronicle', yn *CMWM*, tt.169–229 (178–9).

<sup>92</sup> *Ibid.*, tt.179–82.

<sup>93</sup> Ar Gutun Owain, gw. *BC*; *ODNB*; *RWMS*, II, tt.43–4; Thomas Roberts, 'Llawysgrifau Gutun Owain, a thymor ei oes', *BBCS*, 15 (1952–4), 99–109; J.E. Caerwyn Williams, 'Gutun Owain', yn A.O.H. Jarman a Gwilym Rees Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature 1282–c.1550*, adolygwyd gan Dafydd Johnston (Cardiff: University of Wales Press, 1997), tt.240–55.



Lhygliw oedd wedi yskrivenny y henw yn niwed[d] y lhyvyr, ag e ddaroedd yr ryw dyn ddiley yr enw kyntaf ar eil y gwr hynny wrth y gravy alhan or pappyr. Ef allhey [sic] mae Rhys ap Dd Lhwyd ap Lln' Lhygliw ydoedd, kanys yr oed[d] y vath brydydd a hwnnw[.]

O droi wedyn at y clawr blaen, ceir y nodyn canlynol yn llaw Prys:

The Cronicle of Englande from [ ]  
to King Harri the seventh of w[ ]  
taken out and exemplified by me John [ ]  
out of a very ancient boke of Welche w[hich]  
semed to [...]

Oherwydd traul y canrifoedd, y mae'r nodyn yn anodd ei ddarllen ac yn anghyflawn mewn manau.<sup>94</sup> Yn union uwchben y nodyn hwn, eto yn llaw Prys, ceir y teitl 'Kronic Kymraeg / Cronig Byrr Kymraeg', sy'n cyfateb i'r teitl a roddir yn y coloffon uchod.

Yr oedd Ieuan ap Hywel Swrdwal, fel ei dad, yn fardd; ym marn golygydd diweddaraf ei waith, yr oedd yn ei flodau rhwng c.1440 a c.1470, ond nodir hefyd ei bod yn bosibl iddo fyw hyd ddechrau teyrnasiad Harri VII yn 1485.<sup>95</sup> Ymddengys yn annhebygol felly mai ef oedd yn gyfrifol am y coloffon dyddiedig 1508 a gopiwyd gan Brys, a pha un bynnag, y mae peth amwysedd i'r nodyn ynghylch Ieuan sy'n dilyn, felly ni raid rhoi gormod o bwys ar y priodoliad i Ieuan.<sup>96</sup> Amwys hefyd yw'r cyfeiriad at yr 'vn o henw Lhygliw' y dywed Prys fod rhywun wedi dileu ei enw bedydd trwy grafu'r papur.<sup>97</sup> Dyfalodd Prys mai Rhys ap Dafydd Llwyd ap Llywelyn Lygliw ydoedd, ond gallai'r un mor rhwydd fod yn gyfeiriad at un o'r Llygliwiaid eraill – Hywel ab Einion Lygliw, Llywelyn ap Gwilym Lygliw neu'r enwocaf oll ohonynt,

<sup>94</sup> Yr wyf yn ddiolchgar i Sarah Bridges, rheolwraig yr archifdy, am ganiatáu imi ddefnyddio golau uwchfioled er mwyn amlygu'r testun pŵl, a hefyd am ddarparu delweddau o ansawdd uchel o'r llawysgrif yn ei chrynswth.

<sup>95</sup> Gw. Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Hywel Swrdwal a'i Deulu* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2000), tt.13–14.

<sup>96</sup> Y mae 1508 yn cyd-daro'n dda â'r cyfnod pryd yr oedd y bardd a'r achyddwr Ieuan Brechfa yn ei flodau: tybed a fu i'r sawl a roes yr wybodaeth ynghylch awduriaeth y cronicle i Brys gymysgu rhwng dau Ieuan (ar Ieuan Brechfa, gw. *RWMS*, II, t.63; Ben Guy, 'Brut Ieuan Brechfa: A Welsh Poet Writes the Early Middle Ages', yn *CMWM*, tt.375–419)? Y mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod Lewys Dwnn (c.1545–c.1616) yn crybwyll 'rhol deg o Adda hyd Edw: 1 yn lladin or holl frenhinoedd' a 'llyfr kronig kymraeg' o wneuthuriad Hywel Swrdwal, tad Ieuan, a oedd bryd hynny ym meddiant y bardd Owain Gwynedd (dyfynnir o *Llist*. 156 yn *RMWL*, II, t.733).

<sup>97</sup> Y mae enghreifftiau o'r arfer gresynus o ddileu enwau mewn coloffonau yn niferus; gw., e.e., Pen. 9, a ysgrifennwyd yn 1336 ar gyfer noddwr sydd bellach yn anhysbys, a Pen. 23, lle y mae'r enw ar ôl 'Iste liber constat [...]' ar f.109<sup>v</sup> wedi ei guddio'n fwriadol gan staen trwchus. At hynny, ceir ambell enghraifft o gopiwr yn priodoli gwaith cynharach iddynt hwy eu hunain, e.e. Pen. 183, t.291, lle y gwelir y bardd Wiliam Dyfi'n llithro trwy ddechrau copïo enw'r bardd a'r achyddwr Hywel ap Syr Mathew o'i gynsail, cyn ei ddileu ac ychwanegu ei enw ei hun.

Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Lygliw, a ganai i Owain Glyndŵr ymhlith eraill.<sup>98</sup> Tameidiog, fodd bynnag, yw ein gwybodaeth am bob un o'r beirdd hyn, ac nid oes unrhyw dystiolaeth arall, hyd y gwn i, am weithgarwch achyddol ar eu rhan, felly erys y priodoliad yn ddirgelwch.

Y mae'r cyfeiriadau hyn at Ieuan ap Hywel Swardwal a'r bardd llygliw anhysbys yn enghreifftiau o'r modd yr oedd Siôn Prys, nid yn annhebyg i William Salesbury, yn bont rhwng yr hen ddysg farddol Gymreig a'r delfrydau Dyneiddiol newydd yng Nghymru tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg: trafodwyd eisoes y cysylltiadau rhwng Prys a Thomas Vaughan, a thrafodir ymhellach isod y cysylltiadau uniongyrchol rhyngddo a dau fardd nodedig, sef Gruffudd Hiraethog a Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan. Ceir enghraifft arall ar f.47<sup>v</sup>, lle y rhydd Prys ddau fersiwn o'i ach ei hun, y cyntaf wedi ei ddarparu gan 'Ieuan ap Hugh Cae Llwyd [...] ar davod lyverydd', a'r ail ('o Einion Sais y vynydd') gan Thomas Vaughan. Y mae'r cyfeiriad at Ieuan ap Huw Cae Llwyd yn annisgwyl: os gwir iddo, ynghyd â'i dad, fynd i Rufain ar bererindod yn 1475, y mae'n anodd credu y buasai'n dal ar dir y byw yn 1545, pryd y cofnododd Prys ei ach yn FH/7; y mae'n llawer mwy tebygol mai yn ei ieuenctid y cafodd Prys y fersiwn hwn o'i ach gan y bardd.<sup>99</sup> Pa un bynnag, y mae'n dystiolaeth brin a gwerthfawr ynghylch y modd y trosglwyddid gwybodaeth rhwng gwarcheidwaid yr hen ddysg farddol a'r sawl a gofleidiodd ysbryd Dyneiddiol y cyfnod.

Cyn troi at y deunydd yn FH/7 sydd mewn llawiau eraill, y mae'n werth crybwyll dwy lawysgrif a fu'n ffynonellau i Brys ond na wyddid cyn hyn iddo eu gweld. Crybwyllwyd y gyntaf eisoes, sef Queen's 304, ffynhonnell y disgrifiad o Brydain ar ff.60–1. Ar frig y testun ceir y nodyn 'Ex libro Glaston' decerpta'; ar y diwedd ceir 'Ex libro Johannis Myrylynch Glaston'. Yr oedd John Moorlinch (Merelynych) yn fynach yn abaty Benedictaidd Glastonbury ac yn ei flodau tua 1400; goroesodd pum llawysgrif hardd yn ei law arbennig, sef Harl. 641 (ff.118–206), Harl. 651 (ff.185–91), Bodl. Laud Lat. 4, Queen's 304 a llawysgrif ym meddiant

---

<sup>98</sup> Ar y teulu hwn, gw. Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiadaid Eraill* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2000). Ynghylch yr olaf, dywed Dafydd Johnston: 'A number of learned references and a smattering of Latin in his poems suggest that he had some ecclesiastical education' (gw. *ODNB*). Dylid nodi bod yr ysgrifwr William Pries, tua 1588, yn galw Gruffudd Llwyd yn 'chawnsler o eglwys Hennffordd' (gw. Card. 2.26 (*RMWL* 18), t.193), cyfeiriad gogleisiol na chafwyd unrhyw ateg iddo yn unman.

<sup>99</sup> Dylid nodi, fodd bynnag, mai simsan braidd yw'r dystiolaeth i Ieuan fynd i Rufain yn 1475: y mae'n seiliedig ar gyfeiriad yn un o'i gerddi a allai'n hawdd fod yn gyfeiriad stoc (gw. Leslie Harries (gol.), *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953), tt.26–7).

Dr Simon Keynes (dalennau strae o Queen's 304).<sup>100</sup> Y mae Queen's 304 yn llawysgrif sylweddol ac iddi 196 o ddalennau'n mesur *c.*375×*c.*250 mm.; ymhlith ei chynnwys y mae tablau'n dangos achau brenhinoedd Lloegr a Ffrainc o waith Moorlinch ei hun.<sup>101</sup> Y mae'n llawysgrif uchelgeisiol a addurnwyd yn gain, ond cyn i FH/7 ddod i'r fei, ni wyddid ei bod ymhlith y llawysgrifau a ddefnyddiwyd gan Siôn Prys. Y mae ymylon llydain y llawysgrif yn lân ar y cyfan, ond ar ff.7, 12<sup>v</sup>, 14<sup>v</sup> ac 86 ceir nodiadau mewn llaw na raid wrth betruster cyn ei phriodoli i Brys. Ymhle, ynteu, y gwelodd Prys y llawysgrif? Yr oedd yn Queen's yn nyddiau John Bale (1495–1563), ond yn hanner cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg yr oedd yn rhan o gasgliad Syr Simonds D'Ewes (1602–50). Ar f.178 ceir nodyn dyddiedig 1571 gan ryw Richard Gunbury; dichon felly ei bod wedi crwydro o Queen's cyn y flwyddyn honno (dychwelodd i Queen's ryw bryd rhwng 1697 ac 1718). Nid annichon iddi ddod i feddiant Bale ei hun; gellir nodi Harl. 1751 fel enghraifft o lawysgrif a welwyd ganddo yn Queen's ond a oedd erbyn 1553 yn ei feddiant personol ef. Ymddengys yn debygol mai yn yr 1540au y gwelodd Prys y llawysgrif, ond nid yw'n eglur ar hyn o bryd a oedd yn eiddo iddo ai peidio.

Y man cychwyn o ran yr ail lawysgrif yw un o lawysgrifau Prys yn Henffordd, sef P. V. I (neu P. 4 yn rhestr Ker; ceir darn strae ohoni yn Bodl. e Mus. 93).<sup>102</sup> Daeth y llawysgrif hon i feddiant Prys o gell abaty Battle yn Aberhonddu;<sup>103</sup> cynhwysai'n wreiddiol wyth o rannau, gan gynnwys (rhan (8)) y testun o Gildas-Nennius y rhoddai Prys gymaint o bwys arno, ond fel y nodi Prys mewn nodyn ar y ddalen weili olaf (f.153), gwahanwyd y rhan hon oddi wrth y brif lawysgrif yn 1550 gan Brys ei hun, a'i gyrodd i Lundain er mwyn i'w was, William Say,<sup>104</sup> gymharu'r testun â thestun llawysgrif arall a ddaeth i'w sylw:

---

<sup>100</sup> Ar Moorlinch, gw. Richard Sharpe, *A Handlist of the Latin Writers of Great Britain and Ireland Before 1540* (Turnhout: Brepols, 1997), t.283; ar y llawysgrifau o Glastonbury, gw. N.R. Ker (gol.), *Medieval Libraries of Great Britain. A List of Surviving Books*, ail arg. (London: Offices of the Royal Historical Society, 1964), tt.90–1; idem (gol.), *Medieval Libraries of Great Britain. A List of Surviving Books. Supplement to the Second Edition*, gol. Andrew G. Watson (London: Offices of the Royal Historical Society, 1987), t.38.

<sup>101</sup> Ceir disgrifiad manwl o'r llawysgrif, ynghyd â ffacsimiliau, yn Peter Kidd, *A Descriptive Catalogue of the Medieval Manuscripts of the Queen's College, Oxford* (Oxford: The Oxford Bibliographical Society, 2016), tt.125–31 a phlât XX.

<sup>102</sup> Yr wyf yn ddiolchgar i'm cyfaill Dr David Callander am ei gymorth anhepgor wrth ddechongli'r deunydd canlynol; eiddod fi, er hynny, yw unrhyw wallau.

<sup>103</sup> Yn y drafft cynharach o *Historiae Brytannicae defensio* yn Cotton Titus F.iii, eglura Prys sut y daeth y llawysgrif hon i Aberhonddu; gw. Davies, *John Prise*, t.xlvi n.146.

<sup>104</sup> Yn 1535, ar gais Prys, lluniodd Say gasgliad o siarteri mynachlogaidd; gw. S.E. Kelly (gol.), *Charters of St Augustine's Abbey, Canterbury, and Minster-in-Thanet* (Oxford: Oxford University Press, 1995), tt.lxx–lxxi, lle'r awgrymir mai llawysgrif Eglwys Gadeiriol Winchester XXB (Q) yw copi glân Say. Gw. hefyd George Garnett, *The Norman Conquest in English History. Volume I: A Broken Chain?* (Oxford: Oxford University Press, 2020), tt.313–18.

Excepi ego Joannes Prise et misi Londinum ad Willelmum Sae, famulum meum, ut ipse eum libellum conferret et examinaret cum libello eiusdem inscriptionis quem videram in camera domini Mantravers in aula domini Regis apud Westmonasterium anno Domini 1550.<sup>105</sup>

[*Cymerais i, Siôn Prys, [y llyfr] allan a'i anfon i Lundain i William Say, fy ngwas, fel y gallai ef archwilio'r llyfr hwn a'i gymharu â llyfr o'r un testun yr oeddwn wedi ei weld yn ystafell Mr Mantravers yn neuadd yr arglwydd Frenin, San Steffan, ym mlwyddyn yr Arglwydd 1550.*]

Llwyddodd Neil R. Ker i adnabod y llawysgrif hon, sef Royal 13 D.v, llawysgrif a ysgrifennwyd yn abaty St Albans yn y drydedd ganrif ar ddeg ac sy'n cynnwys casgliad o destunau hanesyddol, yn eu plith *Historia regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, *Historia Brittonum* a dau o weithiau William of Malmesbury (*Gesta regum Anglorum* a *Gesta pontificum Anglorum*); ymddengys fod peth o'r gwaith rhuddellu ynddi yn llaw Matthew Paris, a cheir ynddi hefyd nodiadau yn llaw Polydore Vergil.<sup>106</sup>

Y mae FH/7 yn cynnig rhagor o oleuni ar yr hanes hwn. O droi at f.91<sup>v</sup>, sef tudalen olaf y llawysgrif, ceir dyfyniad ynghylch Arthur a godwyd o *Gesta regum Anglorum*, ynghyd â disgrifiad manwl o'r ffynhonnell:

Excerpta sunt superius annotata ex Libro pervetusto de historiis Britannie delato ad Regem Henricum VIII ex monasterio Sancti Albani et reposito in Bybliothecam regiam infra domum Eboracon[ ] siue Newehall prope Westmonasterium per famulum domini Arundell Comitum tunc Camerarii domesti[ci] eiusdem domini Regis qui eum Librum ex Bibliotheca illa mutuatus erat ad tempus. Hic liber coopertus est nigro veluto siue panno consimili quem anglice vocant fustian of Naples. Et quibusdam [ ] Bullis ad quatuor angulos medio que vtrinque ornat[us]. Anno domini 1549. Liber ille continebat inter alia historiam cuiusdam Johannes de Sancto Albanio. Et Librum sic inscriptum maiusculus litteris. Gesta Britonum a Gild[e] Sapiente composita.

[*Tynnir y cofnodion uchod o lyfr hynafol o hanesion Prydain a gymerwyd i'r Brenin Harri VIII o fynachlog St Albans a'i roi yn y Llyfrgell Frenhinol o fewn [ ] neu Newehall ger San Steffan trwy was i'r arglwydd Iarll Arundel, Canghellor [ ] ar y pryd i'r un arglwydd Frenin a oedd wedi benthyg y llyfr o'r llyfrgell honno am*

<sup>105</sup> Dyfynnir yn Huws, 'Gildas Preisei', 319–20.

<sup>106</sup> Gw. Ker, 'Sir John Prise', 7, 20–1; Davies, *John Prise*, t.296 n.13.

*gyfnod. Gorchuddiwyd y llyfr hwn â defnydd du neu frethyn tebyg, yr hyn a alwant yn Saesneg fustian of Naples. Addurnwyd y llyfr â bylau efydd ar ei bedair cornel, yn y canol ac ar y ddwy ochr. Blwyddyn yr Arglwydd 1549. Cynhwysai'r llyfr hwnnw, ymysg pethau eraill, hanes rhyw Ieuan o St Albans a llyfr wedi ei ysgrifennu felly â llythrennau majuscule 'Gweithredoedd y Brythoniaid wedi ei gyfansoddi gan Gildas Ddoeth'.]*

O dan y nodyn hwn ceir y memorandwm canlynol:

Memorandum quod ego Johannes Priseus eodem anno misi Librum perantiquum inscriptum similiter sub Gilde sapientis nomine Willelmo Sae famulo meo ad conferendum cum Libro praedicto quem non dum recepi ab eodem Willelmo. 11 Iunii 1550.

*[Cofnod fy mod i, Siôn Prys, yn yr un flwyddyn wedi anfon llyfr hynafol, a arysgrifennir mewn ffordd debyg ag enw Gildas Ddoeth, i William Say, fy ngwas, er mwyn ei gymharu â'r llyfr rhagddywededig, yr hwn na chefais yn ôl eto gan y William hwnnw, 11 Mehefin 1550.]*

Diau mai cyfeiriad at yr un llawysgrif, sef Royal 13 D.v, sydd yma: daeth y teitl Barwn Maltravers (a enwir gan Brys yn llawysgrif Henffordd) yn un o isteitlau Ieirll Arundel (a enwir yn FH/7) yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn hynny o beth, y mae'r nodyn FH/7 yn cynnig gwybodaeth werthfawr o ran *provenance* Royal 13 D.v, a hefyd ynghylch y rhwymiad hardd (y gwreiddiol, ond odid) yn yr unfed ganrif ar bymtheg, rhwymiad nad ydyw, ysywaeth, wedi goroesi. At hynny, y mae'r ffaith fod FH/7 yn cynnwys testun a godwyd o'r llawysgrif honno (sef y detholion o *Gesta regum Anglorum*) yn awgrymu bod Prys ei hun wedi gweld y llawysgrif, neu ynteu fod William Say wedi copïo peth o'i chynnwys ac mai ei gopi ef oedd ffynhonnell uniongyrchol Prys. Gan hynny, y mae'n werth dyfynnu geiriau Neil R. Ker:

His Malmesbury, *Gesta Regum*, apparently of Stubbs's B edition, and his Henry of Huntingdon have not been identified, nor the copy of Gervase of Canterbury which he used.<sup>107</sup>

Ymddengys yn annhebygol, fodd bynnag, mai Royal 13 D.v oedd ffynhonnell y dyfyniadau o *Gesta regum Anglorum* a geir gan Brys yn ei *Historiae Brytannicae defensio* gan y perthyn y

---

<sup>107</sup> Ker, 'Sir John Prise', 6.

testun hwnnw i fersiwn ‘C’.<sup>108</sup> Golyga hynny fod ganddo ddau fersiwn o’r un testun wrth law, sydd braidd yn annisgwyl; efallai, fodd bynnag, fod y dystiolaeth newydd a gynigir uchod yn golygu y dylid adolygu’r mater.

Bellach, y mae’r darn o lawysgrif Henffordd a anfonwyd gan Brys i Lundain, ysywaeth, ar goll,<sup>109</sup> ond fel y dangosodd Daniel Huws, goroesodd tri chopi ohono, gan gynnwys copi Siôn Dafydd Rhys yn Pen. 252, tt.125–63.<sup>110</sup> Ac fel y gwelir isod, y mae Siôn Dafydd yn ffigwr canolog yn hanes diweddarach FH/7.

### *Deunydd mewn llawiau eraill*

Fel y dywedwyd eisoes, y mae’r rhan helaethaf o ddigon o’r llawysgrif hon, gan gynnwys y deunydd a ysgrifennwyd c.1530, yn llaw Siôn Prys. Y mae tri chyfraniad byr ond arwyddocaol gan lawiau eraill, fodd bynnag, yn haeddu sylw manwl. Gwnaed o leiaf ddau ohonynt yn ystod oes Siôn Prys, hynny yw, cyn 15 Hydref 1555; dichon fod y trydydd cyfraniad, fel y dangosir isod, hefyd wedi ei wneud tra oedd Siôn Prys ar dir y byw.

Y cyfraniad cyntaf a drafodir yw’r testun ar f.1<sup>v</sup>, sef *Plant Kaw o Brydynn*. Collwyd peth o’r testun oherwydd traul, ond gwelir bod 23 o feibion a thair merch yn cael eu rhestru. Y mae’r testun hwn yn llaw ddigamsyniol y bardd a’r herodr Gruffudd Hiraethog (m.1564), gŵr a grybwyllwyd eisoes yng nghyd-destun ‘Hen Lyfr Hiraethog’. Fel y dywed Daniel Huws,<sup>111</sup> Gruffudd Hiraethog oedd y ffigwr blaenllaw o ran y traddodiad barddol Cymreig erbyn tua 1545. Yr oedd yn ddisgybl i Lewys Morgannwg,<sup>112</sup> a oedd yntau yn ei dro’n ddisgybl i Dudur Aled, ac fe berthyn iddo gryn bwysigrwydd fel pont rhwng y traddodiad barddol, a gynrychiolir gan Dudur Aled a Lewys Morgannwg, a’r dyneiddwyr, a gynrychiolir gan William Salesbury

---

<sup>108</sup> Gw. William Stubbs (gol.), *Willelmi Malmesbiriensis monachi, De Gestis Regum Anglorum libri quinque; Historiae novellae libri tres*, 2 gyf. (London: Her Majesty’s Stationery Office, 1887–9), I, tt.lxxxiii–lxxxiv.

<sup>109</sup> Felly hefyd rhan (6) (‘De constructione ecclesie Belli’), a oedd yn Henffordd o hyd yn 1614; daeth rhan (7), sef cydiad o wyth nalen, i feddiant yr hynafiaethydd Silas Taylor (1624–78), a’i cyflwynodd i lyfrgell Bodley yn 1658 (bellach e Mus. 93).

<sup>110</sup> Huws, ‘Gildas Preisei’; bernir yno mai tua 1590×1600 y gwnaeth Siôn Dafydd ei gopi.

<sup>111</sup> *RWMS*, II, t.41.

<sup>112</sup> Goroesodd trwydded farddol Gruffudd Hiraethog, a roddwyd yn 1545/6 ac a lofnodwyd gan Lewys Morgannwg ac eraill, fel Pen. 194 rhan (i).

a Siôn Prys.<sup>113</sup> Cyhoeddodd Salesbury gasgliad Gruffudd o ddjarhebon yn 1547 fel *Oll synnwyr penn Kembero ygyd*, a dichon hefyd y bwriedid cyhoeddi'r flodeugerdd o lenyddiaeth Gymraeg a baratowyd gan Gruffudd ar gyfer Richard Mostyn o Fodysgallen, *Lloegr Drigiant Ddifyrrwch Brytanaidd Gymro*, blodeugerdd wedi ei hanelu at Gymry alltud.<sup>114</sup>

Yn ogystal â'r corff sylweddol o gerddi gan Gruffudd a orosodd,<sup>115</sup> goroesodd nifer o'i llawysgrifau achyddol. Yng ngeiriau Daniel Huws:

A critical mind and a regard for naming sources, whether manuscript or monumental, and for providing place names, distinguish his genealogical and heraldic collections.<sup>116</sup>

Bu'r casgliadau hyn, a gyrhaeddodd lyfrgell Robert Vaughan yn Hengwrt trwy law disgybl Gruffudd, Rhys Cain, yn eithriadol o ddylanwadol, gan osod sylfaen cadarn ar gyfer achyddwyr diweddarach, gan gynnwys dau o'i ddisgyblion eraill – Simwnt Fychan ac Wiliam Llŷn – ac, yn ddiweddarach, Robert Vaughan. Yn un o'r llawysgrifau, Pen. 133,<sup>117</sup> sy'n cynnwys casgliad o achau perthynol i dde Cymru, ceir tystiolaeth fod Gruffudd wedi ymweld â Siôn Prys yn 1550. At hyn, canodd Gruffudd gywydd i Siôn Prys – y 'Cymro a dawn Cymru deg, / Cymroaidd eich Cymræg' – rywbryd ar ôl ei urddo'n farchog yn 1547.<sup>118</sup>

Nid syndod felly yw presenoldeb Gruffudd yn FH/7. Yn ogystal â'r testun ar f.1<sup>v</sup>, ceir hefyd rai mân gywiriadau ganddo i destun Siôn Prys ar ff.39<sup>v</sup>–40<sup>v</sup>. Yr oedd f.1 yn ddalen weili erbyn dyddiau Siôn Dafydd Rhys (gw. 'Hanes diweddarach y llawysgrif' isod), ond gwelwyd uchod na rwymwyd y dail y drefn y'u hysgrifennwyd, felly nid yw'n dilyn o reidrwydd fod f.1 yn ddalen weili pan ysgrifennwyd y testun hwn gan Gruffudd Hiraethog.

---

<sup>113</sup> Awgryma Daniel Huws (gohebiaeth bersonol) y posibilrwydd mai trwy ddylanwad Prys y penodwyd Gruffudd yn is-herodr yng Nghymru yn dilyn dienyddio deiliad blaenorol y swydd, Fulk ap Hywel, yn 1551 am ffugio sêl; gw. *RWMS*, II, t.39; Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry*, 4 cyf. (Aberystwyth: National Library of Wales, 1991–2006), I, tt.304, 309, 386.

<sup>114</sup> Dadleuodd D.J. Bowen ('Lewis Morgannwg, Gruffudd Hiraethog a William Salesbury', *LIC*, 16 (1989–91), 385–9 (385–7)) mai yn 1561–2, sef y dyddiadau a geir yn y llawysgrif gynharaf (Pen. 155), y lluniwyd *Lloegr Drigiant*, ond y mae Daniel Huws a minnau o'r farn fod dyddiad yn yr 1540au yn llawer mwy tebygol. Ymhellach ar Pen. 155, gw. pennod IV.

<sup>115</sup> Y golygiad diweddaraf yw'r eiddo D.J. Bowen (*Gwaith Gruffudd Hiraethog* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1990)).

<sup>116</sup> *RWMS*, II, t.42. Casglwyd y ffynonellau a nodir gan Gruffudd mewn erthygl hylaw gan Peter C. Bartrum ('Genealogical Sources Quoted by Gruffudd Hiraethog', *CLIGC*, 26 (1989–90), 1–9).

<sup>117</sup> Ar tt.167 ac 169.

<sup>118</sup> *GGH*, rhif 19.

Trafodir Caw o Brydyn gan Peter C. Bartrum yn *WCD*, tt.112–14. Er mai fel *Caw o Brydyn* y'i hadwaenir fynychaf, cyfeirir ato hefyd weithiau fel *Caw o Dwrcelyn* neu fel *Caw o Gwm Cawlwyd*, ac fe'i cysylltir yn aml ag Edeirnion.<sup>119</sup> Ceir rhestr o'i blant yn chwedl *Culhwch ac Olwen*<sup>120</sup> a hefyd yn 'Hanesyn Hen';<sup>121</sup> rhwng y ddwy ffynhonnell enwir 37 o feibion a thair merch, ond diau, fel y dywed Bartrum, mai 'fanciful inventions' yw nifer ohonynt, yn enwedig y rhai yn *Culhwch ac Olwen*. Rhoddir isod destun y rhestr (Gruffudd Hiraethog piau'r rhifau):

Dirmic ap Kaw	1	
Kild [ <i>sic</i> ] ap Kaw	2	
Ystic ap Kaw	3	
Mvchvdd ap Kaw	4	
Kof ap Kaw	5	
Anevrin ap Kaw	6	
Gwyddran ap Kaw		7
Samsson ap Kaw	8	
[ ]ingar ap Kaw	9	
[ ]elyn ap Kaw	10	
Eigrad ap Kaw	11	
[ ]ail ap Kaw	12	
[ ]ldas ap Kaw	13	
[ ]ddan ap Kaw	14	
[ ]lgo ap Kaw	15	
[ ]wy ap Kaw	16	
[ ]elw ap Kaw	17	
[ ] ap Kaw	18	
Ethynnac ap Kaw	19	
Dyfnan ap Kaw	20	
Keidiaw ap Kaw	21	
Kayan ap Kaw	22	
Kywylloc ap Kaw		23
Peithen verch Kaw	1	
Gwennabwy verch Kaw	2	
Kywylloc verch Kaw	3	

<sup>119</sup> Gw., e.e., Llst. 187, t.226, lle ceir: 'Caw o Dwrcelyn, arglwydd Cwm Cowlwyd. Caw oedd yn trigo yn Edeirnion yn amser Arthur'.

<sup>120</sup> Gw. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (gol.), *Culhwch ac Olwen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1988), t.8, ll.206–13. Y mae'r rhestr honno'n bur wahanol i'r un yn llaw Gruffudd Hiraethog yn FH/7.

<sup>121</sup> 'Hanesyn Hen' oedd enw Hengwrt MS 33, llawysgrif o hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg a aeth ar gyfrgoll tua diwedd y ddeunawfed ganrif; yn ffodus, goroesodd sawl copi o'r deunydd a geid ynddi. Ar 'Hanesyn Hen', gw. Ben Guy, 'A Lost Medieval Manuscript from North Wales: Hengwrt 33, The *Hanesyn Hên*', *SC*, 50 (2016), 69–105. Argraffwyd testun 'Plant Kaw o Dwrcelyn' yn *EWGT*, tt.85–6.



Y mae'n amlwg mai gwall a achoswyd gan naid lygad yw 'Kywylloc verch Kaw'.<sup>122</sup>

Yr ail gyfraniad gan law arall i'w drafod yw'r testun ar ff.84–5, traethawd Cymraeg ar gantrefi a chymydau Cymru. Fel y rhwymwyd y llawysgrif yn bresennol, y mae'n dilyn copi Siôn Prys (ar ff.82 ac 83<sup>r-v</sup>) o'r rhestr o gantrefi a geir yn Llyfr Coch y Siecr. Y mae'r traethawd yn agor fel a ganlyn:

Llyma val y rivwyd ac i mesurwyd kantrevi a chymydav holl Gymry yn amser Lln' ap Gruff ap Lln' ap Ier' Drwyndwn. Y tair talaith oll, nid amgen, Aberffraw, Dinewr [*sic*] yNehevbarth, Mathraval ym Hywys. Wrth dalaith Aberffraw y rroyd XV kantref [...]

Llaw onglog, drawiadol a gopiodd y testun hwn, llaw fwy cyntefig na'r eiddo Prys; ychwanegodd Prys ei nodiadau ei hun ar ymylon y dalennau, gan gynnwys y nodyn canlynol:

Oddiwrth Ryffydd ab Ievan o swyd[d] Ddinb[ych] y kefais i y dosbarth hynn o Gymry.

Prin fod unrhyw amheuaeth ynghylch pwy y cyfeirir ato yma, sef Gruffudd ab Ieuan Fychan (c.1485–1553) o'r Llannerch, nid nepell o Lanelwy. Fel ei dad,<sup>123</sup> yr oedd Gruffudd ab Ieuan yn fardd-uchelwr,<sup>124</sup> ac enillasai ddigon o fri fel bardd erbyn 1523 i gynorthwyo Tudur Aled â'r gwaith o dafoli'r beirdd yn Eisteddfod Caerwys.<sup>125</sup> Ymddengys y meddai Gruffudd ar lyfrgell o bwys. Yn ei *Epistol at y Cembru*, a gyhoeddwyd yn 1567 ac a drafodir mewn rhagor o fanylder ym mhennod III, dywed Richard Davies, esgob Tyddewi, ei fod yn cofio gweld 'pump llyfr Moysen yn Gymraeg, o fewn tuy ewythy'r ym oedd wr dyscedig', ac ar ymyl y ddalen nododd y golygydd, William Salesbury, 'Cyffelip mae Gruff. ap Ieuan ap Lln. Vachan

---

<sup>122</sup> Ar f.46<sup>v</sup> ceir copi yn llaw Siôn Prys o 'Plant Cau o Durkelyn', a nodir i'r testun gael ei godi 'o hen lyvr Hiraethawc'; buesid yn disgwyl, felly, i'r testun gyfateb yn agos i'r testun a gopiwyd gan Ruffudd Hiraethog ar f.1<sup>v</sup>, ond gwelir ei fod yn sylfaenol wahanol.

<sup>123</sup> Gw. M. Paul Bryant-Quinn (gol.), *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2003), tt.1–11.

<sup>124</sup> Yr unig ymgais i gasglu ei waith hyd yma yw'r eiddo J.C. Morrice (*Detholiad o Waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan* (Bangor: The Bangor Welsh MSS. Society, 1910)).

<sup>125</sup> Gw. Gwyn Thomas, *Eisteddfodau Caerwys* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1968), tt.42–4.

y mae ef yn ei veddwl';<sup>126</sup> y mae'n amlwg fod Gruffudd ab Ieuan yn uchel ei barch gan Salesbury, yntau, gan iddo ei enwi ymhlith 'y tri gwladwyr anhepgoraf ar y veddei yr gwir enait, ymgeledd a chwbl addvrm yr iaith'.<sup>127</sup>

Ac eithrio'r traethawd ar gantrefi a chymydau Cymru yn FH/7, ni wn am unrhyw dystiolaeth arall am gysylltiad rhwng Gruffudd ab Ieuan a Siôn Prys, a chyn i FH/7 ddod i'r golau, nid oedd gennym enghraifft sicr o law Gruffudd ab Ieuan; yr ymgeisydd mwyaf addawol oedd y llaw a gopiödd y cywydd yn Add. 14875, ff.194–5. Er nad oes gennym unrhyw dystiolaeth allanol i gadarnhau neu wrthbrofi hynny, ymddengys yn dra thebygol fod y traethawd yn FH/7 yn llaw Gruffudd ei hun; nid yw'n annichonadwy ei fod ef a Gruffudd Hiraethog wedi ymweld â Siôn Prys yn Henffordd gyda'i gilydd, tua 1550, efallai.

Y trydydd cyfraniad arwyddocaol yw'r un ar f.54<sup>v</sup>, cerdd Saesneg ac iddi'r priodoliad 'By Mr John Dy'. Cynigir argraffiad ffyddlon o'r testun yn yr adran 'Testunau' isod; fel yn achos *Anghynnif Cadwallon*, gan y bwriedir paratoi golygiad o'r gerdd ac ymdrin â hi mewn rhagor o fanylder mewn man arall, cyfyngir y sylwadau yma at y cyd-destun hanesyddol ac at arwyddocâd presenoldeb y gerdd yn FH/7.

Mewn gwirionedd, prin fod angen rhagymadroddi ynghylch gŵr mor adnabyddus â John Dee (1527–1609), a enillodd gymaint o fri fel mathemategydd, hynafiaethydd ac astrolegydd yn llys Elisabeth I, ond rhoddir isod ychydig o'i fuchedd fel gŵr ifanc er mwyn goleuo'r berthynas rhyngddo a Siôn Prys.<sup>128</sup> Yr oedd ei dad, Rowland Dee [*Du*], yng ngwasanaeth Harri VIII ac yn fab i Bedo Ddu o Nant-y-groes, sir Faesyfed, un o ddisgynyddion Rhodri Mawr, ach yr

---

<sup>126</sup> Gw. *Rhagymadroddion*, t.30.

<sup>127</sup> Dyfynnir o NLW 6434D yn *Rhagymadroddion*, t.xi. Y mae gwaith Gruffudd ab Ieuan yn hawlio lle blaenllaw yng nghasgliadau Salesbury yn Cwrtmawr 3 a Bodl. Welsh f. 2; gw. pennod III.

<sup>128</sup> Ar Dee, gw. *BC*; *ODNB*; *RWMS*, II, tt.22–3; Joseph Bradney, 'Dr. John Dee', *The Transactions of the Radnorshire Society*, 3 (1933), 10–14; O.E. Roberts, *Dr. John Dee* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1980); Glyn Parry, *The Arch-Conjuror of England. John Dee* (New Haven & London: Yale University Press, 2011); William H. Sherman, *John Dee. The Politics of Reading and Writing in the English Renaissance* (Amherst: University of Massachusetts Press, 1995); R. Julian Roberts, 'John Dee and the Matter of Britain', *THSC*, 1991, 129–43. Ceir ymdriniaeth â'i lyfrgell sylweddol yn Julian Roberts ac Andrew G. Watson (gol.), *John Dee's Library Catalogue* (London: Bibliographical Society, 1990); trafodir y cyd-destun Cymreig yn erthygl bwysig Paul Russell, "'Divers Evidences Antient of Some Welsh Princes". Dr John Dee and the Welsh context of the reception of Geoffrey of Monmouth in sixteenth-century England and Wales', yn H  l  ne T  trel a G  raldine Veysseyre (gol.), *L'Historia regum Britannie et les "Bruts" en Europe. Production, circulation et r  ception (XII  -XVI   si  cle)*, 2 gyf. (Paris: Classiques Garnier, 2018), II, tt.395–426. Ar hunaniaeth Gymreig Dee, gw. Gwyn A. Williams, *Welsh Wizard and British Empire. Dr. John Dee and a Welsh Identity* (Cardiff: University College Cardiff Press, 1980).

ymfalchïai John Dee ynddi.<sup>129</sup> Ymaelododd â Choleg San Ioan, Caer-grawnt, yn 1542; erbyn 1546, ac yntau ond yn 19 oed, fe'i hetholwyd yn gymrawd yng Ngholeg y Drindod, a oedd newydd ei sefydlu gan Harri VIII. Derbyniodd radd MA yn 1548, ond buasai eisoes yn yr Iseldiroedd am ychydig fisoedd yn 1547. Dychwelodd i'r cyfandir yn 1548 ac ymaelododd â phrifysgol Louvain ar 24 Mehefin; erbyn canol 1550 derbyniasai wahoddiad i ddarlithio ar Euclid yng ngholeg Rheims ym Mharis, a phan ddychwelodd i Loegr tua diwedd 1551 derbyniodd bensiwn blynyddol sylweddol gan y brenin.

Erbyn i John Dee gyfansoddi ei gerdd i Siôn Prys, y mae'n amlwg fod Siôn Prys eisoes wedi ei urddo'n farchog.<sup>130</sup> Digwyddodd hynny ar 22 Chwefror 1547, ddeuddydd ar ôl coroni Edward VI yn frenin. Yn y fan hon y mae'n werth gofyn tybed a all y gerdd hon fod yn llaw Dee ei hun. Y mae dau reswm dros beidio â chredu hynny: yn gyntaf, y priodoliad – 'By Mr John Dy' – sy'n anghydnaws braidd â'r hyn a ddisgwyliid petai'n llofnod gan y bardd ei hun; yn ail, y ffaith fod y llaw'n bur wahanol i'r enghreifftiau hysbys eraill o law Dee.<sup>131</sup> Y mae'n bosibl, fodd bynnag, fod hon yn enghraifft o law anffurfiol Dee cyn iddi gyrraedd ei llawn aeddfedrwydd. Un cysylltiad hysbys rhwng Siôn Prys a John Dee yw'r ffaith fod dwy lawysgrif o gasgliad Siôn Prys wedi dod i feddiant Dee, sef Cotton Domitian A.i, ff.56–160 (llawysgrif o Dyddewi), a Cotton Domitian A.viii, ff.120–61 (llawysgrif o abaty San Pedr, Caerloyw), ond awgryma Paul Russell mai trwy law Gregory, mab hynaf Siôn Prys, y daeth y rhain i feddiant Dee gan fod gennym dystiolaeth bendant i'r ddeuwr hynny gyfarfod â'i gilydd.<sup>132</sup> At ei gilydd, y mae'r dystiolaeth o blaid credu mai copi gan law anhysbys sydd yma, efallai ar ôl marwolaeth Siôn Prys, ond erys er hynny'r posibilrwydd deniadol fod y gerdd yn llaw John Dee ei hun. Os

---

<sup>129</sup> Gwyddys am ddau rolyn achyddol sy'n dangos llinach Gymreig Dee, sef Cotton Roll xiii.38 a Cotton Roll xiv.1 (gw. *RWMS*, I, t.669); y mae'r ddau'n cynnwys nifer o nodiadau yn llaw Dee ei hun. Yr oedd y bardd-achyddwr Twm Siôn Cati'n berthynas waed iddo (gw. Daniel Huws, 'Twm Siôn Cati', *Carmarthenshire Antiquary*, 45 (2009), 39–45); cyfarfu'r ddau yn Llundain yn 1590 ac ym Manceinion yn 1596. Yn Pen. 252, tt.227–30 ceir llythyr gan Dee at ei gefnder Nicolas ap Maredudd o Lanandras (gw. Frank Noble, 'A letter from Dr. John Dee to a Radnorshire cousin in 1577 A.D.', *The Transactions of the Radnorshire Society*, 25 (1955), 15–16); yn Harl. 473 ceir nodiadau a wnaed gan Dee yn ystod ei daith ar hyd gororau Cymru yn 1574, gan gynnwys cyfeiriadau at Richard Longford o Drefalun a'r bardd Owain Gwynedd (gw. *RWMS*, I, t.672; F. Noble, 'The identification of Dr. John Dee as the author of Harleian MS. 473 from its Radnorshire references', *The Transactions of the Radnorshire Society*, 26 (1956), 40–2).

<sup>130</sup> Ni chafwyd ymgais eto i gasglu cerddi Dee. Yn Harl. 2407, f.69 ceir saith cwpled yn llaw Dee yn annerch John Gwynn ('Arwystliensis'; 1538–98), ficer Llanidloes, gyda'r dyddiad 1568. Brawd John Gwynn oedd Jenkyn Gwynne, a oedd, yntau, yn gyfaill i Dee: fe'i crybwyllir gan Dee yn TCD 634 a Harl. 473 (gw. *RWMS*, I, tt.589, 672), ac yn Card. 2.26 (gw. *RWMS*, I, t.538), yn llaw Siôn Dafydd Rhys, ceir copi o gerdd o waith Gwynne a Dee; gw. Francis G. Payne, 'A poem by John Dee and Jenkyn Gwynn', *The Transactions of the Radnorshire Society*, 31 (1961), 18–19.

<sup>131</sup> Yr wyf yn ddiolchgar i Deborah Harkness, Katie Birkwood a Bill Sherman am drafod y mater hwn â mi. Dylid nodi mai prin yw'r enghreifftiau sydd gennym o law Dee yn yr 1540au.

<sup>132</sup> Russell, 'Divers Evidences', t.415.

felly, ac os yw ‘Mr John Dy’ yn awgrymu ei fod eisoes wedi derbyn ei radd meistr (a roddwyd iddo yn 1548), rhaid bod y ddau wedi cwrdd un ai rhywbryd yn 1548 (cyn i Dee adael am y cyfandir ar 24 Mehefin) neu rhwng diwedd 1550 (pryd y dychwelodd Dee i Loegr) a marwolaeth Siôn Prys fis Hydref 1555. Ysywaeth, nid oes gennym unrhyw dystiolaeth, hyd y gwn i, fod Dee wedi ymweld â Siôn Prys yn Henffordd, a hyd oni cheir dystiolaeth bellach, ni ellir ond dyfalu’n unig.

### *Hanes diweddarach y llawysgrif*

Soniwyd eisoes mai’r unig dystiolaeth fod y llawysgrif hon wedi derbyn sylw gan ddarllenwyr neu gopiwyr diweddarach na chwarter cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg – neu yn wir wedi bod yn hysbys iddynt – yw’r nodiadau mewn llaw anhysbys o’r ail ganrif ar bymtheg ar f.55<sup>v</sup>, sy’n cynnwys copi o’r cronicl *Blwydyn eiseu*.<sup>133</sup> Nid yw’r nodiadau hynny namyn cyfieithiadau i’r Saesneg o ddetholion o’r cronicl hwnnw, sy’n awgrymu’r posibilrwydd y gallasai’r llawysgrif eisoes fod wedi cyrraedd Lloegr erbyn y cyfnod hwnnw. Y mae’r enwau a geir ar ff.1, 59 a 76, fodd bynnag, yn ein tywys yn ôl i sir Frycheiniog. Ar f.1, yn yr un llaw italig o droad yr ail ganrif ar bymtheg, ceir enwau ‘Da: Williams’ a ‘William Williams’; ceir hefyd brofion pin gan ryw ‘Dauid Williams’ – mewn llaw wahanol, fe ymddengys – ar f.55. Posibilrwydd deniadol yw mai’r barnwr Syr David Williams (1550–1613) o Wernyfed, Y Clas-ar-Wy, sir Faesyfed, yw hwn, oblegid yr oedd ei dad, Gwilym ap Siôn Fychan o Ystradfellte, yn gefnder i Siôn Prys.<sup>134</sup> Fe’i galwyd i’r bar yn 1576 a daeth yn ffigwr dylanwadol yn ne Cymru; yr oedd yn ynad heddwch erbyn tua 1577, yn atwrnai cyffredinol ar gyfer de Cymru yn y Sesiwn Fawr rhwng 1581 ac 1604, ac fe’i hurddwyd yn farchog gan Iago I ar 23 Mehefin 1603. Bu farw ar 22 Ionawr 1612[/13] yn Kingston House, Berkshire; claddwyd ei ymysgaroedd yn lleol ond trosglwyddwyd ei gorff i eglwys Priordy Aberhonddu, a ddaethai i’w feddiant rai blynyddoedd ynghynt.<sup>135</sup>

---

<sup>133</sup> Cynigiwyd ‘s.xviii<sup>1</sup>’ gan Daniel Huws a minnau yn *RWMS*, I, t.717; ymddengys, serch hynny, fod y llaw’n gynharach.

<sup>134</sup> Ar dudalen olaf llyfr amrywiaeth Prys ceir englyn mewn llaw ddiweddarach sy’n crybwyll Gwernyfed (gw. Balliol 353, f.174<sup>v</sup>).

<sup>135</sup> Gw. *ODNB*; gw. hefyd erthygl R.T. Jenkins ar deulu Williams, Gwernyfed yn *BC*.

Ar f.81,<sup>136</sup> mewn llaw sy'n perthyn i droad yr ail ganrif ar bymtheg neu hanner cyntaf y ganrif honno, ceir enw rhyw Watkin John ('Y benn tayrn tyrnedd dy drigaredd y archa. Be me Watkin John'). Y mae'r enw hwn hefyd yn digwydd mewn dwy llawysgrif arall o gryn bwysigrwydd, sef Pen. 11 a Jesus 57, ill dwy yn llaw Hywel Fychan ap Hywel Goch, un o ysgrifwyr Llyfr Coch Hergest. Ymddengys mai mab oedd Watkin John i John Watkin Ieuan o Ddefynnog, nid nepell o Aberhonddu, gŵr a restrwyd gan Robert Vaughan o Hengwrt tua 1620 fel perchennog llawysgrifau.<sup>137</sup> Yn ogystal ag yn Pen. 11, ceir enw John Watkin Ieuan yn Llst. 41, Pen. 38, Pen. 263 (ac efallai Pen. 258) ac, yn fwyaf arwyddocaol, Balliol 353, llyfr amrywiaeth Siôn Prys. Ymddengys yn weddol ddiogel o'r herwydd mai'r un yw'r Watkin John a dorrodd ei enw yn FH/7 â mab John Watkin Ieuan o Ddefynnog, ac y mae hynny'n angori'r llawysgrif hon yn sir Frycheiniog tua dechrau'r ail ganrif ar bymtheg.<sup>138</sup>

Ar f.1, fodd bynnag, y cawn y dystiolaeth bwysicaf o ran trywydd FH/7 o sir Frycheiniog i Northampton. Yno, mewn llaw italig y gellir yn hawdd ei hadnabod fel eiddo Siôn Dafydd Rhys, ceir y nodyn canlynol:

Folia continet nonaginta octo. Lib. D. R. Prisei commodato datus  
Joanni Daudid medicinae doctori. Jo. Daudid.

[*Rhodddwyd y llyfr hwn, sy'n cynnwys 98 dalen, ar fenthyg i John  
Davies, M.D., gan Mr R[ichard] Prise. John Davies.*]

Yn ogystal â bod yn dystiolaeth bwysig o ran y nifer o ddalennau a gollwyd oddi ar hynny, y mae'r nodyn hwn yn taflu goleuni ar dynged llawysgrifau Cymreig Prys. Nododd Siôn Prys yn ei ewyllys ei ddymuniad i'w 'welche bookes' gael eu trosglwyddo i Thomas Vaughan, ond prawf y nodyn hwn i FH/7 gael ei hetifeddu gan Richard Prise. O ystyried mai ar gyfer Thomas Vaughan y lluniwyd FH/7, y mae hyn yn bur annisgwyl, ac y mae'n awgrymu na fu Vaughan erioed yn berchen arni. Yn ei dro rhoes Richard Prise y llawysgrif ar fenthyg i'r gramadegwr Siôn Dafydd Rhys (1533/4–c.1620). Brodor o Lanfaethlu oedd Siôn Dafydd, ond yn 1584, yn

---

<sup>136</sup> Nodir yn *RWMS*, yn anghywir, mai ar f.76 y ceir ei enw.

<sup>137</sup> 'Greal: gan Sion Watkin Ieuan o dre Ddyfynoc', sef Pen. 11: gw. *RWMS*, II, t.162; *MWM*, t.300.

<sup>138</sup> Ar f.59, mewn llaw gyfoes ag un Watkin John, ceir enw 'Morgan ap Redderch', gŵr na lwyddais hyd yma i'w olrhain.

dilyn cyfnodau ar y cyfandir, ym Mangor, yn Abergwili ac yng Nghaerdydd, ymsefydlodd yn Aberhonddu.<sup>139</sup>

Yr ydym yn ddyledus i John Jones, Gellilyfdy am y briwsionyn olaf o dystiolaeth ynghylch trywydd FH/7. Fel y gwelwyd uchod, ceid nodyn yng nghopi Hengwrt o *Historiae Brytannicae defensio* fod John Jones wedi gweld ‘a booke of Sr. John Prise of petegries in rundelets’, a bod hwnnw ym meddiant ysgutorion y barnwr a’r hynafiaethydd Francis Tate (1560–1616). Ganed Tate yn Gayton, swydd Northampton, ond yr oedd ei daid, John Tate (m.1514), yn Gymro, ac yn 1602, ar ôl cyfnod o salwch, gadawodd swydd Northampton am Gymru, lle y daeth yn farnwr yn y Sesiwn Fawr. Yr oedd gan Tate ddiddordeb brwd yng Nghyfraith Hywel, diddordeb a arddangosir amlycaf gan Llst. 68, llawysgrif sy’n cynnwys copi o destun Rawl. C. 821 (Cyfraith Hywel, fersiwn ‘Latin D’) a detholion wedi eu codi o Lyfr Du’r Waun (Pen. 29).<sup>140</sup> Y mae’r llawysgrif honno hefyd yn cynnwys copi yn llaw Tate o lythyr gan Siôn Dafydd Rhys a gynhwysai eglurhad o 129 o dermau perthynol i Gyfraith Hywel. Ac nid Siôn Dafydd Rhys oedd yr unig hynafiaethydd Cymraeg y bu Tate yn ymwneud ag ef. Yn Cotton Vespasian E.ix fe’i ceir yn cydweithio â Maurice Kyffin, awdur *Deffynniad Ffydd Eglwys Loegr* (1595), ar gasgliad o eiriau Cymraeg hynafol,<sup>141</sup> ac yn Cotton Vitellius E.v ceir copi, yn rhannol yn llaw Tate ac yn rhannol mewn llaw anhysbys, o ‘Mr Jones’s answer to Mr Tate’s questions concerning the Druids and other British antiquities’.<sup>142</sup>

Ni lwyddwyd i olrhain y copi o *Historiae Brytannicae defensio* sy’n cynnwys tystiolaeth hollbwysig John Jones. Ymddengys yn debygol nad nodyn yn llaw John Jones ei hun ydoedd; y tebyg yw mai Robert Vaughan a gofnododd yr hyn a glywsai gan ei gyfaill.<sup>143</sup> At hynny, ymddengys na chafodd John Jones ryddid i gopïo’r llawysgrif gan na wyddys am unrhyw

---

<sup>139</sup> Ar Siôn Dafydd, gw. *ODNB*; *RWMS*, II, tt.159–61. Yn y Clun-hir yng Nghwm-llwch y lluniodd ei ragymadrodd i’w ramadeg enwog, *Cambrobrytannicae Cymraecaeve linguae institutiones et rudimenta*, a gyhoeddwyd yn 1592.

<sup>140</sup> Y mae nifer o llawysgrifau Tate yng nghasgliad Stowe yn y Llyfrgell Brydeinig; ceir rhestr ohonynt yn yr erthygl arno yn *ODNB*.

<sup>141</sup> Gw. *RWMS*, I, t.665.

<sup>142</sup> *Ibid.*, t.664. Dangosodd Nesta Jones (‘“Mr. Jones” and Francis Tate’, *THSC*, 1968, 99–109) y tu hwnt i amheuaeth resymol mai John Jones, Gellilyfdy yw ‘Mr Jones’. Llawysgrifau eraill sy’n amlygu diddordebau Cymreig Tate yw Lansdowne 473 (statudau Cymreig, 1608; gw. *RWMS*, I, t.690), Cotton Vitellius C.x (casgliad helaeth o ddogfennau hanesyddol; gw. *RWMS*, I, tt.663–4) a Northants. Archives IL/3357, 3367 & 3390 (detholion o Lyfr Du’r Waun; gw. *RWMS*, I, t.717); yr oedd Cotton Vespasian E.xi (fersiwn ‘Latin B’ o Gyfraith Hywel) ar fenthyg ganddo o lyfrgell Cotton pan fu farw yn 1616 (gw. *RWMS*, I, t.665; *ibid.*, II, t.171).

<sup>143</sup> Cf. y nodyn yn llaw Robert Vaughan a geid mewn copi o *Historia regum Britanniae* (Paris, 1517) a roddwyd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru (ond yr ymddengys iddo gael ei golli yn y tân yn 2013): ‘Dauydd ap Mredydd Glais a ysgrifennodd historia brenhinedd y Bryttanied [...] ar llyfr membrwn sydd gyda Mr Jon: Jones o Ysgeifiog’ (dyfynnir yn *RWMS*, I, t.344).

destun ymhlith ei llawysgrifau a godwyd o FH/7 ac oherwydd y ffaith nad yw FH/7, hyd y gwelaf i, yn cynnwys unrhyw nodiadau neu farciau yn ei law.

O ystyried y cysylltiadau hysbys hyn rhwng Siôn Dafydd Rhys a Francis Tate, yr hynafiaethydd o swydd Northampton, prin fod lle i amau nad dyna sut y cyrhaeddodd llawysgrif Siôn Prys gasgliad Finch-Hatton. Tueddu i gadarnhau hyn (er eu bod yn rhan o gasgliad gwahanol, sef casgliad teulu Isham o Lamport) a wna'r ffaith fod drylliau o gopi a wnaeth Tate o Lyfr Du'r Waun (Pen. 29) hefyd i'w cael yn yr un archifdy.<sup>144</sup> Y mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y llawysgrif wedi dod i feddant Syr Christopher Hatton (1605–70),<sup>145</sup> efallai'n uniongyrchol gan ysgutorion Francis Tate, ac wedi cysgu am ymron i bedair canrif fel rhan o'r casgliad pwysig hwnnw heb dderbyn ond ychydig iawn o sylw. Cam yn unig tuag at gynnig y sylw dyladwy i'r llawysgrif gyfoethog hon a geir yma.

---

<sup>144</sup> Gw. *RWMS*, I, t.717.

<sup>145</sup> Ar gasgliad nodedig Hatton, gw. Nicola Stacey, 'Antiquarian Patronage in the 17th Century: Sir Christopher Hatton's Library at Kirby Hall', *English Heritage Historical Review*, 9 (2014), 66–81.

## *Testunau*

Cynigir isod drawsgriadau o ddeholiad bychan o rai o'r testunau a geir yn FH/7 ac a drafodwyd uchod. Cadwyd mor ffyddlon i'r hyn a geir yn y ffynhonnell â phosibl; ac eithrio yn achos barddoniaeth, ni ddilynir toriadau llinell y llawysgrif. Rhoddwyd priflythyren i enwau priod (ac eithrio yn achos y farddoniaeth); nodir bylchau yn y llawysgrif gan fachau sgwâr.

### 1. *De Oeno Glyndwr* (f.59)

Noswyl Vathe Abostyl pan oedd oed Crist ~~14~~ mil a phedwar cant y kyvodes Owein ap Gruffydd ac y lhosges Ruthyn ac y bu y sias ynglann Eyrnwy.

Diwggwyl Vair Vadlen pan oedd oed Christ 1403, mil a phedwarcant a their, y by maes y Battelfelde yn ymyl Ymwythig.

Pan oedd oed Christ 1415, mil a phedwarcant a phymptheg mlyned, y by varw Owein ap Gruffydd, a'r vlwyddyn y by y varolaeth vawr, ag y ganed Meredyd ap Rys.

A phan oedd oed Christ 1420 y by varolaeth vawr.

Pan oedd oed Christ 1422 y by varw Henri Bymhed, a'r flwyddyn honno y by varw Davydd Holbais.

Dwy vlyned wedy hynny y by varw Iarh y Marsh.

Dwy vlyned wedy hynny y krynodd y ddayar.

Pan oedd oed Christ ~~1429~~ 1463 y lhosges Wrexham.



2. *Anghynnif Cadwallon* (f.69)

Angkynnif Kadwallhawn

Dymhun vrydeu echiwart greu eryr y glann  
achos lhenwid aber threithid godir prydain  
gwasgarawg hynt ~~gøv~~ gorewynt gwynt gwasarn gwylain  
Edwin y mon mi yn Iwerddon mawr avaran  
Ochein heb wir mawr divenwir dwyn gwlad Gaduan

Dymhun vrydeu echiwart greu kymaithlu dir  
Elvydd oreu ynghylch deheu din dirynghir  
Diwestl alaf divryd hygar ked rychodir  
[       ] digarad hoen or dranyad a adrodir  
Ymrydynged wedy lhydded adeweint hir  
Ymgeinmygir a wladychir am ~~gohw~~ gowy dir

O gynhelw duw divydein loegr lawr dreuad  
o benn dy dy hyd benn dy dan gwnelom ~~ny~~ ni gad  
ae rhylladdem ae dielem ae dylygad  
och rysorryd rhychyvottyd Edwin om gwlad

O gynhelw dduw dyvydein loegr lawr dy  
o benn dy dy hyd ben dy dan gwnelem ni drin  
arylladein ay dy lygad ay dy elin oth rysorryd  
rygyvottyd om gwlad Edwin

Ny wyr kynnif o ddiwedd nos a dihunwy rhwng  
abermaw a lhowdir mon a digannwy  
ymi hynnawr om priodawr wyf gwaharddwy  
ny rydd kreawdr y neb enaid ny rybychwy  
ym rydynged guedy lhydded a mawr vordwy  
ymgeinmygyf a wledychyf y am Gonwy

Au daw kymry ~~yn-gwaredy~~ o ddrws ey ty ym gwaredwydd  
am gyhut gurlhwybr lhu priawd vyn tad y ddwyn ymgwydd  
deivyr a bryneich ac Iwerdon ys keith kyfrwydd  
corwc yma ar lhwch lhondaf ys kyuarwydd

3. *Pater Noster* (f.79<sup>v</sup>)

O yn tad ni, yr hwnn y sydd yn y nefoedd, bendigedig vo dy enw di.  
Gwledyched dy deyrnas di. Bid dy ewyllys di megys i mae yn y nef ac  
yny dayar. Dyro di yni heddiw yn bara beynyddawl, ac maddeu di yni  
yn pechodau, megys yddym ninney yn maddeu yn dleyed yn dleyedwyr  
ninney, ac nad arwein di ni mewn profedigaeth, ond ~~di~~ gwarded ni  
oddiwrth ddrwg. Poed gwir.

4. *Ave Maria* (f.79<sup>v</sup>)

Ympych gwell, Vair gyflawn o rad a gras; y mae'r Arglwydd gyda thi.  
A bendigedig vych di ymplith yr holl wragedd, a bendigedig y vo  
ffrwyth dy groth di, Iessu Grist. Amen.

5. John Dee, *Prise, the perle of Brittons all* (f.54<sup>v</sup>)

Vrbinas guyle is nowe detect  
Vrbinas shifte hathe lost his grace  
A Brittishe knight hathe Brute protect  
Dunwallo his sones hathe gainde their place  
Quene Tonwen more without all stryfe  
This knight hathe tride Dunwalles wief

The Scott Hector Boethius  
For aye must yeld the trueth nowe tride  
Bewraide thow art Virgilius  
Thre sugred stile is nowe defied  
This knight full grave the trueth doth tell  
The trueth allwaies shall lyes expell

O Prise the perle of Brittons all  
And glorie more of Brychans race  
Thie Pardat great an Erle I call  
Caradock surnamed Vrychvras  
Of Radnor Lande and Fferbeckes shire<sup>146</sup>  
An erle he was & hadd no peere

Advance his name lyft vpp his signe  
Of auncient odle take up his shield  
No man can saie but p[ ] be thine  
Atchievement faire in corte and field  
The noble kynne do geve the sands  
Worster Penbrooke and all the [?]lands

---

<sup>146</sup> Ar y ffurf hon gw. Brynach Parri, 'Fferig – The Lost Kingdom', *Brycheiniog*, 38 (2006), 23–34.

In Sable field a cheuron [?]lund  
Thre launces heddēs of argent pure  
By martiall Lawe to kepe right [?]tund  
With sanguine droppes of bludd full sure  
[ ]gant wise imbrude the fieldē  
The heddēs all thre and all the shield

By Mr John Dy

### III

## ‘Yr audur a ddoydasai’: William Salesbury a’i llawysgrifau

Gan Syr John Wynn o Wedir (1553–1627) y ceir yr unig gofnod am y ffræ ddrwgenwog a ddigwyddodd rhwng dau o ysgolheigion mwyaf blaenllaw Cymru’r unfed ganrif ar bymtheg – William Salesbury a Richard Davies, esgob Tyddewi – a hwythau, wedi cwblhau’r gwaith o gyfieithu’r Testament Newydd, yn troi eu golygon at yr Hen Destament:

He [Davies] called to him William Salesbury, esquire, of Plas Isa near Llanrwst in the county of Denbigh, and diverse others, Welshmen, profound scholars and skilful linguists; and translated the New Testament, the Psalms and Book of Common Prayer into the Welsh tongue, and was very far onward with the Old Testament and had gone through with it if variance had not happened between him and William Salesbury (who had lived almost two years with him in that business) for the general sense and etymology of one word which the Bishop would have to be one way and William Salesbury another, to the great loss of the old British and mother tongue. For, being together, they drew homilies, books and diverse other tracts in the British tongue and had done far more if that unlucky division had not happened. For the Bishop lived five or six years after and William Salesbury about twenty-four but gave over writing (more was the pity), for he was a rare scholar[.]<sup>1</sup>

Daeth yr hanesyn hwn ynghylch yr un gair a greodd rwyg rhwng y ddau gyfieithydd yn dra adnabyddus, ac er na ddichon y cawn byth wybod yn iawn pa mor ddilys ydyw, erys y ffaith mai ar ysgwyddau William Morgan, nid Davies a Salesbury, y syrthiodd y cyfrifoldeb am ddwyn y maen i’r wal, a hynny dros ugain mlynedd ar ôl cyhoeddi’r Testament Newydd yn 1567. Yn y bennod hon, drwy astudio’r nodiadau llawysgrif yn rhai o’r copiâu o’r gwaith hwnnw sydd wedi goroesi, ceir ymdriniaeth ag un o’r ffactorau a allai fod wedi achosi rhwyg rhwng y ddau, sef y modd y bu i Salesbury ymyrryd â thestun traethawd enwog Richard Davies,

---

<sup>1</sup> Gw. Sir John Wynn, *The History of the Gwydir Family and Memoirs*, gol. J. Gwynfor Jones (Llandysul: Gomer Press, 1990), tt.61–2; ar rôl Humphrey Humphreys, esgob Bangor yn hanes testunol y gwaith hwn, gw. Daniel Huws, ‘John Wynn’s *History of the Gwydir Family*: the manuscript texts’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 74–5 (2013–14), 36–43.

*Epistol at y Cembru*. Cyn hynny, fodd bynnag, trafodir darganfyddiadau diweddar sy'n bwrw goleuni newydd ar yrfa gynnar Salesbury ac yn ychwanegu at ein gwybodaeth fylchog am ddegawdau cynharaf ei oes.

### *William Salesbury: ei lawysgrifau cynnar*

Ceir yn y geiriau a ddyfynnir uchod o'r eiddo John Wynn o Wedir awgrym bod Salesbury yn gymeriad dieithr hyd yn oed yn ei oes ei hun.<sup>2</sup> Myn Syr John y bu Richard Davies (c.1505–81) farw ryw bum neu chwe blynedd ar ôl y ffræ rhyngddo a Salesbury; gesyd hynny'r ffræ tua 1575, dyddiad dichonadwy o ystyried bod Siôn Dafydd Rhys wedi cael ei recriwtio gan ei 'ewythr' Richard Davies tua diwedd 1576 neu'n gynnar yn 1577 er mwyn paratoi cyfieithiadau o lyfrau Protestannaidd, efallai yn sgil ymadawiad Salesbury.<sup>3</sup> Y mae gosodiad Syr John ynghylch Salesbury, fodd bynnag, sef ei fod wedi marw ryw 24 mlynedd ar ôl y ffræ, yn llai credadwy. Awgryma hynny iddo fyw hyd flynyddoedd olaf y ganrif, ac er bod rhyw gymaint o ateg i hynny yn honiad Wynn i Salesbury roi'r gorau i ysgrifennu tua diwedd ei oes (ni ellir dyddio dim o'i waith yn ddiweddarach na c.1580), y mae'r holl ddarnau eraill o dystiolaeth, er prinned ydynt, yn awgrymu bod Salesbury yn ei fedd erbyn canol yr 1580au.<sup>4</sup> Y mae'n diflannu o'r dystiolaeth ddogfennol yn 1580, sy'n gyson â barn awdur y cywydd tanbaid a ganwyd yn dilyn llofruddio Tywysog Oraens ym mis Gorffennaf 1584, lle y rhestrir Protestaniaid ymadawedig eraill y dymunai'r bardd i William gael yr un dynged uffernol â hwy, gan gynnwys 'Salbri [...] / y translatiwr'.<sup>5</sup>

---

<sup>2</sup> Y mae Salesbury wedi derbyn llawer o sylw mewn print. Gw. yn enwedig *BC*; *ODNB*; *RWMS*, II, tt.165–6; W. Alun Mathias, 'William Salesbury – ei fywyd a'i weithiau', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1970), tt.27–53; idem, 'William Salesbury – ei ryddiaith', *ibid.*, tt.54–78; Glanmor Williams, 'The Achievement of William Salesbury', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 14 (1965), 75–96; James Pierce, *The Life and Work of William Salesbury. A Rare Scholar* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2016); R. Brinley Jones, *William Salesbury* (Cardiff: University of Wales Press, 1994); D.J. Bowen, *Gruffudd Hiraethog a'i Oes* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1958).

<sup>3</sup> Ar Richard Davies, a drafodir ymhellach isod, gw. *BC*; *ODNB*; *RWMS*, II, t.19; Glanmor Williams, *Bywyd ac Amserau'r Esgob Richard Davies* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953); idem, 'Richard Davies, Esgob Tyddewi, a'r "Shepherd's Calendar"', *LIC*, 2 (1952–3), 232–6; Gruffydd Aled Williams, "'Ail Dewi Menew": golwg ar Richard Davies', *Y Traethodydd*, 174 (2019), 94–112.

<sup>4</sup> Awgrymir ym mhennod V y posibilrwydd fod Salesbury yn ei fedd erbyn 1582 gan fod Roger Morris o Goedytalwrn wedi copïo Llyfr Du Caerfyrddin (Pen. 1), a fu gynt ym meddiant Salesbury, tua'r flwyddyn honno.

<sup>5</sup> Argreffir testun Card. 1.5 (*RMWL* 23) yn T.H. Parry-Williams (gol.), *Carolau Richard White (1537?–1584)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931), tt.56–7, a thestun John Jones, Gellilyfdy yn Pen. 158 yn *ibid.*, t.58. Priodolir y cywydd i'r merthyr Richard White, ond dadleuwyd hefyd mai Robert Gwyn a'i canodd.

Ile ma [*sic*] Luther<sup>6</sup> Cerfer Cig  
ai swm adwyth siomedig [...]   
Ile mae Baram<sup>7</sup> oll heb oeri  
A Bel<sup>8</sup> hwnt yn ei bol hi  
Ile mae Ridley<sup>9</sup> llwm yw<sup>r</sup> adladd  
yn ysu ei groen isa gradd  
Ile mae Juel<sup>10</sup> ai ffel ffau  
ai goel Addysc gelwyddau  
Ile mae Salbri 'n sorri n siwr  
ar trwyn slwt y translatiwr

Ac yna'r rhai a oedd yn dal ar dir y byw:

Ile ra r llwynog<sup>11</sup> difiog ei don  
ai gau nifer genafon  
Ile ra Goodman<sup>12</sup> i dramwy  
i ddilio mant na ddel mwy  
Ile ra ffwlk<sup>13</sup> yn llwyr i ffo  
fal diorffwys fel y darffo  
Ile ra dafydd lled yfwr  
ap Howel goch<sup>14</sup> apla gwr

Ymddengys o'r herwydd yn weddol ddiogel tybio bod Salesbury wedi marw yn 1580×1584.<sup>15</sup> Y mae prinder y cyfeiriadau cyfoes ato, ynghyd â'r stori a gofnodwyd gan John Wynn o Wedir (a'r ffaith na ddiogelwyd portread ohono, yn wahanol i rai o'i gyfoedion, yn eu plith Humphrey Llwyd), yn ei gwneud yn anodd peidio â synio am Salesbury fel cymeriad meudwyaidd y gellid yn hawdd gredu y buasai Richard Davies wedi cael trafferth cydweithio ag ef.

---

<sup>6</sup> Martin Luther (1483–1546).

<sup>7</sup> Ai Nicholas Barham, Piwritan a fu farw yn 1577 ar ôl dal haint yn ystod achos llys y reciwsant Roland Jenkes (gw. *ODNB*)?

<sup>8</sup> John Bell (m.1556), esgob Caerwrangon.

<sup>9</sup> Nicholas Ridley (c.1502–55), esgob Llundain a merthyr Protestannaidd.

<sup>10</sup> John Jewel (1522–71), esgob Caersallog ac awdur *Apology of the Church of England*.

<sup>11</sup> John Foxe (1516/17–87), awdur y gwaith enwog y daethpwyd i'w adnabod fel *Foxe's Book of Martyrs*.

<sup>12</sup> Gabriel Goodman (1528–1601), deon Westminster.

<sup>13</sup> William Fulke (1536/7–89). Hoffwn ddiolch i'r Athro Christine James am y cyfeiriad hwn.

<sup>14</sup> Er na welwyd ffynhonnell sy'n cysylltu'r epithet *Goch* ag enw ei dad, diau mai cyfeiriad yw hwn at David Powel (c.1535–1600), awdur *The Historie of Cambria* ac un o gynorthwywyr yr esgob William Morgan. Gw. Melville Richards, 'Dr. David Powel, Rhiwabon', *CLIGC*, 13 (1963–4), 397–8; *RWMS*, II, t.134.

<sup>15</sup> Credid gynt fod llofnod Salesbury'n ymddangos ar y ddeiseb ar gyfer trydedd eisteddfod yng Nghaerwys yn 1594, ond fel y dangosodd Daniel Huws (*RWMS*, II, t.164), llofnod Syr Siôn Salusbury, Lleweni sydd yno; camddarllenwyd y llofnod gan J. Gwenogvryn Evans (gw. *RMWL*, I, tt.293–5).

Perthyn yr un niwl i'n gwybodaeth ynghylch gyrfa gynnar Salesbury. Ni wyddys pa flwyddyn y'i ganed,<sup>16</sup> ond gwyddys bod ei dad, Ffwg Salesbury, wedi marw yn 1520; pe gwyddid pa bryd yr aeth i Rydychen, gellid cynnig dyddiad mwy pendant, ond ni chadwyd yr wybodaeth honno. Yn ei *Lysieulyfr* tystia Salesbury iddo dreulio peth o'i fachgendod yn swydd Gaerhirfryn,<sup>17</sup> ond ei gyfnod yn Rhydychen ym mlynnyddoedd cynnar y Diwygiad yn ddiamau a gafodd y dylanwad mwyaf arhosol arno. Diau mai yno y meistrolodd yr holl ieithoedd yr honnodd Thomas Wiliems ei fod yn hyddysg ynddynt,<sup>18</sup> ac erbyn 1540 dychwelasai i Lanrwst yn Brotestant o argyhoeddiad. Yn ystod y blynyddoedd 1547–51 cyhoeddodd gyfres o weithiau arwyddocaol sy'n tystio'n loyw i'w Brotestaniaeth ac i'w gyneddfau Dyneiddiol: *Oll synnwyr pen Kembero ygyd* (1547, sef casgliad Gruffudd Hiraethog o ddiarhebion), *A Dictionary in Englyshe and Welshe* (1547), *Ban wedy i dynny* (1550), *The Baterie of the Popes Botereulx* (1550), *The Descripcion of the Sphere or Frame of the Worlde* (1550) a *Kynniver Llith a Ban* (1551);<sup>19</sup> y mae'n wir fod Syr Siôn Prys eisoes wedi braenaru'r tir yn 1546 gydag *Yny lhyvyr hwnn*, ond prin y gellid dannod i Salesbury ei le fel pennaf arloeswr y wasg Gymreig.

Treuliodd Salesbury y blynyddoedd 1564–6 yn Abergwili yn llys Richard Davies, esgob Tyddewi, yn paratoi'r cyfieithiad o'r Testament Newydd (gyda chymorth Thomas Huet) a gyhoeddwyd yn 1567 ac a drafodir mewn rhagor o fanylder isod. Y flwyddyn honno hefyd cyhoeddwyd cyfieithiad Salesbury a Davies o'r Llyfr Gweddi Gyffredin, ynghyd ag ail argraffiadau o *A Brieve and a Playne Introduction* (a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1550) a diarhebion Gruffudd Hiraethog.<sup>20</sup> Ni wyddys a obeithiai Salesbury gyhoeddi'r *Llysieulyfr* y bu'n gweithio arno tua diwedd ei yrfa; bu'n rhaid iddo aros hyd 1916 cyn gweld golau dydd.<sup>21</sup>

---

<sup>16</sup> Cynigir '1520?' fel blwyddyn ei eni yn *BC* a 'before 1520' yn *ODNB*; yn *RWMS*, II, tt.165–6 cynigir c.1510, a bernir yn Pierce, *The Life and Work* mai tua 1507 y'i ganed.

<sup>17</sup> Gw. Iwan Rhys Edgar (gol.), *Llysieulyfr Salesbury* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), t.141: 'Ac yd y daw im cof a mi yn vachgen yn swydd Lancastr myfy a welais yr ail rhyw yn tyfy yn y garddæ[.]'

<sup>18</sup> Gw. teyrnged Wiliems i Salesbury yn Card. 4.330 (*olim* Havod 26), tt.203–4, a ddilëwyd yn ddiweddarach, a hynny, fe ymddengys, gan Wiliems ei hun; mewn man arall crafodd Wiliems y geiriau 'Mr Wiliam Salesbury' oddi ar y papur, ac mewn llaw na ellir ei dyddio cyn c.1590, ysgrifennodd 'gwr dyscedic doethgall' yn ei le.

<sup>19</sup> Ceir cyflwyniad hylaw i weithiau printiedig a llawysgrifol Salesbury yn W. Alun Mathias, 'Gweithiau William Salesbury', *JWBS*, 7 (1950–3), 125–43; gw. hefyd Geraint Evans, 'William Salesbury and Welsh Printing in London Before 1557', yn Ruth Kennedy a Simon Meecham-Jones (gol.), *Authority and Subjugation in Writing of Medieval Wales* (New York: Palgrave Macmillan, 2008), tt.251–66.

<sup>20</sup> Ar ddyddiad cyhoeddi'r ail argraffiad, gw. Mathias, 'Gweithiau', 125–31; credid gynt mai yn 1572, sef y dyddiad a geir yn y copi llawysgrif diweddarach ohono yn NLW 6434D, y'i cyhoeddwyd.

<sup>21</sup> Gw. E. Stanton Roberts (gol.), *Llysieulyfr Meddyginiaethol a Briodolir i William Salesbury* (Liverpool: Hugh Evans & Sons, 1916); gw. bellach Edgar (gol.), *Llysieulyfr*.

Efallai nad yw'r llawysgrifau yn llaw Salesbury sydd ar glawr heddiw mor niferus ag y disgwyliid. Y llawysgrif gynharaf y gellir ei dyddio yw Card. 2.39 rhan (iv), sy'n cynnwys copi a wnaed yn 1552 o'r 'Llyfr Rhetoreg', ei gyfaddasiad ei hun o waith Petrus Mosellanus, *Tabulae de schematibus et tropis*, ynghyd â llythyr rhagarweiniol Salesbury at Ruffudd Hiraethog ac 'eraill oei [sic] Gelfyddyd'.<sup>22</sup> Yr unig llawysgrif arall y gellir cynnig dyddiad gweddol bendant ar ei chyfer yw Cwrtmawr 3,<sup>23</sup> sy'n cynnwys casgliad o farddoniaeth a thrioedd; ar t.101 ceir englyn o waith Salesbury ei hun yn mydryddu'r dyddiad 1564,<sup>24</sup> ac ar t.79 ceir ychwanegiad yn llaw Huw Llŷn yn dwyn y dyddiad 1565, felly gellir dweud yn weddol hyderus mai tua 1564 – pryd yr oedd Salesbury yn westai i Richard Davies yn Abergwili – y lluniwyd y llawysgrif.<sup>25</sup> A barnu wrth y llaw, i'r un cyfnod yn fras y perthyn Pen. 99 rhan (ii), casgliad arall o farddoniaeth, gan gynnwys hengerdd. Perthyn NLW 21294B,<sup>26</sup> sy'n cynnwys fersiwn llai datblygedig o'r rhestr o feirdd a geir yn Cwrtmawr 3, i gyfnod ychydig yn gynharach; ceir enghraifft dda o law anffurfiol Salesbury tua'r cyfnod hwn yn y llythyr cynhwysfawr a anfonodd ar 19 Mawrth 1565[/6] at Matthew Parker, archesgob Caer-gaint.<sup>27</sup> Efallai mai'r llawysgrif ddiweddaraf oll sydd ar glawr yw Gwyneddon 4 rhan (ii), casgliad o farddoniaeth, cywyddau gan mwyaf, a ysgrifennwyd rywbryd cyn 1575, yn bennaf yn ei law ysgrifenyddol; ond y mae'n debygol nad ysgrifennwyd y llawysgrif goll a gynhwysai'r *Llysieulyfr* tan 1578 neu'n hwyrach. Llawysgrif goll arall – un nad oes modd cynnig dyddiad ar ei chyfer – yw'r un a welwyd gan Edward Lhwyd<sup>28</sup> a'i gynorthwywyr ym Modysgallen yn 1701; y mae presenoldeb y ffurfiau *Camberaec* a *Deo* yn y copïau sy'n deillio ohoni yn cadarnhau mai Salesbury a'i lluniodd.<sup>29</sup>

<sup>22</sup> Gw. Henry Lewis, 'Llythyr William Salesbury at Ruffudd Hiraethog', *BBCS*, 2 (1923–5), 113–18.

<sup>23</sup> Y mae NLW 21291E, f.22 yn ddalen strae o'r llawysgrif hon a ddaeth i feddiant Iolo Morganwg.

<sup>24</sup> Gwall yw 'not after 1564' yn *RWMS*, I, t.21; darllener 'not before 1564'.

<sup>25</sup> Ategir hynny gan y cyfeiriad at un o llawysgrifau Gruffydd Dwnn o Ystradmerthyr ar t.54; ar y cysylltiad rhwng Salesbury a Dwnn, gw. Thomas Parry, 'Tri chyfeiriad at William Salesbury', *BBCS*, 9 (1937–9), 108–112.

<sup>26</sup> Daeth y llawysgrif hon, fel y ddalen strae o Cwrtmawr 3, i feddiant Iolo Morganwg. Yn Cwrtmawr 3, tt.41 ac 194 ceir llofnod 'Rice Jones', sef Rhys Jones o'r Blaenau (1713–1801); gwyddys bod Iolo wedi ymweld â Rhys Jones yn 1772 (gw. Williams, *IM*, tt.174–5) ac yn Awst 1800 (gw. *CIM*, II, tt.316–17). Gan y gwyddys bod rhai o llawysgrifau Hengwrt wedi bod ym meddiant Rhys Jones, y mae'n bosibl o'r herwydd mai llawysgrifau strae o'r llyfrgell honno yw Cwrtmawr 3 ac NLW 21294B.

<sup>27</sup> Camb. Corpus 114, tt.491–2, 497–8; gw. Robin Flower, 'William Salesbury, Richard Davies, and Archbishop Parker', *CLIGC*, 2 (1941–2), 7–14.

<sup>28</sup> *Lhuyd*, sef y ffurf a arferid ganddo yn ei gyhoeddiadau, yw'r ffurf a ddefnyddir yn *RWMS*, ond yn y traethawd hwn defnyddir *Lhwyd*, sef y ffurf a arferid ganddo yn ei ohebiaeth ac a ddilynwyd gan Brynley F. Roberts yn ei gofiant diweddar iddo (*Edward Lhwyd c.1660–1709, Naturalist, Antiquary, Philologist* (Cardiff: University of Wales Press, 2022)).

<sup>29</sup> Awgrymir ym mhennod IV y posibilrwydd mai llawysgrif goll yn llaw Salesbury oedd ffynhonnell y rhestr o feirdd a'u manau claddu a gopiwyd gan Thomas Wiliems yn Add. 31055.



Yn wahanol i'r llawysgrifau sy'n gyfan gwbl neu i raddau helaeth yn ei law, y mae'r llawysgrifau y gadawodd Salesbury fân nodiadau ynddynt yn lliaws. Fel Thomas Wiliems, yr oedd Salesbury yn dueddol iawn i ychwanegu nodiadau at ei ffynonellau: y mae Llst. 39, Llst. 116, NLW 3024C (*olim* Mostyn 83), NLW 3049D (*olim* Mostyn 146), NLW 5276D, NLW 17115E (*olim* Gwysaney 27), Pen. 1 (Llyfr Du Caerfyrddin), Pen. 14, Pen. 15, Pen. 20, Pen. 30, Pen. 110, Pen. 175, Pen. 182, Pen. 190, Pen. 335, Add. 14912, Add. 14931, Add. 15045 a Cotton Cleopatra B.v oll yn cynnwys nodiadau yn ei law ef neu mewn llaw debyg iawn iddi, ac awgrymodd Dafydd Jenkins fod Pen. 259B yn cynnwys copi o ffynhonnell ganoloesol a ddygai nodiadau yn llaw Salesbury.<sup>30</sup> At hyn, y mae'n bosibl y bydd y darganfyddiadau a drafodir isod yn arwain at ganfod rhagor o llawysgrifau y digwydd ei law ef ynddynt.

Trown felly at y llawysgrif fwyaf arwyddocaol o ran y goleuni newydd y mae'n ei daflu ar yrfa gynnar Salesbury, sef NLW 3049D (*olim* Mostyn 146). Cyn cyrraedd llyfrgell Mostyn, yr oedd y llawysgrif hon yn rhan o gasgliad nodedig Thomas Mostyn (1651–92) yng Ngloddaith; ar t.3 ceir llofnod Thomas Mostyn ynghyd â phennawd yn llaw ei gyfaill, Humphrey Humphreys: 'Cowydds & Owdles by severall ancient poets'.<sup>31</sup> Gellir hefyd fod yn bur hyderus ynghylch cartref y llawysgrif ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Yn y cyfnod hwnnw ychwanegwyd nifer sylweddol o ddalennau at y llawysgrif wreiddiol, a ysgrifennwyd tua chanol y ganrif flaenorol. Cynhwysai'r craidd hwnnw 149 o ddalennau, sy'n cyfateb i tt.23–118, 127–304 a 311–34 yn ôl y tudaleniad a ddarparwyd gan J. Gwenogvryn Evans wrth baratoi ei *Reports*,<sup>32</sup> ond ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg ychwanegwyd 99 o ddalennau, sy'n cyfateb i tt.1–22 a 335–510; fel y trafodir isod, y mae tt.119–26 a 305–9 yn ddalennau strae sy'n cynnwys deunydd perthnasol, rhai ohonynt yn gynharach na chraidd y llawysgrif. Ar y 99 dalen newydd, copiwyd barddoniaeth, cywyddau'n bennaf, gan gynnwys bloc o gywyddau gan Ddafydd ap Gwilym (tt.355–80) a cherddi a ganwyd i Owain Glyndŵr (tt.465–81). Y mae'r ychwanegiadau hyn yn bennaf yn llaw Ifan Siôn, bardd a ganai ar ei fwyd ei hun ac a wasanaethai deulu Gwedir tua'r blynyddoedd 1609–36.<sup>33</sup> Ceir hefyd ambell gyfraniad yn llaw Huw Machno, bardd ac

---

<sup>30</sup> Gw. Christine James, 'Ban wedy i dynny: Medieval Welsh Law and Early Protestant Propaganda', *CMCS*, 27 (1994), 61–86 (78–9); Sara Elin Roberts, *Llawysgrif Pomffred. An Edition and Study of Peniarth MS 259B* (Leiden: Brill, 2011), t.19. Ar ymwneud Salesbury â'r hen gyfreithiau Cymreig, gw. Dafydd Ifans, *William Salesbury and the Welsh Laws* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Coleg Prifysgol Cymru, 1980).

<sup>31</sup> Gw. *MWM*, t.327.

<sup>32</sup> Ceir disgrifiad manwl Gwenogvryn o'r llawysgrif yn *RMWL*, I, tt.168–79.

<sup>33</sup> Gw. *RWMS*, II, tt.65–6.

ysgrifwr y gwyddys yn dda am ei gysylltiadau â Gwedir;<sup>34</sup> ar t.507, yn llaw Ifan Siôn, ceir 'englynion anaed i lvn gwr ar farch oedd yn y gwigav yNgwedir ar gwr oedd Hvw Machno', ac ar t.448, yn yr un llaw, englynion Ifan Siôn i bont Llanrwst, a godwyd dan nawdd teulu Gwedir yn 1636. Ceir hefyd ychwanegiadau yn llaw ardderchog yr ysgrifwr anhysbys y rhoddwyd iddo'r siglwm X127 yn *RWMS*, ysgrifwr a chanddo gysylltiadau cryfion â theuluoedd Gwedir a'r Berth-ddu, ac ar tt.119–23 ceir deunydd yn llaw Thomas Wiliems.<sup>35</sup> Ymhellach, y mae a wnelo'r deunydd cynharach â thair cenhedlaeth o hynafiaid teulu Gwedir: y mae tt.305–6 (dalen femrwn)<sup>36</sup> yn cynnwys copi mewn llaw o hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg o gywydd Rhys Goch Eryri y dywedir weithiau mai ar gyfer Robert ap Maredudd y'i canwyd,<sup>37</sup> ac ar tt.307–10 (biffoliwm papur)<sup>38</sup> ceir copi mewn llaw gyfoes o gywydd Lewys Môn i Faredudd ab Ieuan ap Robert o Benanmen<sup>39</sup> a chywydd Ieuan ap Tudur Penllyn i'w dad yntau, Ieuan ap Robert ap Maredudd o'r Gesailgyfarch.<sup>40</sup> Prin, felly, y gall fod unrhyw amheuaeth nad Gwedir oedd cartref NLW 3049D ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg,<sup>41</sup> ac y mae tystiolaeth gref o blaid credu na chrwydrodd ymhell er pan ysgrifennwyd craidd y llawysgrif tua chanol y ganrif flaenorol.

Cysylltiadau testunol sy'n cynnig y dystiolaeth gryfaf mai yn Nyffryn Conwy yr ysgrifennwyd craidd y llawysgrif hon. Ystyriwn yn gyntaf y casgliad bychan a geir ynddi o waith Dafydd ap

---

<sup>34</sup> Ar Huw Machno, a'r cysylltiadau â Gwedir, gw. *BC*; *RWMS*, II, t.54; Daniel Lynn James, 'Bywyd a gwaith Huw Machno' (traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1960).

<sup>35</sup> Ymhellach ar Wiliems, gw. pennod IV.

<sup>36</sup> Y mae'n werth nodi brinned yw'r enghreifftiau eraill o gopïo barddoniaeth ar femrwn yn y cyfnod hwn. Yr enghraifft amlycaf yw'r llawysgrif goll o ganu Dafydd ap Gwilym a adwaenir fel y *Vetustus*, a ysgrifennwyd, yn ôl John Davies o Fallwyd, tua 1526 (gw. Dafydd Johnston, 'Traddodiad y Llawysgrifau', yn *DG.net*; Daniel Huws, 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym', yn *MWM*, tt.84–103). Ac eithrio casgliad John Davies ei hun yn Pen. 49, y tyst pwysicaf i'r *Vetustus* yw Card. 4.330 (*olim* Havod 26), llawysgrif yn llaw Thomas Wiliems, c.1574; yn ogystal, codwyd testun Bangor Mostyn 17 (sydd, fel y gwelir isod, yn llaw William Salesbury, c.1550) o'r un ffynhonnell. Gan hynny, y mae'n werth cynnig y posibilrwydd mai llawysgrif o Ddyffryn Conwy oedd y *Vetustus* a bod, efallai, gysylltiad rhyngddi a'r ddalen femrwn gyfoes yn NLW 3049D. Os oedd John Davies yn gywir yn nodi mai tua 1526 yr ysgrifennwyd y *Vetustus*, byddai'n perthyn i gyfnod Siôn Wyn ap Maredudd (m.1559) fel penteulu Gwedir, gŵr a ganmolod gan y beirdd am ei ddysg a'i weithgarwch addysgol eithriadol; gw. J. Gwynfor Jones, 'Educational activity among the Wynns of Gwydir', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 42 (1981), 7–48.

<sup>37</sup> Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Rhys Goch Eryri* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2007), rhif 12. Fel y dywed y golygydd, y mae'r holl llawysgrifau sy'n mynnu mai ar gyfer Robert ap Maredudd y'i canwyd yn perthyn i gylch Syr John Wynn, ac fe'i defnyddiwyd ganddo ar gyfer ei *History of the Gwydir Family*.

<sup>38</sup> Ar t.310, sef tudalen olaf y biffoliwm papur, ychwanegwyd cyfrifon dyddiedig 31 Harri VIII [=1539/40], sy'n cynnig *terminus post quem* ar gyfer y cerddi ar tt.307–9.

<sup>39</sup> Eurys I. Rowlands (gol.), *Gwaith Lewys Môn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1975), rhif XLVIII.

<sup>40</sup> Thomas Roberts (gol.), *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1958), rhif 37.

<sup>41</sup> Yn y cyfnod hwn codwyd peth o gynnwys NLW 3049D i Llandudno Mostyn B1, yn llaw'r ysgrifwr X8, un o *amanuenses* Robert Wynn o'r Berth-ddu, Llanrwst, ac i NLW 3066E, llawysgrif arall a ysgrifennwyd yn rhannol gan X8 ac sy'n cynnwys cyfraniadau gan X127. Cf. hefyd Llandudno Mostyn B2.

Gwilym. Y mae 13 cerdd yng nghraidd NLW 3049D yn perthyn i Ddafydd neu i'w apocryffa,<sup>42</sup> ac y mae'r stemâu a baratowyd gan olygyddion diweddaraf gwaith y bardd yn dangos yn ddieithriad bod y testunau hyn yn gytras â'r rhai a geir mewn llawysgrifau eraill o Ddyffryn Conwy, yn fwyaf arbennig NLW 727D, llawysgrif yn llaw Huw Machno, a dwy o llawysgrifau Thomas Wiliems, sef Card. 4.330 (*olim* Havod 26) a Bangor Mostyn 5. Cryfheir y cysylltiad gan bresenoldeb (ar tt.25–9) y ffurf lwgr ond nid anniddorol o farwnad enwog Gruffudd ab yr Ynad Coch i Lywelyn ap Gruffudd,<sup>43</sup> testun ac iddo'r priodoliad annisgwyl canlynol: 'Gruffyth ap Rynach ai kant a Llowarch Hvdidd y Moch'. Ceir yr un priodoliad i bob diben ('Gruffith ap Rynach a Llowarch Prydydd y Moch') wrth destun Thomas Wiliems, yntau, o'r un gerdd yn Bangor Mostyn 5, ff.35<sup>v</sup>–38, sy'n awgrym pendant mai o'r un ffynhonnell goll y codwyd y testun.<sup>44</sup>

Y mae'r bloc o gerddi gan Guto'r Glyn ar tt.151–303 yn cynnig tystiolaeth bellach mai llawysgrif a ysgrifennwyd yn Nyffryn Conwy yw NLW 3049D. Y mae'r bloc hwn yn tarddu o ffynhonnell goll a fedyddiwyd gan olygyddion diweddaraf gwaith Guto yn 'Gynsail Dyffryn Conwy', a hynny ar sail y llawysgrifau sy'n tarddu ohoni: NLW 8497B a Pen. 77, ill dwy yn llaw Thomas Wiliems o Drefriw; Gwyneddon 4, yn llaw William Salesbury; ac NLW 3049D, sef y gynharaf oll. Y mae testunau'r pedair llawysgrif hyn o safon uchel ac yn cytuno'n agos â'i gilydd, ond nid o ran y drefn y maent yn digwydd yn y llawysgrifau, sy'n awgrymu mai bwndel o ddalennau rhyddion oedd 'Cynsail Dyffryn Conwy'; y mae cysylltiad ag abaty cyfagos Maenan yn debygol.<sup>45</sup> O ystyried bod y tri thyst arall i 'Gynsail Dyffryn Conwy' yn

<sup>42</sup> Sef *DG.net*, rhifau 5, 8, 11, 17, 36, 40, 44, 54, 128, 149, A1, A20 ac A198.

<sup>43</sup> Ceir copi arall (anghyflawn, ysywaeth) o'r un testun yn Bangor Mostyn 2, f.32<sup>v</sup>, llawysgrif arall o Ddyffryn Conwy.

<sup>44</sup> Gw. y drafodaeth yn Rhian M. Andrews *et al.* (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996), t.419; Dafydd Johnston, 'Bywyd Marwnad: Gruffudd ab yr Ynad Coch a'r Traddodiad Llafar', yn Iestyn Daniel *et al.* (gol.), *Cyfoeth y Testun. Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003), tt.200–19. Er mai testun llwgr a chymysgylid a geir yn NLW 3049D a Bangor Mostyn 5, diogelwyd ambell ddarlenniad rhagorol o ran cytseinnedd, fel *ymwriaw* am *merwinaw* yn ll.65. Gan hynny, y mae'n werth troi at awdl foliant Wiliam Llŷn i Forys Wyn o Wedir (Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1983), rhif 11), awdl sydd, o linell 37 hyd y diwedd, wedi ei chanu ar yr odl *-aw*, fel awdl Gruffudd ab yr Ynad Coch, yntau; y mae'r rhan honno'n dechrau â'r llinell 'Dra fo dôr a môr yn ymwriaw'. Ymddengys yn bosibl fod Wiliam Llŷn yn adleisio'n fwriadol farwnad enwog Gruffudd ab yr Ynad Coch ac mai testun llwgr Dyffryn Conwy oedd sail ei adnabyddiaeth o'r gerdd honno. Gellid hefyd grybwyll y testun ar NLW 3049D, t.107 (tudalen a adawyd yn wag, am ryw reswm, gan y prif ysgrifwr), sef copi yn llaw Simwnt Fychan o gywydd ei athro barddol, Gruffudd Hiraethog (m.1564), i Forys Wyn, fel tystiolaeth sy'n cryfhau cysylltiad y llawysgrif hon â Dyffryn Conwy.

<sup>45</sup> Ar Gynsail Dyffryn Conwy, gw. Dafydd Johnston, 'Trosglwyddiad Cerddi Guto'r Glyn', yn Dylan Foster Evans *et al.* (gol.), *Gwalch Cywyddau Gwŷr. Ysgrifau ar Guto'r Glyn a Chymru'r Bymthegfed Ganrif* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2014), tt.21–51 (45–50). Ceir astudiaeth achos sy'n defnyddio'r llawysgrifau hyn yn Helen Fulton, 'Editing Medieval Manuscripts for Modern Audiences', yn

llawysgrifau y gellir eu cysylltu'n bendant ag unigolion o Ddyffryn Conwy, ac o gofio hanes diweddarach y llawysgrif, y mae'r dystiolaeth dros gredu mai unigolyn o'r dyffryn hwnnw a luniodd NLW 3049D yn gryf. Ni wn, fodd bynnag, am unrhyw ymgais cyn hyn i'w adnabod.

Cyn ceisio adnabod yr ysgrifwr, ystyriwn y testun ar tt.87–100, sef copi o waith Chaucer, *A Treatise on the Astrolabe*. Gwyddai golygydd diweddaraf y testun hwn, Sigmund Eisner,<sup>46</sup> am 27 ffynhonnell llawysgrif ar ei gyfer, ond prin iawn yw'r copïau a wnaed ar ôl 1532, pryd y'i hargraffwyd am y tro cyntaf, sy'n golygu bod y copi yn NLW 3049D ymysg y copïau llawysgrif diweddaraf oll. Dangosodd Eisner fod testun NLW 3049D yn cyfateb yn agos i argraffiad 1542 o weithiau Chaucer, dan olygyddiaeth William Thynne. Os copi uniongyrchol ydyw, fel yr ymddengys yn debygol, byddai hyn yn amlwg werthfawr gan ei fod yn cynnig *terminus post quem* ar gyfer NLW 3049D, ond y mae i bresenoldeb y testun hwn arwyddocâd ehangach: y mae'n awgrym pendant mai gŵr prifysgol oedd yr ysgrifwr. Ac efallai nad amhriodol yma yw cyfeirio at llawysgrif arall, sef NLW 3567B (*olim* Puleston 7), sy'n cynnwys copi arall o'r un testun a wnaed yn 1551 gan Siôn Edward(s) III o'r Waun.<sup>47</sup> Noda Eisner nad yw'n hawdd barnu ai argraffiad 1532 ynteu 1550 oedd ffynhonnell y copi hwn, ond gellir bod yn hyderus nad yw'n gytras â'r copi yn NLW 3049D. Y mae'n werth nodi, fodd bynnag, mai i'r Siôn Edward(s) hwn, yn 1550, y cyflwynwyd *The Descripcion of the Sphere or the Frame of the Worlde* gan William Salesbury.

Ystyriwn felly dystiolaeth y llawysgrif. Ysgrifennwyd y craidd ar un stoc o bapur, ac awgryma Daniel Huws fod y dyfrnod yn debyg i Briquet 11370, dyfrnod y gellir ei ddyddio i 1545. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth fewnol i'r gwrthwyneb, ni ellir diystyru'r posibilrwydd fod y craidd wedi ei lunio'n fuan wedi'r flwyddyn honno. Nid adnabuwyd y llaw mewn unrhyw ffynhonnell arall, ond y mae'n llaw ysgrifenyddol rwydd a chyfnewidiol, weithiau mewn dwy golofn, gyda defnydd achlysurol o italig anystwyth braidd ar, er enghraifft, t.49 a'r mynegai ar t.134. Ar t.25 ceir englyn<sup>48</sup> mewn llaw italig rwyddach y gellir ei hadnabod fel llaw William Salesbury, efallai yn yr 1560au.

---

Orietta Da Rold ac Elaine Treharne (gol.), *The Cambridge Companion to Medieval British Manuscripts* (Cambridge: Cambridge University Press, 2020), tt.187–213.

<sup>46</sup> Sigmund Eisner (gol.), *A Treatise on the Astrolabe* (Norman: University of Oklahoma Press, 2002); ceir disgrifiad o NLW 3049D ar tt.80–1. Gw. hefyd William Marx, *The Index of Medieval Welsh Prose. Handlist XIV. Manuscripts in The National Library of Wales (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)*, Aberystwyth (Cambridge: D.S. Brewer, 1999), t.15.

<sup>47</sup> Ar Siôn Edward(s), gw. *RWMS*, II, t.28.

<sup>48</sup> Sef englyn olaf awdl enwog Sypyn Cyfeiliog i Ddafydd ap Cadwaladr o Fachelltref: gw. R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel* (Aberystwyth: Canolfan

Gwelir felly fod ambell ddarn o dystiolaeth yn awgrymu'r posibilrwydd mai William Salesbury a ysgrifennodd graidd NLW 3049D: bod y llawysgrif yn cynnwys ychwanegiadau yn ei law ef; ei bod yn cynnwys testunau o waith Guto'r Glyn sy'n gytras â'r rhai a geir mewn llawysgrif arall yn ei law ef ond heb darddu'n uniongyrchol ohoni; a bod *A Treatise on the Astrolabe* yn destun gweddol ddiarffordd y byddai ei apêl yn gyfyngedig i ddyrmaid o unigolion dysgedig. Nid yw'r llawysgrif, fodd bynnag, yn cynnwys rhai o nodau amgen Salesbury, fel y llaw italig rwydd, flodeuog, a'r orgraff idiosyncratig, ond erys y posibilrwydd mai nodweddion a fagodd Salesbury ymhen amser yw'r rheini, a bod yma enghraifft o'i waith fel gŵr ifanc.

Ceir tystiolaeth sy'n cadarnhau hynny yn y copi ar tt.101–6 o'r gerdd siwd0-Daliesinaidd *Difregwawd Taliesin*,<sup>49</sup> cerdd y rhoddwyd iddi'r teitl canlynol gan yr ysgrifwr:

Y Ddivrekawd o waith Taliesin drwy athrawieth yspryt Deo &c.

Y mae'r priodoliad wrth gwt y gerdd yn darllen fel a ganlyn:

Yspryt Duw ae dyvot a Thaliesin ae kant yn y Ddivrekawd.


Er mai *Duw* yw'r ffurf a geir yn y priodoliad, y mae'r ffurf *Deo* yn y pennawd yn dra arwyddocaol: gwyddys yn dda am dueddiad Salesbury i chwarae ag orgraff y Gymraeg er mwyn amlygu'r elfen Ladinaidd ynddi,<sup>50</sup> ac y mae presenoldeb y ffurf hon yn awgrym pendant fod yr ysgrifwr – os nad Salesbury ei hun ydyw, efallai'n dechrau arbrofi â'r ffurfiau Lladinaidd hynny – dan ei ddylanwad ef. Ategir y cysylltiad â Salesbury gan y glosau gan yr ysgrifwr ar un rhan benodol o'r *Ddifregwawd*. Ac eithrio'r glosau ar *sex aetates mundi* ar t.102, yr unig losau ar y gerdd hir hon yw'r rhai Beiblaidd ar t.104 ar gyfer y darn adnabyddus sy'n cyfateb i linellau 85–7 yng ngolygiad Marged Haycock:

---


Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1998), rhif 1; idem, 'Rhaglith i gerdd gan Sypyn Cyfeiliog: dogfen hanesyddol?', *Dwned*, 1 (1995), 55–66.

<sup>49</sup> *BBGCC*, rhif 33.

<sup>50</sup> Gw. Mathias, 'William Salesbury – ei ryddiaith'.



Y mae'r rhain yn cyfateb yn union i'r hyn a argraffwyd ar gefn wynebdden *Kynniver Llith a Ban* (1551):<sup>51</sup>



At hynny, gwelir bod y priodoliad, ac eithrio *Deo* am *Duw*, yn cyfateb yn union i'r hyn a geir yn NLW 3049D. Ni all fod unrhyw amheuaeth felly nad y llawysgrif honno oedd ffynhonnell Salesbury ar gyfer y dyfyniad yn *Kynniver Llith a Ban*, ac odid nad yw hynny'n cloi'n derfynol y ddadl mai Salesbury piau'r llaw rwydd a chyfnewidiol a luniodd graidd NLW 3049D. Gellir felly gynnig 1551 fel *terminus ante quem* ar gyfer ysgrifennu NLW 3049D; gwelwyd eisoes mai ein *terminus post quem* tebygol yw 1542, ac os yw tystiolaeth y dyfrnod yn ddibynadwy, gellir cynnig cyfwng mwy pendant, sef 1545×1551. Yn sicr, y mae'r gwahaniaeth sylweddol rhwng llaw Salesbury yn y llawysgrif hon a'i law yn Card. 2.39 rhan (iv), a ysgrifennwyd yn 1552, yn awgrymu bod rhai blynyddoedd o fwllch rhwng y ddwy. Yr ydys ar dir pur gadarn wrth gynnig 1542×1551, ond diau na fyddid yn cyfeiliorni'n arw pe cynigid c.1545 fel dyddiad ar gyfer NLW 3049D.

<sup>51</sup> Gw. John Fisher (gol.), *Kynniver Llith a Ban* (Cardiff: The University of Wales Press Board, 1931).

Y mae adnabod llaw gynnar Salesbury yn ddarganfyddiad arwyddocaol am sawl rheswm, nid lleiaf y posibilrwydd a ddaw yn ei sgil o adnabod y llaw mewn llawysgrifau eraill. Y mae NLW 3049D yn dangos pa mor sylweddol y gallai llawysgrifen unigolyn newid yn ystod ei oes, hyd yn oed o fewn ychydig flynyddoedd,<sup>52</sup> a hefyd yn cynnig tystiolaeth bwysig o ran twf syniadau orgraffyddol Salesbury. Gellir ei hystyried fel allwedd sy'n ein galluogi i adnabod enghreifftiau eraill o law Salesbury, a thrafodir isod y tair enghraifft sydd wedi dod i'r fei yn ei sgil.

Y gyntaf yw Royal 14.A.xxiv, llawysgrif ffolio ac iddi ugain o ddalennau, a'r diwedd yn eisiau. Ceir ynddi dri thestun: testun moesegol (ff.1–4<sup>v</sup>), gramadeg barddol (ff.5–19<sup>v</sup>)<sup>53</sup> a hanes Dafydd a Bathsheba (f.20<sup>r-v</sup>).<sup>54</sup> Y mae'r testun ar ff.1–4<sup>v</sup> mewn llaw ysgrifenyddol frysiog, a'r gweddill mewn llaw italig, ond fel y gwelir isod, y mae'r dystiolaeth o blaid credu mai Salesbury piau'r ddwy. Ar frig f.5, mewn llaw arall, anhysbys, ceir y nodyn canlynol: 'Yfel dyma lyfyr Wiliam Salusbri'. Gan fod cryn wahaniaeth rhwng y ddwy law hyn a llaw arferol, drawiadol Salesbury, a chan na cheir ynddi olion ei syniadau orgraffyddol ef, buwyd yn gyndyn o dderbyn mai ei waith ef yw Royal 14.A.xxiv. O ystyried y dystiolaeth a geir mewn dwy llawysgrif arall a ysgrifennwyd gan yr un llaw, fodd bynnag, gwelir na raid wrth amheuaeth o'r fath.

Trown felly at yr ail llawysgrif, sef Bangor Mostyn 17, dryll o llawysgrif ar ffurf ffolio cul sy'n cynnwys cywyddau o waith Dafydd ap Gwilym. Dim ond pum nalen a gadwyd, a'r rheini mewn cyflwr gwael, ond rhifwyd y cywyddau [1]–7 a [73]–75, sy'n dangos bod yma ddryll o llawysgrif sylweddol yr aeth y rhan helaethaf ohoni ar gyfrgoll. Noda Dafydd Johnston fod testun yr holl gywyddau ac eithrio un yn cyfateb yn agos i rai'r *Vetustus*, sef y casgliad coll o waith y bardd a wnaed tua 1526, ac y mae'r stemâu a baratowyd ar gyfer y cerddi perthnasol (sef *DG.net*, rhifau 39, 42, 58, 64, 75, 97, 101, 103, 104, 150 a 154) yn dangos yn ddieithriad gysylltiadau testunol agos â llawysgrifau Dyffryn Conwy, yn fwyaf arbennig Card. 4.330 (*olim* Havod 26), llawysgrif yn llaw Thomas Wiliems sydd, fel Bangor Mostyn 17, ar ffurf ffolio cul.<sup>55</sup>

Y llawysgrif olaf i'w hystyried yw Bodl. Welsh f. 2. Yr oedd hon yn un o'r llawysgrifau a brynwyd gan Lyfrgell Bodley yn 1891 oddi wrth un o ddisgynyddion David Richards (1725–

<sup>52</sup> Enghraifft dda o'r math hwn o newid, fel y gwelir ym mhennod IV, yw llaw Thomas Wiliems.

<sup>53</sup> Ymdrinnir â'r testun hwn yn *GP*, tt.1–li.

<sup>54</sup> Argraffwyd y testun olaf yn *MWBM*, tt.103–4.

<sup>55</sup> Ymhellach ar y llawysgrif hon, a'r cyfeiriadau sydd ynddi at Salesbury (ond a ddilëwyd yn ddiweddarach gan Wiliems), gw. pennod IV a n.18 uchod.

82), curad llengar Llanegwad,<sup>56</sup> sef Welsh e. 1–5 a Welsh f. 1–8;<sup>57</sup> y mae rhai ohonynt, er enghraifft Welsh f. 3–5, yn llaw David Richards ei hun, ond y mae'n amlwg fod eraill wedi dod i feddiant David Richards o gasgliad Iaco ab Dewi (1647/8–1722).<sup>58</sup> Un o'r rheini yw Welsh f. 2, llawysgrif gyfansawdd ddeuddecplyg sy'n cynnwys wyth nernyn wedi eu rhwymo ynghyd, rhannau (i), (ii), (v), (vii) ac (viii) yn llaw Iaco ab Dewi ei hun, a'r rhannau eraill yn cynnwys ambell nodyn yn ei law. Y rhannau perthnasol ar gyfer y drafodaeth hon yw rhannau (iii) a (iv), sef ff.30–71,<sup>59</sup> sydd mewn llaw y gellir yn bur hyderus ei huniaethu â'r un a ysgrifennodd Royal 14.A.xxiv a Bangor Mostyn 17. Y mae cynnwys y rhannau hyn, yn enwedig rhan (iv), yn awgrymog. Yn y rhan honno, ac eithrio'r copïau o'r *Compod Manuel a Gorchestion Dafydd Nanmor* ar ff.66–71<sup>v</sup>, yr unig fardd y cynhwysir ei waith, a hynny mewn cyfres ddi-dor o gywyddau, yw Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan (c.1485–1553),<sup>60</sup> bardd a ddisgrifiwyd gan Salesbury fel un o'r 'tri gwladwyr anhepgoraf ar y veddei yr gwir enait, ymgeledd a chwbl addvrn yr iaith'; gellid tybio felly y buasai Salesbury yn chwannog iawn i gopïo ei waith. Ymhellach, o archwilio'r llawysgrifau eraill sy'n cynnwys y cywyddau hynny, gwelir bod cysylltiadau testunol cyson agos â Cwrtmawr 3, llawysgrif a ysgrifennwyd gan Salesbury tua 1564. Ar sail yr ysgrifau a'r cysylltiadau testunol hynny, gellir priodoli llaw y ddwy ran hyn heb fawr betruster i Salesbury. At hyn, y mae i Bodl. Welsh f. 2 arwyddocâd pellach, sef y ffaith fod Salesbury yn defnyddio *pilcrow* (¶) yn rhan (iv) er mwyn nodi toriadau'r paragraffau, rhywbeth nas ceir yn rhan (iii) nac ychwaith yn yr un o'i llawysgrifau eraill, sydd efallai'n awgrymu bod yma destun a baratowyd gan Salesbury ar gyfer y wasg ond na welodd erioed olau dydd.

Pe na bai ond un o'r tair llawysgrif hyn wedi goroesi, y mae'n debygol mai gyda chryn betruster y buesid yn ei phriodoli i Salesbury, ond o ystyried yn ei chrynswth y dystiolaeth awgrymog a gynigir gan y tair llawysgrif ynghyd, daw'n amlwg fod y sawl a nododd 'yfel dyma lyfyr Wiliam Salusbri' yn Royal 14.A.xxiv yn llygad ei le. Y mae'n resyn na ellir dyddio'r llawysgrifau hyn yn fanwl: y mae'r dystiolaeth fewnol yn brin, ac ofer fu pob ymgais i ddod o hyd i ddyfrnodau y gellir eu hadnabod. Serch hynny, y mae'n amlwg mai gwaith cynnar yw'r

<sup>56</sup> Ar David Richards, gw. *RWMS*, II, t.148

<sup>57</sup> Gw. *RWMS*, I, t.732.

<sup>58</sup> Ar gysylltiad David Richards ac Iaco ab Dewi, gw. Garfield H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648–1722* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953), tt.45–9; dyfynnir yno (o *ML (Add.)*, II, t.677) eiriau canmoliaethus Ieuan Fardd i Richards, a elwir yn 'ysgolhaig godidog' a chanddo 'gascliad gwych o'r hen feirdd ag amryw bethau gorchestol eraill na welais i erioed'.

<sup>59</sup> Y mae'n dra phosibl mai dau ddernyn o'r un llawysgrif sydd yma.

<sup>60</sup> Ceir hefyd awdl gan Ruffudd ar ff.37<sup>v</sup>–38<sup>v</sup>, sy'n perthyn i ran (iii).



tair; y maent yn sicr yn ddiweddarach nag NLW 3049D. Bid a fo am hynny, y mae'r pedair llawysgrif yn ychwanegiadau gwerthfawr at ein gwybodaeth am y Salesbury ifanc: y maent yn enghreifftio'n loyw y modd yr aeth ef ati yn ei ieuenctid i gopïo barddoniaeth ar raddfa eang, a gwaith Dafydd ap Gwilym, Guto'r Glyn a Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan yn flaenllaw, a hynny'n ddiau fel deunydd crai ar gyfer y cyhoeddiadau arloesol a lywiodd drwy'r wasg yn y blynyddoedd 1547–51. Ac wrth iddo ymhen amser droi ei olygon at gyfieithu'r Testament Newydd, sef byrdwn rhan nesaf y bennod hon, byddai ymgyfarwyddo â geirfa ac ieithwedd y beirdd hyn wedi bod yn gaffaeliad amhrisiadwy.

### *William Salesbury a'r Epistol at y Cembrau*

Ymhlith y deunydd rhagarweiniol yn Nhestament Newydd 1567, argraffwyd traethawd o waith Richard Davies y daethpwyd i'w adnabod fel *Epistol at y Cembrau*, gwaith y bu ei ddylanwad yn dra phellgyrhaeddol. *Apologia* ar gyfer y ffydd Brotestannaidd newydd yw'r *Epistol*, ac ynddi gwelir Davies yn ailysgrifennu hanes yr Eglwys yn ei famwlad: y mae'n dadlau bod yr hen Frutaniaid wedi cofleidio Cristnogaeth dan ddylanwad Joseff o Arimathea, ond i'r ffydd honno gael ei llygru'n gynnar gan syniadau Awstin o Gaer-gaint, ac mai'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y Diwygiad Protestannaidd oedd adfer bri'r ffydd gynnar cyn maeddu ohoni gan Eglwys Rufain. Yng ngeiriau Glanmor Williams:

It is an interesting and revealing document; but it is a curious work, full of unsound history, fervent Protestantism, and whole-hearted patriotism. Its methods of reasoning are essentially those of the Middle Ages; it relies on the weight of its authorities, not the value of its logic, to convince the reader. [...] The value of the Address for the student of literature or theology is negligible; but, though slight in substance, it is of considerable interest as an indication of its author's approach to contemporary religious and scholarly controversies[.]<sup>61</sup>

Ni bu i'r gwendidau hyn fennu dim ar ddylanwad yr *Epistol*, fodd bynnag; chwedl Geraint H. Jenkins, cafodd 'ddylanwad mawr ar feddylfryd haneswyr a llenorion Cymru am ganrifoedd',<sup>62</sup> yn rhannol gan iddi gael ei hailargraffu yn 1671 (fel rhan o'r gyfrol *Dad-seiniad Meibion y Daran*, a gynhwysai hefyd ail argraffiad o *Deffynniad Ffydd Eglwys Loegr* (1593), cyfieithiad Maurice Kyffin o waith John Jewel, esgob Caersallog) a thrachefn yn 1774 ac yn 1778.<sup>63</sup> Bu'n hysbys ers rhai degawdau, fodd bynnag, nad gwaith Richard Davies yw'r *Epistol* yn ei chrynswth. Mewn nodyn byr a gyhoeddwyd yn 1941, y mae D. Myrddin Lloyd yn dwyn ein sylw at gopi o Destament Newydd 1567 yng ngholeg Corpus Christi, Caer-grawnt (= Camb. Corpus), ac ynddo nodiadau dadlennol ar ymylon y dalennau sy'n cynnwys yr *Epistol*.<sup>64</sup> Y mae'r nodiadau hynny, sydd mewn llaw sy'n perthyn i ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg (neu efallai droad y ganrif ganlynol), yn maentumio bod William Salesbury wedi ymyrryd yn

<sup>61</sup> Glanmor Williams, 'Bishop Richard Davies (?1501–1581)', yn ei *Welsh Reformation Essays* (Cardiff: University of Wales Press, 1967), tt.155–90 (183–4).

<sup>62</sup> Geraint H. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar 1530–1760* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1983), t.132.

<sup>63</sup> Gw. *LW* 1588–9.

<sup>64</sup> D. Myrddin Lloyd, 'William Salesbury and "Epistol E. M. at y Cembrau"', *CLIGC*, 2 (1941–2), 14–16.

sylweddol â thestun yr *Epistol*, ac yn nodi'n benodol pa rannau a ychwanegwyd neu a newidiwyd gan Salesbury. Er enghraifft, wrth y pennawd ('Richard can 'rat DYW Episcop Menew, yn damuno adwenyddiat yr hen ffydd catholic [...]') ceir y nodyn canlynol:

Nid yr audur. William Salesbury i gydymaith worth [*sic*] brintio y llyfyr a wnaeth y decheaud [*sic*] yma. Yr audur a ddoydasai Richard drwy ras duw escop myniw pregethwr gair duw yn erchi annerch y cymro.

Fymryn o dan y nodyn hwnnw ceir nodyn canlynol:

Gwaith William Salesbury yw hynn y gyd a gwmpasoid o fewn y lliniai hynn. Yr audur a ddoedasai henphych well y cymro glan, caredig ym wyt ynghrist Iessu iachawdur y byd diogel ith archa fymrawd. Ystyria &c.

Ar y tudalennau canlynol, nodir o fewn 'lliniay' yn union pa rannau y bu i Salesbury ymyrryd â hwy, yn aml gyda'r nodyn 'Sang<sup>65</sup> W Salesbury' ar ymyl y ddalen.<sup>66</sup> Nodir isod y rhannau hynny:<sup>67</sup>

a.iii<sup>f</sup>1 'Richard' *hyd* a.iii<sup>f</sup>29 'gar'  
a.vii<sup>v</sup>19 'megis' *hyd* a.vii<sup>v</sup>32 'arwyddocaat'  
b.ii<sup>f</sup>21 'Maddeuwch' *hyd* b.ii<sup>f</sup>27 'bodlon'  
c.i<sup>f</sup>19 'Ond' *hyd* c.ii<sup>f</sup>33 'muscrell'  
c.iii<sup>f</sup>3 'a'r' *hyd* c.iii<sup>f</sup>5 'iawn'

Yn ogystal, cywirwyd *cofion* ar a.iii<sup>v</sup>10 yn *cofgadw*. Gwelir bod y darn hwyaf a ychwanegodd Salesbury (sef c.i<sup>f</sup>19 'Ond' *hyd* c.ii<sup>f</sup>33 'muscrell', oddeutu dau dudalen a hanner yn y fersiwn argraffedig) yn cynnwys y darnau o farddoniaeth y dywed Glanmor Williams eu bod yn enghreifftiau o barodrwydd Richard Davies i ddefnyddio gwaith y beirdd fel '*pièces justificatives*',<sup>68</sup> mewn gwirionedd, Salesbury a'u gwthiodd i'r testun.

---

<sup>65</sup> Sef 'sathriad'; gw. *GPC*.

<sup>66</sup> Y mae'n werth nodi bod y nodiadau hyn yn edrych, ar yr olwg gyntaf o leiaf, fel petaent mewn llaw wahanol i'r nodiadau ar dudalen cyntaf yr *Epistol*, ac ymddengys hefyd eu bod mewn inc gwahanol, sydd wedi gadael gwawr werdd ar y papur oherwydd ei fod yn rhy asidaidd.

<sup>67</sup> Yn y copi hwn y mae b.iii a b.iiii wedi eu camrwymo ar ôl c.iiii.

<sup>68</sup> Williams, 'Bishop Richard Davies', t.185. Ceir yma ddetholion o gywydd mawl Iorwerth Fynglwyd i Rys ap Siôn o Lyn-nedd (Howell Ll. Jones ac E.I. Rowlands (gol.), *Gwaith Iorwerth Fynglwyd* (Caerdydd: Gwasg

Ar ddiwedd nodyn D. Myrddin Lloyd ceir cyfeiriad at gopi arall o Destament Newydd 1567 (a ddygwyd i'w sylw gan W. Alun Mathias) sy'n cynnwys yr union nodiadau, 'in a Tudor hand', yn Llyfrgell Rydd Caerdydd (bellach Llyfrgell Ganolog Caerdydd = CCL). Y mae'n amlwg mai'n hwyr yn y dydd y daeth y copi hwnnw i sylw Myrddin Lloyd, ac nid ymddengys iddo gael cyfle i'w archwilio; pe cawsai gyfle, diau y buasai wedi nodi bod y nodiadau yn y copi hwnnw mewn llaw wahanol, llaw lai osgeiddig na'r un yng nghopi Camb. Corpus, ond llaw gyfoes er hynny.

Yn ddiweddar, daethpwyd o hyd i bedwerydd copi o Destament Newydd 1567 sy'n cynnwys y nodiadau hyn. Fel copïau Camb. Corpus a CCL, y mae'r nodiadau yn y copi hwn (sydd mewn casgliad preifat)<sup>69</sup> mewn llaw sy'n perthyn i ail hanner y ganrif ar bymtheg, ac yn ffodus, gellir rhoi enw wrthi: perchennog y llaw, heb unrhyw amheuaeth, yw Nicholas Robinson (c.1530–85), esgob Bangor o 1566 hyd ei farwolaeth.<sup>70</sup> Fel y gwelir maes o law, y mae adnabod perchennog y llaw yn y copi hwn yn sylfaenol bwysig o ran ceisio deall cyd-destun y nodiadau hyn.

Gan fod bodolaeth y tri chopi cynnar hyn yn awgrymu nad ydyw'n amhosibl fod rhagor o gopïau'n cynnwys yr union nodiadau, aethpwyd ati i archwilio pob copi hysbys o Destament Newydd 1567<sup>71</sup> mewn sefydliadau a chasgliadau preifat. Ac eithrio copi Clare College, Caergrawnt, na ellid cael mynediad ato oherwydd gwaith ar yr adeilad, ac un copi mewn casgliad preifat na lwyddwyd i olrhain ei berchennog, llwyddwyd i archwilio pob copi, sef 60 o'r 62 y gwyddys amdanynt.<sup>72</sup> Yr oedd yr helfa'n annisgwyl o lwyddiannus: daethpwyd o hyd i gynifer â chwe enghraifft arall mewn llawiau cynnar, cyfanswm, felly, o 9. Y mae'n resyn, fodd

---

Prifysgol Cymru, 1975), rhif 3, ll.27–8, 39–40, 25–6, 37–8, 35–6); ar a.vii<sup>v</sup>, eto ymysg ychwanegiadau Salesbury, ceir cwpled o gywydd arall gan yr un bardd i'r un noddwr (ibid., rhif 2, ll.25–6). Yr unig lawysgrif hysbys sy'n cynnwys y darlleniadau a argraffwyd gan Salesbury yw NLW 16964A, llawysgrif a ysgrifennwyd yn hanner cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg, yn rhannol gan Thomas Rees, maer Caerfyrddin. Efallai mai cynsail y llawysgrif honno oedd ei ffynhonnell.

<sup>69</sup> Yr wyf yn dra diolchgar i'm cyfaill, Mr Ted Huws, Cemaes, Ynys Môn, am ddangos y copi hwn imi ac am roi ei ganiatâd parod imi dynnu lluniau ohono a'i drafod mewn print.

<sup>70</sup> Sylwer yn enwedig ar y ffurf anarferol ar s a ddefnyddir ganddo'n achlysurol. Ceir enghraifft o law Robinson yn *RWMS*, III, plât 283; ymhlith yr enghreifftiau y gellir eu gweld ar-lein y mae'r llythyr a anfonodd at Matthew Parker ar 7 Hydref 1567 yn Camb. Corpus 114, t.503, a'r ddarlith Saesneg yn ei law yn Camb. Corpus 104, tt.321–34.

<sup>71</sup> Am sensws o'r holl gopïau hysbys a'u lleoliadau cyfredol, gw. Atodiad I.

<sup>72</sup> Priodol yn y fan hon yw cydnabod fy nyled i'r holl guraduron a fu cyn garediced ag archwilio'r copïau nad oedd modd i mi deithio i'w gweld ac anfon lluniau o'r tudalennau perthnasol. Yr wyf yn ddiolchgar i'm cyfaill Llewelyn Hopwood am archwilio copi coleg Corpus Christi, Rhydychen ar fy rhan; yn ogystal â Mr Ted Huws, rhaid nodi fy ngwerthfawrogiad o gymwynasgarwch Mr Gerald Morgan, Aberystwyth, Mr Ken Owen, Marian-glas, Mr Rory McLaggan, Merthyr-mawr, a Mr David Nathan-Maister am ymateb i'm holiadau ynghylch y copïau sydd yn eu meddiant.

bynag, fod dalen a.iii, sy'n cynnwys y nodiadau mwyaf estynedig, yn eisiau mewn pump o'r chwe chopi ychwanegol hyn, sy'n golygu nad oes modd cymharu'r testunau'n ofalus, a hefyd yn ei gwneud yn anos adnabod y llawiau. Yn ffodus, llawiau ysgrifenyddol cyffredinol eu natur yw'r rhain, y rhai lleiaf trawiadol o blith y chwe llaw, felly mae'n debygol na fuasai wedi bod yn bosibl eu hadnabod beth bynnag.

Golyga hyn fod 9 o'r 62 copi o Destament Newydd 1567 sydd wedi goroesi – tua 15% – yn cynnwys y nodiadau cynnar hyn ynghylch ymyriadau William Salesbury ag *Epistol* Richard Davies, a phob un ohonynt mewn gwahanol lawiau o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg neu droad y ganrif ganlynol. Rhoddir isod, yn y drefn y daethant yn hysbys imi, ychydig o fanylion perthnasol ynghylch pob un:

<b>A</b>	Camb. Corpus SP.90	Copi cyflawn yn y rhwymiad gwreiddiol, a'r mylon heb eu tocio. Hen rif silff: E.27. Ymhellach, gw. uchod.
<b>B</b>	CCL, eitem 06002060	Ar yr wynebdden, mewn llaw o'r ail ganrif ar bymtheg, 'llanbrynmair'. Ar yr wynebdden ac ar c.iii <sup>r</sup> ceir llofnod 'Griffith Roberts Surgeon', sef Griffith Roberts, Dolgellau (1737–1808). Hefyd ar yr wynebdden, 'Thos Jones's Book 1817', sef, fe ddichon, Thomas Jones (m.1820) o'r Trawsgoed, Llanuwchllyn, cyfaill i Griffith Roberts. <sup>73</sup>
<b>C</b>	Casgliad personol (Mr Ted Huws)	Popeth cyn a.ii mewn ffacsimili. Nodiadau yn llaw Nicholas Robinson (c.1530–85), a benodwyd yn esgob Bangor yn 1566, wrth yr <i>Epistol</i> ond nid mewn manau eraill. Plât llyfr Thomas Edward Watson, St Mary's Lodge, Casnewydd, tu fewn i'r clawr.
<b>D</b>	NLW OXA 900	Popeth cyn c.i yn eisiau, a difrod i ymlon c.iii. Stamp 'S. Michael's Clergy School Aberdare' ar c.i <sup>r</sup> ; prynwyd yn Bonhams, 16 Tachwedd 1989, am £1,700 gan y Parch. Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern. <sup>74</sup>

<sup>73</sup> Gw. *RWMS*, II, t.83; Gruffydd Aled Williams (gol.), *Ymyrson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986), tt.xxi–xxiii; K.W. Jones-Roberts, 'D.R. Daniel, 1859–1931', *CCHChSF*, 5 (1965–8), 58–77 (58–9).

<sup>74</sup> W. Alun Mathias, 'Geiriau'r Bywyd yn Gymraeg', *Y Casglwr*, 40 (Mawrth 1990), 20.

<b>E</b>	NLW heb rif	Wynebdden yn eisiau. Nifer o ychwanegiadau i'r calendr mewn llaw o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg (nid yr un llaw ag a ychwanegodd y nodiadau at yr <i>Epistol</i> ), gan gynnwys Teyrnog, Mwrog, Meugan a Chynhafal: dengys hyn, ynghyd â'r cyfeiriad at Glocaenog gogyfer â 26 Awst, fod y copi hwn yng nghyffiniau Rhuthun yn y cyfnod hwnnw. Plât llyfr y Cymmrodorion, 1820, tu fewn i'r clawr; ceir nodiadau yn llaw Owen Jones (Owain Myfyr) ar, e.e., a.vii <sup>v</sup> a c.ii <sup>r</sup> .
<b>F</b>	NLW XBS 2025 b67(3)	Popeth cyn a.iiii yn eisiau. Ymylon y dalennau wedi eu trwsio braidd yn anfoddfaol. Nodyn ar William Salesbury, c.1832, ar c.iii <sup>r</sup> . Cyflwynwyd i LIGC yn 1977 gan J. Evan Morris, Rhyd-y-cilgwyn, Rhewl.
<b>G</b>	Casgliad personol (Mr Ken Owen)	Popeth cyn a.iiii yn eisiau; felly hefyd a.vii ac c.i. Difrod i ymylon uchaf y dail. Ymysg y perchnogion diweddarach y mae Thomas Price (Carnhuanawc; 1787–1848), Syr Evan Davies Jones, Pentower (1859–1949) a D.R. Thomas (1833–1916), archddiacon Maldwyn. Gwerthwyd gan Christie's, Efrog Newydd, ar 14 Rhagfyr 2001, rhif 199.
<b>H</b>	Casgliad personol (Cristadelffiaid De Cymru)	Popeth cyn a.iiii yn eisiau; dechrau'r <i>Epistol</i> wedi ei ddarparu mewn llawysgrif yn y ddeunawfed ganrif. Nodyn perchnogaeth 'Lewis ap Hughe Lloyd' mewn llaw gynnar ar c.iii <sup>r</sup> (gw. hefyd 'Lewis Hughes' <i>passim</i> ). Cymynroddwyd i Gristadelffiaid De Cymru gan Dr Alan Fowler (1920–2013), Pen-y-bont ar Ogwr. Wedi ei bastio y tu fewn i'r clawr y mae toriad modern o bapur newydd ynghylch Arglwydd Mostyn.

<b>I</b>	SUB Göttingen, 8 BIBL II, 5240 RARA	Popeth cyn b.i yn eisiau. Prynwyd yn 1749 oddi wrth Thomas Osborne (m.1767), y llyfrwerthwr o Lundain. <sup>75</sup>
----------	-------------------------------------	--

Argreffir isod y testun ar a.iii<sup>f</sup> ym mhob copi:

<b>A</b>	Nid yr audur. William Salesbury i gydymaith worth [sic] brintio y llyfyr a wnaeth y decheaud [sic] yma. Yr audur a ddoydasai Richard drwy ras duw escop myniw pregethwr gair duw yn erchi annerch y cymro. Gwaith William Salesbury yw hynn y gyd a gwmpasoid o fewn y lliniay hynn. Yr audur a ddoedasai henphych well y cymro glan, caredig ym wyt ynghrist Iessu iachawdur y byd diogel ith archa fymrawd. Ystyria &c.
<b>B</b>	Wrth [ ] ad yma yr aw[ ] a ddoydasi [sic] Rycha[ ] drwy rat duw esgob dewi pr[ ] gethwr gair d[ ] yn erchi yn erchi [sic] annerc[ ] y cymro. Gwaith Wiliam S[ ] yw hyn i gyd a gwmpaswyd o fewn y llin[ ] hyn yr awd[ ] a ddoydasai henphych we[ ] y cymro gl[ ] caredig ym wyd ynghri[ ] Iesu iacha[ ] dyr y byd diogel ith [ ] vy mraw[ ] ystyria &[ ].
<b>C</b>	Yr awdur a ddoyd[ ] ai Rychard t[ ] ras Duw Escop [ ] pregethwr gair d[ ] yn erchi annerch [ ] Cymro. Ond W S eu gydymaith wr[ ] i brintio a newidi[ ] hynny mal i gw[ ] yma. Yr awdur a ddoyd[ ] <del>Richard</del> Henp[ ] well y Cymro gl[ ] caredig ym wy[ ] ynghrist Iesu i[ ] audur y byd di[ ] ith archa fym[ ] ystyria &c. Ond W S eu gydym[ ] a newidiodd hy[ ] am y geirie a weli yma.
<b>D</b>	<i>a.iii yn eisiau</i>
<b>E</b>	Nid yr awdwr ond William Sallbri ei gydymeth wrth breintio yr llyfr a wnaeth y dechreued yma. Yr awdwr o ddoydase Richard drwy rād Duw Esgob Dewi pregethwr gair duw yn echi [sic] anerch y Cymro. Gwaith William Salsbury yw hyn a gwmpaswyd o fewn y leiniau hyn. Yr awdwr a ddoydase henphych well y cymro glan caredig ynghrist Ies[ ] ein iachadwdwr yn ddiogel ith archa fy mrawd ystyria &c. <sup>76</sup>
<b>F</b>	<i>a.iii yn eisiau</i>
<b>G</b>	<i>a.iii yn eisiau</i>
<b>H</b>	<i>a.iii yn eisiau</i>
<b>I</b>	<i>a.iii yn eisiau</i>

<sup>75</sup> Gw. Charles Parry, 'Testament Salesbury Arall', *Y Casglwr*, 44 (Awst 1991), 2, lle y nodir y cyfrolau cynnar Cymreig eraill yng nghasgliad Prifysgol Göttingen. Ar Thomas Osborne, gw. *ODNB*. Yn 1749 cyhoeddodd Osborne *A Catalogue of Thirty Thousand Volumes [...] of Several Libraries Just purchas'd*; rhif 4853 yw 'New Testament in Welch, bound in Morocco [...] 1567', a gynigid am 10s 6d.

<sup>76</sup> Ceir yn y copi hwn nodyn ychwanegol (ond ffeithiol anghywir) yn yr un llaw ar frig y tudalen: '[ ] Esgob ymenyw oedd ef. Dechre 1561. Diwedd 1567'. A yw hyn yn awgrymu mai ar ôl dyddiau Davies, a fu farw yn 1581, yr ysgrifennwyd y nodyn?

Credai Myrddin Lloyd ei bod yn bosibl fod y nodiadau yng nghopi Camb. Corpus yn llaw Richard Davies ei hun. Gan y gwyddom i Davies anfon deunydd at Matthew Parker yn yr 1560au,<sup>77</sup> nid yw hynny'n annichonadwy, ac wedi'r cyfan, y mae'n debygol mai Davies ei hun oedd yn gyfrifol am lunio'r nodiadau gwreiddiol ar ôl sylwi ar y gwahaniaethau rhwng ei fersiwn ef o'r *Epistol* a'r fersiwn a argraffwyd. Buasai hynny'n golygu mai copi Camb. Corpus yw'r *Urtext*. O gymharu'r gwahanol fersiynau, fodd bynnag, gwelir na all hynny fod yn wir. Yn gyntaf peth, er na fynnwn farnu'n derfynol nad llaw Davies mohoni, y mae peth gwahaniaeth rhwng y llaw yng nghopi Camb. Corpus a'r enghreifftiau hysbys o law Davies.<sup>78</sup> Yn ail, gwelir bod mwyafrif y copïau eraill (**B**, **C**, **E**, **F**, **H** ac **I**) yn cynnwys nodyn ychwanegol nas ceir yng nghopi Camb. Corpus, sef bod rhan helaeth o'r testun ar b.iii<sup>v</sup> (b.iii<sup>v</sup>3 'Hefyt' *hyd* b.iii<sup>v</sup>23 'hunain') hefyd yn ychwanegiad gan Salesbury.<sup>79</sup> Gellid esbonio absenoldeb y nodiadau ar b.iii<sup>v</sup> yng nghopi Camb. Corpus gan fod b.iii a b.iii<sup>v</sup> wedi eu camrwympo ar ôl c.iii<sup>v</sup> yn y copi hwnnw; y mae eu habsenoldeb yn profi nad copi Camb. Corpus oedd cysail y nodiadau yn y copïau eraill, ac o'r herwydd yn golygu ei bod yn annhebygol mai yn llaw Richard Davies y mae'r nodiadau hyn.<sup>80</sup>

Yn y fan hon, priodol yw cyflwyno dau gopi arall i'r drafodaeth. Y cyntaf yw un o'r copïau a fu gynt yn eiddo i J.H. Davies, Cwrt-mawr, bellach NLW XBS 2025 b67(2), sef y copi a welwyd gan D.R. Thomas ac a drafodir ganddo yn ei gyfrol bwysig ar Richard Davies a William Salesbury.<sup>81</sup> Ceir ynddo gopi mewn llaw o hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif o'r union nodiadau a drafodwyd uchod; ar gefn yr wynebdden, gyda'r dyddiad '21 Sept. 1717', ceir llofnod 'Wm. Thomas', a rhoes yr un gŵr ei flaenlythrennau wrth y nodiadau ar a.ii<sup>v</sup>. Gellir yn hyderus adnabod y gŵr hwn fel William Thomas (c.1676–1764), ysgrifennydd Robert Harley (1661–1724), iarll cyntaf Rhydychen ac iarll Mortimer, a'i fab, Edward, yr ail iarll.<sup>82</sup> Yn ogystal â'r nodiadau ar yr *Epistol*, gwnaeth Thomas ychwanegiadau sylweddol at y calendr

<sup>77</sup> Davies, fe ymddengys, a anfonodd Camb. Corpus 199, llawysgrif enwog Ieuan ap Sulien, at Parker; yn Camb. Corpus 114, ynghyd â llythyrau a yrrwyd ganddo at Parker, 1561–7, ceir copi yn llaw Davies o gyfieithiad Lladin o ddarn o *Frut y Tywysogion* a baratowyd ar gyfer yr un gŵr (gw. *RWMS*, I, tt.521–2).

<sup>78</sup> Yr enghraifft enwocaf yw NLW 17115E (*olim* Gwysaney 27); ceir hefyd enghreifftiau pwysig yn Camb. Corpus 114 (gw. *RWMS*, I, t.521).

<sup>79</sup> Yn ogystal, mewn pump o'r naw copi (**B**, **C**, **F**, **H** ac **I**) ychwanegir 'print' (neu amrywiad bychan arno) mewn llawysgrif ar ôl c.iii<sup>v</sup>3 'Gymraeg yn'.

<sup>80</sup> Ateg i hyn yw'r ffurf [*c*]wmpasoid yn Camb. Corpus; ni chafwyd hyd i enghraifft o ddefnydd o *oi* i gyfleu'r ddeusain wy yn llawysgrifau Davies.

<sup>81</sup> D.R. Thomas, *The Life and Work of Bishop Davies & William Salesbury* (Oswestry: The Caxton Press, 1902), tt.110–11.

<sup>82</sup> Ymhellach ar William Thomas, gŵr y daeth rhagor o wybodaeth amdano'n hysbys er cyhoeddi *RWMS* yn Mehefin 2022, gw. Atodiad II.



ar ddechrau'r gyfrol: ffynhonnell yr ychwanegiadau hyn, fel y tystia Thomas ei hun mewn nodyn Lladin ar gefn y ddalen cyn a.i, oedd cyfrol Siôn Prys, *Yny lhyvyr hwnn*.<sup>83</sup>

Wrth archwilio'r copïau hysbys o Destament 1567, cafwyd hyd i gopi sydd megis yn chwaer i'r copi yn LIGC, sef copi Prifysgol Göttingen. Fel copi LIGC, y mae'r nodiadau yn y copi hwnnw yn llaw William Thomas. Ac eithrio'r ffaith na roes ei flaenlythrennau wrth y nodyn ar a.ii<sup>v</sup> ac na cheir mo'i lofnod yn y gyfrol, prin eithriadol yw'r gwahaniaethau rhyngddynt: ymddengys felly fod William Thomas wedi bod yn berchen ar o leiaf ddau gopi o'r Testament (gan na cheir ei lofnod ynddo, efallai nad oedd copi Göttingen yn eiddo iddo). Gan eu bod mor debyg, dilynir copi LIGC at ddibenion yr ymdriniaeth isod.

Y mae dau gopi William Thomas yn neilltuol o werthfawr gan eu bod yn disgrifio'r ffynhonnell y codwyd y nodiadau ohoni. Ar a.ii<sup>v</sup> ceir y nodyn canlynol:

Quae in margine sequentis Epistolæ de Willielmi Salesbury Interpolationibus notantur, e codice <sup>84</sup> D. Humphredi Foulkes [ ]<sup>85</sup> describuntur, ubi propria Richardi Davies S.T.P. *Episcopi Meneven*. manu exarari videntur. W.T.

[*Y mae'r hyn a nodir ar ymyl y ddalen yn yr Epistol canlynol ynghylch ychwanegiadau William Salesbury yn cael eu codi o lyfr Humphrey Foulkes [ ], lle'r ymddengys eu bod yn llaw esgob Tyddewi, Richard Davies S[acrae] T[heologiae] P[rofessor], ei hun. W[illiam] T[homas].*]

Dyma'r unig dystiolaeth y gwn i amdani sy'n cysylltu William Thomas â Humphrey Foulkes (1673–1737), rheithor Marchwiail. Yr oedd Foulkes yn un o gyfeillion Edward Lhwyd ac yn hynafiaethydd medrus, ond ni wireddwyd mo'i gynlluniau i gyhoeddi ei weithiau; at hynny,

---

<sup>83</sup> Dim ond un copi o'r gyfrol hon sy'n hysbys, sef y copi a gedwir yn LIGC; y mae'n bosibl, onid yn debygol, mai dyna'r copi a welodd William Thomas gan fod y copi hwnnw gynt yn rhan o gasgliad Moses Williams, a oedd yn gyfaill agos i Thomas. Tybed ai hwnnw hefyd oedd y copi a fu'n eiddo i Humphrey Humphreys ond a gollwyd ganddo ar ôl ei roi ar fenthyg i unigolyn anhysbys (gw. R. Geraint Gruffydd, 'Y print yn dwyn ffrwyth i'r Cymro: *Yny Lhyvyr Hwnn*, 1546', *Y Llyfr yng Nghymru*, 1 (1998), 1–20 (t.16))? Fel y gwelir isod, yr oedd gan William Thomas gysylltiadau â swydd Henffordd, felly nid annichon mai iddo ef y rhoes Humphreys, tra oedd yn esgob Henffordd (1701–12), y gyfrol ar fenthyg. Y mae hefyd yn werth nodi, fel y dengys ei nodiadau yn Ll. 105, t.1, fod Moses Williams yn ymwybodol o'r ffaith fod Salesbury wedi ymyrryd â thestun Richard Davies; dichon mai trwy ei gyfaill William Thomas y cafodd yr wybodaeth honno.

<sup>84</sup> Yng nghopi Göttingen 'ex libro' a geir.

<sup>85</sup> Awgryma Dr David Callander wrthyf mai gadael gwagle ar gyfer cymwysterau Foulkes a wnaeth William Thomas, felly nid raid tybio iddo godi'r nodyn o gysail annarllenedwy.

ymddengys fod cyfran helaeth o'i lyfrgell wedi ei cholli yn y tân a ddifrododd ei reithordy tua 1722.<sup>86</sup> Wrth gwrs, y mae'n debygol mai dyfalu yr oedd William Thomas pan nododd fod y nodiadau yn y copi a oedd yn eiddo i Foulkes yn llaw Richard Davies ei hun, ond erys y nodyn yn ddarn pwysig o dystiolaeth. Trwy gymharu dau gopi William Thomas â'r naw copi cynnar, y mae modd barnu ai un o'r naw hynny ai peidio yw'r copi a fu'n eiddo i Humphrey Foulkes. Ar a.iii<sup>f</sup> copiodd William Thomas y nodiadau canlynol:

M<sup>o</sup>. Yr awdyr Wiliam Salbri eu gydymaith wrth brintio y llyfyr awnaeth y dechreuad yma. Yr awdur a ddoydasai Richard trwy ras Duw escop Myniw traethwr gair duw yn erchi annerch y cymro. Gwaith W Salbri yw hyn i gyd a gwmpaswyd o fewn y lliniay hynn. Yr awdur a ddoydasai henphych well y cymro glan caredig ymwy.<sup>87</sup> ynghrist Iessu Iachawdur y byd diogel ith arch[ ] fymrawd ystyria &c.

Gwelir bod testun William Thomas yn dilyn testun **A** uchod yn agosach na'r un testun arall. Ymddengys ei fod wedi camddarllen *Nid* yn y gwreiddiol a'i ddehongli fel *Mo* [am *memorandum*]. Sylwer hefyd ar *traethwr* yn lle *pregethwr*, llithriad na ellid yn hawdd ei esbonio os yw'n gopi uniongyrchol o **A**. Arwydd o debygrwydd rhwng testun William Thomas a thestun **A** yw nad yw'r un o'r ddau'n cynnwys y nodiadau ar b.iiii<sup>v</sup> a geir mewn rhai copïau. Y mae'n sicr, fodd bynnag, nad **A** ei hun yw'r copi a fu'n eiddo i Humphrey Foulkes, a hynny am ddau reswm: yn gyntaf, y ffaith fod y copi hwnnw wedi bod ynghadw yn Camb. Corpus er dyddiau Matthew Parker, ac yn dra annhebygol o'r herwydd o fod wedi bod yn eiddo i Foulkes, hyd yn oed dros dro; ac yn ail, y mae copïau William Thomas yn cynnwys yr ychwanegiad 'brint' ar c.iii<sup>f</sup>, nas ceir yn **A**. Y mae'n bosibl, serch hynny, mai un o'r pum copi lle y collwyd dalen a.iii (sef **D**, **F**, **G**, **H** ac **I**) oedd copi Foulkes. O gymharu'r nodiadau ar y dalennau canlynol, fodd bynnag, gwelir nad yw copïau William Thomas yn dilyn yr un copi hysbys; ymddengys felly fod copi Foulkes, fel cynifer o'i lyfrau a'i lawysgrifau eraill, wedi diflannu.

Y mae'n werth oedi yng nghwmni Foulkes, fodd bynnag. Dichon fod arwyddocâd i'r ffaith mai ef oedd perchennog y copi hwnnw: gwyddys bod rhai o lawysgrifau a llyfrau printiedig John

---

<sup>86</sup> Gw. *RWMS*, II, t.40; Mary Burdett-Jones, 'Building the palace: Dr Humphrey Foulkes's attempt to continue Edward Lhuyd's work', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 58 (2010), 11–22; eadem, 'Humphrey Foulkes: uchelgais heb ei gyflawni', *Y Traethodydd*, 164 (2009), 18–33.

<sup>87</sup> Yma, a hefyd yng nghopi Göttingen, rhoes William Thomas ddotiau o dan *ymwy*, a hynny, fe ddichon, gan na ddeallai'r ymadrodd.

Davies, Mallwyd wedi dod i'w feddiant.<sup>88</sup> Credir bod llyfrgell John Davies wedi cael ei chwalu ar ôl ei farwolaeth yn 1644, efallai trwy esgeulustod Edward Wynne (1618–69), ail ŵr ei weddw, Jane;<sup>89</sup> llwyddodd Robert Vaughan i ddiogelu nifer o lawysgrifau (gan gynnwys rhai a grwydrodd o Hengwrt ar ôl ei ddyddiau ef),<sup>90</sup> ond prin aruthrol yw unrhyw lyfrau printiedig y gellir nodi iddynt fod yn eiddo i Davies.<sup>91</sup> Tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, fodd bynnag, ceir cyfeiriadau danteithiol at gopi (sydd bellach ar goll) o *Dictionarium Duplex* (1632) ac ynddo nodiadau yn llaw Davies ei hun. Yr oedd y copi hwnnw'n eiddo i John Parry (m.1699), rheithor Llansansiôr, a oedd hefyd yn berchen ar NLW 872D, llawysgrif o Fawddwy sy'n cynnwys ychwanegiadau sylweddol gan Davies. Olynydd John Parry yn Llansansiôr oedd Humphrey Foulkes, a dengys yr ohebiaeth rhyngddo ac Edward Lhwyd fod copi John Davies o'r *Dictionarium* wedi dod i'w feddiant ef.<sup>92</sup> Yr oedd Foulkes hefyd yn berchen ar NLW 5269B, llawysgrif a ysgrifennwyd gan brif *amanuensis* John Davies ac a ddisgrifir gan Thomas Lloyd o Blas Power yn ei *Explicatio Notarum* (dan y siglwm 'AH') fel 'MS. 4<sup>o</sup> belonging to Dr. Foulks of Marchwiell'.<sup>93</sup> Diben rhoi hyn o gefndir yw awgrymu'n betrus y posibilrwydd danteithiol mai o lyfrgell John Davies y daeth y copi coll o Destament 1567 a welodd William Thomas yng nghasgliad Humphrey Foulkes tua 1717, a bod y nodiadau efallai yn llaw'r Dr Davies ei hun. Gellid hyd yn oed fynd gam ymhellach a nodi nad yw'n llwyr amhosibl fod y nodiadau yn llaw'r Esgob William Morgan, y 'Gamaliel' y bu John Davies yn ei gynorthwyo'n ŵr ifanc<sup>94</sup> ac a roes ei gopi ei hun o'r Hen Destament Hebraeg i'w ddisgybl ar 18 Medi 1595.<sup>95</sup> Gwelir isod fod ambell ystyriaeth o blaid credu mai William Morgan a'i gylch ef a fu'n gyfrifol am ychwanegu'r nodiadau hyn at ddyrnaid o gopiâu o Destament 1567.

Dangoswyd uchod fod 9 o'r 62 copi hysbys o Destament Newydd 1567 (neu 10 os derbynnir bod dau gopi William Thomas yn tarddu o gopi coll) – cyfran nid ansylweddol – yn cynnwys

<sup>88</sup> Ar lawysgrifau a ysgrifennwyd, a ddefnyddiwyd neu a fu'n eiddo i John Davies, gan gynnwys rhai coll y ceir cyfeiriadau pendant atynt, gw. Daniel Huws, 'John Davies and his Manuscripts', yn Ceri Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd. Welsh Renaissance Scholar* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), tt.88–120.

<sup>89</sup> Gw. *RWMS*, II, t.203.

<sup>90</sup> Er enghraifft, ei 'Liber A' (bellach Add. 14869) a'i 'Liber B' (bellach NLW 4973B).

<sup>91</sup> Un enghraifft yw Harl. 6533.

<sup>92</sup> Gw. Caryl Davies a Mary Burdett-Jones, 'Cyfraniad Humphrey Foulkes at *Archæologia Britannica* Edward Lhuyd', *Y Llyfr yng Nghymru*, 8 (2007), 7–32 (15–17); *RWMS*, II, t.129.

<sup>93</sup> Gw. E.D. Jones, 'Thomas Lloyd y Geiriadurwr', *CLIGC*, 9 (1955–6), 180–7 (183).

<sup>94</sup> Gw. rhagymadrodd John Davies i *Dictionarium Duplex* (1632): 'William Morgan, [...] gŵr y mae ei enw bob amser yn fwyaf melyn ar fy ngwefusau, gan imi gael fy addysgu wrth ei draed ef a oedd fel Gamaliel imi' (Ceri Davies (gol. a chyf.), *Rhagymadroddion a Chyflwyniadau Lladin 1551–1632* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1980), tt.124–56 (127).

<sup>95</sup> Bellach NLW 13181B, sy'n cynnwys nodiadau Cymraeg a Lladin yn llaw Morgan ar ymyl ambell ddalen; erbyn dechrau'r ddeunawfed ganrif yr oedd ym meddiant Henry Rowlands (1655–1723), ficer Llanidan.

y nodiadau hyn ynghylch ystryw Salesbury mewn llawiau cynnar. Anodd yw barnu a yw'r sampl hwn yn gynrychioliadol ai peidio. Ni wyddys pa sawl copi o'r Testament a argraffwyd,<sup>96</sup> ond y farn gyffredinol yw bod tua 1,000 copi o Feibl 1588 wedi eu hargraffu; bwrier felly mai cyffelyb oedd y nifer o gopïau o Destament 1567 a argraffwyd. Os yw'r sampl yn gynrychioliadol, ceid gynt ugeiniau lawer o gopïau ac ynddynt y nodiadau hyn, ac os felly, yr unig leoliad lle y gallai'r nodiadau fod wedi cael eu hychwanegu yw'r argraffdy (neu, o bosibl, y man lle y cedwid y stoc yn fuan ar ôl y cyhoeddi, palas yr esgob yn Abergwili, efallai).<sup>97</sup> Anodd dychmygu, fodd bynnag, y buasai Nicholas Robinson, ysgrifwr C, a oedd erbyn hynny'n esgob Bangor, wedi bod yn bresennol yn yr argraffdy. Ffaith arall sy'n milwrio yn erbyn y posibilrwydd hwn yw bod y naw copi mewn llawiau gwahanol: oni ddisgwylid i'r gwaith o ychwanegu'r nodiadau hyn at nifer fawr o gopïau fod wedi cael ei roi i ryw ddau neu dri o glercod iselradd, yn hytrach nag i esgob Bangor a'i debyg, a chan hynny oni ddisgwylid gweld yr un llawiau'n digwydd mewn mwy nag un copi?

Un posibilrwydd sy'n rhaid ei ystyried yw bod y nodiadau hyn yn tarddu, efallai'n annibynnol ar ei gilydd, o daflen *errata* nad yw wedi goroesi. Y mae hyn, fodd bynnag, yn ymddangos yn annhebygol. Mewn nifer fechan iawn o'r copïau hysbys o Destament 1567 ceir taflen *errata* ('Y Beiaë y ddiangasant yn y print ac a ddleir ei correctio val hyn'), gan gynnwys 'Apologi neu Atep am y Beiaë y mae'r ei yn cael yn Epistol Episcop Menew', ond ni chrybwyllir yno unrhyw ystryw ar ran Salesbury.<sup>98</sup> A barnu wrth natur y nodiadau, fe'u gwnaed gan unigolion a oedd rywsut yn gysylltiedig â'i gilydd, ac efallai â Richard Davies ei hun.

Beth, ynteu, oedd cymhelliant yr unigolion a aeth ati'n fuan ar ôl cyhoeddi Testament Newydd 1567 i ychwanegu'r nodiadau hyn? Rhaid pwysleisio nad ar ddamwain y copiwyd y nodiadau hyn gan o leiaf naw o wahanol unigolion, ond ac eithrio'r argraffdy (sy'n annhebygol am resymau a amlinellwyd uchod), y mae'n anodd dychmygu sefyllfa lle y gallai hyn fod wedi digwydd. Pa fath o bobl a fyddai â diddordeb mewn manion testunol fel y rhain, cymaint felly nes nodi'n union (gan gopïo o gopi meistr, ond odid) y rhannau a ychwanegwyd neu a newidiwyd gan Salesbury? Ni ellir ond dyfalu ar hyn o bryd, ond y mae'r dystiolaeth yn

---

<sup>96</sup> Ar hanes y cyhoeddi, gw. Isaac Thomas, *Y Testament Newydd Cymraeg 1551–1620* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976), tt.126–301.

<sup>97</sup> Y mae'r mwyafrif llethol o'r copïau a welais yn cynnwys cywiriadau ar L.iii<sup>v</sup>9 ('yn yn y presepe' > 'yn y presepe') ac L.vi<sup>r</sup>18 ('decheuawdd' > 'dechreuawdd'; 'ddec' > 'dec'); y tebyg yw mai yn yr argraffdy y gwnaed y cywiriadau hyn.

<sup>98</sup> Ceir copi ffacsimili o'r pedair dalen hyn mewn ambell gopi.

caniatáu tybio mai at ddibenion ail argraffiad arfaethedig y copiwyd y nodiadau, a hwnnw heb ei lygru gan ddylanwad Salesbury. Ond pam cynifer â naw copi? Oni fyddai un yn ddigon? Yn hyn o beth, y mae adnabod Nicholas Robinson fel ysgrifwr C yn arwyddocaol.<sup>99</sup> Er nad yw'n berffaith ddiamwys, y mae'n bosibl mai ef – ac nid ei olynnydd, Hugh Bellot – yw'r esgob a gydnabyddir gan William Morgan yn ei ragymadrodd i Feibl 1588 ac y diolchir iddo am gael benthg llyfrau ac am 'archwilio, cloriannu a chymeradwyo'r gwaith hwn'.<sup>100</sup> Bu Robinson farw yn 1585, dair blynedd cyn i'r Beibl ymddangos o'r wasg, ond onid yw'n debygol y buasai Bellot wedi cael ei ddyrchafu'n esgob yn rhy hwyr yn y dydd i wneud cyfraniad sylweddol at waith William Morgan, gwaith a fyddai erbyn 1585 yn tynnu tua'i derfyn?<sup>101</sup> At hynny, yr oedd Robinson, fel Morgan, yn frodor o Ddyffryn Conwy ac yn arddel cysylltiadau â theulu Gwedir;<sup>102</sup> yr oedd iddo hefyd fri fel llenor ac fel hynafiaethydd.

A yw'n bosibl felly mai rhai o'r ysgolheigion a fu'n cynorthwyo neu'n cefnogi William Morgan a fu'n gyfrifol am ychwanegu'r nodiadau hyn at eu copïau personol o Destament 1567? Pe derbynnid hynny, gellid esbonio ambell ddarn o dystiolaeth sydd fel arall yn anodd ei egluro, gan gynnwys y ffaith fod cyfran bur sylweddol o'r copïau a oroesodd yn cynnwys y nodiadau hyn: diau y byddai copïau a fu'n eiddo i ysgolheigion yn fwy tebygol o oroesi na chopïau a ddsbarthwyd at ddefnydd mewn eglwysi. Gellid hefyd ddychmygu y byddai gan y gwŷr hynny gryn ddiddordeb yn nhestun gwreiddiol Richard Davies cyn iddo gael ei ystumio gan Salesbury. Y mae'n wir na cheir yn eu plith enghreifftiau o lawiau dau ŵr y gwyddys iddynt

<sup>99</sup> Ar Robinson, gw. *BC* (d.g. 'Robinson (Teulu), Conwy, Sir Gaernarfon, Monachdy, sir Fôn, a Gwersyllt, sir Ddinbych'); *ODNB*; *RWMS*, II, t.154. Ymaelododd â choleg Queens', Caer-grawnt, yn 1545, lle y bu'n gymrawd o 1549 ymlaen; graddiodd yn BA yn 1548, MA yn 1551, ac fe'i gwnaed yn broctor y brifysgol yn 1552 (ymhellach, gw. pennod IV). Fe'i hordeiniwyd gan William Glyn, esgob Bangor, yn 1556–7, ac yn 1559 fe'i penodwyd yn gaplan i Matthew Parker, archesgob Caer-gaint. Daeth graddau pellach i'w ran (BTh yn 1561 a DTh yn 1566), ynghyd â bri fel pregethwr. Fe'i penodwyd yn archddiacon Meirionnydd yn 1562, ac yn 1566, yn dilyn marwolaeth Rowland Meyrick, fe'i cyfetholwyd yn esgob Bangor. Ychwanegwyd yn sylweddol at ein gwybodaeth amdano pan ddarganfu Daniel Huws mai yn ei law ef y mae Pen. 383, sy'n arddangos ei gynneddfau fel hanesydd (gw. *RWMS*, I, tt.459–60).

<sup>100</sup> Gw. Davies (gol. a chyf.), *Rhagymadroddion a Chyflwyniadau Lladin*, t.70. Ceir hanes cyhoeddi Beibl 1588 yn R. Geraint Gruffydd, *Y Beibl a Droes i'w Bobl Draw* (Llundain: Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, 1988); Glanmor Williams, *The Welsh and their Religion* (Cardiff: University of Wales Press, 1991), tt.173–229; Gruffydd Aled Williams, 'William Morgan's Bible and the Cambridge connection', *CHC*, 14 (1988–9), 363–9.

<sup>101</sup> Awgryma J. Gwynfor Jones yn ei erthygl ar Robinson yn *ODNB* y posibilrwydd mai ef, nid Bellot, a olygir.

<sup>102</sup> Yr oedd yn uchel ei barch gan Syr John Wynn, a'i geilw yn 'an excellent scholar' ac 'a very wise man' (gw. Wynn, *The History of the Gwydir Family and Memoirs*, tt.60–1); priodolwyd *Vita Griffini filii Conani*, y fersiwn Lladin o *Historia Gruffudd ap Cynan*, ar gam i Robinson gan Syr John, a hynny'n fwriadol, fe ymddengys, er mwyn amddifadu'r gwir gyfieithydd, Edward Thelwall, o'i glod dyledus: gw. *RWMS*, II, t.154; Paul Russell (gol. a chyf.), *Vita Griffini filii Conani* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), t.15; Ceri Davies, 'The sixteenth-century Latin translation of *Historia Gruffud vab Kenan*', yn K.L. Maund (gol.), *Gruffudd ap Cynan: A Collaborative Biography* (Woodbridge: The Boydell Press, 1996), tt.157–64. Gw. hefyd Albert Owen Evans, 'Nicholas Robinson (1530?–1585)', *Y Cymmrodor*, 39 (1928), 149–99, lle'r argreffir (ar tt.195–8) y farwnad a ganodd Siôn Phylip iddo.

gynorthwyo William Morgan, sef David Powel a Jaspas Gryffyth,<sup>103</sup> er na fynwn farnu nad yw'r un o'r llawiau cynnar yn perthyn i Edmwnd Prys, un arall o gynorthwywyr Morgan ac un a chanddo law lai trawiadol na'r eiddo Powel a Gryffyth. Trwy ddyfalbarhad a lwc, y mae'n bosibl iawn y gellid adnabod rhagor o'r llawiau cynnar, yn enwedig llaw drawiadol E. Gan hynny, efallai y gellid adnabod rhagor o unigolion a fu – nid yn annhebyg i John Davies o Fallwyd, gŵr na fyddem yn gwybod mai ef a fu'n bennaf gyfrifol am Feibl 1620 pe na bai'r beirdd yn nodi hynny yn eu cerddi iddo – yn gyfrifol, tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, am gynnig anadl einioes i'r Gymraeg.<sup>104</sup> Ac er mor gofiadwy yw'r stori a gofnododd Syr John Wynn o Wedir ynghylch yr un gair a fu'n gymaint o faen tramgwydd, onid yw'r modd y bu i Salesbury ymyrryd yn hy â thestun Richard Davies yn esboniad llawer mwy tebygol i'r ffræ a ddaeth â'r gwaith mawr i ben?

---

<sup>103</sup> Y mae'r copi o Feibl 1588 a roddwyd gan Morgan i Powel ar 17 Rhagfyr 1588 bellach yn Harvard, a'r un a roddwyd i Gryffyth ar 20 Tachwedd yn abaty Westminster.

<sup>104</sup> Awgrymir yn betrus ym mhennod IV y posibilrwydd fod Thomas Wiliems o Drefriw, gŵr na wyddom fawr ddim am ei hynt yn yr 1580au, ynghlwm mewn rhyw ffordd â gwaith William Morgan.

## ATODIAD I

### Testament Newydd 1567: sensws o'r copïau

At ddibenion yr ymdriniaeth yn ail ran pennod III, bu'n rhaid olrhain cynifer â phosibl o'r copïau o Destament Newydd 1567 sydd wedi goroesi. Gan fod y copïau hyn wedi denu sylw sawl llyfryddwr ar hyd y degawdau, nid lleiaf Charles Ashton (1848–99),<sup>105</sup> yr heddwes o Ddinas Mawddwy a wnaeth ymdrech arwrol tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'w lleoli a'u cyfrif, rhoddir eu manylion isod.<sup>106</sup>

Y sylfaen ar gyfer y sensws hwn yw gwaith W. Alun Mathias, a gyhoeddodd ffrwyth ei ymchwil yn rhifyn Awst 1990 o'r *Casglwr*.<sup>107</sup> Rhestrir yno leoliadau cyfredol 49 o gopïau, gan gynnwys tri chopi mewn dwylo preifat, un ohonynt yn eiddo i Alun Mathias ei hun. Yn y rhifyn canlynol ceir erthygl arall gan yr un awdur yn nodi bod copi arall wedi dod i'r fei, sef yr un a oedd bryd hynny'n eiddo i Dr Alan Fowler, llawfeddyg o Ben-y-bont ar Ogwr, ac a arddangoswyd ym mhabell y Cristadelffiaid yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni, 1990.<sup>108</sup> Yna, yn rhifyn Awst 1991, ceir manylion gan Charles Parry am gopi ychwanegol, sef y copi yn llyfrgell Prifysgol Göttingen a drafodwyd mewn manylder ym mhennod III.<sup>109</sup> Yr oedd felly 51 o gopïau'n hysbys erbyn 1991, sy'n tystio i lafurwaith dyfal a thrylwyr Charles Ashton, a lwyddodd yn wyneb pob anhawster i gyfrif 30 o gopïau yn 1891,<sup>110</sup> ac Ifano Jones, a lwyddodd yn 1906 i gyfrif cynifer â 46.<sup>111</sup> Erbyn hyn, fodd bynnag, y mae nifer y copïau

---

<sup>105</sup> Gw. Charles Ashton, *Bywyd ac Amserau yr Esgob William Morgan* (Treherbert: Yr Awdwr, 1891), tt.321–5.

<sup>106</sup> Hoffwn ddiolch i Timothy Cutts, Llyfrgellydd Llyfrau Prin LIGC, am ei gymorth wrth geisio lleoli'r holl gopïau ym meddiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru; i Hedd ap Emlyn am fy rhoi ar drywydd y copïau yn Rhuthun; ac i'r unigolion (a enwir isod) y mae ganddynt gopïau o'r Testament Newydd yn eu meddiant ac a atebodd fy mynych ymholiadau yn eu cylch.

<sup>107</sup> W. Alun Mathias, 'Testament Newydd ein Arglwydd Jesu Christ. W. Alun Mathias yn cyfri'r copïau [*sic*]', *Y Casglwr*, 41 (Awst 1990), 5.

<sup>108</sup> Idem, 'Canfod copi arall o Destament Salesbury', *ibid.*, 42 (Nadolig 1990), 15.

<sup>109</sup> Charles Parry, 'Testament Salesbury arall', *ibid.*, 44 (Awst 1991), 2.

<sup>110</sup> Daeth y degfed copi ar hugain i sylw Ashton yn rhy hwyr i'w gynnwys yn y brif restr, ond dygir sylw ato mewn troednod yn ar t.324. Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd cyfrol Ashton, cyhoeddwyd *Life and Times of Bishop William Morgan* gan William Hughes, ficer Llanuwchllyn, sydd, fel cyfrol Ashton, yn cynnwys sensws o'r Testamentau a'r Beiblau cynharaf, ond ni lwyddwyd yno i gyfrif ond 16 copi o Destament 1567.

<sup>111</sup> Gw. John Ballinger a J. Ifano Jones, *The Bible in Wales* (London: Henry Sotheran & Co., 1906). Ceir yn y gyfrol honno restr faith o berchnogion y gwahanol argraffiadau; ar t.93 dywed Ifano 'it does not pretend to be a complete census of even the rare editions', ond llwyddodd yn rhyfeddol serch hynny.

hysbys wedi codi i 62, ac y mae dau o'r tri chopi mewn casgliadau preifat a restrir gan Alun Mathias wedi cael eu trosglwyddo i lyfrgelloedd sefydliadol.<sup>112</sup> Gorchwyl buddiol fyddai cymharu'r rhestr a gynigir isod â'r eiddo Charles Ashton ac Ifano Jones er mwyn ceisio barnu pa gopïau eraill a allai fod mewn casgliadau preifat o hyd; diau bod rhai eto i'w rhwydo.

	<i>Lleoliad</i>	<i>Rhif silff / Cyfeirnod eitem</i>
1	Abergwili: Amgueddfa Sir Gâr	–
2	Abertawe: Llyfrgell y Brifysgol	W/BS2045
3	Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Col. 8337
4		Col. 13492
5		Col. 13677
6		GJW 1
7		GJW 2
8		heb rif
9		OA 3386
10		OXA 370
11		OXA 900
12		W.b 8817
13		W.s 58
14		W.s 1567(1)
15		W.s 1567(2)
16		XBS2025 b67(1)
17		XBS2025 b67(2)
18		XBS2025 b67(3)
19	Austin: University of Texas	Harry Ransom Center, BIBLE Welsh 2
20	Bangor: Llyfrgell y Brifysgol	X/EC 7 1567
21		<i>ditto</i>
22		<i>ditto</i>
23		<i>ditto</i>
24		<i>ditto</i>
25		<i>ditto</i>
26	Boston, Mass.: Harvard University	Houghton Library, GEN STC 2960
27	Caerdydd: Llyfrgell y Brifysgol	WG32.1(1567) <sup>113</sup>
28	Caerdydd: Llyfrgell Ganolog	06002060
29		<i>ditto</i>
30	Caeredin: National Library of Scotland	RB.s.2239
31	Caer-grawnt: Clare College	–
32	Caer-grawnt: Corpus Christi College	SP.90

<sup>112</sup> Ni chynigir manylion llyfryddol yma; buasai hynny'n mynd y tu hwnt i ffiniau'r ymdriniaeth hon, ond haeddant sylw manwl rywbryd eto.

<sup>113</sup> Sef y copi a fu gynt yn eiddo i W. Alun Mathias.



33	Caer-grawnt: University Library	BSS.204.B67.1 <sup>114</sup>
34		BSS.204.B67.2
35		Syn.7.56.18
36		Young.127
37	Chicago: Newberry Library	Case X 835.111
38	Efrog Newydd: Morgan Library	PML 27724
39	Göttingen: Niedersächsische Staats- und Universitätsbibliothek	8 BIBL II, 5240 RARA
40	Henffordd: Eglwys Gadeiriol	–
41	Lincoln: Eglwys Gadeiriol	–
42	Llanelwy: Eglwys Gadeiriol	–
43	Llundain: The British Library	C.36.d.3
44	Llundain: Lambeth Palace	E2208 1567
45	Manceinion: John Rylands Library	R4451
46	Princeton: Scheide Library	90.8
47	Rhuthun: Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru	–
48		–
49	Rhydychen: Bodleian Library	4° T 19 Th.Seld.
50	Rhydychen: Corpus Christi College	delt.4.25
51	Rhydychen: Jesus College	–
52		–
53	Rhydychen: Merton College	77.G.10
54	San Marino: Huntington Library	96533
55	Wells: Eglwys Gadeiriol	–

*Mewn casgliadau preifat*

- 56 Cristadelffiad De Cymru<sup>115</sup>
- 57 Ted Huws, Cemaes<sup>116</sup>
- 58 Rory McLaggan, Merthyr-mawr<sup>117</sup>
- 59 Gerald Morgan, Aberystwyth<sup>118</sup>
- 60 David Nathan-Maister<sup>119</sup>
- 61 Ken Owen, Marian-glas<sup>120</sup>
- 62 Y Parch. D.A. Smith<sup>121</sup>

<sup>114</sup> Eiddo'r British and Foreign Bible Society yw hwn a'r nesaf; daethant o gasgliad Francis Fry (1803–86).

<sup>115</sup> Sef y copi a oedd gynt yn eiddo i Dr Alan Fowler (1920–2013). Yr wyf yn ddiolchgar i John Dunning, Llanelli, sy'n gofalu am gasgliad y diweddar Dr Fowler ar ran Cristadelffiad De Cymru, am ganiatáu imi weld y casgliad, sydd hefyd yn cynnwys copi o Feibl 1588 ac ynddo nodiadau yn llaw Gwallter Mechain.

<sup>116</sup> Cynigiwyd y copi hwn gan Christie's, Llundain, ar 16 Tachwedd 2005, rhif 64, ond nis gwerthwyd.

<sup>117</sup> Prynwyd y copi rhagorol hwn, a oedd gynt yn eiddo i'r casglwr enwog Philip Bliss (1787–1857), gan John Cole Nicholl, Merthyr-mawr, yn 1858 am £63; gw. Ashton, *Bywyd ac Amserau*, t.324; Murray McLaggan, 'The Library at Merthyr Mawr. A Bibliomaniac Great-Grandfather', *Bibliophily*, 2 (1986), 121–37.

<sup>118</sup> Sef y copi a werthwyd yn Sotheby's, Llundain, ar 30 Tachwedd 2021, rhif 87.

<sup>119</sup> Sef y copi a werthwyd yn Sotheby's, Efrog Newydd, ar 5 Rhagfyr 2016, rhif 135.

<sup>120</sup> Sef y copi a werthwyd yn Christie's, Efrog Newydd, ar 14 Rhagfyr 2001, rhif 199.

<sup>121</sup> Ni lwyddwyd i olrhain y copi hwn, sy'n gyflawn ac eithrio'r ddalen weili olaf, ond fe'i prynwyd yn Christie's, Llundain, ar 15 Mawrth 1995, rhif 226; gw. *Antiques Trade Gazette*, 8 Ebrill 1995. Fe'i prynwyd gan Syr Evan

## ATODIAD II

### William Thomas (c.1676–1764), ‘Gwilym Gwalstawd Ieithoedd’

Y mae'r drafodaeth yn ail ran pennod III yn ddyledus i raddau helaeth i'r wybodaeth a gofnodwyd gan William Thomas mewn dau gopi o Destament Newydd 1567. Enw pur ddistadl yw William Thomas, ond y mae'n w'r sy'n llawn haeddu rhagor o sylw. Nodir yn *BC* ei fod yn ei flodau rhwng c.1685 a c.1740, a chan hynny awgryma Daniel Huws<sup>122</sup> iddo farw'n fuan ar ôl 1740 gan nad ymddengys ei fod yn weithgar ar ôl y flwyddyn honno. Dangosir, fodd bynnag, mewn erthygl gan Gordon Balderston na welwyd mewn pryd i'r wybodaeth sydd ynddi gael ei chynnwys yn *RWMS*, fod William Thomas wedi marw ar 30 Tachwedd 1764 mewn gwth o oedran.<sup>123</sup> Gwnaeth ei ewyllys ar 11 Ebrill y flwyddyn honno, ac ar 19 Tachwedd, gwta bythefnos cyn ei farw, cyflwynodd gopi o *The works of Geoffrey Chaucer* – a gyhoeddwyd dan ei olygyddiaeth ef a'i frawd, Timothy, yn 1721 – i un o'i gyfeillion, gan nodi ei oedran, 'An. æt. 88'; cadarnheir hynny gan arysgrif a geid gynt ar fur gogleddol hen eglwys St. Marylebone (sydd bellach wedi ei chwalu), Llundain, lle y'i claddwyd.

Yr oedd William Thomas yn fab i Thomas Thomas, 'gent.', Llanymddyfri. Brawd iau iddo oedd Timothy Thomas (1694–1751),<sup>124</sup> a ddaeth, fel ei frawd hŷn, i wasanaeth Arglwydd Harley; yn ewyllys William enwir dwy chwaer, Ann a Margaret. Awgryma Balderston mai trwy gysylltiad teulu Harley â Brampton Bryan yn swydd Henffordd y daeth y ddau frawd i sylw Robert Harley (1661–1724), iarll cyntaf Rhydychen ac iarll Mortimer; yr oedd William

---

Davies Jones, Pentower (1859–1949), yn Sotheby's, Llundain, ar 9 Gorffennaf 1919; bu gynt yn eiddo i'r casglwr Alfred Henry Huth (1850–1910).

<sup>122</sup> *RWMS*, II, t.177.

<sup>123</sup> Gordon Balderston, 'William Thomas, Steward of the 'Marybone' Estate', *The Georgian Group Journal*, 14 (2004), 287–307; atgynhychir darlun ohono gan Gawen Hamilton ar t.288.

<sup>124</sup> Y mae'n werth pwysleisio mai gŵr gwahanol oedd Timothy Thomas, Cwr-y-waun, Llangadog, a roes Rawl. B. 467 i Edward Lhwyd yn 1698 (gw. *RWMS*, I, tt.729–30); yr oedd brawd y Timothy Thomas hwnnw, Lewis Thomas, yn argraffydd yn Rhydychen, ac enw eu tad oedd Morris Thomas; gw. D.F. McKenzie (gol.), *Stationers' Company Apprentices 1641–1700* (Oxford: Oxford Bibliographical Society, 1974), t.80. Hoffwn ddiolch i Philip Henry Jones am yr wybodaeth hon.

yng ngwasanaeth Harley erbyn yr 1690au (ac yn 1708 yn ei ddisgrifio ei hun fel 'a (really) domestick clerk'), a dichon mai trwy ei ddylanwad ef y daeth ei frawd iau yn gaplan i Harley yn ddiweddarach.<sup>125</sup> Yn dilyn marwolaeth yr iarll cyntaf yn 1724, parhaodd William i wasanaethu ei fab, Edward, yr ail iarll; yn 1727 rhoes hwnnw i Timothy fywoliaeth Llanandras, sir Faesyfed, lle y bu farw yn 1751.

Er mai dim ond un cyfeiriad at William Thomas a geir yng ngohebiaeth yr hynafiaethydd nodedig Humfrey Wanley (1672–1726),<sup>126</sup> a wasanaethai Harley fel llyfrgellydd, fe'i crybwyllir droeon yn ei ddyddiadur,<sup>127</sup> y mae'n ddiamau y buasai'r ddau wedi adnabod ei gilydd yn dda. Hynafiaethydd arall y daeth Thomas i'w sylw oedd Thomas Hearne (1678–1735), ac y mae'n werth dyfynnu'r geiriau a ysgrifennodd ef ar 26 Tachwedd 1717:

M<sup>r</sup>. William Thomas, who belongs to the Earl of Oxford, is now in Town, & lodges at D<sup>r</sup>. Stratford's of Christ-Church. He never had any Academical Education. [...] Some say he is my Lord's Gentleman. Others say he was once a sort of a Porter. He pretends to Learning, and to be particularly nice in the British Language.<sup>128</sup>

A barnu wrth dôn ddirmygus y llythyr hwn, ni wnaeth William Thomas fawr o argraff ar Hearne. Gwahanol, fodd bynnag, oedd barn Moses Williams: y mae'n amlwg wrth y ffaith ei fod yn galw William yn 'Gwilym Gwalstawd Ieithoedd',<sup>129</sup> ei fod yn uchel ei barch ganddo. Ac er na chafodd William – yn wahanol i'w frawd iau – addysg brifysgol, arwydd diau o ddisgleirdeb y ddau frawd yw'r ffaith mai iddynt hwy yr ymddiriedwyd y gwaith o gwblhau a chyhoeddi'r argraffiad newydd o weithiau Chaucer a fu yn yr arfaeth gan John Urry (1666–1715) a Thomas Ainsworth (m.1719); ymddangosodd y gwaith hwnnw, sef y casgliad cyntaf o waith Chaucer i gael ei argraffu mewn print rhufeinig, o'r wasg yn 1721.

---

<sup>125</sup> Ar ôl derbyn addysg yn Ysgol Westminster, ymaelododd Timothy â Christ Church, Rhydychen, yn 1712, a chymerodd radd BA yn 1716 ac MA yn 1719; y mae geiriau Thomas Hearne isod yn dangos na chafodd ei frawd hyn mo'r un cyfleon.

<sup>126</sup> P.L. Heyworth (gol.), *Letters of Humfrey Wanley. Palaeographer, Anglo-Saxonist, Librarian, 1672–1726* (Oxford: Clarendon Press, 1989), rhif 194, dyddiedig 12 Ebrill 1718.

<sup>127</sup> C.E. Wright a Ruth C. Wright (gol.), *The Diary of Humfrey Wanley 1715–1726*, 2 gyf. (London: The Bibliographical Society, 1966), t.463.

<sup>128</sup> C.E. Doble *et al.* (gol.), *Remarks and Collections of Thomas Hearne*, 11 cyf. (1885–1921), VI, t.110.

<sup>129</sup> Cyfeiriad at 'Gwrhwr Gwalstawd Ieithoedd', cymeriad yn chwedl *Culhwch ac Olwen* a fedrai bob iaith dan haul.

Y mae'n amlwg fod gan William Thomas hefyd gynlluniau uchelgeisiol o ran llenyddiaeth Gymraeg. Yn Card. 4.21 a Card. 4.22, sy'n cynnwys tua 200 o ddalennau ffolio yr un, ceir casgliadau sylweddol o lenyddiaeth Gymraeg ganoloesol yn llaw Thomas, gan gynnwys y Mabinogi, trioedd, bucheddau seintiau a thestunau crefyddol eraill, ac yn 1717 cymharodd rai o'r testunau â llawysgrifau Coleg Iesu, sef Llyfr Coch Hergest (Jesus 111), Llyfr Ancr Llanddewibrefi (Jesus 119) a Llyfr Llywelyn Offeiriad (Jesus 20). Y mae Card. 4.20 hefyd yn cynnwys testunau cyfryw, yn llaw Thomas gan mwyaf, ond gyda sawl cyfraniad gan Moses Williams, Hugh Thomas<sup>130</sup> a William Evans, prifathro academi Caerfyrddin. Rhaid hefyd grybwyll Card. 2.40, casgliad sylweddol o ryddiaith Gymraeg ganoloesol yn llaw John Morgan, Matching, a roddwyd i Thomas yn 1733 gan Moses Williams.<sup>131</sup>

Y mae'r cysylltiad â Moses Williams yn arwyddocaol: diau mai ef oedd pennaf ysgogwr William Thomas ar yr ochr Gymreig.<sup>132</sup> Yn ei ieuenctid bu Moses Williams yn un o gynorthwywyr Edward Lhwyd (c.1660–1709), ac yn 1707, ac yntau ond 22 oed, fe'i penodwyd gan Lhwyd yn is-lyfrgellydd yr Ashmolean. Yn dilyn marwolaeth Lhwyd, troi at yr eglwys a wnaeth Williams, ac fe'i penodwyd yn ficer Defynnog yn 1716, ond yr oedd ei ddiddordebau llenyddol yn fyw o hyd. Yn ogystal â'i waith yn paratoi argraffiad newydd o'r Beibl ar gyfer yr SPCK, yr oedd ganddo – yn ail ddegawd ddeunawfed ganrif yn benodol – gynlluniau uchelgeisiol i roi mewn print ddeunydd a fu cyn hynny'n gyfyngedig i'r llawysgrifau: cyflogai *amanuenses* i gopïo llawysgrifau ar ei ran, ac nid annichon mai ar ei gyfer ef y bu ei dad, Samuel Williams (c.1660–1722), yn copïo llawysgrifau ar raddfa eang tua diwedd ei oes, rhai ohonynt ar y cyd â James Davies (Iaco ab Dewi; 1647/8–1722), gan gynnwys Llst. 133, llawysgrif o gryn faintioli. Gwyddys yn dda am gyfraniad anhepgorol Moses Williams at waith arloesol William Wotton ar yr hen gyfreithiau (a gyhoeddwyd dan y teitl *Cyfreithjeu Hywel Dda ac eraill* yn 1730, dair blynedd ar ôl marw Wotton), ac aeth Williams mor bell â chyhoeddi *proposals* printiedig yn 1717 ar gyfer y cyhoeddiadau a oedd ganddo yn yr arfaeth. Dadrith, fodd bynnag, a gafodd. Fel y dywed Daniel Huws, yr oedd nawdd yn brin: 'there was no Cymmrodorion, no Owain Myfyr'.<sup>133</sup> Ymddengys iddo ganolbwyntio'n bennaf ar wireddu cynlluniau Wotton ar ôl tua 1720, gan roi heibio nifer o'i hen obeithion, ac yn 1732, yn ŵr

---

<sup>130</sup> Trafodir gyrfa Hugh Thomas, yr hynafiaethydd o Aberhonddu, mewn manylder ym mhennod V.

<sup>131</sup> Gwerthwyd Card. 2.40, Card. 4.20, Card. 4.21 a Card. 4.22 yn arwerthiant Harley yn 1850, a daethant i feddiant Syr Thomas Phillipps, Middle Hill, cyn cyrraedd Llyfrgell Rydd Caerdydd.

<sup>132</sup> Gw. John Davies, *Bywyd a Gwaith Moses Williams (1685–1742)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1937).

<sup>133</sup> *RWMS*, II, t.195.

gweddw ers dwy flynedd, ymsefydlodd yn Bridgwater fel ficer. Ymddengys mai bychan iawn oedd ei gyfraniad ar yr ochr lenyddol rhwng y flwyddyn honno a'i farwolaeth yn 1742.

Ymhlith llyfrau printiedig y Llyfrgell Brydeinig ceir casgliad o gyhoeddiadau (ac effemera) Moses Williams wedi eu rhwymo'n un gyfrol,<sup>134</sup> gan gynnwys *Repertorium Poeticum* (1726) a *Cofrestr o'r Holl Lyfrau Printjedig* (1717), dau waith sy'n arddangos, yng ngeiriau Daniel Huws, 'a rare methodical aptitude: the skills of an editor and palaeographer, the instincts of a librarian and archivist'.<sup>135</sup> Diau mai o gasgliad William Thomas y daeth yr holl gyhoeddiadau a rwymwyd ynghyd yma,<sup>136</sup> ac y mae'r copi o *Cofrestr o'r Holl Lyfrau Printjedig* yn neilltuol werthfawr gan fod Thomas wedi rhyngddalennu'r cyfan ac wedi ychwanegu ar y dalennau hynny gyhoeddiadau a lithrodd drwy rwyd Moses Williams, gan nodi ag *asterisk* y rhai yr oedd ef ei hun yn berchen ar gopi ohonynt. Gwelwyd eisoes fod dau gopi o Destament Newydd 1567 wedi bod yn ei feddiant a'i bod yn bosibl mai ef oedd perchennog yr unig gopi o *Yny lhyvyr hwnn* sydd wedi goroesi,<sup>137</sup> ac y mae'r copi hwn o *Cofrestr* Moses Williams yn dangos bod ganddo gasgliad nodedig o lyfrau Cymraeg. Ceir llofnod William Thomas ar gefn yr wynebdden, ac ar y tudalen canlynol ceir rhestr yn ei law ef o'r 'subscribers for printing this catalogue', ac ar frig y rhestr 'Robert Earl of Oxford' ac 'Edward Lord Harley' (a roes £1 1s 6d yr un tuag at y gost o'i gyhoeddi). Yr enwau eraill yw:

M<sup>r</sup> William Jones Teacher of Mathematicks F.R.S.  
The Rev<sup>d</sup> M<sup>r</sup> Will[iam] Evans of Carmarthen V.D.M.  
M<sup>r</sup> Alban Thomas Keeper of the Library & Repository of the Royal Society  
M<sup>r</sup> Hugh Thomas  
William Thomas Esq<sup>r</sup>  
Walter Jeffreys Esq<sup>r</sup>

O dan y rhestr ceir y nodyn canlynol:

NB. The books with a printed [\*] before them were in the editor's possession [...], and those with a MS [\*] are in W.T.'s.

---

<sup>134</sup> Rhif silff 872.1.37.(2.).

<sup>135</sup> *RWMS*, II, t.195.

<sup>136</sup> Fe'i rhestrir yn R.C. Alston, *Books with Manuscript. A Short Title Catalogue of Books with Manuscript Notes in the British Library* (London: The British Library, 1994), t.610, ond heb briodoli'r nodiadau i William Thomas.

<sup>137</sup> Ni cheir *asterisk* wrth y cofnod ar gyfer *Yny lhyvyr hwnn*, fodd bynnag, sydd efallai'n awgrymu na fu Thomas erioed yn berchen ar gopi.

Gan mor aruthrol o brin yw'r cyfryw restrau o'r cyfnod hwn,<sup>138</sup> ac yn sgil hynny ein gwytodaeth am berchnogaeth llyfrau printiedig Cymraeg, neilltuir gweddill yr atodiad hwn er mwyn ail-greu llyfrgell William Thomas o lyfrau printiedig Cymraeg. Fe'u rhestrir yn y drefn y'u cofnodwyd yn *Libri Walliae* [=LW] (a hefyd gan Moses Williams yn y *Cofrestr*), sef yn ôl cyfenw'r awdur. Oddigerth y casgliad rhwymedig o weithiau Moses Williams yn y Llyfrgell Brydeinig, yr unig rai sydd wedi eu holrhain hyd yn hyn yw'r copïau o eiriadur John Davies (LW 1551 isod), gramadeg Siôn Dafydd Rhys (LW 4282 isod) a'r ddau gopi o Destament Newydd 1567 (LW 516 isod). Diau y daw rhagor i'r fei yn sgil argraffu'r rhestr hon.

---

<sup>138</sup> Ymhlith yr ychydig enghreifftiau y mae'r 'cofrestr o'r llyfrau Cymraeg y sudd gennifi', 30 i gyd, a luniwyd yn 1711 gan Morris Oliver o Bennal (gw. Esgair 2, tt.437–8). Yr enghraifft fwyaf nodedig, wrth gwrs, yw catalog Robert Vaughan, Hengwrt, a drafodir mewn rhagor o fanylder ym mhennod V.

<i>LW</i>	<i>Teitl</i>
76	ALLEINE, Joseph: <i>Hyfforddwr cyfarwydd i'r nefoedd [...]</i> (Llundain, 1693)
145	ASSHETON, William: <i>Annogaeth ferr i'r Cymmun Sanctaidd [...]</i> , cyf. Thomas Williams (Llundain, 1710)
309	BAXTER, Richard: <i>Dattodiad y qwestiwn mawr [...]</i> (Llundain, 1693)
321	BAYLY, Lewis: <i>Yr Ymarfer o dduwioldeb [...]</i> , cyf. Rowland Vaughan (Llundain, 1630)
323	—: <i>Yr Ymarfer o dduwioldeb [...]</i> , cyf. Rowland Vaughan (Llundain, 1675)
345	BEVERIDGE, William: <i>Eglurhaad [sic] o Gatechism yr Eglwys [...]</i> , cyf. [Thomas Williams] (Llundain, 1708)
347	—: <i>Meddylieu neillduol ar grefydd [...]</i> , cyf. Jaco ab Dewi (Llundain, 1717) [Rhestrir Cywydd i'r Iesu Ieuan Gruffydd ar wahân]
351	—: <i>Pregeth yngylch [sic] godidawgrwydd [...]</i> ([Llundain,] 1693)
359	<i>Y Bibl Cyssegr-lân [...]</i> (Llundain, 1677–8)
519	<i>Testament Newydd ein Arglwydd Jesu Christ [...]</i> (London, 1567) [Cf. NLW W.s 1567(2) a Göttingen SUB, 8 BIBL II, 5240 RARA]
592	<i>Llyfr Gweddi-Gyffredin [...]</i> (Rhydychen, 1683)
598	<i>Llyfr Gweddi Gyffredin [...]</i> (Y Mwythig, 1711)
782	BUNYAN, John: <i>Taith y Pererin [...]</i> , cyf. Thomas Jones (Y Mwythig, 1699)
802	—: <i>Tyred a groesaw at Jesu Grist [...]</i> , cyf. Jago ab Dewi (Y Mwythig, [1719])
1157	CHAUNCEY, Isaac: <i>Yr Atrawiaeth [sic] y sydd yn ol Duwioldeb [...]</i> , cyf. Edm[und] Powel (Llundain, 1711)
1162	<i>Pregethau a osodwyd allan [...]</i> , cyf. Edward James (Llundain, 1606)
1292	COLE, Eliseus: <i>Traethawd ymarferol am gyflawn-awdyrdod Duw [...]</i> , cyf. H. Powell (Caerlydd, 1711)
1344	<i>Blaenor i Ghristion [...]</i> , cyf. [?John Williams] (Llundain, 1701)
1410	<i>Cyngor y Bugail iw braidd [...]</i> (Llundain, 1700)
1412	<i>Cyngor yr Eglwyswr: i wr ieuangc newydd dderbyn conffirmasiwn gan yr Esgob [...]</i> (Llundain, 1703)
1550	DAVIES, John [o Fallwyd]: <i>Antiquæ Linguae Britannicæ [...]</i> rudimenta [...] (Londini, 1621)
1551	—: <i>Antiquæ Linguae Britannicæ [...]</i> dictionarium duplex [...] (Londini, 1632) [Cf. Add. 18233]
1554	DAVIES, John: <i>A Display of heraldry [...]</i> (Salop, 1716)

- 1555 DAVIES, John [o Fallwyd]: *Flores poetarum Britannicorum [...]* (Amwythig, 1710)
- 1683 DENT, Arthur: *Llwybr hyffordd yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd [...]*, cyf. [Robert Llwyd] (Lundain [sic], 1682)
- 1712 DREXELIUS, Hieremias: *Ystyriaethau Drexelius ar dragwyddoldeb [...]*, cyf. Elis Lewis (Rhydychen, 1661)
- 1737 DYER, William: *Cyfoeth i'r Cymru [...]*, cyf. [?Thomas Baddy] (Llundain, 1706)
- 1762 EDWARDS, Charles: *Y Ffydd ddi-ffuant [...]* (Rhydychen, 1671)
- 1767 —: *Hebraismorum Cambro-Britannicorum specimen [...]* ([Llundain, ?1675])
- 1776 EDWARDS, John: *Y Gwrandawr [...]* *O waith [...]* *Joan Edwards*, cyf. H Powel (Llundain, 1709)
- 1999 EVANS, Theophilus: *Drych y prif oesoedd [...]* (Y Mwythig, 1716)
- 2032 F., E.: *Madruddyn y difinyddiaeth diweddaraf [...]*, cyf. J[ohn] E[dwards] (Llundain, 1651)
- 2045 FLEETWOOD, William: *Y Cymmunwr ystyriol [...]* cyf. [Michael Jones] (Llundain, 1716)
- 2194 GRIFFITH, George: *Some omissions and mistakes in the British translation and edition of the Bible [...]* ([?Llundain, ?1672])
- 2405 HENRY, Matthew: *Catechism o'r Scrythur [...]*, cyf. Jaco ab Dewi (Y Mwythig, 1717)  
[Rhestrir llythyr rhagarweiniol William Evans, Caerfyrddin ar wahân]
- 3042 JONES, Richard: *Perl y Cymro [...]* (Caer Ludd, 1655)
- 3104 JONES, Thomas: *Carolau, a dyriau duwiol [...]* ([Amwythig], 1696)
- 3190 KEMPIS, Thomas à: *Dilyniad Christ [...]*, cyf. Huw Owen (Llundain, 1684)
- 3311 LHUYD, Edward: *Archæologia Britannica [...]* *Glossography [...]* (Oxford, 1707)  
[Rhestrir gwaith Julien Maunoir, 'An Armoric Grammar & Dictionary English'd by M[oses] Williams', ar wahân]
- 3416 LLWYD, Morgan: *Yr Ymroddiad neu bapuryn [...]* (Llundain, 1657)  
[Rhestrir *Y Discybl a'i athraw, Cyfarwyddid ir Cymru a Gwyddor uchod* ar wahân, ond un cyhoeddiad ydoedd]
- 3631 MORGAN, John: *Myfyrdodau bucheddol ar y pedwar peth diweddaf [...]* (Llundain, 1714)
- 3708 NELSON, Robert: *Boreuol a phrydhnawnol weddi i deulu [...]*, cyf. Moses Williams (Llundain, 1711)
- 3712 —: *Ymarferol-waith i'r Elusen-Ysgolion [...]*, cyf. Moses Williams (Llundain, 1711)
- 3737 NORCOTT, John: *Bedydd gwedi i amlygu [...]* (Llundain, 1694)
- 3869 PARSONS, Robert: *Llyfr y resolution [...]*, cyf. John Davies (Llundain, 1632)



- 3873 PATRICK, Simon: *Egwyddor, i rai jeuaingc [...]*, cyf. Edward Llwyd (Llundain, 1682)
- 3879 *Pedwar o ganueu am amryw desdunion [...]* (Llundein, 1718)
- 3986 PHILIPPS, Philip: *Ufudd-dod i lywodraeth a chariadoldeb [...]* (Llundain, 1716)
- 4164 PRYDDERCH, Rhys: *Gemmeu doethineb [...]* (Y Mwythig, 1714)  
[Rhestrir llythyr rhagarweiniol William Evans, Caerfyrddin ar wahân]
- 4182 PUGH, Thomas: *Brittish and out-landish prophesies [...]* (London, 1658)
- 4255 REYNOLDS, John: *Llythur at y cyfryw o'r byd [...]* (Y Mwythig, 1716)
- 4270 *Rhybydd teg mewn pryd da [...]* (Y Mwythig, 1714) [cf. LW 4165–7]
- 4282 RHYS, John David: *Cambrobrytannicæ Cymraecæve linguae institutiones et rudimenta [...]* (Londini, 1592)  
[Cf. NLW W.s 1592(4to)]
- 4560 SALESBURY, William: *A Dictionary in Englyshe and Welshe [...]* (London, 1547)
- 4566 SAMUEL, Edward: *Bucheddau'r apostolion a'r efengylwyr [...]* (Y Mwythig, 1704)
- 4634 SHEPARD, Thomas: *Y Cywir ddychwelwr [...]*, cyf. R.E. ([Llundain, 1657])
- 4745 TAYLOR, Jeremy: *Rheol buchedd sanctaidd [...]*, cyf. [Ellis Wynne] (Llundain, 1701)
- 4757 TERTULLIAN: *Llythyr Tertulian at 'Scapula [...]*, cyf. [John Morgan] (Llundain, 1716)
- 4758 *Testament y dauddeg Padriarch [...]* (Duflun, 1700)
- 4768 *Y Namynun-deugain Erthyglau Crefydd Eglwys Loegr [...]*, cyf. Thomas Jones ([Llundain,] 1688)
- 4969 *Tryssor i'r Cymru [...]* (Llundain, 1677)  
[Rhestrir *Pregeth Mr. Arthur Dent, ynghylch edifeirwch ..., Drych i dri mâth o bobl ..., Carwr y Cymru ... a Bellach neu byth ...* ar wahân]
- 5015 VINCENT, Thomas: *Eglurhaad o Gatechism Byrraf y Gymanfa [...]*, cyf. J[ohn] P[ugh] a T.J. (Tref Hedyn, 1719)
- 5102 WELLS, Edward: *Llythyr oddiwrth Weinidog o Eglwys Loegr, at un o'i blwyfolion [...]*, cyf. G.J. (Y Mwythig, 1711)
- 5103 WELLS, Edward: *Llythyr oddiwrth Weinidog o Eglwys Loeger at Ymneilltuwr o'i blwÿf [...]*, cyf. [Lewis Evans] (Y Mwythig, [1711])
- 5104 WELLS, Edward: *Llythyr y Dr. Well's [sic] at gyfaill [...]*, cyf. [James Davies] (Y Mwythig, 1714)
- 5328 WILLIAMS, John: *Eglurhad byrr ar Gatechism yr Eglwys [...]*, cyf. John Morgan (Llundain, 1699)

- 5351 WILLIAMS, Moses: *Mosis Gulielmii [...] Repertorium poeticum [...]* (Londini, 1726)
- 5352 WILLIAMS, Moses: *Pregeth a barablwyd yn Eglwys Grist yn Llundain [...] 1721* (Llundain, 1722)
- 5353 WILLIAMS, Moses: *Pregeth a barablwyd yn Eglwys Grist yn Llundain [...] 1717* (Llundain, 1718)
- 5582 WYNNE, Ellis: *Gweledigaethu y Bardd Cwsc [...]* (Llundain, 1703)
- ?MORGAN, Einion: *Hysbys rwudd a di hongliad [...]* (Llundain, 1693)
- OWEN (HARRY), George: *The genealogy of the high and mighty monarch, Iames [...]* (Llundain, 1604)

## IV

### ‘Ni chymre nhad amdano fo run gini melyn’: golwg ar un o lawysgrifau Thomas Wiliems o Drefriw

Who do you think I have at my elbow, as happy as ever Alexander thought himself after a conquest? No less a man than Ieuan Fardd, who hath discovered some old MSS. lately that no body of his age or the last ever as much as dreamed of. And this discovery is to him and me as great as that of America by Columbus. We have found an epic Poem in the British called Gododin, equal at least to the Iliad, Ænid or Paradise Lost. Tudfwlch and Marchlew are heroes fiercer than Achilles and Satan.<sup>1</sup>

Felly, mewn llythyr at Edward Richard o Ystradmeurig ar 5 Awst 1758, y cofnododd Lewis Morris, yn ei ddull dihafal ei hun, yr achlysur arwyddocaol pryd yr ailddarganfuwyd *Y Gododdin* – y gyfres o awdlau arwrol a briodolir i Aneirin, bardd a flodeuai tua diwedd y chweched ganrif – gan hynafiaethwyr y ddeunawfed ganrif. Er bod y testun wedi bod yn gyfarwydd i rai o ysgolheigion y Dadeni Dysg ryw ganrif a hanner ynghynt (gan gynnwys David Johns, ficer llengar Llanfair Dyffryn Clwyd), erbyn dyddiau Lewis Morris ac Evan Evans (Ieuan Fardd) yr oedd wedi llithro dros gof. Yr oedd yr unig ffynhonnell ganoloesol, Card. 2.81, a adwaenir fel Llyfr Aneirin, wedi dod i feddiant Robert Vaughan, Hengwrt,<sup>2</sup> ac yn ystod y ganrif ar ôl marwolaeth Vaughan yn 1667 bu’n llechu yno, yng ngofal – os gofal, fel y gwelir maes o law – ei ddisgynyddion. Ni châi neb ond dyrnaid o wŷr dethol fynediad i Hengwrt yn ystod y cyfnod hwnnw; un ohonynt oedd Moses Williams, a wnaeth gopi nodweddiadol ofalus o Lyfr Aneirin yn 1728, bellach Llst. 32, ac y mae’n resyn brinned oedd

---

<sup>1</sup> *ML (Add.)*, I, t.349.

<sup>2</sup> Cyn dod i feddiant Robert Vaughan yr oedd Llyfr Aneirin yn eiddo i’r beirdd Dafydd Nanmor a Gwilym Tew; fel y dangosir isod, y mae’n bosibl iddo ddod i feddiant Gruffudd Hiraethog tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg. Diau nad amherthnasol i’r cwestiwn ynghylch tarddle Llyfr Aneirin yw’r ffaith fod tri bardd o Wynedd Uwch Conwy, sef Dafydd Benfras (a flodeuai yn y drydedd ganrif ar ddeg), Sefnyn a Rhisiertyn (a oedd ill dau yn eu blodau ganrif yn ddiweddarach), ymhlith yr ychydig rai sy’n dangos eu bod yn ymwybodol o’r *Gododdin* neu o Aneirin; gw. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (gol.), *Gwaith Sefnyn, Rhisiertyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1995), tt.29, 103. Dangosodd Ifor Williams (*CA*, t.66) fod Dafydd Nanmor yn adleisio’r *Gododdin* yn un o’i gerddi (*PWDN*, rhif XX, ll.13–14). Gw. hefyd Rachel Bromwich, ‘Y Cynfeirdd a’r Traddodiad Cymreig’, *BBCS*, 22 (1966–8), 30–7 (31–2).

yr hynafiaethwyr a chanddynt fynediad at gopi Moses Williams gan y buasai'r myrdd copïau a wnaed rhwng canol y ddeunawfed ganrif a degawdau cyntaf y ganrif ganlynol wedi bod yn llawer llai llwgr petaent wedi dilyn copi ffyddlon Moses Williams yn hytrach na chopïau ail-law Lewis Morris ac Ieuan Fardd.

Yr unig gopi o Lyfr Aneirin a wnaed cyn 1600 a oroesodd yw'r un a wnaed yn yr 1590au gan Thomas Wiliems, yr hynafiaethydd a'r geiriadurwr diwyd o Drefriw, yn llawysgrif Add. 31055. Ymddengys fod y llawysgrif hon, fel nifer o lawysgrifau Wiliems (trwy law cyfaill agos i Robert Vaughan, Meredith Lloyd, yn ôl un ffynhonnell, ond y mae lle da i amau hynny),<sup>3</sup> wedi cyrraedd llyfrgell Hengwrt. Gwyddom fod John Davies o Fallwyd wedi codi rhai detholion ohoni i NLW 872D (*olim* Wrexham 1), ac yn ei 'Liber B' (NLW 4973B) y mae'r Dr Davies yn nodi rhai darlenniadau amrywiol o 'TW', sef ei siglwm ar gyfer Add. 31055.<sup>4</sup> Cododd Robert Vaughan, yn ei law gynnar, lawer o gynnwys Add. 31055 i NLW 3029B (*olim* Mostyn 110, llawysgrif a briodolwyd ar gam gan J. Gwenogvryn Evans i Thomas Wiliems ei hun),<sup>5</sup> ac ymddengys y gallasai rhif 70 ('Excerpts from the White Book of Hergest by Thomas Williams. 4to, two inches') yn y rhestr a gyhoeddwyd gan W.W.E. Wynne, Peniarth o'r llawysgrifau a oedd ar goll o gasgliad Hengwrt fod yn gyfeiriad at lawysgrif Wiliems.<sup>6</sup> Y mae'n werth nodi'r posibilrwydd, fodd bynnag, mai ar fenthyg yn unig yr oedd y llawysgrif pan welwyd hi gan John Davies a Robert Vaughan: buasai tybio iddi fod ym meddiant teulu Gwedir ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif (fel rhai eraill o lawysgrifau Wiliems, gan gynnwys NLW 16962–3A) yn gwneud mwy o synnwyr o ran ei hanes diweddarach.<sup>7</sup>

Erbyn canol y ddeunawfed ganrif, yr oedd llawysgrif Thomas Wiliems ar grwydr. Ymddengys ei bod ym meddiant Dafydd Jones (1703–85), y bardd a'r argraffydd o Drefriw, erbyn 1743.<sup>8</sup>

<sup>3</sup> Gw. Nesta Lloyd, 'Meredith Lloyd', *JWBS*, 11 (1973–6), 133–92 (147–8).

<sup>4</sup> Gw. Nerys Ann Jones a Morfydd E. Owen, 'John Davies and the Poets of the Princes: *Cognoscere, Intellegere, Scire*', yn Ceri Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd. Welsh Renaissance Scholar* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), tt.171–207 (183).

<sup>5</sup> Gw. *RMWL*, I, tt.23–6.

<sup>6</sup> Gw. W.W.E. Wynne, 'MSS. missing from the Hengwrt collection', *AC*, pedwaredd gyfres, 2 (1871), 129–37.

<sup>7</sup> Ceir nodiadau yn llaw Ifan Siôn, bardd a wasanaethai yng Ngwedir ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, ar f.70'; y mae'n werth nodi nad yw ei law ef yn digwydd mewn unrhyw lawysgrif a fu gynt yn Hengwrt.

<sup>8</sup> Ar f.49 ceir enw 'David Jones of Llanfair Talhairn' gyda'r dyddiad 1743; ni chrybwyllir cysylltiad rhwng Dafydd Jones a Llanfair Talhaearn yn yr erthyglau arno yn *BC* ac *ODNB*, ond dichon fod cysylltiad cynnar rhyngddo a Robert Thomas, clochydd diwylliedig y plwyf hwnnw (ar Thomas, a oedd yn gyfaill agos i Ieuan Fardd, gw. *RWMS*, II, tt.176–7, a cf. hefyd Add. 31055, f.48, lle y ceir enw rhyw 'Robert Thomas', ond nid mewn llaw y gellir yn hyderus ei phriodoli i Thomas ei hun). Yn Card. 2.324 rhan (D) ceir testunau a godwyd gan Ddafydd Jones o Add. 31055 yn 1744; gw. *RWMS*, I, t.550, er na nodir Add. 31055 fel ffynhonnell yno, eithr 'a manuscript of Thomas Wiliems written in 1594–6'. Y mae Card. 1.1 a Card. 1.7 hefyd yn cynnwys deunydd a godwyd gan Ddafydd Jones o'r un ffynhonnell, er y dylid cywiro disgrifiad *RWMS*, I, t.530 o'r olaf: dim ond y

Dangosodd Dafydd Jones y llawysgrif i'w gyfaill mynwesol, John Davies, Pentrefidog (athro Twm o'r Nant),<sup>9</sup> a gododd beth o'i chynnwys i NLW 5284C yn 1744–5; y mae NLW 5546B rhan (ii) hefyd yn cynnwys deunydd a godwyd o lawysgrif Wiliems gan John Davies.<sup>10</sup> Yn 1758 daeth y llawysgrif i sylw Lewis Morris ac Ieuan Fardd (trwy law Dafydd Jones, fel y prawf y llythyr yn NLW 31B), a hi – nid Llyfr Aneirin – oedd o flaen y ddau wr pan luniodd Lewis ei lythyr afieithus at Edward Richard ynghylch yr 'epic Poem' a ddarganfuasai. Tua'r un cyfnod yn ddiau y daeth y llawysgrif i sylw William Wynn (1709–60), rheithor Llangynhafal, gŵr y dywedir y byddai Ieuan Fardd (a fu'n gurad iddo ym Manafon yn 1754–5) yn hanner ei eilunaddoli ac yn sôn amdano 'fal y Cardinal am y Pab';<sup>11</sup> y mae Pen. 122 yn cynnwys deunydd a godwyd ohoni gan Ieuan a William Wynn (ceir rhai nodiadau yn y llawysgrif wreiddiol yn llaw'r olaf), a chododd Ieuan beth o gynnwys llawysgrif Wiliems i NLW 1983B (*olim* Panton 14) tua 1758.

Yn ogystal â'r hynafiaethwyr nodedig hyn, a barnu wrth yr enwau niferus a dorwyd ar ymylon y ei dalennau, ymddengys fod y llawysgrif wedi dod i sylw sawl unigolyn arall, gan gynnwys Twm o'r Nant, a dorrodd ei enw ar f.75 ac a ychwanegodd englyn ar f.57<sup>v</sup>.<sup>12</sup> Arwydd o'r modd y teithiodd y llawysgrif o law i law yn ail hanner y ddeunawfed ganrif yw'r nodyn rhyfedd mewn llaw anhysbys ar f.24<sup>v</sup>:

Myfi iw dŷn a dderbyniodd y llyfr hwn gan hên berson Capel y Foulas  
[sef John Davies, Pentrefidog] ym moxeid Morgan Salusbury, llyfr  
cowyde a nglynion. Ni chymre nhad amdano fo run gini melyn.

Ar ôl hir grwydro, yr oedd y llawysgrif wedi cyrraedd casgliad Owen Jones (Owain Myfyr) erbyn 1800; rhoes y Myfyr iddi'r rhif 'Caer Rhun No 1',<sup>13</sup> sy'n dangos iddi ddychwelyd i

---

nodyn ar t.3 sy'n tarddu o Add. 31055. Llawysgrif arall yn llaw Dafydd Jones sy'n cynnwys deunydd a godwyd o Add. 31055, nid cyn 1752, yw NLW 21469A, a drafodir ymhellach isod.

<sup>9</sup> Fe'i disgrifir gan Twm fel 'hen ddyn oedd [...] yn darllen yn y capel y Suliau, ac yn clocio amseroedd eraill', gan nodi hefyd, 'cefaï fenthyg hen lyfrau gan hwnnw lawer gwaith' (gw. G.M. Ashton (gol.), *Hunangofiant a Llythyrau Twm o'r Nant* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948), t.31).

<sup>10</sup> Ar Add. 31055, f.110, yn llaw John Davies, ceir y nodyn 'Mr David Williams his Booke Wittnes by mee [*sic*] John David of Pentre Vidoc 1746'.

<sup>11</sup> Gw. Aneirin Lewis, 'Ieuan Fardd a'r Gwaith o Gyhoeddi Hen Lenyddiaeth Cymru', *JWBS*, 8 (1954–7), 120–47 (127); ailgyhoeddwyd yn W. Alun Mathias ac E. Wyn James (gol.), *Dysg a Dawn. Cyfrol Goffa Aneirin Lewis* (Caerdydd: Cylch Llyfryddol Caerdydd, 1992), tt.121–45.

<sup>12</sup> Yn *RWMS*, I, t.656 priodolir y llaw a ychwanegodd yr englyn i John Davies, Pentrefidog, ond credaf mai Twm o'r Nant a'i pia; rhaid cofio mai John Davies a ddysgodd Twm i ysgrifennu a bod cryn debygrwydd rhwng llaw gynnar Twm a llaw ei athro.

<sup>13</sup> Gw. f.227<sup>v</sup>.

gasgliad Dafydd Jones cyn ei farwolaeth yn 1785.<sup>14</sup> Prynwyd y rhan helaethaf o gasgliad y Myfyr oddi wrth ei weddw gan Gymdeithas y Cymmrodorion yn 1820, ac fe'u cyflwynwyd i'r Amgueddfa Brydeinig yn 1844, ond daeth rhai ohonynt, gan gynnwys llawysgrif Thomas Wiliems, i feddiant ei nai a'i *amanuensis*, y crwynwr Hugh Maurice.<sup>15</sup> Daeth y rhain i feddiant yr Amgueddfa Brydeinig yn 1879 trwy law merch Hugh Maurice, Jane, ac fe'u hadwaenir bellach fel Add. 31055–31110.

Fel y gwelir, y mae hanes diweddarach Add. 31055 yn ychwanegu at ei harwyddocâd. Ni wn am unrhyw lawysgrif o gyfnod y Dadeni Dysg yng Nghymru a ddarllenwyd ac a gopiwyd mor eang, ac y mae'r stema a gynigir gan Daniel Huws yn ei drafodaeth ar hanes testunol y *Gododdin* ar gyfer y lliaws copïau sy'n tarddu o Add. 31055 – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – yn dangos yn eglur mor ddylanwadol y bu.<sup>16</sup> Cyn troi at y llawysgrif ei hun ac at yr ystod amheuthun o destunau a geir ynddi, cynigir bywgraffiad byr ar gyfer yr ysgrifwr.<sup>17</sup>

Y mae'r dystiolaeth ynghylch man geni Thomas Wiliems i'w chael gan Wiliems ei hun:

Yr einoch oll yw orchymyn ynghrist Jesu, Thomas vap Wiliam a aned  
yn Ardde'r Menych dan droet mynydd yr yri.<sup>18</sup>

Gwyddom hefyd yn fras flwyddyn ei eni. Yn Pen. 62 rhan (iii) – a ysgrifennwyd, fel y soniwyd eisoes, yn 1582 – ceir copi gan Wiliems o lawysgrif a ysgrifenasai bymtheng mlynedd ynghynt:

Transcripsi Banchori. 1567. Aetatis 21 20 Aprilis.<sup>19</sup>

---

<sup>14</sup> Yn dilyn marwolaeth Dafydd Jones, daeth rhan nid ansylweddol o'i gasgliad i feddiant Hugh Davies Griffith (m.1802), rheithor Caerhun. Trosglwyddwyd rhai o'r rhain, a adwaenir bellach fel y 'Caer Rhun MSS' yn y Llyfrgell Brydeinig, i Owain Myfyr; daeth eraill i feddiant John Williams, olynnydd Griffith yng Nghaerhun. Gw. *RWMS*, II, t.71.

<sup>15</sup> Y mae Add. 15060 rhan (ii) yn cynnwys deunydd a godwyd gan Hugh Maurice (1775–1825) o Add. 31055.

<sup>16</sup> Daniel Huws, 'Canu Aneirin: the other manuscripts', yn Brynley F. Roberts (gol.), *Early Welsh Poetry. Studies in the Book of Aneirin* (Aberystwyth: National Library of Wales, 1988), tt.43–56.

<sup>17</sup> Ar Wiliems, gw. *BC* ac *ODNB*; ceir ymdriniaeth anhepgor yn J.E. Caerwyn Williams, 'Thomas Wiliems, Y Geiriadurwr', *SC*, 16/17 (1981/2), 280–316; gw. hefyd idem, *Geiriadurwyr y Gymraeg yng Nghyfnod y Dadeni* (Caerdydd: Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 1983); M.T. Burdett-Jones, 'Tri chyfeiriad llenyddol yn llyfr diarhebion Thomas Wiliems', *YB*, 18 (1992), 160–3; eadem, "'Catalogus authorum Britannicorum" Thomas Wiliems', *CLIGC*, 27 (1991–2), 109–110; eadem, 'Diarhebion Cymraeg a Thomas Wiliems o Drefriw', *Y Traethodydd*, 152 (1997), 37–47.

<sup>18</sup> Dyfynnir o Pen. 228 yn *Rhagymadroddion*, t.117. Trefgordd ym mhlwyf Dolgarrog yw Ardda'r Mynaich (gw. *WATU*, t.7).

<sup>19</sup> Pen. 62, t.119; gw. *RWMS*, I, t.364.

Fe'i ganed, felly, yn 1545/6, sy'n golygu nad oedd ond ychydig fisoedd yn iau na dau o fawrion eraill Dyffryn Conwy, sef Edmwnd Prys (1542/3–1623; brodor o Lanrwst, fel y gwyddys bellach)<sup>20</sup> a William Morgan (1544/5–1604). Er nad oes gennym dystiolaeth ddiamwys, buasai'n anodd credu nad oedd y tri'n adnabod ei gilydd o gyfnod cynnar iawn, ac nid annichon iddynt ill tri dderbyn addysg yng Ngwedir yng nghyfnod Siôn Wynn ap Maredudd (m.1559) a'i fab, Morys Wyn (m.1580), tad yr enwog Syr John Wynn.<sup>21</sup> Yn wahanol i Edmwnd Prys a William Morgan, a ymunodd â Choleg San Ioan, Caer-grawnt (coleg a chanddo gysylltiadau cryfion â theulu Gwedir), gyda'i gilydd yn 1565,<sup>22</sup> i Rydychen yr aeth Thomas Wiliems; nis enwir ymhlith *alumni* y Brifysgol, ond tystia Wiliems ei hun iddo dreulio amser yn '[n]inasdref y dhysceidiaeth [...] yn angwanegu fy nysc am gwybotaeth'.<sup>23</sup>

Erbyn 1573 dychwelasai Wiliems i'w blwyf genedigol fel curad; ar 17 Chwefror 1574/[5] fe'i ceir yn ei alw ei hun yn 'offeirat', ond yn ddiweddarach dileodd y gair hwn ac ychwanegu 'physicwr'.<sup>24</sup> Fel yr awgryma Caerwyn Williams,<sup>25</sup> y mae'n debyg mai oherwydd ei ymlyniad at yr Hen Ffydd y rhoes y gorau iddi.<sup>26</sup> Yn ddiweddarach, fel meddyg, yr oedd yn uchel ei barch gan John Wynn o Wedir;<sup>27</sup> yn Add. 19713 ceir rhestr a wnaeth Syr John yn 1592 o wahoddedigion 'to be biden to Gwedir to dyner in the Christmas holidayes', ac enw Wiliems ar frig y rhestr.

<sup>20</sup> Gw. Gruffydd Aled Williams, 'Edmwnd Prys ac Ardudwy', *CLIGC*, 22 (1981–2), 282–303 (283–4).

<sup>21</sup> Ar deulu Gwedir, gw. J. Gwynfor Jones, *The Wynn Family of Gwydir. Origins, Growth and Development c.1490–1674* (Aberystwyth: CAA, 1995); ar y gweithgarwch addysgol yng Ngwedir, gw. idem, 'Educational activity among the Wynns of Gwydir', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 42 (1981), 7–48. Yn y rhagymadrodd i'w eiriadur y mae Wiliems yn dwyn i gof 'Mauric Wynn Eswier, [...] or plas yngwedir, y cefeis yn gyntaf oll vwyniant eu lyurae'; gw. *Rhagymadroddion*, t.114.

<sup>22</sup> Gw. Gruffydd Aled Williams, 'William Morgan ac Edmwnd Prys yng Nghaer-grawnt', *BBCS*, 29 (1980–1), 296–300.

<sup>23</sup> Dyfynnir o Pen. 228 yn Williams, 'Thomas Wiliems, Y Geiriadurwr', 286; awgrymir yn *ibid.*, 285, mai dylanwad William Salesbury a ddenodd Wiliems i Rydychen. Cyfeiria Wiliems ato ef ei hun yn fynych fel 'Syr', a ddeallir yn aml fel 'offeiriad heb radd', ond y mae Mary Burdett-Jones o'r farn (gohebiaeth bersonol) mai camsyniad yw hwn ac mai ei arwyddocâd, yn syml, yw 'offeiriad'.

<sup>24</sup> Gw. *RWMS*, I, t.574.

<sup>25</sup> Williams, 'Thomas Wiliems, Y Geiriadurwr', 289–90. Awgryma Caerwyn Williams (*ibid.*) mai oherwydd ei ymlyniad at yr Hen Ffydd y peidiodd â bod yn offeiriad rywbyrd ar ôl 1575. Y mae'n werth nodi bod yr ychwanegiad 'physycwr' yn Pen. 77, t.1 mewn llaw na fynwn ei dyddio'n gynharach na 1592 (gw. n.32 isod). Tybed ai yn sgil yr erledigaeth gynyddol ar reciwsantiaid ym mlynnyddoedd cynnar yr 1580au y troes Wiliems oddi wrth yr Eglwys?

<sup>26</sup> Arwydd pendant o reciwsantiaeth Wiliems yw'r ffaith iddo drosi i'r Gymraeg lyfryn defosiynol Catholig a elwid *Lhyuran* or *Sacrauen* o *Benyd* ac a yrrwyd at ei gyfaill Siôn Edward(s) o'r Waun, a oedd, yntau, yn Babydd; gw. Geraint Bowen, "'Lhyuran or Sacrauen o Benyd"', Thomas Wiliems o Drefriw', *CLIGC*, 13 (1963–4), 300–5; M.T. Burdett-Jones, 'Sacrafen Penyd', *YB*, 13 (1985), 227–31. Aeth y gwaith hwn ar gyfngoll, ond yn ddiweddar dangosodd Geraint Evans ('The Authorship of *Drych Cydwybod* [?1616]', *THSC*, cyfres newydd, 17 (2011), 7–15) iddo fod yn sail i'r gyfrol *Drych Cydwybod*, y cedwir yr unig gopi ohoni ym Mharis (gw. idem, 'A Lost Seventeenth-Century Welsh Book Rediscovered in Paris', *ibid.*, 15 (2009), 28–39).

<sup>27</sup> Yr oedd perthynas waed rhyngddynt: yr oedd Catherine, mam Thomas Wiliems, yn ferch anghyfreithlon i Faredudd ab Ieuan, hen daid Syr John.

Nid oes amheuaeth, fodd bynnag, nad fel geiriadurwr dethlir Wiliems yn bennaf. Daeth ei eiriadur Lladin–Cymraeg, *Thesaurus linguae Latinæ et Cambrobrytannicæ*, a gymerodd dros ddeng mlynedd ar hugain i'w lunio ac a ddiogelwyd mewn tair cyfrol yn Pen. 228 (ysgrifennwyd 1604–8), yn sail i adran Lladin–Cymraeg geiriadur enwog John Davies o Fallwyd, *Antiquae Linguae Britannicae [...] Dictionarium Duplex*, a gyhoeddwyd yn 1632, ryw ddeng mlynedd ar ôl marw Wiliems. Llesteiwyd gobeithion Wiliems o gyhoeddi ei eiriadur yn ystod ei oes ei hun (ni wyddys yn union pryd y bu farw, ond tua 1622 fe ymddengys) pan atafaelwyd deuparth eiddo ei noddwr, Siôn Edward(s) o'r Waun (m.1626), yn 1613 oherwydd ei reciwsantiaeth.<sup>28</sup> Trwy deyrngarwch i'w hen gyfaill, gwnaeth Syr John Wynn, ychydig cyn ei farwolaeth yn 1623, ymdrechion gwiw i sicrhau bod geiriadur Wiliems yn gweld golau dydd drwy ohebu â John Davies o Fallwyd a throsglwyddo'r copi llawysgrif iddo.

Gellir ystyried y llawysgrifau niferus a luniodd Thomas Wiliems dros gyfnod o ymron i hanner can mlynedd fel gwaith paratoawl ar gyfer ei eiriadur. Yn ffodus, gellir dilyn ei drywydd yn bur agos gan ei fod, yn enwedig yn ei llawysgrifau diweddarach, yn chwannog i adael mân goloffonau dyddiedig yn ei waith, a hyd yn oed pan na fo Wiliems yn cynnig dyddiad echblyg fel hyn, y mae modd cynnig amcan gweddol ddibynadwy yn seiliedig ar llawysgrifen ac orgraff. Yng ngeiriau Daniel Huws:

By 1590 his habitual hand had become distinctively small and crabbed (probably due to his failing eyesight); his ink was by then generally black and his orthography modified (he had adopted the digraphs *dh* for *dd*, *lh* for *ll* and *ph* for *ff*).<sup>29</sup>

Y mae'r llaw hon, sy'n hawdd ei hadnabod ond nid bob amser yn hawdd ei darllen, yn dra gwahanol i'r llaw rwydd (a'r inc gwinau) a ddefnyddid gan Wiliems yn yr 1570au. Ond yn ogystal â'r newid yn y llawysgrifen, ceir hefyd newid trawiadol yn niddordebau Wiliems. Yn y llawysgrifau sy'n perthyn i'r 1570au, sef, mewn trefn gronolegol fras, Bangor Mostyn 5, Card. 4.330 (*olim* Havod 26, c.1574), NLW 5281B (*Ystoria Dared*, etc., 1575), Llst. 163 rhan (iii) (sy'n gyfoes ag NLW 5281B), NLW 8497B, Pen. 77 (a ddechreuwyd yn 1576), NLW 16962–3A (achau, 1578) ac Wynnstay 1, gwelir mai barddoniaeth – cywyddau ac awdlau gan

<sup>28</sup> Aeth Siôn Edward(s) mor bell â pharatoi copi glân o eiriadur sylweddol Wiliems ar gyfer y wasg (Brog. I.9–10; gw. *RWMS*, I, t.11), copi a fuasai'n llawer mwy dealladwy na chopi aflêr Wiliems ei hun; y mae'n amlwg, fodd bynnag, na wyddai John Davies am fodolaeth y copi hwn.

<sup>29</sup> *RWMS*, II, t.199. Fel y gwelir isod (n.32), gwelir bod Wiliems wedi cofleidio'r ffurf *ð* (yn achlysurol o leiaf) ar w yn 1591×1594, a hynny, ond odid, dan ddyllanwad Siôn Dafydd Rhys.



mwyaf – yw'r elfen lywodraethol.<sup>30</sup> Erbyn yr 1590au, yr oedd ei ddiddordebau – a adlewyrchir ar eu gorau mewn llawysgrifau fel Add. 31055 a Pen. 225–227 – yn fwy eclecticig, ac fe'i ceir yn copïo ystod ehangach o destunau (ac, yn Pen. 225 yn enwedig, yn dangos diddordeb ysol mewn testunau reciwsantaidd), er na phylodd ei ddiddordeb yng ngwaith y beirdd, fel y prawf ei gasgliad sylweddol o ganu brud yn Pen. 94. Fel y dywed Daniel Huws, y mae'r 1580au yn fwlch anesboniadwy yn ein gwybodaeth am Wiliems; Pen. 62 rhan (iii), a ysgrifennwyd yn 1582, yw'r unig llawysgrif hysbys o'r degawd hwnnw. Ai colledion a thraul y canrifoedd sy'n gyfrifol am y bwch hwn, ynteu a oedd Wiliems ynghlwm wrth ryw orchwyl arall?<sup>31</sup>

I'r 1590au y perthyn trwch y llawysgrif sydd dan sylw yn y bennod hon, Add. 31055. Ceir y dyddiadau 1591–6 ar ff.127, 179<sup>v</sup> a 214<sup>v</sup>,<sup>32</sup> ond nid ysgrifennwyd rhai rhannau cyn 1602. Y mae hefyd yn werth nodi rhywbeth nas trafodir yn *RWMS*, sef bod rhai rhannau, ar sail ysgrifen, yn perthyn i'r 1570au, sef ff.8–36<sup>v</sup>, 159<sup>v</sup> ac 173–87. Y mae'n resyn fod y llawysgrif, yn enw cadwraeth, wedi cael ei hollti'n ddalennau unigol, sy'n golygu nad oes modd gweld y strwythur gwreiddiol bellach, ond y mae presenoldeb y rhannau cynharach – a'r ffaith fod Wiliems, ar f.159, yn ysgrifennu (mewn llaw sy'n perthyn i'r 1590au neu'r degawd canlynol) ar gefn dalen sy'n cynnwys testun a ysgrifennwyd ganddo yn yr 1570au – yn awgrymu bod yma gasgliad o gydiadau a ysgrifennwyd ar wahanol gyfnodau, a'r rheini heb fod o reidrwydd wedi eu rhwymo yn y drefn y'u hysgrifennwyd. Ymddengys hefyd fod rhai dalennau ar goll, gan gynnwys y ddalen ar ôl f.150, a oedd yn bresennol pan wnaeth Robert Vaughan ei gopi yn NLW 3029B, tt.223–44.

---

<sup>30</sup> I'r 1570au hefyd y perthyn ei gyfraniadau i NLW 3049D (*olim* Mostyn 146) ac NLW 3051D (*olim* Mostyn 148). Am restr lawn, gan gynnwys llawysgrifau y ceir nodiadau yn ei law ar ymyl y ddalen a chyfeiriadau at llawysgrifau coll, gw. *RWMS*, II, tt.199–200.

<sup>31</sup> Gellid awgrymu'r posibilrwydd iddo astudio meddygaeth ar y cyfandir yn y cyfnod hwnnw. Posibilrwydd deniadol arall yw iddo gynorthwyo cyfoeswr a chymydog iddo, William Morgan, â'r gwaith o baratoi Beibl 1588; y mae'r ffaith i Wiliems roi llawysgrif o Gyfraith Hywel (bellach Pen. 175; gw. *RWMS*, I, t.409) yn rhodd i Morgan (nid cyn c.1590, a barnu wrth y llawysgrifen) yn profi bod cysylltiad rhwng y ddau yn y cyfnod hwnnw. Tybed a ellid ystyried yr ymgyrch fawr ar ran Wiliems i gopi barddoniaeth yn yr 1570au – yn rhannol, o leiaf – fel gwaith rhagbaratoawl ar gyfer y cyfieithiad, un y gwyddys yn dda am ei ddyledion i ieithwedd y beirdd?

<sup>32</sup> 'Written [...] 1594–96' a geir gan J. Gwenogvryn Evans yn *RWML*, II, t.1053, ond ar ymyl f.179<sup>v</sup>, lle y dywedir 'llawer or prydyddion or to sydd heddiw', nododd Wiliems y dyddiad '1591'. Ategir y dyddiad cynharach hwn gan y ffaith fod orgraff Wiliems yn wahanol yma: defnyddir *w* i gynrychioli /u/, ond ar f.127, a ysgrifennwyd yn 1594, defnyddir *ð*; prin mai cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod cyfrol Siôn Dafydd Rhys, *Cambrobrytannicae Cymraecaeve linguae institutiones et rudimenta*, lle y defnyddir y ffurf honno'n gyson, wedi ymddangos o'r wasg yn 1592. Rhaid nodi, fodd bynnag, fod Wiliems ar f.214<sup>v</sup>, sy'n dwyn y dyddiad 1596, yn defnyddio *w*, sef y ffurf a ddefnyddiai'n gyson ar ôl tua 1600; rhaid casglu mai arbrofi yr oedd Wiliems yn yr 1590au, a'i fod efallai'n dilyn ei gynseiliau.

O ran cynnwys, yn farddoniaeth ac yn rhyddiaith, y mae Add. 31055 yn llawysgrif neilltuol o gyfoethog. Yr ydym yn ddyledus i Thomas Wiliems – fel Siôn Prys, yntau, yn llawysgrif Northampton<sup>33</sup> – am nodi ei amryfal ffynonellau, nifer ohonynt yn llawysgrifau sydd wedi hen ddiflannu. Efallai mai ei phennaf pwysigrwydd yw'r ffaith ei bod yn cynnwys talpiau helaeth a godwyd o Lyfr Gwyn Hergest, llawysgrif a ysgrifennwyd yn ail hanner y bymthegfed ganrif – efallai gan Lewys Glyn Cothi<sup>34</sup> – ac a gollwyd mewn tân yn siop y rhwymwr llyfrau John Mackinlay yn Covent Garden yn 1808.<sup>35</sup> Ymysg y ffynonellau eraill y mae'r rhan goll o Lyfr Gwyn Rhydderch (Pen. 4–5) y bu Richard Longford ('yr hen Risiart Langfford') yn 'stremio yn graff' arni 'mewn lle gole ac ym pelydr yr haul'<sup>36</sup> ar 27 Chwefror 1573[/4] er mwyn copïo'r testun pŵl, a 'L[h]yvyr Bongam Trawsvynydd';<sup>37</sup> cyfeirir hefyd at lawysgrifau Simwnt Fychan, John Lewis, Llynwene, a Siôn Prys. Codwyd y testun ar ff.160<sup>v</sup>–161 'alhan o hen lhyver Tho: Ie. Jo<sup>n</sup>', sef, fe ddichon, y gŵr a adwaenid yn ddiweddarach fel Thomas Evans (Thomas ab Ifan), Hendreforudd, a oedd yn fab i Ifan ap Siôn ap Robert Amhadog.<sup>38</sup> Ac er nad enwir ef fel ffynhonnell, dangosodd Jenny Rowland (ar sail presenoldeb y ffurf *Deo*, nas ceir fel rheol gan Wiliems) ei bod yn bur debygol fod y copi o *Englynion Duad* ar ff.100–1 yn tarddu o lawysgrif yn llaw William Salesbury,<sup>39</sup> sef y llawysgrif goll a welwyd gan Edward Lhwyd a'i *amanuenses* ym Modysgallen yn 1701.<sup>40</sup>

<sup>33</sup> Gw. pennod II.

<sup>34</sup> Gw. pennod I.

<sup>35</sup> Gw. *RWMS*, I, t.480; ar y Llyfr Gwyn, gw. Thomas Jones, 'Testun Llyfr Gwyn Hergest o'r "Bibyl Ynghymraec"', *BBCS*, 10 (1939–41), 15–21; J.E. Caerwyn Williams, 'Y Llyfr Gwyn o Hergest a Llanstephan 3', *ibid.*, 120–4; Lucie Hobson, 'Recovering the White Book of Hergest: A Survey of Manuscripts in Estate Collections at the National Library of Wales' (traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Aberystwyth, 2020).

<sup>36</sup> Dyfynnir o Pen. 111, t.117 (sef copi John Jones, Gellilyfdy o'r un ffynhonnell) yn Daniel Huws, 'Yr Hen Risiart Langfford', yn Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (gol.), *Beirdd a Thywysogion. Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru & Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1996), tt.302–25 (302).

<sup>37</sup> Yn NLW 3562D ceir darnau a godwyd gan Siôn Edward(s) o'r Waun, un o noddwyr Thomas Wiliems, o'r un ffynhonnell, sef 'llyfr Bongam Traws Fynydd yn ol coppï hên o eiddo Einion Fongam'. Ymddengys felly mai cyfeirio at unigolyn y mae 'Bongam Trawsfynydd', yn hytrach na bod yn ddisgrifiad o'r llyfr; ceir sawl enghraifft o *Bongam* fel epithet (gw. Gwilym Peredur Jones, 'A list of epithets from Welsh pedigrees', *BBCS*, 3 (1926–7), 31–48 (32)).

<sup>38</sup> Gw. *BC*. Gwelir cysylltiad arall rhwng Thomas Wiliems a Thomas Evans o ystyried y testun astronomegol ar Add. 31055, ff.143–150<sup>v</sup>. Ceir copi o'r un testun, wedi ei briodoli i ryw 'E.D.', yn llaw Thomas Evans yn Pen. 187, a ysgrifennwyd yn 1596; ceir copïau eraill, gyda'r un priodoliad, yn llaw John Jones, Gellilyfdy (yn NLW 5278B) a Robert Vaughan (yn NLW 3029B, a godwyd o Add. 31055 cyn colli dalen(nau) olaf y testun). Bwriadaf baratoi golygiad o'r testun a dangos mai John Davies o Fallwyd – a arddelai'r ffurf *Ieuan/Evan* ar ei enw bedydd yn ei ieuencid (gw. sylwadau Moses Williams i'r perwyl hwn yn ei gopi o *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* (1688), bellach NLW W.s 50) – yw 'E.D.'.

<sup>39</sup> Jenny Rowland, 'Englynion Duad', *The Journal of Celtic Studies*, 3 (1981/2), 59–87 (61). Sylwodd Ben Guy ('A Lost Medieval Manuscript from North Wales: Hengwrt 33, The *Hanesyn Hên*', *SC*, 50 (2016), 69–105 (81)) ar y ffurf *Camberaec*, sy'n ategu'r hyn a nodir gan Rowland.

<sup>40</sup> Gwnaed copi o'r llawysgrif hon ar gyfer Lhwyd gan law anhysbys yn NLW 21001B rhan (ii), a cf. hefyd y copi yn llaw Lhwyd ei hun o *Englynion y Beddau* yn Llst. 145 (gw. *RMWL*, II, t.725); fe'i gwelwyd hefyd gan John Davies o Fallwyd (gw. *RWMS*, I, t.377) a John Jones, Gellilyfdy (gw. *RMWL*, I, t.666). Ymddengys fod rhwyg

Arwydd arall o bwysigrwydd Add. 31055 yw'r ffaith mai hi yw'r ffynhonnell gynharaf ar gyfer sawl testun canoloesol (neu fersiynau amrywiol o destunau hysbys), gan gynnwys *Yr Anifeiliaid Hynaf*,<sup>41</sup> *Pymtheg Gweddi San Ffraid*,<sup>42</sup> *Marcoel a Marcolff*<sup>43</sup> a'r *Naw Helwriaeth*.<sup>44</sup> Gellir hefyd fanylu ynghylch ffynhonnell y copi gwallus ond dylanwadol o'r *Gododdin* a drafodwyd uchod, a chan hynny fwrw rhagor o oleuni ar rwydweithiau Thomas Wiliems. Fel y dywed Daniel Huws, 'that Add. 31055 derives its text from [the] B[ook of] A[neirin] is beyond reasonable doubt [...] but that it is a direct transcript must be questioned'.<sup>45</sup> Y mae tri darn o dystiolaeth *prima facie* yn awgrymu nad copi uniongyrchol o Lyfr Aneirin mo'r copi yn Add. 31055. Yn gyntaf, y toriad anesboniadwy ar ôl *LIA* 32.11 (a drafodir yn Huws, 'The other manuscripts', t.46). Yn ail, y ffaith nad yw llaw Thomas Wiliems – gŵr a oedd yn dueddol iawn i adael nodiadau yn ei ffynonellau – yn digwydd yn Card. 2.81. Y trydydd darn o dystiolaeth, a'r mwyaf arwyddocaol, yw fersiwn Add. 31055, f.140 o *CA*, ll.542–3:

ystynnawc vyg glin abundat y  
yn ty deyerin

Ceisiodd rhai geiriadurwyr, gan gynnwys D. Silvan Evans, ddeall y gair dieithr *bundat* fel 'llaw', ond dangosodd Ifor Williams mai'r hyn a ddigwyddodd yma yw bod glos Lladin, *abundat* y ('y mae y yn aml yma'), wedi ei gorffori yn nhestun yr awdl gan Thomas Wiliems.<sup>46</sup> Ymddengys fod hyn yn profi bod o leiaf un copi coll (ac ynddo losau Lladin) rhwng copi Thomas Wiliems yn Add. 31055 a Llyfr Aneirin. Os felly, fe all mai David Johns, ficer Llanfair Dyffryn Clwyd, oedd ysgrifwr y copi coll hwn gan iddo gopïo un awdl o'r *Gododdin* i'r casgliad enwog a wnaeth ar gyfer ei gyfaill John Williams yn 1586–7;<sup>47</sup> gellid hefyd awgrymu enwau William Salesbury a Roger Morris, Coedytalwrn (yr oedd Roger Morris yn gyfaill agos i Wiliems ac yn rhannu'r un argyhoeddiadau crefyddol ag ef), er nad oes tystiolaeth, hyd y gwn i, i'r un o'r ddau weld Llyfr Aneirin na meddu ar gopi o'r *Gododdin*.<sup>48</sup> Y mae Daniel Huws yn

---

wedi digwydd rhwng Wiliems a Salesbury tua diwedd yr 1570au, felly efallai nad yw'n syndod nad oedd Wiliems yn chwannog i roi cydnabyddiaeth i Salesbury drwy ei enwi fel ffynhonnell.

<sup>41</sup> Gw. Thomas Jones, 'Chwedl yr Anifeiliaid Hynaf', *CLIGC*, 7 (1951–2), 62–6.

<sup>42</sup> Gw. Th.M. Chotzen, 'Deux Traductions Galloises', *Études Celtiques*, 2 (1937), 304–33 (310–33).

<sup>43</sup> Gw. Henry Lewis, 'Salomon et Marcolfus', *BBCS*, 3 (1926–7), 161–76, 272–85.

<sup>44</sup> Gw. Iorwerth C. Peate, 'Y Naw Helwriaeth', *BBCS*, 6 (1931–3), 301–12.

<sup>45</sup> Huws, 'The other manuscripts', t.47.

<sup>46</sup> *CA*, tt.lii–liii.

<sup>47</sup> Add. 14866, f.257; gw. *RWMS*, I, t.604.

<sup>48</sup> Yr oedd Salesbury, fel Wiliems, yn chwannog i adael nodiadau yn ei ffynonellau, felly disgwyliid gweld ei law yn Llyfr Aneirin petai'r llawysgrif honno wedi dod i'w sylw.

awgrymu'r posibilrwydd mai Gruffudd Hiraethog oedd yn gyfrifol am y ffaith fod Llyfr Aneirin wedi mudo o dde Cymru i'r gogledd-ddwyrain erbyn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg gan mai athro barddol Gruffudd oedd Lewys Morgannwg, nai i un o berchnogion Llyfr Aneirin, sef Gwilym Tew; y mae'r ffaith fod Pen. 51, un o llawysgrifau Gwilym Tew, yn cynnwys nodiadau yn llaw Gruffudd ac, fel Llyfr Aneirin, wedi mudo i'r gogledd, yn tueddu i ategu hyn, ac os felly, nid yw'n annichonadwy y gallasai Gruffudd fod wedi dangos Llyfr Aneirin i'w gyfaill, William Salesbury, a bod ei gopi yntau wedi dod i feddiant Thomas Wiliems. Ond o astudio'r tudalen perthnasol yn llawysgrif Thomas Wiliems, ymddengys i mi'n bosibl, onid yn debygol, mai glos a ychwanegwyd gan Wiliems ei hun ydyw; os felly, ni raid tybio mai copi coll o Lyfr Aneirin oedd ei ffynhonnell uniongyrchol.

Neilltuir gweddill y bennod hon ar gyfer trafod mewn manylder ddau destun a geir yn Add. 31055. Y mae'r cyntaf, sef rhestr o feirdd a'u manau claddu, yn enghraifft wiw o'r modd y bu i ysgolheigion y Dadeni Dysg yng Nghymru gofnodi traddodiadau – ysgrifenedig a llafar – a fu gynt yn gyfyngedig i'r beirdd. Y mae'r ail, *Gorchestion Dafydd Nanmor*, o ystyried y llawysgrifau eraill sy'n cynnwys yr un testun, yn cynnig goleuni annisgwyl ar yrfa gynnar Thomas Wiliems ac ar y modd y byddai testunau cyffelyb yn cael eu cylchredeg.

### *Rhestr Thomas Wiliems o feirdd a'u manau claddu*

Un o'r pennaf danteithion a gynigir gan Add. 31055 yw'r rhestr o feirdd a'u manau claddu a geir ar ff.47–48<sup>v</sup>. Esgorodd y testun hwn, fel y dengys y stema isod, ar nifer fawr o gopiâu eraill, a chyfeiriwyd ato'n fynych gan ysgolheigion mewn golygiadau o weithiau'r beirdd hyn. Fel arfer, ni fuasai'n rhaid ymdrin yn fanwl â'r copiâu deilliadol hyn, ond gan fod un gangen yn arbennig wedi esgor ar sawl camsyniad sydd wedi ymddangos mewn print droeon, ymdrinnir â hwy'n unigol isod.

Ceir yn y rhestr hon enwau 120 o feirdd, a'r rheini wedi eu rhannu'n dri dosbarth: 'y clymiad cyntaf ar gerdh', 'yr ail clymiad cerdh' ac 'y trydydd clymiad ar gerdh'. Nid yw union ergyd y dosbarthiad hwn yn amlwg, ond ymddengys eu bod yn gyfeiriadau at gyfnodau rhwng dwy ymgais i safoni'r gyfundrefn farddol; dichon mai Eisteddfod Caerfyrddin, a gynhaliwyd dan nawdd Gruffudd ap Nicolas tua 1451,<sup>49</sup> yw'r ffin rhwng yr ail a'r trydydd clymiad. Rhestrir 40 o feirdd dan y clymiad cyntaf, 18 dan yr ail glymiad a 62 yn y trydydd clymiad. Y mae'r clymiad cyntaf yn cyfateb yn agos yr hyn y byddem ni heddiw yn ei alw'n 'Feirdd y Tywysogion'; rhestrir dan yr ail glymiad y beirdd a ganai rhwng tua 1320 a 1440 (er bod ambell un fel Rhys Brychan yn perthyn i gyfnod diweddarach mewn gwirionedd); ac yn y trydydd clymiad, sef y mwyaf sylweddol, rhestrir beirdd a ganai o tua 1440 hyd gyfnod Thomas Wiliems ei hun.

Yn y clymiad cyntaf, ac eithrio Cynddelw Brydydd Mawr (a gyplysir â'r 'Llechwedh Isaph', arwydd o ddiddordeb lleol Thomas Wiliems ei hun yn ddiau), ni nodir man claddu ar gyfer yr un o'r beirdd. Yn yr ail glymiad, fodd bynnag, ceir nodyn ynghylch '[y] lle y cladhwyd rhai', wyth ohonynt i gyd, ac yn eu plith y cofnodion dadlennol fod Dafydd ap Gwilym wedi ei gladdu yn Nhalylychau a bod Llywelyn Goch ap Meurig Hen wedi marw 'ar y phordh', cyfeiriadau yr ymdrinnir â hwy mewn mwy o fanylder isod. Yn y trydydd clymiad wedyn nodir man claddu ar gyfer 33 o'r beirdd, mwy na hanner y rhai a restrir yn y rhan honno.

Y mae un darn o dystiolaeth yn awgrymu'n gryf mai Llawysgrif Hendregadredd (NLW 6680B) yw prif ffynhonnell y clymiad cyntaf. Yn eu plith enwir 'Dd' Lhwyt ap Glm' Gam', sef y ffurf

---

<sup>49</sup> Gw. G.J. Williams, 'Eisteddfod Caerfyrddin', *Y Llenor*, 5 (1926), 94–102; D.J. Bowen, 'Dafydd ab Edmwnnt ac Eisteddfod Caerfyrddin', *Barn*, 142 (Awst 1974), 441–8.

anarferol ar enw Dafydd ap Gwilym sy'n digwydd yn y llawysgrif honno, o bosibl yn llaw Dafydd ei hun. Ymddengys fod y sawl a gynullodd y rhestr wedi cynaeafu enwau'r beirdd o Lawysgrif Hendregadredd heb ddeall mai'r un oedd Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam â Dafydd ap Gwilym, a restrir drachefn dan yr ail glymiad. Dyna gliw allweddol o ran ceisio adnabod yr unigolyn a luniodd y rhestr wreiddiol. Y mae'n annisgwyl braidd na chynhwysir beirdd mor adnabyddus ag Aneirin, Myrddin a Thaliesin yn y rhestr, sy'n awgrymu bod rhyw *terminus post quem* na ellir mo'i bennu yn berthnasol i'r clymiad cyntaf.

Nid yw trefn y beirdd yn y clymiad cyntaf yn cyfateb i'r drefn y mae'r beirdd yn ymddangos yn Llawysgrif Hendregadredd, ond y mae'r 33 cyntaf a restrir gan Wiliems (ac eithrio un ychwanegiad, 'Gwnfardd Dyvet', §22) yn cyfateb yn union i restr o feirdd a geir yn Pen. 132, t.102 dan y teitl 'Henwe hen brydyddion'. Y mae'n arwyddocaol mai yn llaw Gruffudd Hiraethog y mae'r rhestr honno. Gwyddys mai Gruffudd a'i gylch ef o feirdd oedd yn gyfrifol am y ffaith fod Llawysgrif Hendregadredd wedi mudo o Ddeheubarth i ogledd Cymru yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg. Disgrifir y llawysgrif gan John Davies o Fallwyd fel 'hên lyfr ar femrwn [...] a fuasai yn eiddo Gruff: Dwinn, ac yn eiddo Huw Llŷn, ac yn eiddo Rys Cain, ac yr awrhon sy eiddo Robert Vychan o'r Wengraig'.<sup>50</sup> Ymddengys felly fod y llawysgrif wedi dod i feddiant y beirdd a noddid gan Ruffydd Dwinn o Ystradmerthyr, Llandyfaelog (a oedd, os oes coel ar ei dystiolaeth ef ei hun, yn berchen ar 64 o llawysgrifau Cymraeg, nifer aruthrol ar gyfer y cyfnod), a chan hynny wedi mudo i'r gogledd. Yn ogystal â'r beirdd a enwir gan John Davies, gellir enwi Syr Owain ap Gwilym (m.1563), offeiriad Tal-y-llyn a gwrthrych marwnad enwog Wiliam Llŷn, fel un a wnaeth ychwanegiadau at y llawysgrif, a cheir ynddi hefyd y nodyn 'llyma lyfr Wiliam Llyn' yn llaw'r bardd ei hun. Gan y gellir ystyried yr holl feirdd hyn ymhlith *protégés* Gruffudd Hiraethog, nid yw'n syndod bod Gruffudd ei hun, fel y prawf y rhestr yn Pen. 132, yn gyfarwydd â Llawysgrif Hendregadredd.

Gan mor drawiadol o debyg yw rhestr Gruffudd Hiraethog i restr Thomas Wiliems o feirdd a ganai yn amser y clymiad cyntaf, y mae'n anodd peidio â chredu nad rhestr Gruffudd oedd ffynhonnell uniongyrchol Wiliems. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth arall fod Wiliems wedi gweld Pen. 132: ac yntau'n chwannog iawn i wneud nodiadau yn ei amryfal ffynonellau, y mae'r ffaith nad yw ei law yn digwydd yn Pen. 132 yn drawiadol, ac y mae'n anodd dychmygu y buasai ganddo fynediad y llawysgrif honno, a oedd bryd hynny'n eiddo i Rys

---

<sup>50</sup> Add. 14869, f.237<sup>v</sup>.

Cain. Mwy tebygol yw bod rhestrau Gruffudd Hiraethog a Thomas Wiliems yn tarddu'n annibynnol ar ei gilydd o un ffynhonnell gyffredin.<sup>51</sup>

Yn wahanol i feirdd y clymiad cyntaf, ni ellir dod o hyd i un ffynhonnell benodol ar gyfer beirdd yr ail a'r trydydd clymiad. Y mae'n debygol fod gan y sawl a gynullodd y restr ystod dda o ffynonellau o'i flaen a'i fod wedi cynaeafu'r enwau o wahanol lawysgrifau. Yr oedd ganddo, fodd bynnag, fynediad at wybodaeth nas ceir yn ysgrifenedig yn unman arall bellach ac y dichon na ellir ei hesbonio o'r herwydd ond fel traddodiad llafar, sef, yn fwyaf awgrymog, y cofnod fod Llywelyn Goch ap Meurig Hen wedi marw 'ar y phordh'. Ymddengys yn debygol mai'r math o wybodaeth a drosglwyddid ar dafod leferydd ymysg beirdd – o athro i ddisgybl – a geir yma, ac yn hynny o beth prin y gellid cynnig gwell ymgeisydd na Gruffudd Hiraethog fel y sawl a ddarparodd yr wybodaeth hon. Ond os felly, buesid yn disgwyl gweld y rhestr yn ei chrynswth yn Pen. 132, ac nid y clymiad cyntaf yn unig. Efallai, fodd bynnag, y gellid esbonio absenoldeb yr ail a'r trydydd clymiad yn Pen. 132 drwy eu deall fel atodiadau a gofnodwyd oddi ar dafod leferydd y beirdd gan un o ysgolheigion y Dadeni Dysg.

O blith cyfoeswyr Thomas Wiliems, gellir enwi dau y gwyddys iddynt lunio rhestr o feirdd. Y cyntaf yw Roger Morris, Coedytalwrn, a restrodd, yn nhrefn yr wyddor, enwau nifer o feirdd, gan gynnig *floruit* ar eu cyfer, yn Cwrtmawr 530 (*olim* Llanwrin 1), tt.155–6. Yr ail, a'r pwysicaf yn y cyd-destun hwn, yw William Salesbury. Ceir dwy restr o feirdd yn ei law ef, y gyntaf yn NLW 21294B a'r ail, sy'n fersiwn mwy datblygedig, yn Cwrtmawr 3 (c.1564).<sup>52</sup> Y mae'n wir fod y rhestr honno'n dra gwahanol i'r rhestr yn Add. 31055 ac na cheir yno ymgais i nodi manau claddu ar gyfer y beirdd, ond buasai Salesbury'n ddolen gyswllt amlwg rhwng Gruffudd Hiraethog a Thomas Wiliems. Y mae'n ddichonadwy y gallasai Salesbury fod wedi gweld rhestr ei gyfaill Gruffudd Hiraethog yn Pen. 132 (neu gopi tebyg iawn iddo) ac mai ef – gan dynnu ar draddodiadau llafar a oedd yn hysbys i Ruffudd ynghylch manau claddu rhai o'r beirdd – a fu'n gyfrifol am lunio'r rhestr o feirdd yr ail a'r trydydd clymiad. Gwelwyd uchod na all fod llawer o amheuaeth nad llawysgrif goll yn llaw Salesbury oedd ffynhonnell copi Wiliems o *Englynion Duad* yn Add. 31055; yn wahanol i'r copi hwnnw, ni cheir unrhyw olion

<sup>51</sup> Y mae presenoldeb y ffurf annilys 'Owain ap Gwalchmai' yn y ddwy lawysgrif yn profi eu bod yn gytras.

<sup>52</sup> Y mae NLW 21294B yn cynnwys ychwanegiadau at y rhestr yn llaw Wiliam Llŷn, ond gan na chynhwyswyd mo'r ychwanegiadau hynny gan Salesbury yn Cwrtmawr 3, tebyg mai ar ôl 1564 y daeth y drafft cyntaf i ddwylo Wiliam Llŷn.

o orgraff Salesbury yn y rhestr hon, ond ni ellir diystyru'r posibilrwydd deniadol mai Salesbury a gynullodd y rhestr hon, gan dynnu ar ddysg lafar Gruffudd Hiraethog a'i gylch.

Ceir copïau o'r rhestr yn y llawysgrifau canlynol.<sup>53</sup> Rhestrir hwy isod mewn trefn cronolegol fras.

**A** Pen. 132, t.102 (Gruffudd Hiraethog, c.1560)  
'Henwe hen brydyddion'. Fel y nodwyd uchod, y mae'n cyfateb yn agos i'r rhestr o feirdd y 'clymiad cyntaf' yn **B**, ond heb §22.

**γ** Ffynhonnell (?lafar) yr ail a'r trydydd clymiad (?Gruffudd Hiraethog, ?1560au)

**σ** Llawysgrif ddamcaniaethol (?William Salesbury, ?1560au)  
Testun y clymiad cyntaf yn tarddu'n uniongyrchol o **A** (neu o leiaf yn gytras); testun yr ail a'r trydydd clymiad efallai wedi ei godi oddi ar dafod leferydd (?Gruffudd Hiraethog).

**B** Add. 31055, ff.47–48<sup>v</sup> (Thomas Wiliems, c.1602)  
Gw. rhagymadrodd. Copi uniongyrchol o'r llawysgrif ddamcaniaethol **σ**.

**C** NLW 872D, t.463 (John Davies o Fallwyd, c.1620)  
'Pa le y claddwyd y prydyddion hyn.' Detholion wedi eu codi'n uniongyrchol o **B** a'u haildrefnu, gyda rhai ychwanegiadau. Y mae'r drefn fel a ganlyn:  
§72–4, §76, §60, §41–2, §49, §51, §53, §59, §61–7, §75, §68–71, §77, §96, + 'Bedo Brwynllys', §78–80, §87, §81–3, §97–8, §84–6, §88–92, §94–5, §99–106, + 'Ieuan Deulwyn yNghedweli', §110–17, + 'Owen Gwynedd'.  
Ar ddiwedd y rhestr ceir ychwanegiad yn llaw Robert Vaughan: 'Rys Cain a John Cain ei vab yNghroes Oswallt'.

**D** NLW 3029B, t.188 (Robert Vaughan, c.1615×1630)  
Copi dethol o **B**, gan ddilyn trefn y ffynhonnell at ei gilydd:

---

<sup>53</sup> Hoffwn ddiolch i Graham Thomas am hwyluso'r gwaith o ganfod yr holl gopïau.



§9, §22, §31, §33–40, §2, §41, §43–5, §47, §49, §51–6, §58–60,  
§76, §61–4, §71, §73–4, §77–80, §84, §81–3, §90, §93, §95–112,  
§114, §117, §119.

**E** Pen. 157, tt.3–4 (Thomas Evans, Hendreforfudd, 1602×1633)

Enwau beirdd y ‘clymiad cyntaf’ wedi eu codi – yn uniongyrchol, fe ymddengys – o **B** (gan hepgor §15). Ar t.4 ceir ‘yr ail klymiad’ yn llaw Thomas Evans, ond nid aeth ymhellach. Y mae’n cynnwys §22, felly ni all darddu o **A**.

**F** NLW 21469A, tt.74–7, 98 (Dafydd Jones o Drefriw, 1752×1760)

Copi uniongyrchol o **B**. Ychwanegodd Dafydd Jones enwau beirdd diweddarach at y rhestr ar tt.77 a 98, gan gynnig dyddiad marw a man claddu ar gyfer nifer ohonynt, ond y mae sawl dyddiad yn amlwg gyfeiliornus, er enghraifft y rhai a gynigir ar gyfer Edmwnd Prys (m.1623), Rhisiart Phylip (m.1641) a Siôn Dafydd Laes (m.1694[5]). Y mae’r ychwanegiadau hyn yn haeddu ymdriniaeth ar wahân.

**G** Pen. 122, tt.119–24 (William Wynn, Llangynhafal, c.1758)

Copi uniongyrchol o **B**. Y mae llaw William Wynn yn digwydd yn y ffynhonnell (‘yn Dymeirchion y claddwyd’). Hefgorwyd §9 a §16 gan Wynn, sy’n dangos iddo sylweddoli eu bod yn annilys, ac ni chopiodd yr ychwanegiadau diweddarach ar ddiwedd y rhestr. Ychwanegodd Wynn ‘o Arth Geri yn Chwibrain yn Llansanan’ at y cofnod ar Dudur Aled.

**H** Add. 14883, ff.117–118<sup>v</sup> (William Morris, 1763)


Cyfieithiad Saesneg o **C**, ‘allan o Hen Ff[olio] o eiddo Mr. Panton’. Rhaid mai cyfeiriad at NLW 872D a geir yma; dyma’r unig dystiolaeth y gwn i amdani fod y llawysgrif honno wedi bod ym meddiant Paul Panton, un o noddwyr Ieuan Fardd.

**I** Add. 15021, f.6<sup>r-v</sup> (Owain Myfyr, s.xviii/xix)

Cyfieithiad yn ôl i’r Gymraeg o **H**.

- J** Add. 15022, ff.53<sup>v</sup>–55 (Owain Myfyr, c.1800)  
Copi uniongyrchol o **C**.
- K** NLW 13136A, t.190 (Iolo Morganwg, s.xviii/xix)  
Dryll o gopi o ddiwedd **I**.
- L** NLW 13139A, tt.59–62 (Iolo Morganwg, s.xviii/xix)  
Copi cyflawn o **I**. Ar y diwedd ceir nodiadau nodweddiadol Ioloaidd yn cywiro'r 'sawl camsyniad yn yr Hanes uchod'.
- M** NLW 13139A, tt.225–32 (Iolo Morganwg, s.xviii/xix)  
Copi uniongyrchol o **B** ('Hyd yn hynn yn llaw'r meddyg Thos Wiliams. No. I Caer Rhun') ac eithrio'r ychwanegiadau diweddarach.
- N** Card. 4.91, t.39 (Peter Bailey Williams, s.xviii/xix)  
Copi uniongyrchol o **C**.
- O** Card. 2.8, dalennau heb rif (llaw anhysbys, s.xix<sup>1</sup>)  
Detholion wedi eu codi o **F**, gan gynnwys ychwanegiadau diweddarach Dafydd Jones.
- P** Cwrtmawr 315, tt.229–31 (W.H. Mounsey, c.1860)  
'The above is very ill written by Owen Myfyr.' Copi uniongyrchol o **J**.  
Argraffwyd y testun gan Mounsey o'r llawysgrif hon yn *Y Brython*, 3 (1860), 137–8.

Gellir cynnig yn bur hyderus y stema ganlynol:



[Add. 31055, f.47]

Llyma'r henwæ'r prydydhion oedh yn amser y clymiad cyntaf ar Gerdh

- [§1] Casnodyn Vardh
- [§2] Cyndhelw Brydydh Mawr yn Llechwedh Isaph
- [§3] Lhowarch Brydydh y Moch
- [§4] Daniel Lhosgwrn Mew
- [§5] Prydydh Hodnant
- [§6] Einion ap Gwalchmei
- [§7] Lhowarch ap Lhn'
- [§8] Bledhyn Vardh
- [§9] Owein ap Gwalchmei
- [§10] Y Prydydh Bychan
- [§11] Einion Wann
- [§12] Gruff ap Gwrgeneu
- [§13] Gwrgan ap Cludno
- [§14] Dd' Benbras
- [§15] Philipp Brydydh
- [§16] Dd' Lhwyt ap Glm' Gam
- [§17] Gwalchmei
- [§18] Howel ap Owein
- [§19] Einion ap Mad Rawd
- [§20] Lhygad Gwr
- [§21] Gwnvardh Brycheinioc
- [§22] Gwnvardh Dyvet
- [§23] Gronwy Voel
- [§24] Ier' Vychan ap Ier' ap Robt'
- [§25] Hol' Voel ap Griffri Pwylh Gwydhel
- [§26] Gwalchmei ap Meilir
- [§27] Einion ap Gwgon
- [§28] Wiliam Ryfel
- [§29] Meilir Brydydh
- [§30] Seisilh Bryfwrch

[§31] Tudur ap Cyfnerth

[§32] Yr Iustus Lhwyt

[Add. 31055, f.47<sup>v</sup>]

[§33] Yr Hilcyn

[§34] Lhn' Vychan ap Lhn' Voelrhon

[§35] Gruff ap yr Ynat Coch

[§36] Lhowarch Bentwrch

[§37] Adha Vras

[§38] Edym Dauot Aur

[§39] Dd' Dhu o Hiradhuc <yn Dymeirchion y claddwyd>

[§40] Trahaearn

Lhyma henwæ rhai oedhent yn yr ail Clymiad Cerdh a'r llye cladhwyd rhai

- [§41] Howel ap Einion
- [§42] Ieuan Du'r Bilwc
- [§43] Gruff ap Cynvyn Goch
- [§44] Gruff ap Gronwy Gethin
- [§45] Cynvyn ap Dd' Goch
- [§46] Gruff ap Adda [*sic*] ap Dd' yn Nol Gelhe cladhwyd
- [§47] Dd' ap Glm' yNhal y Lhychau
- [§48] Gruff Gryg
- [§49] Iolo Goch yn Lhan Vfudh
- [§50] Gruff Lhwyt Dd' ap Einion
- [§51] Rhes Goch or Yri ym Medh Cilhart
- [§52] Lhn' Moel y Pantri yn Ystrat Marchelh
- [§53] Robin Dhu yMhentir ne Lann Gedol
- [§54] Glm' ap Sefnyn Llan Degai
- [§55] Rhes Brychan
- [§56] Lhn' Goch ap Meuric Hen a vu varw ar y phordh
- [§57] Bedo Philipp Bach
- [§58] Gruff Gweflyn

Henwæ rhai oedh yn amser y Trydydh Clymiad ar Gerdd

- [§59] Dd' ap Edmwnd yn Hanmer <Siad>  
[§60] Gutto'r Glynn yn Egwest yn y vanachloc yno  
[§61] Dd' Nanmor yn y Tuy Gwynn ar Daf  
[Add. 31055, f.48]
- [§62] Deio ap Ieuan Du yn Lhann Gynvelyn  
[§63] Lewis Glynn Cothi'n Aber Gwili  
[§64] Ierwerth Vynglwyd yn y Sant y Brits  
[§65] Lhowdhen  
[§66] Huw Cae Lhwyt  
[§67] Madoc Benfras  
[§68] Ieuan Llwyd Brydydh  
[§69] Howel Swrdwal Baitelar or Diviniti  
[§70] Ieuan ap Rydherch Ieuan Lhwyt  
[§71] Tudur Penlhyn yn Lhann Vwchlhyn  
[§72] Howel Dd' ap Ieuan ap Rhes  
[§73] Tudur Alet yn huy'r brodur yNghaervyrdhin  
[§74] Rhes Nanmor, yno, sef yn huy'r brodur yNghaervyrdhin  
[§75] John Ceri  
[§76] Lewis Mon yNglyn Egwest  
[§77] Howel Rinallt yn Lhanvawr yn Lheyn  
[§78] Lewis Daron yn rhaf Nefyn Aber Daron  
[§79] Wiliam Egwad yn Lhan Egwad Vawr  
[§80] Gruff Leiaf  
[§81] Ieuan Brechfa yMrechfa Cothi  
[§82] Thomas Terlhyse  
[§83] John ap Howel Lhn' Vychan Whitford  
[§84] Ieuan ap Gruff Leiaf  
[§85] Dd' ap Howel  
[§86] Rhes Goch Glynn Dyfrdwy  
[§87] Robert Leiaf  
[§88] Rhes Penardh

- [§89] Huw Penal  
[§90] Howel Cilan yn Lhan Drilho  
[§91] Ieuan Tew Brydydh  
[§92] Ieuan Dyvi  
[§93] Morys Mowdhwy  
[§94] Dd' Gorlhech  
[§95] Cadwaladr ap Rhes Trefnant  
[§96] Beduo Aerdhrem yn Lhann Gwm  
[Add. 31055, f.48<sup>v</sup>]
- [§97] Ieuan ap Tudur Penlhyn yn Lhann Degla  
[§98] Guttun Owein yn Lhan Varthin  
[§99] Ieuan Teiler  
[§100] John Trefor  
[§101] Wiliam Alaw yNghroesoswald  
[§102] Hugh ap Dd' yNghilkein  
[§103] Thomas Gwynedh yn Rhiw Abon  
[§104] Ieuan Brydydh Hir ym manachloc Cymer  
[§105] Mathew Bromfild yNghaervyrdhin  
[§106] Lewis Morganwg yn rhef y Bont Vaen  
[§107] Gruff Hiraethoc yn Lhan Golhen  
[§108] John Brwynoc yn Lhan y Dheusant  
[§109] Richard Ier' yn Aber Tawy  
[§110] Lewis ap Edward ym Motuari  
[§111] Moris ap Howel ap Tudur yn Lhangar  
[§112] Wiliam Lheyn yNghroesoswald  
[§113] Howel ap Sr Matthew  
[§114] Wiliam Cynwal yn Spytuy Ieuan  
[§115] Huw Lheyn  
[§116] Hugh Arwystl  
[§117] Jo: Tud yn Lh. Elwy  
[§118] John Philipp <yn Ll Danwg>  
[§119] Rhes Cain <yng Rhoesoswallt>  
[§120] Hugh Machno <ni wybod ple eto>



[*Ychwanegiadau diweddarach, c.1700*]

Mr John Gryffydd Llanddyfnog Mon

John Roger Llandeggai Arfon

John Lloyd Pennaner <Cerig y Druidion>

Tho Lloyd Penmaen Llanfawr

Edward Rowland or Bala

Mathew Owain of Llangar

Richard Abram of Dyffryn Clwyd

Edward Moris or Cerig y Drydion <yn Breian Church yn Essex>

<i>Nodiadau</i>	
§2	Fel y soniwyd uchod, Cynddelw yw'r unig un o feirdd y clymiad cyntaf a gysylltir â man claddu; diau mai'r ffaith fod cynefin Thomas Wiliems o fewn tafliad carreg at Arllechwedd Isaf (gw. <i>WATU</i> , t.238) sy'n esbonio hyn.
§9	Ni chadwyd unrhyw gerddi gan fardd o'r enw hwn, ac ni cheir Owain ymhlith plant y bardd Gwalchmai. Diau mai Einion ap Gwalchmai a fwriedid.
§16	Trafodwyd arwyddocâd y cofnod hwn uchod: y mae'n dangos y tu hwnt i amheuaeth resymol mai Llawysgrif Hendregadredd yw ffynhonnell y clymiad cyntaf.
§33	<i>Recte</i> Hillyn.
§37–40	Y pedwar hyn yw'r unig rai o feirdd y clymiad cyntaf nad yw eu gwaith yn digwydd yn Llawysgrif Hendregadredd. Gan y cysylltir Adda Fras ag abaty Maenan, ychydig filltiroedd yn unig o gynefin Thomas Wiliems, nid annichon mai Wiliems ei hun a'u hychwanegodd.
§39	Yn llaw William Wynn, Llangynhafal y mae'r ychwanegiad; ar fan claddu Dafydd Ddu, a gysylltir yn aml (ac yn gyfeiliornus, y mae'n debyg) â Thremeirchon, gw. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (gol.), <i>Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug</i> (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1997), tt.103–4; R. Geraint Gruffydd, 'Wales's second grammarian: Dafydd Ddu of Hiraddug', <i>Proceedings of the British Academy</i> , 90 (1995), 1–28 (7–10).
§43	<b>Cynvyn</b> <i>Recte</i> Cynfrig/Cynwrig; y tebyg yw bod Wiliems – neu ynteu ysgrifwr y gynsail – wedi camddechongli talfyriad ar ddelw <i>Cyn'</i> .
§45	Eto, gwall yw <i>Cynvyn</i> am Cynfrig/Cynwrig.
§46	Bardd a gysylltir â <i>Cainc Gruffudd ab Adda</i> , <sup>54</sup> dwy araith bros ( <i>Breuddwyd Gruffudd ab Adda ap Dafydd</i> a <i>Trwstaneiddiwch Gruffudd ab Adda ap Dafydd</i> ) <sup>55</sup> a chasgliad o driodd. <sup>56</sup> Ymddengys, fodd bynnag, iddo gael ei ddrysu â gŵr

<sup>54</sup> Gw. Sally Harper, *Music in Welsh Culture Before 1650. A Study of the Principal Sources* (Aldershot: Ashgate, 2007), t.146.

<sup>55</sup> Gw. D. Gwenallt Jones (gol.), *Yr Areithiau Pros* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1934), tt.18–23, 33.

<sup>56</sup> Ceir y copi cynharaf yn Jesus 119 (Llyfr Ancr Llanddewi Brefi). Gan mai ychwanegiad gan law arall (o ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg, enghraifft brin o ddefnydd o *anglicana* i gopïo testun llenyddol Cymraeg) yw'r testun hwnnw, nis argraffwyd yn J. Morris Jones a John Rhys (gol.), *The Elucidarium and Other Tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi, A.D. 1346 (Jesus College MS. 119)* (Oxford: Clarendon Press, 1894), nac ychwaith yn *RhG 1300–1425*. Fe'i golygwyd gyntaf yn Huw M. Edwards, 'Y Trioedd Serch', *Dwned*, 1 (1995), 25–39. Yn Llst. 27 (Llyfr Coch Talgarth), f.vi<sup>v</sup>, mewn llaw sy'n perthyn i droad yr unfed ganrif ar

<p>adnabyddus o'r enw Gruffudd ab Adda ap Gruffudd o'r Ddôl-goch ac Ynysmaengwyn, Tywyn, rhaglaw cwmwd Ystumanner yn 1331 ac 1334.<sup>57</sup> Yn Nhywyn, fodd bynnag, y claddwyd hwnnw (gwelir ei gorffddelw yn yr eglwys o hyd), felly fe all y traddodiad i'r bardd gael ei gladdu yn Nolgellau fod yn ddilys.</p> <p>Canodd Dafydd ap Gwilym farwnad i'r bardd – ffug farwnad yn ddiau – sy'n cynnwys y llinellau canlynol:</p> <p style="text-align: center;">Gruffudd fab Addaf ap Dafydd, Yng nghôr Dolgellau ynghudd.<sup>58</sup></p> <p>Fodd bynnag, dim ond tair ffynhonnell o'r wyth a ddefnyddiwyd yn y golygiad diweddaraf sy'n cynnwys y cwpled hwn, ac nis derbyniwyd fel un dilys gan Thomas Parry yn <i>GDG</i>. Y mae'n ddichonadwy mai ychwanegiad diweddarach ydyw gan ysgrifwr a oedd yn ymwybodol o'r traddodiad a gysylltai'r bardd â Dolgellau ac a sylwodd fod enw'r bardd (sy'n rhy hir o sillaf) yn cynnig cynghanedd lusg gyfleus.</p> <p>Yr oedd y cysylltiad â Dolgellau'n hysbys i David Johns, ficer Llanfair Dyffryn Clwyd:</p> <p style="text-align: center;">Marwnad Gruff ap Adda ap Dafydd a las yn Dolgellau. Mi a welais y penglog ar briw yn fawr ar asgwrn tew yn Nolgellau. Mae rhai (fal i clowais i) yn camarfer y pen hwnnw i yfed peth o honaw rhag y pas a doluriau eraill.<sup>59</sup></p> <p>Cofnodwyd traddodiad tebyg iawn gan ysgrifwr anhysbys NLW 3066E (<i>olim</i> Mostyn 212), llawysgrif o gyffiniau Llanrwst:</p>
---

bymtheg, ceir cyfres o drioedd ynghyd â'r nodyn, mewn llaw arall, ddiweddarach: 'Ac velly i tervyna trioedd Gruffydd ap Addaf ap [ ]'; nid ymddengys mai'r un testun sydd yma, fodd bynnag.

<sup>57</sup> Gw. Ifor Williams, 'Dafydd ap Gwilym a'r Glêr', *THSC*, 1913–14, 83–204 (108–9); Ifor Williams a Thomas Roberts (gol.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1935), tt.lxxxix–xciii.

<sup>58</sup> Gw. *DG.net*, rhif 21, ll.37–8.

<sup>59</sup> Add. 14866, f.252<sup>v</sup>.

	<p>K marwnad Gr ap Adda ap Dd, gwr bonheddig o Bowys a ffrudydd oedd fo, a chanv telyn yn dda a wnai. Ef oedd gydymaith i Dd ap Gwilm. I ladd ef a wnaed o achos i wraig y Nolgelle.<sup>60</sup></p> <p>Ymddengys mai'r traddodiad hwn (na ellir barnu a yw'n ddibynadwy ai peidio) yw sail y cofnod yn y rhestr. Y mae'r cysylltiad â David Johns yn ogleisiol: gwyddys yn dda am ei hoffter o gofnodi traddodiadau ynghylch beirdd y gorffennol,<sup>61</sup> felly ni ellir diystyru'r posibilrwydd mai yn ei law ef yr oedd y gynsail y copïai Thomas Wiliems ohoni.</p>
<p>§47</p>	<p>Gan enwoced yw cywydd Gruffudd Gryg i'r ywen uwchben bedd Dafydd ap Gwilym yn abaty Ystrad Fflur,<sup>62</sup> y mae'r cofnod hwn, sy'n dadlau fel arall, yn dra arwyddocaol: y mae'n profi nad marwnadau'r beirdd – a oedd, yn enwedig yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn aml yn rhai ffug<sup>63</sup> – oedd ffynhonnell y sawl a greodd y rhestr hon.</p> <p>Bu sawl ysgolhaig, gan gynnwys J.H. Davies, D.J. Bowen a Thomas Parry, yn gyndyn o dderbyn y cofnod hwn fel un dilys; diau i'r ffaith i Iolo Morganwg gofleidio'r syniad niweidio'r achos.<sup>64</sup> Yr oedd Rachel Bromwich, ar y llaw arall, yn bleidiol (er nad yn gwbl argyhoeddedig) i hawl Talylychau ar y bardd;<sup>65</sup> tywyswyd hi gan Mervyn Williams o Landeilo, gŵr o linach o naddwyr cerrig beddau, i'r union fan gerllaw'r abaty y mynnai traddodiad lleol i'r bardd gael ei gladdu, ac ar 15 Medi 1984 dadorchuddiwyd maen coffa i Ddafydd ar y llecyn hwnnw.</p>

<sup>60</sup> NLW 3066E, t.90.

<sup>61</sup> Y mae ei flodeugerdd enwog, Add. 14866, yn frith o fân nodiadau difyr am y beirdd; argreffir rhai ohonynt yn Daniel Huws, *Cynnull y Farddoniaeth* (Aberystwyth: Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2004), tt.23–8.

<sup>62</sup> Gw. Barry J. Lewis ac Eurig Salisbury (gol.), *Gwaith Gruffudd Gryg* (Aberystwyth: Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2010), rhif 5.

<sup>63</sup> Ar y ffug farwnadau, gw. Huw Meirion Edwards, 'Murnio marwnadau: golwg ar y ffug-farwnad yng nghyfnod y cywydd', *Dwned*, 5 (1999), 47–70; adargraffwyd yn Bleddyn Owen Huws ac A. Cynfael Lake (gol.), *Genres y Cywydd* (s.l.: Y Golygyddion, 2016), tt.71–92.

<sup>64</sup> Gw. Rachel Bromwich, Thomas Parry a D.J. Bowen, 'Ai yn Nhalylychau y claddwyd Dafydd ap Gwilym?', *Barddas*, 87/88 (Gorffennaf/Awst 1984), 14–16; D.J. Bowen, 'Lle claddwyd Dafydd ap Gwilym', *ibid.*, 89 (Medi 1984), 7–8.

<sup>65</sup> Gw. Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff: University of Wales Press, 1986), t.11, n.3; ceir ei dadleuon dros ystyried marwnad Gruffudd Gryg yn ffug farwnad yn *ibid.*, tt.159–61.

	Fel rhan o'i wrth-ddadl, dywed Thomas Parry: 'Ni wn i am unrhyw berthynas rhwng Dafydd ap Gwilym a'r Cantref Mawr, lle saif Talylychau, ac anodd meddwl am unrhyw reswm nac esgus dros ei gladdu yno'. Y mae'n werth nodi, serch hynny, mai cwta filltir sydd rhwng abaty Talylychau a Rhydodyn, a fu'n gartref i sawl unigolyn nodedig ei nawdd i lenyddiaeth: <sup>66</sup> ar gyfer Gruffudd ap Llywelyn ap Phylip, brawd Dafydd ap Llywelyn o Rydodyn, y lluniwyd Llyfr Ancr Llanddewi Brefi (Jesus 119) yn 1346, ac efallai nad amherthnasol yw'r ffaith fod Dafydd yn llystad i Ifor Hael, prif noddwr Dafydd ap Gwilym. <sup>67</sup> O ystyried poblogrwydd cywydd Gruffudd Gryg i'r ywen yn Ystrad-fflur, y mae Talylychau megis yn hawlio statws y <i>lectio difficilior</i> .
§49	Cysylltir Iolo Goch â Llechryd ym mhlwyf Llanefydd. <sup>68</sup>
§51	Ym mhlwyf Beddgelert y mae Hafodgaregog, cartref Rhys Goch.
§52	Y mae llinell agoriadol marwnad enwog Guto'r Glyn i Lywelyn ab y Moel <sup>69</sup> yn ategu'r cofnod hwn.
§53	Er mai â Môn y cysylltir Robin Ddu gan amlaf, y mae dau o'r dynaid o gywyddau mawl o'i waith a gadwyd <sup>70</sup> yn gysylltiedig â theulu'r Penrhyn ym mhlwyf Llandygái (teulu a chanddo diroedd helaeth ym Môn), nid nepell o Langedol (sef yr hen enw ar Bentir).
§54	Fel Robin Ddu, ymddengys mai bardd o Fôn oedd Gwilym ap Sefnyn, ond yr oedd ganddo yntau hefyd gysylltiadau â theulu'r Penrhyn, fel y prawf ei gywydd dychan i Ogwen a Menai am ei rwystro ar ei ffordd i ymweld â'r llys hwnnw; ceir hefyd dystiolaeth ddogfennol yn ei gysylltu â threfgordd Creuwyrion ym mhlwyf Llandygái, ac ar 3 Rhagfyr 1429 trosglwyddodd y bardd ei holl eiddo yn y drefgordd honno i Wiliam Fychan ap Gwilym o'r Penrhyn. <sup>71</sup>

<sup>66</sup> Rhestrir rhai o gyfeiriadau mynych y beirdd at Rydodyn yn y nodiadau ar *GG.net*, rhif 101a, ll.47; yn wir, ymddengys yr ystyrid y llys hwnnw'n archdeip o berchentyaeth a nawdd. Ategir hynny gan un o gywyddau hynotaf y bedwaredd ganrif ar ddeg, sef 'Cywydd y Cwest' o waith Gruffudd Llwyd, sy'n enwi deuddeg o feirdd cyfoed ag ef fel aelodau cymwys ar gyfer y rheithgor yn y cwest ar Forgan ap Dafydd ap Llywelyn o Rydodyn tua 1385 (gw. Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2000), rhif 10); yr oedd meibion Morgan, hwythau, yn noddï beirdd (gw. *GLGC*, rhifau 35–6 a cf. rhifau 36–8 a 40–1).

<sup>67</sup> Trafodir y cysylltiadau teuluol cryfion yn Eurig R.Ll. Davies, 'Teulu Ifor Hael a'r Traddodiad Nawdd. I – Llinach Rhydodyn', *YB*, 12 (1982), 143–9; gw. hefyd Dwnn, *HVW*, I, t.225; *WG 1*, 'Eidïo 2'.

<sup>68</sup> Gw. D.R. Johnston (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1988), tt.xv–xviii.

<sup>69</sup> *GG.net*, rhif 82.

<sup>70</sup> Gw. Heledd Haf Williams, 'Cerddi mawl Robin Ddu o Fôn' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2012), rhifau 7–8; D.J. Bowen, 'Y Canu i Gwilym ap Gruffudd (m.1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m.1483)', *Dwned*, 8 (2002), 59–78.

<sup>71</sup> Gw. Gruffydd Aled Williams, 'Cywydd Gwilym ap Sefnyn i Afon Ogwen ac Afon Menai', *Dwned*, 3 (1997), 83–95.

§55	Bardd o sir Frycheiniog a flodeuai tua diwedd y bymthegfed o'r ganrif oedd Rhys Brychan, <sup>72</sup> felly diau y byddai'n gweddu'n well i'r trydydd clymiad nag i'r ail.
§56	Fel y cofnod am Ddafydd ap Gwilym (§47), dyma gofnod tra arwyddocaol na ellir ei esbonio ond fel traddodiad llafar (gw. rhagymadrodd). Ar Lywelyn Goch, a hanai o'r un cyff â theulu Nannau, Llanfachreth, ac a gysylltir yn fynych â Phennal, gw. Dafydd Johnston (gol.), <i>Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen</i> (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1998).
§59	Etifeddodd Dafydd ab Edmwnd dir yn Hanmer, Maelor Saesneg, gan ei dad, <sup>73</sup> ychwanegwyd 'Siad', sef cyfeiriad at eglwys St Chad yn y plwyf hwnnw, gan law anhysbys o'r ddeunawfed ganrif. <sup>74</sup> Y mae marwnad Gutun Owain i Ddafydd yn nodi iddo gael ei gladdu ym mynwent yr eglwys honno. <sup>75</sup>
§60	Gwyddys yn dda am gysylltiadau Guto'r Glyn ag abaty Glyn-y-groes (Glynegwestl/Llanegwestl), yn enwedig yn ei henaint, <sup>76</sup> a chyfeirir at Ddafydd ab Ieuan, abad Glyn-y-groes, yn y farwnad a ganodd Gutun Owain iddo. <sup>77</sup>
§61	Dyma'r unig ffynhonnell y gwn i amdani sy'n cysylltu Dafydd Nanmor â Hendy-gwyn ar Daf.
§62	Y mae'r cofnod hwn yn gyson â'r cysylltiad cryf â Cheredigion a welir yng nghanu Deio ab Ieuan Du. <sup>78</sup>
§63	Trafodir cysylltiadau Lewys Glyn Cothi ag Abergwili ym mhennod I.
§71	Cysylltir Tudur Penllyn â Chaer-gai ym mhlwyf Llanuwchllyn. <sup>79</sup> Gan na chynigir man claddu ar gyfer y chwe bardd blaenorol, tybiodd John Davies yn C fod y cyfeiriad at Lanuwchllyn yn berthnasol iddynt oll, a rhoes gromfach am y cyfan;

<sup>72</sup> Gw. *RWMS*, II, t.144. Y mae ei law'n digwydd yn Pen. 84, casgliad o bapurau o Degeingl, ac yn ddiweddar sylweddolwyd bod ei law'n digwydd yn NLW 3026C (*olim* Mostyn 88; gw. *RWMS*, I, tt.184–5), sef llawysgrif enwog Gutun Owain, sy'n awgrymu bod cysylltiad rhyngddo a gogledd-ddwyrain Cymru; ategir hynny gan y cywydd o'i waith a gadwyd yn llaw Edward Kyffin yn NLW 3050D (*olim* Mostyn 147), tt.213–14 (gw. Gruffudd Antur, 'Rhys Brychan a Chroesoswallt', i ymddangos).

<sup>73</sup> Gw. *BC*; *ODNB*; Gruffudd Antur, 'Dafydd ab Edmwnd', *Dwned*, 22 (2016), 92–5.

<sup>74</sup> Ymddengys mai'r un llaw a ysgrifennodd 'Eglwys Siad iw gloi sydd D ap Edm 198' (llinell o farwnad Gutun Owain i Ddafydd ab Edmwnd; gw. n.75 isod) ar f.48'. Nid yw arwyddocâd '198' yn amlwg.

<sup>75</sup> Gw. *LPGO*, rhif LXII.

<sup>76</sup> Gw., e.e., *GG.net*, rhifau 109–14, 116–19; D.J. Bowen, 'Guto'r Glyn a Glyn-y-groes', *YB*, 20 (1995), 149–82.

<sup>77</sup> *GG.net*, rhif 126.

<sup>78</sup> Yr enghraifft amlycaf yw 'Cywydd clera sir Aberteifi' (A. Eleri Davies (gol.), *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992), rhif 11).

<sup>79</sup> Gw. *BC*.

	dyna sail y camsyniad a welir yn resynus o aml mewn print fod yr holl feirdd hyn wedi cael eu claddu yn Llanuwchllyn. <sup>80</sup>
§72	Sef y bardd a adwaenir fynychaf fel Hywel Dafi. Camddealltwriaeth ar ran John Davies yw unig sail y gred iddo gael ei gladdu, fel Tudur Aled a Rhys Nanmor, yn nhŷ'r Brodyr Llwydion yng Nghaerfyrddin.
§73	Y mae'r marwnadau a ganwyd i Dudur Aled yn dangos iddo dreulio diwedd ei oes yn nhŷ'r Brodyr Llwydion yng Nghaerfyrddin. <sup>81</sup>
§74	Ystyrid Rhys Nanmor yn fardd teulu Syr Rhys ap Tomas o Ddinefwr, nid nepell o Gaerfyrddin. <sup>82</sup>
§76	Gwyddys bod Lewys Môn wedi gwneud ei ewyllys (a brofwyd ar 28 Mehefin 1527) yng Nglyn-y-groes ar 12 Ebrill 1527; <sup>83</sup> un o'r tystion oedd Wiliam Alaw, bardd (hefyd o Fôn?) y dywedir isod (§101) iddo gael ei gladdu yng Nghroesoswallt.
§83	Ar gynefin Siôn ap Hywel, gw. A. Cynfael Lake (gol.), <i>Gwaith Siôn ap Hywel</i> (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1999), tt.1–3.
§90	Fel yn achos §71, tybiodd John Davies fod Llandrillo'n berthnasol nid yn unig ar gyfer Hywel Cilan ond hefyd ar gyfer Ieuan ap Gruffudd Leiaf, Dafydd ap Hywel, Rhys Goch Glyndyfrdwy, Rhys Pennardd a Huw Pennal – ond nid Robert Leiaf, a osodwyd ganddo gyda'i daid, Gruffudd Leiaf, <sup>84</sup> gan nodi wedyn, yn fwy dryslyd byth, iddynt ill dau gael eu claddu yn Chwitfordd (sydd ond yn berthnasol i Siôn ap Hywel mewn gwirionedd).
§97	Â Chaer-gai ym mhlwyf Llanuwchllyn y cysylltir Ieuan ap Tudur Penllyn, ond ymhlith noddwyr ei dad yr oedd Gruffudd Fychan o Gorsygedol a'i frawd, Elisau ap Gruffudd ab Einion o'r Plas-y-n-Iâl, nid nepell o Landegla; y mae cysylltiad â theulu llengar Bodidris yn y plwyf hwnnw hefyd yn dra phosibl.
§101	Fel y gwelwyd uchod (§76), yr oedd Wiliam Alaw yn dyst i ewyllys Lewys Môn, a wnaed yng Nglyn-y-groes, nid nepell o Groesoswallt, yn 1527.

<sup>80</sup> Gw., er enghraifft, y cofnodion ar gyfer Huw Cae Llwyd, Hywel Swrdwal, Ieuan Llwyd Brydydd a Llawdden yn *BC*.

<sup>81</sup> Gw. *GTA*, II, tt.723–52.

<sup>82</sup> Fel 'bardd Syr [R]ys' y'i gelwir ym marwnad Lewys Môn iddo; gw. Eurys I. Rowlands (gol.), *Gwaith Lewys Môn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1975), rhif XC.

<sup>83</sup> *Ibid.*, t.xi.

<sup>84</sup> Gw. John Bernard Taylor, 'Gwaith Barddonol Ieuan ap Gruffudd Leiaf, Robert Leiaf, Syr Siôn Leiaf a Rhys Goch Glyndyfrdwy' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2014), t.132.

§103	‘Tho: Gwynedh yn Riw abon’ yw’r ffurf a geir gan Robert Vaughan yn <b>D</b> ; camddarllenwyd y talfyriad ‘Tho:’ gan olygydd diweddaraf gwaith Llawdden, gan dybio mai ‘Llo:’ am <i>Llowdden</i> a geir yno. <sup>85</sup> Dylid felly ddiystyru’r posibilrwydd mai yn Rhiwabon y claddwyd Llawdden. Ar Thomas Gwynedd a’r dyrnaid o gerddi o’i waith a gadwyd, gw. <i>BC</i> . Rhoes John Davies yn <b>C</b> gromfach am enwau Ieuan Teiler, John Trefor, Wiliam Alaw, Huw Dafydd a Thomas Gwynedd er mwyn nodi, yn gyfeiliornus, iddynt oll gael eu claddu yn Rhiwabon.
§105	Er mai bardd o Faenor, fe ymddengys, oedd Mathau Brwmffild, canodd i ambell noddwr o sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Gruffydd Dwinn o Ystradmerthyr. <sup>86</sup>
§107	Dangosir mai Llangollen, nid Hiraethog, oedd cynefin Gruffudd yn <i>GGH</i> , tt.xi–xix.
§112	Ar gysylltiadau Wiliam Llŷn â Chroesoswallt, gw. Daniel Huws, ‘Wiliam Llŷn, Rhys Cain a Stryd Wylyw’, <i>CLIGC</i> , 18 (1973–4), 147–8; D.J. Bowen, ‘Croesoswallt y Beirdd’, <i>Y Traethodydd</i> , 135 (1980), 137–43 (140–2).
§114	Profwyd ewyllys Wiliam Cynwal, a wnaed ar 22 Tachwedd 1587, ar 16 Ionawr 1587[8]; ynddi y mae’n mynegi ei ddymuniad i gael ei gladdu yn Ysbyty Ifan, a chadarnheir hynny gan y farwnad a ganwyd iddo gan Edmwnd Prys. <sup>87</sup>
§117	A barnu wrth yr inc, ysgrifennwyd §1–117 mewn un stint, sy’n golygu na allai Thomas Wiliems fod yn ysgrifennu’n gynharach na marwolaeth Siôn Tudur yn 1602. <sup>88</sup>
§118–20	Y mae’r tri chofnod hyn mewn inc sydd fymryn yn dywyllach na’r rhai sy’n eu blaenori, ac ni chynigir man claddu ar eu cyfer. Bu farw Siôn Phylip yn hen ŵr trwy foddï ym Mhwillheli yn 1620; bu farw Rhys Cain yn 1614 a Huw Machno yn 1637, felly gellir cynnig 1602×1614 fel dyddiad copïo prif gorff y rhestr hon, gyda dyddiad yn fuan ar ôl 1602 yn debygol. Ymddengys mai yn llaw Robert ap Huw (c.1580–1665) y mae’r ychwanegiadau wrth enwau Siôn Phylip (‘yn ll danwg’) a Huw Machno (‘ni wybod ple eto’); hynny yw, ysgrifennai rywbryd rhwng 1620

<sup>85</sup> Gw. R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Llawdden* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2006), t.8.

<sup>86</sup> Gw. A. Cynfael Lake (gol.), *Gwaith Mathau Brwmffild* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2002), tt.1–6 a rhifau 16–18 a 21.

<sup>87</sup> Gw. Rhiannon Williams, ‘Wiliam Cynwal’, *LIC*, 8 (1964–5), 197–213 (198); cf. hefyd Bob Owen, ‘Ewyllys Wiliam Cynwal,’ *Baner ac Amserau Cymru* (20 Mehefin 1933).

<sup>88</sup> Gw. Enid Roberts (gol.), *Gwaith Siôn Tudur*, 2 gyf. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1980), II, tt.xi–xxxii.



	<p>ac 1637.<sup>89</sup> Llaw arall a ychwanegodd ‘yng Rhoesoswallt’ wrth enw Rhys Cain rywbryd ar ôl 1614, efallai cyn i Robert ap Huw wneud ei ychwanegiadau ef; nid yw’n gwbl amhosibl mai llaw Thomas Wiliems ym mlynnyddoedd olaf ei oes ydyw.</p>
<p><i>Ychwanegiadau diweddarach</i></p>	
<p>Y mae’r ychwanegiadau diweddarach (gan gynnwys ‘in Penmachno’ wrth enw Huw Machno) yn waith un brif law, llaw sydd, ysywaeth, yn anhysbys, ond yr oedd yr ychwanegiadau eisoes wedi eu gwneud pan ychwanegodd John Davies, Pentrefidog, tua 1745, fannau claddu ar gyfer dau fardd lleol iddo, John Lloyd Penanner (sef ‘Cerig y Druidion’) ac Edward Moris (‘yn Breian Church yn Essex’). Gan nad enwir unrhyw fardd a oedd yn ei flodau ar ôl 1700, y tebyg yw mai tua’r flwyddyn honno y gwnaed yr ychwanegiadau hyn, ac a barnu wrth natur yr ychwanegiadau (a chan sylwi ar y gwall ‘Llanddyfnog’ am Llanddyfnan), dichon mai un o Uwchaled – fel John Davies, yntau – oedd perchennog y llaw.</p>	

<sup>89</sup> Nid yw’n eglur ymhle y gwelodd Robert ap Huw’r llawysgrif; y mae’n debygol mai ar ôl marw Wiliems tua 1622 y’i gwelodd, efallai yng Ngwedir. Ar grwydradau’r bardd, a gysylltir fynychaf â Môn ac sy’n enwog am ei lawysgrif gerddorol (Add. 14905), gw. *BC; ODNB*; D.W. Wiliam, *Robert ap Huw, 1580–1665: Astudiaeth o’i Gefndir, ei Fywyd a’i Waith* (Pontyberem: Yr Awdur, 1975); Nia Powell, ‘Robert ap Huw: Clerwr Gwyllt o Fôn’, *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, 3 (1999), 31–53.

*Gorchestion Dafydd Nanmor a'r ysgrifwr anhysbys o Fangor*

Siôn Rhydderch (1675–1735), y bardd a'r argraffwr a aned ac a gladdwyd yng Nghemais, sir Drefaldwyn, ond a dreuliodd lawer o'i oes yn Amwythig,<sup>90</sup> oedd y cyntaf i gyhoeddi *Gorchestion Dafydd Nanmor*, a hynny yn 1728.<sup>91</sup> Ymron i ddwy ganrif yn ddiweddarach fe'u hargraffwyd drachefn yn y golygiad cyflawn cyntaf o waith Dafydd Nanmor.<sup>92</sup> Casgliad yw'r *Gorchestion* o benillion ac arnynt ryw gamp neilltuol, pymtheg i gyd, er enghraifft penillion ar yr un gytsain, englyn proest â deusain leddf ym mhob sillaf, penillion i'w canu wyneb yng ngwrthwyneb ac yn y blaen. Ceir hefyd ymgais gan Ddafydd i greu fersiwn Cymraeg o'r *Sator Square*, sgwâr acrostig sy'n cynnwys palindrom Lladin:

S	A	T	O	R	M	O	R	Y	S
A	R	E	P	O	O	S	E	R	Y
T	E	N	E	T	R	E	D	E	R
O	P	E	R	A	Y	R	E	S	O
R	O	T	A	S	S	Y	R	O	M

Cynhwyswyd y *Gorchestion* gan Ruffudd Hiraethog yn *Lloegr Drigiant Ddifyrwch Bryttanaidd Gymro*, casgliad o ddjarhebion a thestunau llenyddol a fwriadwyd ar gyfer Cymry alltud ac a gyflwynwyd i Risiart Mostyn, Bodysgallen (ganed c.1520), ail fab Tomas Mostyn o Loddath (m.1558).<sup>93</sup> Dichon y bwriadai Gruffudd gyhoeddi'r gwaith, efallai gyda chymorth William Salesbury, ond ni welodd olau dydd, a diflannodd y llawysgrif wreiddiol. Y mae'n debygol, fodd bynnag, fod y ddau gopi o'r *Lloegr Drigiant* sydd ar glawr, sef Pen. 155 (llaw anhysbys, 1561–2) ac NLW 2031B (*olim* Panton 65; William Bodwrda, c.1644×1651), yn tarddu'n annibynnol ar ei gilydd o lawysgrif wreiddiol Gruffudd; yn NLW 2031B, t.288 dywed Bodwrda 'torri a wnaethae yr hen lyfr nid oedd ynddo moi ddiwedd'.<sup>94</sup>

Yn ogystal ag fel rhan o lyfryn Gruffudd Hiraethog, bu i'r *Gorchestion* gael eu cylchredeg i ryw raddau fel testun yn ei hawl ei hun, er nad yn eang; ni ddisgwylid i destun astrus fel hwn

<sup>90</sup> Ar Siôn Rhydderch, gw. *BC*; *ODNB*; *RWMS*, II, tt.147–8; A. Cynfael Lake, *Beirdd, Prydyddion a Baledwyr y Ddeunawfed Ganrif* (Aberaeron: Llyfrau Caer Heli, 2022), tt.53–81.

<sup>91</sup> Gw. John Rhydderch, *Grammadeg Cymraeg* (Y Mwythig, 1728), tt.139–140.

<sup>92</sup> *PWDN*, tt.118–20.

<sup>93</sup> Ar y casgliad hwn, gw. *GGH*, tt.xcviii–cxi; D.J. Bowen, 'Lewis Morgannwg, Gruffudd Hiraethog a William Salesbury', *LIC*, 16 (1989–91), 385–9 (385–7).

<sup>94</sup> Dyfynnir yn *RMWL*, II, t.865.

gael ei drosglwyddo ar dafod leferydd, sy'n esbonio'n rhannol pam y mae'n destun cymharol brin. Er bod rhai rhannau i'w cael mewn llawysgrifau fel Llst. 169,<sup>95</sup> Cwrtmawr 3 a Bodl. Welsh f. 2 (y ddwy olaf, fel y gwelwyd ym mhennod III, yn llaw William Salesbury), dim ond dwy lawysgrif a ysgrifennwyd cyn 1600 (yn ogystal â Pen. 155) sy'n cynnwys y *Gorchestion* yn eu crynswth,<sup>96</sup> sef Wynnstay 1 ac Add. 31055, ill dwy yn llaw Thomas Wiliems, y gyntaf yn perthyn i'r 1570au a'r ail i'r 1590au. Nid ymddengys, fodd bynnag, mai Pen. 155 oedd ffynhonnell Wiliems ar gyfer yr un o'r copïau hyn, ac ategir hynny gan y ffaith na cheir nodiadau yn llaw Wiliems ar ymyl y ddalen yn y llawysgrif honno. Y mae'n bosibl, serch hynny, fod Wiliems wedi codi ei destun o'r *Gorchestion* o'r un ffynhonnell ag y codwyd y cyfryw destun i Pen. 155, sy'n awgrymu y gall fod cysylltiad rhwng Wiliems a'r llawysgrif honno.

Trown felly at Pen. 155, llawysgrif ddiddorol gan fod iddi bedair haen o weithgarwch heb fod yn gorgyffwrdd. Gwelir yr haen gyntaf, y fwyaf ansylweddol o dipyn, ar ff.i–v, lle y ceir rhestr gynnwys, yn Lladin, ar gyfer tt.1–19 (dalennau nad ydynt wedi goroesi); ar f.v crybwyllir 'proctor Sey his book',<sup>97</sup> sy'n awgrymu mai gŵr prifysgol oedd yr ysgrifwr. Rhoes yr ysgrifwr, a'r llyfr a'i ben i waered, y llythrennau A–Y ar waelod tt.24–112, arwydd pendant mai fel llyfr amrywiaeth (*S. commonplace-book*) y'i bwriadwyd, ond nis defnyddiwyd at y diben hwnnw. Awgryma Daniel Huws y gallai dyfrnod y papur gyfateb i Briquet 11387, a fuasai'n rhoi 1544 fel *terminus post quem*; a barnu wrth safon uchel y papur a'r ffaith na lenwyd mo'r gyfrol, fe'i prynwyd fel llyfr gwag, efallai yn Rhydychen neu Gaer-grawnt.

Erbyn dechrau'r 1560au, fodd bynnag, yr oedd y gyfrol yng ngogledd Cymru. Manteisiodd rhyw ysgrifwr dienw ar y dalennau gwynion (tt.2–169) er mwyn gwneud copi o *Lloegr Drigiant* Gruffudd Hiraethog. Dyma'r ail haen. Gwnaed y copi hwn ar gyfer Rhisiart Phylip (ganed 1535) o Bictwn ger Hwlfordd, cefnder i Risiart Mostyn (yr oedd eu mamau'n chwiorydd), ac y mae'n dwyn y dyddiadau 1561 (t.2) ac 1562 (t.169). Barnai D.J. Bowen mai dyddiadau'r gynsail yw'r rhain – hynny yw, bod Gruffudd Hiraethog wedi cynnull y *Lloegr Drigiant* ar gyfer Rhisiart Mostyn yn 1561–2 a bod ysgrifwr Pen. 155 wedi copïo'r dyddiadau'n

<sup>95</sup> Mewn llaw anhysbys y rhoddwyd iddi'r siglwm X16 yn *RWMS*, llaw nid annhebyg i'r eiddo Siôn ap William ap Siôn (m.1573), taid John Jones, Gellilyfdy; gw. *RWMS*, I, t.95; *ibid.*, II, t.211. Bu'r llawysgrif hon yn eiddo i Siôn Rhydderch, a hi, yn ddiau, oedd ffynhonnell y testun a argraffwyd ganddo yn 1728.

<sup>96</sup> Hepgorir y *Sator Square* yn y copïau eraill.

<sup>97</sup> Sef, fe ddichon, William Say (m.1468), a oedd yn broctor Prifysgol Rhydychen yn 1441–2; gw. A.B. Emden, *A Biographical Register of the University of Oxford to A.D. 1500*, 3 cyf. (Oxford: Clarendon Press, 1957), III, tt.1649–50.

slafaidd yn ei gopi ef – ond y mae Daniel Huws a minnau'n gytûn ei bod yn llawer mwy tebygol bod y *Lloegr Drigiant* yn perthyn i'r 1540au (pryd y byddai Rhisiart Mostyn yn ŵr yn ei ugeiniau) a bod ail haen Pen. 155 gan hynny'n perthyn i 1561–2.

Ategir hyn o ystyried y drydedd haen, sef tt.170–220, sy'n cynnwys *Dosbarth Cerdd Dafod*, *Cyfrinach Beirdd Ynys Brydain* a dyrnaid o gywyddau ac awdlau. Yn ffodus, yn sgil y ffaith y gellir adnabod y llaw hon mewn llawysgrif arall, gellir cynnig *floruit* manwl ar gyfer ysgrifwr anhysbys yr haen hon, ac awgrymu lleoliad ar gyfer ei weithgarwch. Yr un llaw – y rhoddwyd iddi'r siglwm X51 yn *RWMS* – yr ysgrifennwyd Card. 2.114 (*RMWL* 7), y casgliad sylweddol a thra phwysig o gywyddau ac awdlau a adwaenir fel 'Llyfr Bicar Wocking'. Yn ei ragymadrodd i'r flodeugerdd honno (sydd, ysywaeth, yn anghyflawn), dywed y cynullydd-ysgrifwr:

Y[n] llys Roland Mevrik, Esgob Bangor, i gwnaed y llyfr hwn y trydydd dydd o fis Chwefror, oedran Crisd yn Meisdr a'n Hargylwydd 1565.<sup>98</sup> J berchen, bickar Wocking.<sup>99</sup>

Richard ap Gruffudd oedd 'bickar Wocking',<sup>100</sup> ond dangosodd J. Gwenogvryn Evans nad efe oedd yr ysgrifwr,<sup>101</sup> ac a barnu wrth yr hyn a wyddom am hanes diweddarach y llawysgrif, a drafodir isod, arhosodd yng ngogledd Cymru heb erioed gael ei hanfon at y gŵr a'i comisiynodd.

Gwyddom felly fod X51 yn ei flodau yn 1566 – sy'n ffitio'n daclus o ran cronoleg Pen. 155 – a'i fod yn weithgar yn llys esgob Bangor. Y mae'n debygol gan hynny mai yn llys yr esgob yr ysgrifennwyd trydedd haen Pen. 155, a chadarnheir hynny gan y ffaith fod y bedwaredd haen (tt.225–301) yn cynnwys achau teuluoedd Môn yn llaw Nicholas Robinson, esgob Bangor o 1566 hyd ei farwolaeth yn 1585.<sup>102</sup> Nid annichon fod yr ail haen, fel y drydedd a'r bedwaredd, hefyd wedi ei hysgrifennu ym Mangor.

---

<sup>98</sup> Sef 1566 yn ôl ein cyfrif ni.

<sup>99</sup> Argreffir y rhagymadrodd yn T.H. Parry-Williams (gol.), *Rhyddiaith Gymraeg. Y Gyfrol Gyntaf. Detholion o Lawysgrifau 1488–1609* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1954), tt.67–8.

<sup>100</sup> Gw. Add. 14882, ff.45–55, lle y ceir copi yn llaw William ap Robert o Dregarwed o destunau astrolegol wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg gan 'Richard Gr' vickar yn Woking' (f.50<sup>v</sup>).

<sup>101</sup> Gw. *RMWL*, II, t.110.

<sup>102</sup> Trafodwyd gyrfu Robinson mewn rhagor o fanylder yn y bennod flaenorol. Tybed ai ef, a fu'n broctor Prifysgol Caer-grawnt yn 1552, piau'r llaw a ysgrifennodd yr haen gyntaf (sy'n cynnwys y cyfeiriad at y 'proctor Sey') ac a ddug y llyfr gwag yn ôl i Fangor?

Ystyriwn ysgrifwr X51 ymhellach. Llaw anystwyth, afrosgo braidd sydd ganddo, llaw sydd efallai'n dangos bod ei pherchennog wedi dysgu ysgrifennu trwy astudio ac efelychu hen llawysgrifau.<sup>103</sup> Y mae'n annisgwyl braidd – o ystyried maintioli'r casgliad pwysig a wnaeth yn Card. 2.114 – cyn lleied o enghreifftiau eraill o law X51 sydd wedi goroesi: trydedd haen Pen. 155 yw'r unig enghraifft arall sy'n hysbys. Y mae'r rhagymadrodd i Lyfr Bicar Wocking yn awgrymu nad clerwr iselradd ydoedd, eithr cynullydd a golygydd y gyfrol; o ystyried y llawysgrifen, prin mai ysgrifwr proffesiynol a gomisiynwyd i lunio copi glân o'r flodeugerdd ydoedd. Fel golygydd, y mae'n rhaid fod ganddo ystod eang o ffynonellau wrth law, a buesid o'r herwydd yn disgwyl gweld enghreifftiau o'i law'n digwydd ar ymyl y ddalen mewn llawysgrifau eraill, neu gasgliadau eraill yn ei law, ond nis ceir. Gellid esbonio hyn mewn dwy ffordd: bod yr holl enghreifftiau eraill wedi eu colli; neu, ynteu, fod yma enghraifft o law dyn ifanc, llaw anaeddfed a fuasai wedi newid ei gwedd ymhen rhai blynnyddoedd ar ôl 1566. Y mae anystwythder y llaw'n caniatáu cymryd yr ail bosibilrwydd o ddifrif.

Yn hynny o beth, ceir cliwiau gwerthfawr o ystyried hanes diweddarach Llyfr Bicar Wocking. Erbyn 1600 gellir bod yn bur hyderus fod y gyfrol yng Ngwedir. Ar f.1 ceir englyn sy'n crybwyll 'adeilad vwch dole Konwy', ac ar f.1<sup>v</sup> englynion gan yr herwr Dafydd ap Siencyn yn llaw ddiweddar Thomas Wiliems, ynghyd â'r nodyn 'dangoswch i Sr. John Wynn ag i John ap Hugh ap Ric. ynglynion i hen orhendaid',<sup>104</sup> cyn hynny, fodd bynnag, gwelwyd y llawysgrif gan Richard ap John, Sgorlegan, a ychwanegodd ambell gwpled yma a thraw, a hefyd, fel y prawf y nodiadau yn eu llaw, gan David Johns (m.?1598), ficer Llanfair Dyffryn Clwyd, a'r hanesydd David Powel (c.1535–1600).

Dychwelwn wedyn at llawysgrif a grybwyllwyd eisoes, sef Pen. 62 rhan (iii), sy'n enghraifft brin o llawysgrif a luniwyd gan Thomas Wiliems yn yr 1580au. Soniwyd uchod mai'r llawysgrif hon yw ffynhonnell ein gwybodaeth am flwyddyn geni Wiliems, sef 1545/6, gan iddo gofnodi ei oedran mewn coloffon wrth gwt copi o awdl enghreifftiol Simwnt Fychan i Byrs Mostyn:

Transcripsi Banchori. 1567. Aetatis 21 20 Aprilis.

<sup>103</sup> Gw. y sylwadau ar law'r ysgrifwr X1 (sef, ond odid, y bardd Wiliam Mathe(w)) yn *RWMS*, II, t.210.

<sup>104</sup> Urddwyd John Wynn yn farchog yn 1606, sy'n cynnig *terminus post quem* ar gyfer y nodyn hwn.

Nid yw'r copi a luniodd Wiliems yn 1567 wedi goroesi, ond y mae'r coloffon hwn yn dangos yn ddiamwys ei fod ym Mangor ddim ond pedwar mis ar ddeg ar ôl cyfnod llunio Llyfr Bicar Wocking yn nechrau 1566. Y mae'r cwestiwn sy'n dilyn, o'r herwydd, yn anorfod: ai ef yw X51? Y mae cryn dipyn o dystiolaeth dros gredu hynny. Gan y gwyddom ei fod yn weithgar fel copïwr ym Mangor ar ddechrau ei yrfa, yr oedd gan Wiliems y modd, y cyfle a'r cymhelliad, hyd yn oed ac yntau ond ugain oed, i lunio blodeugerdd mor uchelgeisiol â Llyfr Bicar Wocking, cyfrol a oedd yn dal yn ei feddiant ddeugain mlynedd yn ddiweddarach ac a welwyd yn y cyfamser gan rai o'i gyfoeswyr llengar. Prin y gellid enwi unrhyw unigolyn arall a chanddo dueddfryd a chynneddfau mwy addas.

Beth, ynteu, am ail haen Pen. 155, a ysgrifennwyd yn 1561–2 ac sy'n cynnwys y copi cynharaf o *Lloegr Drigiant*? Y mae *Gorchestion Dafydd Nanmor* yn ddarn pwysig o dystiolaeth yma: gwelwyd uchod mai yn llaw Thomas Wiliems y mae dwy o'r tair llawysgrif a ysgrifennwyd cyn 1600 sy'n cynnwys y testun hwnnw yn ei grynswth, sy'n golygu bod Wiliems, hyd yn oed cyn dangos ei bod yn debygol mai ef a ysgrifennodd drydedd haen Pen. 155, yn ymgeisydd cryf fel ysgrifwr yr unig lawysgrif arall, sef ail haen Pen. 155. Ceir ateg i hyn yng ngwaith Sally Harper,<sup>105</sup> a sylwodd ar gyfatebiaethau agos rhwng y testunau cerddorol yn Pen. 155 a'r rhai yn llaw Wiliems yn Pen. 62.

Os cywir y cynigir mai gwaith Thomas Wiliems yw ail a thrydedd haen Pen. 155, gellir dilyn ei ddatblygiad fel ysgrifwr ifanc. Gellir damcaniaethu fel a ganlyn. Ar ddechrau ei yrfa, efallai ar ôl derbyn addysg yng Ngwedir, aeth Wiliems i wasanaethu yn llys esgob Bangor, Rowland Meyrick. Yn 1561–2, ac yntau tuag un ar bymtheg oed, cafodd afael ar lyfr gwag (a fu gynt, efallai, yn eiddo i Nicholas Robinson, a ordeiniwyd gan esgob Bangor yn 1556–7) a gwneud copi ynddo o gasgliad Gruffudd Hiraethog, *Lloegr Drigiant*, ar gyfer Rhisiart Phylip o Bictwn.<sup>106</sup> Bedair blynedd yn ddiweddarach, yn 1566, mewn llaw ac iddi edrychiad pur wahanol, lluniodd flodeugerdd sylweddol ar gyfer Richard ap Gruffudd, ficer Woking, a thua'r

---

<sup>105</sup> Harper, *Music in Welsh Culture*, tt.108–11.

<sup>106</sup> Cysylltiad annisgwyl rhwng Phylipiaid Pictwn ac esgobaeth Bangor yw bod Elisabeth, ail wraig Morgan, brawd Rhisiart Phylip, yn ferch i Richard Fletcher, Treborth, cofrestrwyd yr esgobaeth, a ddisgrifir gan Nicholas Robinson mewn llythyr at Matthew Parker ar 7 Hydref 1567 fel 'my principall register, one Fletcher, a man of singular qualities as any of the cuntrey can well report' (Camb. Corpus 114, t.503). Gw. WG 2, 'Cydfifor Fawr 2(A1)'; Dwnn, *HVW*, II, t.47; W.P. Griffith, 'Richard Fletcher of Bangor: an early seventeenth century Welsh student at Cambridge', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 39 (1978), 44–73 (47). Y mae'r enghreifftiau o'i waith fel notari cyhoeddus (e.e. NLW, Coed Coch & Trovarth Estate Records 943, dyddiedig Mehefin 1550, a NLW, Hafodgaregog & Trefan Estate Records 418, dyddiedig 17 Rhagfyr 1576), fodd bynnag, yn dangos nad ef a ysgrifennodd yr un o haenau Pen. 155.

un pryd ychwanegodd ragor o destunau ar ddalennau gwynion Pen. 155, llawysgrif yr ychwanegwyd haen arall ati'n ddiweddarach gan Nicholas Robinson, olynnydd Rowland Meyrick. Yna, ceir bwlch: y llawysgrif ddyddiadwy nesaf o'i eiddo yw Card. 4.330, a ysgrifennwyd tua 1574 mewn llaw dra gwahanol ei gwedd i'r un haenau Pen. 155, llaw lawer mwy ystwyth a rhedegog. Onid esboniad boddhaol i'r bwlch yn ei weithgarwch ac i'r newid yn ei llawysgrifen fyddai derbyn mai rhywbryd rhwng 1566 ac 1574 yr aeth Wiliems i Rydychen?

Hyd yn oed yn wyneb y dystiolaeth gref a ddisgrifir uchod, oni ddeuir o hyd i dystiolaeth bellach (efallai ymysg archifau esgobaeth Bangor), rhaid pwysleisio nad yw'r ddamcaniaeth uchod yn anorthrech. Ni synnwn, fodd bynnag, pe deuai rhagor o dystiolaeth i'r fei, efallai yn sgil gwaith testunol manwl, sy'n atgyfnerthu'r cysylltiadau hysbys rhwng Thomas Wiliems a'r llawysgrifau a luniwyd yn llys esgob Bangor yn yr 1560au ac sy'n taflu rhagor o oleuni ar yrfa gynnar yr hynafiaethwyr a'r geiriadurwr o Drefriw a ddiogelodd, yn sgil ei frwdfrydedd anarferol, fyrrd o destunau a fyddai fel arall wedi mynd ar lwyr gyfrgoll.

## V

### Pwy oedd awdur catalog y *Cambrian Register*?

Mewn unrhyw ymdriniaeth â llawysgrifau canoloesol Cymraeg a Chymreig, y mae'n anochel y bydd llyfrgell Hengwrt – sef, yn ei hanfod, y casgliad rhyfeddol a wnaed gan Robert Vaughan (c.1592–1667) – yn hawlio lle blaenllaw. Cynhwysai'r llyfrgell honno oddeutu deuparth yr holl lawysgrifau canoloesol Cymraeg sydd ar glawr heddiw, ac yn ogystal â'r llawysgrifau niferus o'r cyfnod modern cynnar, ceid ynddi, fel y gwelwyd ym mhennod II, gasgliad tra chyfoethog o lyfrau printiedig cynnar a wasgarwyd i'r pedwar gwynt tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er i'r llawysgrifau, hwythau, ddioddef sawl trallod yn eu tro, gan gynnwys cael eu difrodi gan leithder a llygod, cadwyd trwch casgliad Robert Vaughan, ynghyd â'r llawysgrifau a ychwanegwyd ato'n ddiweddarach, yn uned.<sup>1</sup>

Dros y canrifoedd cafwyd sawl ymgais i gatalogio llyfrgell Hengwrt gan nifer o hynafiaethwyr blaenllaw, gan gynnwys Robert Vaughan ei hun. Rywbryd ar ôl 1658, pryd yr etifeddodd lawysgrifau John Jones, Gellilyfdy, aeth Vaughan ati i lunio catalog ar ffurf rhestr silff o'r llyfrgell gyfan – y llawysgrifau a'r llyfrau print.<sup>2</sup> Ysywaeth, y mae'r unig gopi ohono, sef NLW 9095B (Panton Papers 45; *olim* Panton 70), sydd yn llaw Vaughan ei hun, yn anghyflawn, ac ni chyrhaeddodd y Llyfrgell Genedlaethol gyda gweddill casgliad Peniarth ond yn hytrach fel rhan o'r 'Panton Papers', sef rhan o gasgliad Paul Panton (1727–97), Plas-gwyn, Pentraeth. Y mae'n aneglur sut a pha bryd y crwydrodd y llawysgrif hon o Hengwrt, ond yn yr un casgliad ceir deunydd pellach yn llaw Robert Vaughan – neu lawysgrifau mewn llawiau eraill y dichon iddynt ddod o Hengwrt – y gellir tybio eu bod wedi dod i feddiant Paul Panton drwy'r un sianel (gw. NLW 9092D, NLW 9093D a NLW 9094A).

Yr ymdrech gyntaf sy'n hysbys inni i rifo llawysgrifau Hengwrt yw'r eiddo William Maurice (1619/20–80), yr hynafiaethydd toreithiog a'r Piwritan tanbaid o Gefn-y-braich, Llansilin.

---

<sup>1</sup> Am hanes casgliad Hengwrt-Peniarth, gw. *RWMS*, I, tt.331–2; *ibid.*, II, tt.180–3; E.D. Jones, 'A Brief History of the Hengwrt-Peniarth Collection', yn *Handlist*, I, tt.iii–xiv; *MWM*, tt.287–302.

<sup>2</sup> Y mae golygiad o'r catalog yn yr arfaeth gan Dr Maredudd ap Huw.



Rhannai Maurice argyhoeddiadau crefyddol â Robert Vaughan, ac yr oedd yn dra chynffwrdd â llyfrgell ei gyfaill; yn ôl Meredith Lloyd (Bedo Llwyd; *fl.* 1652–94), ‘you & I did know all that was there’.<sup>3</sup> Y mae’r catalog gwreiddiol a luniodd Maurice yn 1658 ar goll, ond yn Wynnstay 10, ff.229–267<sup>v</sup> ceir copi ohono a wnaed yn 1671 gan un o’i *amanuenses*.<sup>4</sup> Yn y catalog hwnnw, sef ‘*Cat. B*’ yn *RWMS*, rhestrir 165 o eitemau, ond fel y noda E.D. Jones yn ei astudiaeth olau o’r catalogau hyn,<sup>5</sup> ceir 168 o wahanol gofnodion mewn gwirionedd. Ymhellach, y mae’n amlwg ei fod yn cynnwys rhai ychwanegiadau a wnaed at y catalog gwreiddiol ar ôl 1658, gan gynnwys copi o nodyn a wnaeth Robert Vaughan yn 1660, a chan hynny y mae’n debygol mai dim ond 156 o gofnodion a geid yn y catalog gwreiddiol.

Bu catalog William Maurice yn dra dylanwadol: diogelwyd cynifer â saith o gopiau ohono (rhoddwyd iddynt y sigla B<sup>1</sup>–B<sup>7</sup> gan E.D. Jones), weithiau mewn ffurf dalfyredig, gan ysgolheigion megis Ieuan Fardd, William Owen Pughe a Gwallter Mechain. Y catalog hwn hefyd oedd sail *Cat. C*, sef y fersiwn a geir yn llaw Edward Lhwyd a’i gynorthwyr yn Pen. 119, tt.81–96, sy’n cynnwys mân wahaniaethau a ddisgrifir gan E.D. Jones ond nad oes a wnelom â hwy yma. O blith y catalogau eraill, y mae’n werth crybwyll *Cat. F*, sef y rhestr graff o 77 llawysgrif a wnaeth Edward Lhwyd mewn byr amser yn ystod ei ymweliad brysiog â Hengwrt yn 1696.<sup>6</sup> Canolbwyntir yn y bennod hon, fodd bynnag, ar y catalog y rhoddwyd iddo’r siglwm ‘D’ gan E.D. Jones, sef yr un a argraffwyd yn nhrydydd rhifyn y cyfnodolyn byrhoedlog *The Cambrian Register*.<sup>7</sup> Er mai catalog William Maurice yw sail y fersiwn hwn, y mae’n dra gwahanol mewn sawl ffordd: y mae’r disgrifiadau’n llawer mwy cryno a’r drefn yn gwbl wahanol, ond bydd y sawl sy’n gyfarwydd â’r catalog hwn yn gwybod mai ei bennaf arwyddocâd yw’r ffaith ei fod yn cynnwys gwybodaeth ddanteithiol nas ceir yn yr un o’r catalogau eraill. Yn y catalog hwn, er enghraifft, y ceir y dystiolaeth gynharaf sy’n cysylltu Llyfr Du Caerfyrddin â phriordy Awstinaidd y dref honno, a rhestrir ynddo rai llawysgrifau nad oes sôn amdanynt yn unman arall. Nid bychan, o’r herwydd, yw ei bwysigrwydd. Bwriad yr erthygl hon yw ceisio adnabod yr unigolion y tu ôl i’r catalog hwn, ac yn sgil hynny werthuso ei ddibynadwyedd.

<sup>3</sup> Dyfynnir yn Nesta Lloyd, ‘Meredith Lloyd’, *JWBS*, 11 (1973–6), 133–92 (150).

<sup>4</sup> Sef yr ysgrifwr rhagorol y rhoddwyd iddo’r siglwm X3 yn *RWMS*.

<sup>5</sup> E.D. Jones, ‘Old catalogues of the Hengwrt manuscripts’, yn *Handlist*, I, tt.xv–xxiii.

<sup>6</sup> Diogelwyd catalog Lhwyd, yn ei law ei hun, yn Pen. 119, tt.101–3, gyda’r nodyn canlynol: ‘These are all y<sup>e</sup> old MSS I could find: thô perhaps there may be more. There are also a great many modern MSS. but it being a busy time with the Gentleman that admitted me into the Study, I was unwilling to detain him longer’.

<sup>7</sup> Ni chyhoeddwyd ond tri rhifyn o’r *Cambrian Register*, a hynny’n afreolaidd: ymddangosodd y cyntaf yn 1795, yr ail yn 1799, a’r trydydd yn 1818. Y golygydd oedd William Owen Pughe (1759–1835).

Er hwylustod, y mae'n werth dyfynnu'n helaeth o ddisgrifiad E.D. Jones o'r catalog hwn:

The highest number recorded in this catalogue is 167, but as number 161 is omitted, as two items bear the number 149, and as the entries under numbers 124 and 157 are duplicates, it represents only 166 manuscripts. The order of the manuscripts is entirely different from the sequence in B, and the descriptions of the items are much briefer. The same phrases occur time and again in both catalogues, but the writer of D copied only the first few words of description. The great majority of items can be identified, but a few manuscripts of laws, 'bruts,' and 'cywyddau' are so vaguely described in D that they cannot be identified item for item with corresponding entries in B. There are two more law manuscripts in B than in D, and one Charlemagne manuscript (B 44) does not appear in D. B 106 (probably 'Llyfr Achau ac Arfau Griff: Hiraethog' of C), B 113 ('Llyfr hen achau o law Gyttyn Owen'), and B 137 ('Llyfr Byrr Gryffydd Hiraethog') do not appear to be represented in D. Manuscripts in D which either do not appear, or cannot be with certainty identified, in B are – 20 'Trioedd Ynys Prydain a'i anrhyfeddodau,' 149 'Hysbysrwydd am swrn o eiriau Cymraeg ...', 163 'Peth o waith Ofydd ... o law Dafydd ab Gwilym', 164 'Trioedd Ynys Prydain with a paraphrase by Robert Vaughan,' 165 'Llyfr têt Diarhebion Cymraeg o law Doctor John Davies o Fallwyd', 166 'Llyfr o Hen Gyfreithiau Dyfnwal ...', and 167 'Hen Hen Gasgl Barddonaid o waith Taliesin ...'.

Yr hyn sy'n rhoi gwerth neilltuol i gatalog y *Cambrian Register*, yn ogystal â'r cofnodion unigryw a ddisgrifir uchod, yw'r ffaith ei fod yn cynnwys nodiadau amhrisiadwy ar y llawysgrifau. Yn hynny o beth, y mae iddo bedair haen. Y gyntaf, a'r hynaf o'r pedair, fel y dangosodd E.D. Jones, yw crynodeb ac ailwampiad o B, y catalog a luniodd William Maurice yn 1658. Yr ail, a'r fwyaf arwyddocaol o lawer, yw'r nodiadau a luniwyd i gyd-fynd â'r cofnodion rywbryd rhwng 1658 ac 1800 gan hynafiaethydd na wyddom mo'i enw. Y drydedd yw'r troednodiau a ddarparwyd gan y sawl a'i galwai ei hun yn *Brychan Brecheinioc*, sef yr un a baratoes y catalog i'w gyhoeddi ac a'i gyrodd at olygydd y *Cambrian Register*. Y bedwaredd yw'r nodiadau golygyddol gan olygydd y cylchgrawn, William Owen Pughe, nodiadau nad oes iddynt bwysigrwydd yn y drafodaeth hon.

Y mae dwy o'r pedair haen, felly, yn weithgarwch unigolion anhysbys, sef yr hynafiaethydd a luniodd y nodiadau hollbwysig yn yr ail haen, a *Brychan Brecheinioc*, sydd yntau'n dangos cryn grebwyll hynafiaethol yn y drydedd. Dangosodd E.D. Jones fod y dystiolaeth amgylchiadol yn awgrymu'n gryf mai Richard Fenton (1747–1821), yr hynafiaethydd o

Dyddewi, oedd *Brychan Brecheinioc*, a bod cynnwys y troednodiadau a ddarparodd yn cadarnhau hynny. Nid oes amheuaeth nad oedd E.D. Jones yn gywir yn hyn o beth, ac y mae hynny'n gam pwysig tuag at adnabod yr hynafiaethydd a luniodd yr ail haen, sy'n cynnwys y nodiadau gwerthfawr sy'n gwneud y catalog hwn yn un mor arwyddocaol.

Yn rhagymadrodd Fenton i'r catalog, disgrifir yr hynafiaethydd anhysbys (a elwir yma, er hwylustod ac am resymau a ddaw'n amlwg maes o law, yn 'MPL') fel 'an eminent Antiquary since his [William Maurice's] time'; ysywaeth, y mae'n amlwg na wyddai Fenton ei hun pwy ydoedd. Er hynny, y mae'n gadael ambell friwsionyn sy'n caniatáu inni ddilyn y trywydd. Dywed Fenton fod y llawysgrif wedi ei hachub 'from the ravages of dampness and rats', a'i fod wedi ei phrynu 'at the sale of a Brecknockshire gentleman's effects in London, about twenty years ago'.<sup>8</sup> Diau mai dyna pam y dewisodd Fenton, gŵr nad oedd ganddo gysylltiadau teuluol â sir Frycheiniog, y ffugenw *Brychan Brecheinioc* wrth gyhoeddi'r catalog.

Ceir cliwiau pellach yn ogystal. Yn ei nodiadau ar gyfer rhif 20 (sef Pen. 11 heddiw), dywed MPL:

This work Mr. John Jones, of Gelli Lyvdy, was said to place a high value on. – Quære, if from any peculiar intrinsic merit it possessed? or as it had belonged to the learned antiquary, Sir John Pryse, who wrote *Historiæ Britannicæ Defensio*; a work that has placed him high in the estimation his countrymen, and that most deservingly; though this eulogium should not come from me, who feel, on this occasion, more than nationality – the interest of blood.

Dehonglodd Fenton y geiriau uchod fel a ganlyn:

From this and other hints that escape the above commentator, we may gather that he was a Brecknockshire gentleman, and a descendant of Sir John Pryse, the antiquary; and that these observations were made in the year 1697, such date, together with the initials M. P. L. being subjoined to his last observation.

---

<sup>8</sup> [Richard Fenton], 'A Catalogue of Curious and Valuable MSS. in Hengwrt Library, A.D. 1658', *The Cambrian Register*, 3 (1818), 277–313 (283). Preswyliai Fenton yn Llundain ar ôl gadael Rhydychen heb gymryd gradd; yr oedd yn aelod gweithgar o'r Cymmrodorion a'r Gwyneddigion ac yn gyfeillgar â gwŷr fel Dr Samuel Johnson a Sir Joshua Reynolds. Dychwelodd i fro ei febyd yn 1796 ar ôl derbyn etifeddiaeth sylweddol gan ei ewythr, Samuel Fenton; dichon felly mai cyn y flwyddyn honno y prynodd Fenton y llawysgrif. Gw. *ODNB* am fanylion pellach.

Dichon na raid derbyn bod MPL yn ddisgynnydd uniongyrchol i Siôn Prys, eithr bod rhyw berthynas waed rhyngddynt. Gellir hefyd fod yn weddol hyderus fod MPL yn uniongyrchol gyfarwydd â *Historiae Brytannicae defensio* – rhywbeth nid bychan ei arwyddocâd, fel y gwelir maes o law. A gellir lloffa rhagor o wybodaeth am MPL yn y catalog hwn. Yn ei nodiadau ar gyfer rhif 104, dywed ei fod wedi cael gwybodaeth gan ddisgynnydd i Meredith Lloyd ‘in Radnorshire’, a chyfeiria at y disgynnydd hwn drachefn dan rif 166 fel ‘a gentleman of Radnorshire, a relation of one Mr. Meredydd Lloyd, whose name occurs more than once in this catalogue, who favoured me with the use of several papers and letters’. Y mae’r sylw ‘in Radnorshire’ yn rhyw awgrymu nad un o sir Faesyfed oedd MPL, sy’n rhyw gymaint o ateg i awgrym Fenton mai gŵr o sir Frycheiniog ydoedd.

Argraffwyd y llythyrau y cyfeiria MPL atynt mewn manau priodol yng nghatalog y *Cambrian Register*. Er enghraifft, dan rif 166 fe argreffir copi o lythyr gan Robert Vaughan at Meredith Lloyd, 24 Gorffennaf 1655, sy’n trafod y llawysgrif dan sylw. Goroedd y llythyrau gwreiddiol hyn, ac y maent heddiw i’w cael yn Card. 4.76, llawysgrif a ddaeth o gasgliad Fenton.<sup>9</sup> Rhaid bod y llythyrau hyn wedi dod i feddiant Fenton yr un pryd â’r catalog hwn, a oedd yn amlwg wedi’i ddifrodi gan leithder a llygod, o blith y ‘Brecknockshire gentleman’s effects’ yn Llundain. Gellir bod yn ffyddiog, fodd bynnag, fod trawsgrifiadau o’r llythyrau i’w cael yn llawysgrif goll MPL, ac nad ychwanegiadau diweddarach gan Fenton mohonynt: dan rif 164 cyfeiria MPL at ‘the following original letter of Mr. Robert Vaughan’s’.

Yn ogystal â’r llythyrau hyn, ceir ymysg llawysgrifau Fenton yng Nghaerdydd ddeunyddiau eraill a ddaeth o Hengwrt. Yn y bwndel o bapurau rhydd yn Card. 4.83 (Fenton MS heb rif) ceir trawsgrifiadau yn llaw Robert Vaughan, ynghyd â drafftiau o lythyrau ganddo a llythyr ato gan ei gyfaill, John Jones, Gellilyfdy. Yn ogystal, ceir llythyr gan Edward Lhwyd yn gofyn caniatâd Howell Vaughan, wŷr Robert, i gael mynediad i lyfrgell Hengwrt. Yn Card. 4.30 (Fenton MS 6) wedyn ceir casgliad sylweddol o bapurau tra amrywiol eu natur wedi eu rhwymo fel *guard-book*: cofrestr forwrol oedd y gyfrol yn wreiddiol, wedi ei rhwymo mewn memrwn gydag addurn aur (diau i Fenton, fel yr awgryma Daniel Huws, gael gafael arni pan oedd yn gweithio yn y Customs House),<sup>10</sup> ond tociwyd bron pob dalen, a gludwyd papurau rhyddion ar fonion y dalennau hynny. Ymhlith y papurau ceir cydiad o ddeuddeng nalen ffolio yn llaw Robert

---

<sup>9</sup> Gwerthwyd mwy na hanner casgliad sylweddol Fenton o lawysgrifau gan ei fab i Syr Thomas Phillipps, Middle Hill, yn 1852; daeth nifer ohonynt i feddiant Llyfrgell Rydd Caerdydd.

<sup>10</sup> Ymddiswyddodd Fenton yn 1774 ar ôl dychanu’r uwch-swyddogion ar gân.

Vaughan (tt.321–32), yn ogystal â chopi o ach Samuel Hughes o Lwyn-brain, Llanymddyfri, yn llaw'r achyddwr William Lewes o Lwynderw (1653/4–1722). Diau mai ymhlith papurau'r 'Brecknockshire gentleman' y cawsai Fenton y deunydd yn llaw Robert Vaughan, ac y mae natur y rhwymiad yn cyd-fynd â'r nodyn iddo gael gafael ar y papurau hynny yn Llundain tua 1800. Dichon mai'r un oedd tarddle'r ach yn llaw William Lewes yn ogystal, ac os felly, fel y gwelir maes o law, y mae'n gliw gwerthfawr.

Ceir yn ogystal ambell awgrym fod MPL yn gyfarwydd ag Edward Lhwyd. Dan rif 105 sonnir am y cytundeb honedig a wnaed rhwng Robert Vaughan a John Jones y byddai'r naill yn etifeddu llawysgrifau'r llall. Fel y dywedwyd eisoes,<sup>11</sup> prin y gellir rhoi coel ar y traddodiad hwn. Anodd yw credu y buasai Vaughan, ac yntau'n gasglwr gofalus a chydwybodol, wedi peryglu ffawd ei gasgliad, pe digwyddai farw'n ifanc, drwy gytuno mewn egwyddor i'w adael gymynroddi i John Jones (a oedd ryw ddeuddeng mlynedd yn hŷn na Vaughan), gŵr a dreuliodd ran helaeth o'i fywyd yng ngharchar fel dyledwr, a gŵr y gallasai ei gasgliad yn hawdd fod wedi'i dynghedu i gael ei wasgaru er mwyn talu ei fyrdd dyledion. Y mae'n wir fod Vaughan wedi etifeddu llawysgrifau ei gyfaill, ond haws credu mai cytundeb unffordd ydoedd, fel cydnabyddiaeth am y gynhaliaeth a roesai Vaughan i John Jones tra oedd yng ngharchar.

Ymddengys mai Edward Lhwyd yw ffynhonnell hysbys gyntaf y traddodiad hwn:

These Two Antiquaries, being the greatest Collectors of their Time, made a mutual Contract that their Manuscripts should descent to the Survivor; by which means Mr. Vaughan had Mr. Jones's Labours added to his own.<sup>12</sup>

Os Lhwyd, yn ei *Archaeologia Britannica* (1707), yw ffynhonnell yr wybodaeth hon, yna gellir ystyried 1707 yn *terminus post quem* ar gyfer catalog y *Cambrian Register*. Posibilrwydd rhesymol arall, fodd bynnag, yw bod y traddodiad hwn wedi bod yn cylchredeg ymysg cyfeillion a chydabod Lhwyd cyn cyhoeddi'r *Archaeologia*. Y mae'n werth nodi nad oes unrhyw arwydd arall yn y catalog fod MPL yn gyfarwydd â nodiadau Lhwyd ar llawysgrifau yn yr *Archaeologia*, ac o'r herwydd – a bwrw bod MPL yn aelod o gylch Lhwyd, fel sy'n ymddangos yn debygol (gw. isod) – erys y posibilrwydd bod y catalog wedi'i lunio yn 1697.

---

<sup>11</sup> Gw. t.23 n.1 uchod.

<sup>12</sup> Edward Lhuyd, *Archaeologia Britannica. Vol. I. Glossography* (Oxford: The Author, 1707), t.225.

Gorfyddir ni i ystyried Lhwyd drachefn wrth ystyried rhif 45, sef ‘Pum Llyfr Cerddoriaeth, a Gramadeg, y gan Simwnt Vychan, in 4to’. Yn ei nodiadau dywed MPL:

I could not find any note or memorandum in this manuscript that might lead to a discovery of something more respecting the author than his name, and that he flourished about the year 1563; but, by the mention made of him by Robert Vaughan in another place, and which I recollect to have seen, he appears to have been of the same family with the learned antiquary, and eminently qualified to illustrate the subject he treats of.

Ymddengys fod y nodyn hwn yn profi bod MPL wedi bod yn Hengwrt a’i fod yn uniongyrchol gyfarwydd â’r llawysgrifau a drafodir ganddo, sy’n cyfyngu’r maes yn sylweddol. Nid ar chwarae bach y ceid mynediad i’r llyfrgell honno. Yn y degawdau ar ôl marwolaeth Robert Vaughan yn 1667, yr oedd ei ddisgynyddion yn nodedig o gyndyn o adael i neb bori ymysg trysorau Hengwrt. Un o’r rhai breintiedig oedd Humphrey Humphreys, esgob Bangor,<sup>13</sup> ond câi Lhwyd, er gwaethaf ei fri fel ysgolhaig, gryn drafferth yn perswadio’r etifeddion i adael iddo gael mynediad. Fel y gwelwyd uchod, caniatodd Howell Vaughan, wŷr Robert, i Lhwyd dreulio ychydig amser yn y llyfrgell yn 1696, a llwyddodd yn ystod y byr amser hwnnw i lunio rhestr o 77 o’r trysorau pennaf, gan nodi’r rhifau cyfatebol yn y llawysgrifau eu hunain. Rai misoedd yn ddiweddarach, mewn llythyr dyddiedig 4 Tachwedd 1696, gofynnodd Lhwyd i Vaughan am gael benthyg pedwar o drysorau Hengwrt am gyfnod o dri mis: Llawysgrif Hendregadredd, Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Taliesin a Llyfr Aneirin.<sup>14</sup> Atebodd Vaughan ar 14 Tachwedd, gan ddweud y byddai’n dda ganddo eu hanfon i Rydychen ‘by the safest hand I may’. Yr oedd Lhwyd yn dal i aros yn eiddgar amdanynt ddeufis yn ddiweddarach.<sup>15</sup> Erbyn diwedd 1697, fodd bynnag, newidiasai Vaughan ei gân:

Since I communicated my intentions of transmitting some MSS. to you att Oxon I have had applications made on the same (thô not on a publick) account to me from diverse persons in these parts, whom I have refused & should I grant it you it would hazard me the kindness of some of the best freinds I have in the world.<sup>16</sup>

<sup>13</sup> Gw. llythyr Maurice Jones, rheithor Dolgellau, at Lhwyd ar 21 Awst 1693: ‘As for Auncient Manuscripts I was with my Lord of Bangor in Hengwrts studye where he found many of them, & borrowed one of them which he said was the old Brittish hand before it was Corrupted by the Gothic & Vandals. I’m sure it was a brave character tho’ I could not read a word of it. And my Lord wish’d me to acquaint you, that he did not know any studye in Northwales soe well supplied with such bookes’ (gw. *EMLO*).

<sup>14</sup> Gw. *EMLO*.

<sup>15</sup> Llythyr dyddiedig 5 Ionawr 1696[/7] (gw. *EMLO*).

<sup>16</sup> Llythyr dyddiedig 28 Rhagfyr 1697 (gw. *EMLO*).

Diamynedd oedd yr ateb a dderbyniodd Lhwyd gan Howell Vaughan yn Hydref 1698:

As to the MSS. you mention I think I never promised a Transcript of them & if you please to consult those rude lines I wrote upon that occasion, you will find that I only designed you should (in your own person) peruse them when your more urgent occasions gave you leave, & not expose them to every view. In short (Sir) I have had such ill returns from that small concern I last entrusted that I am resolved to acquiesce in the matter & confine those small scraps I am Master of to my own use not that I am any ways proud or set a greater value upon them than is requisite but only preserve them as left me by my Predecessors.<sup>17</sup>

Ac erbyn diwedd Mawrth 1699 yr oedd Lhwyd wedi llwyr anobeithio:

I have us'd all y<sup>e</sup> means I could think of, to prevail with M<sup>r</sup>. Howel Vaughan for access to his Study this Winter; and M<sup>r</sup>. Simon Lloyd seconded my Request in my hearing, & proposed as many arguments I thought as could be offerd. But he has utterly refusd that kindnesse [...] so I am now no longer importunat w<sup>th</sup> him[.]<sup>18</sup>

Fel y gwelir, prin eithriadol yw'r hynafiaethwyr y gwyddom iddynt dreulio amser yn Hengwrt yn ystod y degawdau o boptu 1700,<sup>19</sup> ac y mae hynny'n gwneud catalog y *Cambrian Register* yn fwy byth o ddirgelwch. Gellir bod yn hyderus nad gwaith Lhwyd ei hun mohono: nid oes yma unrhyw olion o'i orgraff ef, a phrin y gallai ef arddel cysylltiadau â sir Frycheiniog fel y rhai a drafodwyd uchod. Felly hefyd Humphrey Humphreys, brodor o Benrhyndeudraeth na wyddys am unrhyw gysylltiad rhyngddo a sir Frycheiniog. Gwelir bod dyddiad y catalog, 1697, yn cyd-daro'n bur dda â'r cyfnod pryd y cafodd Lhwyd fynediad i Hengwrt. Credaf fod y dystiolaeth yn awgrymu'r posibilrwydd fod Lhwyd wedi mynd ag *amanuensis*, sef MPL, gydag ef i Hengwrt yn 1696 er mwyn gwneud y mwyaf o'r ychydig oriau a ganiatawyd iddynt, a'i fod yntau y flwyddyn ganlynol wedi ehangu'r nodiadau a luniwyd yno.

---

<sup>17</sup> Llythyr o'i gartref yn Aberffrydlan, Llanwrin, dyddiedig 23 Hydref 1698 (gw. *EMLO*).

<sup>18</sup> E. Gwynne Jones, 'The Family Papers of Owen and Stanley of Penrhos, Holyhead', *BBCS*, 17 (1956–8), 99–115 (109–10); gw. hefyd R.T. Gunther, *Early Science in Oxford. Vol. XIV. Life and Letters of Edward Lhwyd* (Oxford: Oxford University Press, 1945), t.348, rhif 183.

<sup>19</sup> Cafodd Lewis Morris fynediad yn 1738, ond y mae'n dra annhebygol mai ef yw MPL.

Gellir felly gasglu, i wahanol raddau o sicrwydd, fod MPL:

- yn ei flodau yn 1697;
- yn frodor, ond odid, o sir Frycheiniog;
- yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â Llundain;
- wedi derbyn swrn o bapurau o Hengwrt gan ddisgynnydd i Meredith Lloyd yn sir Faesyfed;
- yn gyfarwydd â gwaith Siôn Prys, *Historiae Brytannicae defensio* (1573), ac yn honni rhyw fath o berthynas waed â Phrys;
- efallai'n berchen ar bapurau yn llaw William Lewes;
- yn gysylltiedig ag Edward Lhwyd.

Mewn gwirionedd, pwll bychan iawn o unigolion cymwys sydd i ddewis ohono, ac y mae'r ystyriaethau hyn, fel y dangosir isod, yn ein harwain yn anochel at un gŵr, sef Hugh Thomas (1673–1720). Yr un ffactor wrthwynebus, wrth gwrs, yw'r blaenlythrennau: 'M. P. L.'. Bwrier am funud, fodd bynnag, fod camddealltwriaeth wedi digwydd yma ar ran Fenton, ac nad blaenlythrennau mohonynt. Buesid yn disgwyl i hynafiaethydd dysgedig o sir Frycheiniog tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg arddel enw bedydd a chyfenw; disgwylid o'r herwydd ddwy flaenlythyren, nid tair. Ni wn i am unrhyw unigolyn hysbys a chymwys a allai gael ei gynrychioli gan y blaenlythrennau 'M. P. L.'. At hynny, gan brinned yw'r unigolion a ymddiddorai mewn llawysgrifau yn y cyfnod hwnnw, anodd credu nad yw enw MPL yn hysbys inni. Tybed a gamddechonglwyd arwyddocâd y nodyn gan Fenton mewn rhyw fodd? Er enghraifft, tybed ai 'MDL' a geid yn y gynsail, hynny yw, 1550 mewn rhifolion Rhufeinig? Yr oedd y llythrennau hyn (fel y gwelwyd uchod) yn digwydd yn union o dan y dyddiad 1697, a'r cyfan o dan y pwt canmoliaethus am Siôn Prys: ai'r hyn a geir yma yw rhywun yn cymharu ei *floruit* ei hun â *floruit* Prys, a fu farw yn 1555?<sup>20</sup>

Gyda'r ystyriaethau uchod mewn cof, y mae'r hyn a wyddom am Hugh Thomas yn ei wneud yn ymgeisydd tra chymwys ar gyfer awdur y catalog hwn. Yn ffodus, cadwyd deunydd hunangofiannol yn llaw Thomas ei hun.<sup>21</sup> Fe'i ganed yn y Red Lion, Fetter Lane, Llundain, ar 30 Mehefin 1673, yn fab cyntafanedig i William a Petronilla Thomas. Ei hen daid oedd Thomas Jones (Thomas ap Siôn) o Lanfrynach (m.1616), awdur yr gwaith cyntaf hysbys ar hanes sir

---

<sup>20</sup> Gwelir y cyfryw beth yn gyson mewn llyfrau printiedig, lle y mae perchennog diweddarach yn nodi oedran y llyfr.

<sup>21</sup> Gw. Francis Jones, 'Hugh Thomas, Deputy-Herald', *THSC*, 1961, 45–71; idem, 'An Approach to Welsh Genealogy', *ibid.*, 1948, 303–466 (421–8); Anthony Wagner a George Squibb, 'Deputy Heralds', yn Frederick Emmison a Roy Stephens (gol.), *Tribute to an Antiquary. Essays presented to Marc Fitch by some of his friends* (London: Leopard's Head Press, 1976), tt.229–64 (264); C.E. Wright a Ruth C. Wright (gol.), *The Diary of Humfrey Wanley 1715–1726*, 2 gyf. (London: The Bibliographical Society, 1966), tt.462–3.



Frycheiniog. Yr oedd y teulu, a oedd yn Babyddion brwd, yn hanfod o gyff anrhydeddus, ond erbyn dyddiau William Thomas treuliasai llawer o fri a chyfoeth y teulu, a bu'n weithgar fel marsiandïwr yn ceisio adennill peth o'r cyfoeth a gollwyd. Bu farw William Thomas yn 1685, gan adael gweddw a phedwar o blant, yr hynaf ohonynt heb eto gyrraedd ei ddeuddeg oed; yn Awst y flwyddyn honno dychwelodd dau o'r meibion – Hugh a Roger – i Aberhonddu, hen gynefin y teulu, i gael eu haddysg dan nawdd Blanche Bevans, hanner chwaer eu tad. Yn dilyn salwch, dychwelodd Hugh i Lundain yn Ebrill 1686, gwta wyth mis ar ôl symud i Aberhonddu; bum mis yn ddiweddarach aeth yn brentis i Richard Ellis, ysgrythwr oriorau. Yna, ddechrau 1687, ar ôl clirio'r rhan fwyaf o ddyledion ei diweddar wr, bu farw ei fam. Yng ngeiriau Francis Jones:

The orphaned apprentice, descendant of an ancient house that counted Welsh kings, lords of commotes, Norman barons, and Tudor squires among its forebears, thirty-second in descent from Brychan Brycheiniog, found himself the penniless head of his family.

Ni wyddys a gwblhaodd Hugh ei brentisiaeth ai peidio, ond y mae'n amlwg ei fod wedi meithrin nifer o ddoniau fel crefftwr yn y cyfamser: sonia Francis Jones am ei fedr fel drafftsmon ac am y brasluniau herodrol medrus sy'n harddu ei lawysgrifau. Yr oedd yn weithgar fel achyddwr erbyn 1696, ac erbyn 1703, ac yntau'n amlwg wedi ennill ei blwyf, fe'i penodwyd yn ddirprwy herod yng Nghymru dan Syr Henry St George. Yn Llundain y preswyliai'n bennaf, ond ymwelai'n achlysurol â sir Frycheiniog,<sup>22</sup> a daeth yn gyfeillgar â rhai o ysgolheigion Cymreig mwyaf blaenllaw ei ddydd, yn eu plith Edward Lhwyd. Mewn llythyr at Lhwyd yn 1698, sonia Thomas am 'your 3 Companions', sef y tri chynorthwydd a oedd yn gwmni i Lhwyd ar ei daith fawr yn ystod y blynyddoedd 1697–1701: William Jones, Robert Wynne a David Parry (crybwyllir hwy drachefn gan Thomas mewn llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf 1704).<sup>23</sup> Erbyn y flwyddyn honno yr oedd Thomas, ac yntau ond pump ar ugain oed, wedi cwblhau drafft o'i 'Essay towards the History of Brecknockshire'. Gorffenasai ail ddrafft o'r gwaith erbyn 1701, a pharhaodd i ychwanegu ato hyd 1718.<sup>24</sup>

---

<sup>22</sup> Un o'i gyfraniadau mwyaf gwerthfawr yw'r corff o arysgrifau a gopiwyd ganddo rhwng 1699 ac 1704: gw. David Leitch (gol.), *Brecknock Monumental Inscriptions of the 16th and 17th Centuries Originally Transcribed by Hugh Thomas Between 1699 & 1704* (s.l.: Powys Family History Society, 1995). Hoffwn ddiolch i Phil Bufton, cadeirydd Cymdeithas Hanes Teulu Powys, am ddarparu copi PDF o'r cyhoeddiad hwn.

<sup>23</sup> Gw. *EMLO*; *RWMS*, III, plât 742.

<sup>24</sup> Gw. J. Jones-Davies (gol.), *Hugh Thomas' Essay Towards the History of Brecknockshire 1698* (Brecon: [?y golygydd], 1967).

Prif ddiddordeb Hugh Thomas yn ugain mlynedd olaf ei oes, yn naturiol ddigon o gofio ei ddyletswyddau fel dirprwy herod, oedd achau. Yn hynny o beth fe'i dylanwadwyd yn drwm gan ei gyfaill, yr achyddwr diwyd William Lewes o Lwynderw, Llangeler. Yr oedd Lewes ryw ugain mlynedd yn hŷn na Thomas, ac ef, mewn llythyr ar 19 Ionawr 1709[10], a'i perswadiodd i ddilyn y dull a sefydlasai o drefnu achau dan benteuluoedd.<sup>25</sup> Mabwysiadodd Thomas ddull Lewes, gan lunio ei gasgliadau sylweddol ei hun.<sup>26</sup> Ond ni pheidiodd ei ddiddordeb mewn hynafiaethau: un o'i gymwynasau mawr oedd paratoi gwaith yr hanesydd John Lewis, Llynwene (m.1615/16), ar gyfer y wasg, gwaith a oedd yn nwylo'r argraffwyr pan fu Thomas farw yn 1720, ac a ymddangosodd naw mlynedd yn ddiweddarach dan y teitl *The History of Great-Britain*.<sup>27</sup>

Yn ei ewyllys, gadawodd Hugh Thomas ei lawysgrifau i Robert Harley (1661–1724), iarll cyntaf Rhydychen ac iarll Mortimer; diau mai'r cyfryngwr oedd William Thomas (c.1676–1764), brodor o Lanymddyfri ac ieithydd medrus a ddaeth yn ysgrifennydd i Harley ac yn gyfaill i Humfrey Wanley, llyfrgellydd Harley.<sup>28</sup> Y mae trwch ei bapurau erbyn hyn yn rhan o gasgliad Harley yn y Llyfrgell Brydeinig,<sup>29</sup> ond aeth rhai papurau i gyfeiriadau eraill: ceir peth deunydd yn Llyfrgell Bodley yn Rhydychen ac yn y Coleg Arfau.<sup>30</sup> Yn ogystal, ceir tystiolaeth am rychwant ei ddiddordebau ymysg llawysgrifau Caerdydd. Yn Card. 4.20, casgliad o bapurau William Thomas, ysgrifennydd Harley, ceir copi a wnaed ar y cyd gan Hugh Thomas a Moses Williams o *Drioedd Ynys Prydain* (o NLW 6434D), ac yn Card. 4.22 ceir copïau o destunau Cymraeg canoloesol yn llaw William Thomas wedi'u codi o gynseiliau yn llaw hynafiaethwyr eraill, gan gynnwys Hugh Thomas.

Fe welir ar unwaith fod yr hyn a wyddom am MPL yn drawiadol o debyg i fuchedd Hugh Thomas; yn wir, gwelir ei fod yn bodloni'r mwyafrif llethol o'r meini prawf a gynigiwyd uchod, gan gynnwys y cysylltiad ag Edward Lhwyd ac â William Lewes. Y mae'n wir na ellir cloi'r ddadl yn derfynol ar hyn o bryd, ac ni chafwyd hyd i unrhyw dystiolaeth arall fod Hugh

---

<sup>25</sup> Argreffir y llythyr yn *MWBM*, tt.485–6.

<sup>26</sup> Gw. Harl. 2288, Harl. 2291 a Harl. 4181.

<sup>27</sup> Ceir nodiadau yn llaw Thomas yn Harl. 4872 rhan (ii), sy'n cynnwys copi glân o'r gwaith hwn gan *amanuensis*, ynghyd â nodiadau gan yr awdur ei hun; gw. *RWMS*, I, tt.686–7.

<sup>28</sup> Ymhellach ar William Thomas, gw. Atodiad II, lle y dangosir bod angen adolygu'r hyn a gynigir yn *RWMS*, II, t.177.

<sup>29</sup> Gw. y mynegai i *MWBM*.

<sup>30</sup> Gw. *RWMS*, II, tt.173–4.

Thomas wedi cael mynediad i Hengwrt, ond y mae'r fantol yn gwyro'n ddiamwys o blaid credu mai ef yw'r unigolyn dirgel y tu ôl i'r catalog rhyfedd a gwerthfawr hwn.

Gellir damcaniaethu fel a ganlyn. Tua 1697, ac yntau'n hynafiaethydd ifanc brwd, derbyniodd Hugh Thomas swp o bapurau gan ddisgynnydd i Meredith Lloyd yn sir Faesyfed, papurau a gawsai Meredith Lloyd o lyfrgell ei gyfaill Robert Vaughan yn Hengwrt, gan gynnwys peth o ohebiaeth Vaughan, yn ogystal â thrawsgrifiadau yn ei law. Cafodd Thomas afael hefyd (efallai yn yr un bwndel; efallai gan Edward Lhwyd; efallai'n uniongyrchol yn ystod ymweliad â Hengwrt) ar gopi o'r catalog o lyfrgell Hengwrt a luniwyd gan William Maurice yn 1658, ac aeth ati i'w gyfoethogi gyda nodiadau'n deillio o'i wybodaeth ef ei hunan ac o gynnwys y bwndel o lythyrau a nodiadau a gawsai yn sir Faesyfed. Ychwanegodd at y catalog llawysgrifau nas cofnodwyd gan Maurice ond (fel y gwelir isod) y ceid tystiolaeth am eu bodolaeth ym mhapurau Robert Vaughan. Ni throsglwyddwyd y bwndel hwn, nac ychwaith y catalog, i Robert Harley gyda gweddill llawysgrifau Thomas: arhosodd yn eiddo i'w ddisgynyddion yn ei gartref yn Llundain. Tua 1800, bedwar ugain mlynedd ar ôl marwolaeth Thomas, gwerthwyd cynnwys y tŷ, gan gynnwys y bwndel. Fe'i prynwyd gan Richard Fenton. Rhwymodd ef beth o'r deunydd yn y llawysgrif a adwaenir bellach fel Card. 4.30, a chadwodd y gweddill fel bwndeli (bellach Card. 4.76 a Card. 4.83). Sylweddolodd Fenton fod gwerth neilltuol i'r catalog, a oedd erbyn hynny mewn cyflwr gwael oherwydd lleithder a llygod, a pharatoes ei chynnwys ar gyfer y wasg. Fe'i hanfonodd at olygydd y *Cambrian Register* dan y ffugenw *Brychan Brecheinioc* gan y credai (yn gywir) mai gŵr o sir Frycheiniog oedd yr awdur, er na wyddai'n union pwy ydoedd. Dinistriwyd llawysgrif garpiog Hugh Thomas.

Damcaniaeth yw'r hyn a geir uchod, wrth gwrs, ond credaf ei bod yn esbonio'n foddhaol sut y daeth catalog gwerthfawr y *Cambrian Register* i fodoli. Ac y mae ceisio adnabod y sawl a luniodd y catalog hwnnw'n sylfaenol bwysig o ran gwerthuso dibynadwyedd yr wybodaeth unigryw a geir ynddo. Trafodir isod bedwar darn unigryw o wybodaeth a geir yn y catalog hwn, a cheisir ym mhob achos dafoli'r dystiolaeth.

## *Dafydd ap Gwilym ac Ofydd*

Y mae rhif 163 yng nghatalog y *Cambrian Register* yn darllen fel a ganlyn:

Pêth o waith Ofyd wedi ei droi o'r Lladin (meddai John Jones) o law Dafydd ab Gwilym wrth arch Llewelyn ab Gwilym, o'r Cryngae.

Yn ei nodiadau ar gyfer y llawysgrif hon, noda MPL: 'At the end there is a Cywydd to Llewelin ap Gwilym', sy'n awgrymu mai'r hyn a geid yma oedd cyfieithiad o un o weithiau'r bardd clasurol Ofydd (Publius Ovidus Naso) gydag un o awdlau Dafydd ap Gwilym i'w ewythr (*DG.net*, rhif 5 neu 6) wedi ei ychwanegu ar y diwedd, gan arwain at y gred (gyfeiliornus, yn ddiaw) mai gwaith Dafydd ap Gwilym oedd y cyfieithiad yn ogystal. Er na ellir olrhain ffynhonnell uniongyrchol MPL ar gyfer y cofnod hwn, y mae camddealltwriaeth ar ran John Jones, Gellilyfdy – gŵr a oedd yn chwannog iawn, yn seiliedig ar ei wybodaeth helaeth, i gofnodi traddodiadau (ffansiöol a hygoelus weithiau) am y beirdd – yn ddichonadwy.<sup>31</sup> Ceir sawl cyfeiriad at y bardd Ofydd yng ngwaith Dafydd ap Gwilym,<sup>32</sup> gan gynnwys 'Salm i'm cof o lyfr Ofydd';<sup>33</sup> yn wir, y mae cyfeiriadau at Ofydd yn rhyfedd o gyffredin gan Feirdd yr Uchelwyr.<sup>34</sup> Os troir wedyn at y cyfieithiad Tachwedd o *Disticha Catonis*, ceir y canlynol:

Os da gennyt dyscu caru neu orderchu. keis lyvyr ovit yr hwnn a elwir naset.<sup>35</sup>

Codwyd y dyfyniad uchod o Pen. 3, ond ceir copi o'r un testun yn Pen. 27ii, tt.16–21, llawysgrif y gwyddys bod John Jones yn gynefin â hi gan iddo godi peth o'i chynnwys i Pen. 113, Pen. 267 a Card. 3.77.<sup>36</sup> Ymddengys yn debygol o'r herwydd mai camddehongliad o'r cyfryw gyfeiriadau a roes fod i'r cofnod ffansiöol y ceid gynt yn Hengwrt gopi yn llaw Dafydd ap

<sup>31</sup> Ar John Jones, gw. Nesta Lloyd, 'John Jones, Gellilyfdy', *Flintshire Historical Society Publications*, 24 (1969–70), 5–18; eadem, 'A History of Welsh Scholarship in the first half of the Seventeenth century, with special reference to the writings of John Jones, Gellilyfdy' (traethawd DPhil heb ei gyhoeddi, Prifysgol Rhydychen, 1970).

<sup>32</sup> Gw. *DG.net*, 'Mynegair', d.g. *Ofydd*, lle y rhestrir 14 enghraifft.

<sup>33</sup> *DG.net*, rhif 95 ('Chwarae Cnau i'm Llaw'), ll.1.

<sup>34</sup> Ceir casgliad gwerthfawr o gyfeiriadau'r beirdd at Ofydd yn Paul Russell, *Reading Ovid in Medieval Wales* (Columbus: The Ohio State University Press, 2017), tt.231–3; gw. y drafodaeth yn *ibid.*, tt.203–10, a hefyd Mair Jones, 'Byd y Beirdd, sef ymchwiliad i amgylchfyd a diddordebau Beirdd yr Uchelwyr yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif' (traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1983), tt.489–92.

<sup>35</sup> Gw. Ifor Williams, 'Cynghorau Catwn', *BBCS*, 2 (1923–5), 16–36 (22).

<sup>36</sup> Gw. *EWGT*, t.76.

Gwilym ei hun o weithiau Ofydd wedi cael eu trosi i'r Gymraeg. Yn wir, y mae tinc Ioloaidd i'r cofnod, ac y mae'n tueddu i danseilio hygrededd y cofnodion unigryw eraill yn y catalog hwn. Dylid nodi, fodd bynnag, fod brawddeg olaf cofnod MPL ('Pity! That this delicious morsel, from the effects of dampness, should soon be likely to fall a prey to oblivion') yn awgrymu bod MPL wedi gweld y llawysgrif â'i lygaid ei hun, a bod yma gofnod didwyll am llawysgrif sydd bellach wedi ei cholli.

### *Llyfr têtg Diarhebion Cymraeg*

Rhif 165 yw'r cofnod canlynol:

Llyfr têtg Diarhebion Tachwedd, o law Doctor John Davies o Fallwyd.

Goroedd tri fersiwn o gasgliad John Davies o ddjarhebion, casgliad a adwaenir fel *Adagia Britannica* ac sy'n helaethach na'r un a gyhoeddwyd ganddo yn 1632 fel rhan o'r *Dictionarium Duplex*, ond nid oes yr un ymhlith casgliad Peniarth.<sup>37</sup> Y cynharaf, ond odid, yw'r fersiwn a geir yn Harl. 541, llawysgrif gyfansawdd sy'n cynnwys papurau a fu'n eiddo i'r hynafiaethydd Syr Simonds D'Ewes (1602–50), ac yn eu plith (ff.1–44) gopi o *Adagia Britannica*, gyda chyfieithiadau Lladin, yn llaw John Davies. Anfonodd Davies y copi hwn at D'Ewes yn 1640; goroesodd peth o'u gohebiaeth yn Harl. 374, Harl. 376 a Harl. 378. Y mae MPL, fel atodiad i'r cofnod, yn dyfynnu yn ei gryswth lythyr a anfonodd D'Ewes at Robert Vaughan ar 30 Tachwedd 1648.<sup>38</sup> Yn ogystal, ychwanegodd Richard Fenton fel troednodyn estynedig destun llythyr arall ('now in my possession') a anfonwyd gan yr un gŵr at Robert Vaughan ar 23 Mai 1649.<sup>39</sup>

Yr ail fersiwn o *Adagia Britannica*, eto yn llaw John Davies ei hun, yw'r un a ddiogelir yn Harl. 1867,<sup>40</sup> llawysgrif gyfansawdd sy'n cynnwys papurau Edward Lhwyd, ac sy'n gopi

---

<sup>37</sup> Fe'u trafodir yn Daniel Huws, 'John Davies and his Manuscripts', yn Ceri Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd. Welsh Renaissance Scholar* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), tt.88–120 (114–15). Ceir hefyd drafodaeth werthfawr yn E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts IX', *CLIGC*, 7 (1951–2), 1–11.

<sup>38</sup> Gw. Parry, 'Llythyrau RV', rhif 21.

<sup>39</sup> *Ibid.*, rhif 26.

<sup>40</sup> Ar ff.59–134.

gweithio o fersiwn llawnach a diweddarach na'r un yn Harl. 541. Daeth Harl. 1867 i feddiant Moses Williams, a'i cyflwynodd i Robert Harley yn 1713.<sup>41</sup> Y trydydd yw'r un yn Brog. I.11, copi gwaith arall, ac ond odid y fersiwn diweddaraf oll. Ar t.202 ceir mân gywiriadau yn llaw Robert Vaughan, a wnaeth gopi gofalus o'r llawysgrif yn Add. 14923. Yn y llawysgrif honno ceir nodiadau gan Lewis Morris, a ymwelodd â Hengwrt yn 1738; y mae'n debygol felly mai ef a'i dygodd o Hengwrt, ac o'r herwydd nid annichon mai cyfeiriad at y llawysgrif hon a geir yng nghatalog y *Cambrian Register*.

Y mae hefyd yn werth sôn am bedwerydd copi o *Adagia Britannica*, copi a oedd gynt yn llyfrgell Coleg Iesu, Rhydychen, ac a oedd, yn ôl pob tebyg, yn llaw John Davies ei hun, ond sydd bellach, ysywaeth, ar goll. Gwnaed copi ohono gan Ieuan Fardd, a hynny'n ddiâu tua 1750–1, pryd yr oedd yn fyfyrwr yn Rhydychen;<sup>42</sup> y mae'r copi hwnnw hefyd wedi ei golli, ond gwnaed copi ohono yn 1760 gan William Morris (1705–63) yn Add. 14884.<sup>43</sup>

### *Hen Hen Gasgl Barddoniaidd*

Rhif 167 yng nghatalog y *Cambrian Register* yw'r cofnod canlynol:

Hen Hen Gasgl Barddoniaidd o waith Taliesin: Argoet Llwyfan, a Jonas Athro: ar Femrwn prin a ellir ei ddarlain [*sic*] rhag henaint.

Er bod y cofnod hwn eto, fel yr un am lawysgrif Dafydd ap Gwilym, yn ymddangos yn ffansiol braidd ar yr olwg gyntaf, y mae'n werth ei ystyried o ddifrif. Ychwanegodd MPL y nodyn canlynol at y cofnod:

This is, undoubtedly, one of the most ancient British manuscripts now in being, and carries about it every mark of its being as old as it is supposed, though it is plain that Robert Vaughan grounded his belief of the genuineness of its antiquity on something more than presumptive evidence, from the following letter to Mr. Meredydd Lloyd.

---

<sup>41</sup> Gw. y llythyr a anfonodd Humfrey Wanley at Harley, 30 Rhagfyr 1713: P.L. Heyworth (gol.), *Letters of Humfrey Wanley. Palaeographer, Anglo-Saxonist, Librarian, 1672–1726* (Oxford: Clarendon Press, 1989), rhif 139.

<sup>42</sup> Ymaelododd â choleg Merton yn Rhagfyr 1750, ond ni chymerodd radd; gw. *ODNB*.

<sup>43</sup> Gw. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', 6. Cynhwysai'r llawysgrif hefyd gopi o'r testun *Casbethau Gwŷr Rhufain*.

Dyfynnir wedyn yn ei grynswth y llythyr a yrrodd Robert Vaughan at Meredith Lloyd ar 15 Hydref 1655.<sup>44</sup> Yn y llythyr hwnnw y mae Vaughan yn gofyn i Lloyd ddehongli darn tywyll o farddoniaeth a briodolir i Daliesin; ‘this, letter by letter, I wrote out of a booke, which had been written four hundred yeares agoe’. Y mae Vaughan hefyd yn crybwyll darlleniad John Davies o Fallwyd o’r un darn; y mae’n amlwg iddo beri cryn benbleth i’r ddau. Daw’r dyfyniad dan sylw o ‘Kein gyfedwch’,<sup>45</sup> cerdd y diogelwyd copi ohoni yn Pen. 2 (Llyfr Taliesin), t.72. Y mae’r llawysgrif honno hefyd yn cynnwys copi o’r gerdd adnabyddus ‘Gweith Argoet Llwyfein’<sup>46</sup> (a ddehonglwyd yn anghywir gan Vaughan, fel y dengys ei lythyr at Meredith Lloyd, fel enw bardd): yr esboniad symlaf gan hynny yw mai Llyfr Taliesin yw’r ‘booke [...] written four hundred yeares agoe’. Fodd bynnag, os oes coel ar y cofnod yn y *Cambrian Register*, ni all mai trafod Llyfr Taliesin yr oedd Vaughan gan nad yw’r llawysgrif honno’n cynnwys unrhyw gyfeiriad at Jonas Athro o Fynyw. Rhaid felly wrth un o ddau esboniad: bod y cofnod yn y *Cambrian Register* yn gyfeiliornus, yn gofnod dychmygol wedi ei seilio ar dystiolaeth llythyr Robert Vaughan; neu ynteu fod yma gyfeiriad cwbl ddilys at lawysgrif hynafol goll a gynhwysai gopiâu o ‘Kein gyfedwch’, ‘Gweith Argoet Llwyfein’ a gwaith Jonas Athro o Fynyw.<sup>47</sup>

O blaid y ddadl fod yma gofnod dilys y mae’r ffaith y ceir cyfeiriadau at lawysgrif hynafol o waith Jonas Athro mewn manau eraill. Trown felly at Llst. 120, llawysgrif a ysgrifennwyd gan Jaspas Gryffyth (c.1560–1614)<sup>48</sup> tua 1607.<sup>49</sup> Ar ff.28–9 ceir copi o’r gerdd siwdo-Daliesinaidd *Difregwawd Taliesin*, ac er mai i Daliesin y’i priodolir yma, fel yn y mwyafrif llethol o’r copïau hysbys ohoni, ar ymyl uchaf f.28 ceir y nodyn canlynol yn llaw Gryffyth ei hun:

---

<sup>44</sup> Gw. Parry, ‘Llythyrau RV’, rhif 55.

<sup>45</sup> Gw. Marged Haycock (gol. a chyf.), *Prophecies from the Book of Taliesin* (Aberystwyth: CMCS, 2013), rhif 5.

<sup>46</sup> Gw. Ifor Williams (gol.), *Canu Taliesin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1960), rhif VI.

<sup>47</sup> Ceir dyfaliadau ynghylch yr unigolyn hwn yn Andrew Breeze, ‘Master John of St Davids, a New Twelfth-Century Poet?’, *BBCS*, 40 (1993), 73–82; idem, *Medieval Welsh Literature* (Dublin: Four Courts Press, 1997), tt.41–7.

<sup>48</sup> Ar Gryffyth, gw. *BC*; *ODNB*; *RWMS*, II, tt.47–8; E.D. Jones, ‘Jaspas Griffith (Gryffyth), Warden of Ruthin (d. 1614)’, *CLIGC*, 1 (1939–40), 168–70; Richard Ovenden, ‘Jaspas Gryffyth and his books’, *The British Library Journal*, 20 (1994), 107–39. Cyhoeddwyd yn ddiweddar erthygl gan Kathryn Hurlock (‘Reading Medieval Wales: David Powel’s *Historie of Cambria* (1584) and Its Readers’, yn Rosamund Oates a Jessica G. Purdy (gol.), *Communities of Print. Books and Their Readers in Early Modern Europe* (Leiden: Brill, 2022), tt.178–93) lle y trafodir copi o *The Historie of Cambria* (1584) ac ynddo nodiadau gan Gryffyth (sef Pen. Est. PB 4); fel y gwelir yn *RWMS*, I, t.469, fodd bynnag, y mae’r nodiadau hynny mewn gwirionedd yn llaw’r awdur, David Powel, ei hun.

<sup>49</sup> Gwall yw ‘not after 1607’ yn *RWMS*, I, t.83; ar ff.62–3 ceir cywydd i Gryffyth a’i deulu gan Lewys Dwnn sy’n dwyn y dyddiad 1607, felly darllener ‘not before 1607’.

Y mae hên gopi scrifenedic mewn menbrwn [*sic*] gan Syr Tho. ap Wiliam yn dangos mai Iôan Athro Menyw a wnaeth y gerdd yma.

Ceir nodyn i'r un perwyl gan yr un gŵr ar ymyl copi arall o'r un gerdd, mewn llaw anhysbys, yn Pen. 53:

Y mae hen gopi mewn menbrwn lle y gwn i yn dangos mai Ivan Athro Mynyw a'i gw[n]aeth hi.<sup>50</sup>

Yn anffodus, nid yw'r llawysgrif femrwn a oedd yn eiddo i Thomas Wiliems o Drefriw bellach ar glawr. O droi at NLW 5262A (*olim* Dingestow 2), fodd bynnag, gwelir sawl awgrym bod Robert Vaughan wedi diogelu peth o'i chynnwys. Llyfr poced amrywiol ei gynnwys yw NLW 5262A, ac ar ff.2–34 *passim* ceir barddoniaeth a briodolir i Daliesin. Yn fwyaf arwyddocaol, ar ff.21–23<sup>v</sup> ceir testun tra amherffaith o *Ddifregwawd Taliesin* gyda phriodoliad i 'Jonas athro o Vynyw'; y mae'n amlwg wrth y bylchau a adawodd Vaughan yn ei destun fod ei gysail yn annarllenadwy mewn manau.<sup>51</sup> Ar f.2 ceir y nodyn 'allan o livr To: Wms'; enwir Thomas Wiliems drachefn fel ffynhonnell ar f.61<sup>v</sup> (gw. hefyd ff. 16, 19 a 73). Gan fod nifer o lawysgrifau Wiliems wedi dod i feddiant Robert Vaughan, ymddengys yn dra thebygol felly mai ei ffynhonnell oedd y llawysgrif femrwn y gwyddai Jaspâr Gryffyth amdani.<sup>52</sup> Er nad oes gennym dystiolaeth sy'n awgrymu ei bod hefyd yn cynnwys copïau o 'Kein gyfedwch' a 'Gweith Argoet Llwyfein', y mae'n llwyr bosibl mai disgrifiad o'r llawysgrif goll hon a geir yng nghatalog y *Cambrian Register*; a barnu wrth eiriau MPL amdani, cawn yr argraff sicr iddo ei gweld â'i lygaid ei hun.

---

<sup>50</sup> Pen. 53, t.43 (a ysgrifennwyd tua 1484).

<sup>51</sup> Y mae'r testun yn dechrau ag 'ay gorwisca', sef diwedd llinell 12 yng ngolygiad Haycock. Gan fod y bylchau yn y testun yn llawer llai niferus tua'r diwedd, gellir awgrymu bod y gerdd yn digwydd ar ddechrau cydiad a bod tudalen cyntaf y gysail, yn sgil traul, yn anodd ei ddarllen.

<sup>52</sup> Cynhwysai'r llawysgrif goll Hengwrt 120 gasgliad sylweddol yn llaw Robert Vaughan o hengerdd o amryfal ffynonellau, ac yn eu plith gerdd 'by Jonas athro Mynyw'; nid yw'n amhosibl mai llawysgrif Thomas Wiliems oedd ffynhonnell y copi hwnnw'n ogystal. Gw. W.W.E. Wynne, 'MSS. missing from the Hengwrt collection', *AC*, pedwaredd gyfres, 2 (1871), 129–37.



### *Llyfr Du Caerfyrddin?*

O blith yr holl nodau amgen a berthyn i gatalog y *Cambrian Register*, prin y gall fod unrhyw amheuaeth nad y mwyaf arwyddocaol, a'r mwyaf pellgyrhaeddol ei ddylanwad, yw'r wybodaeth unigryw a gynigir am Lyfr Du Caerfyrddin (bellach Pen. 1; *olim* Hengwrt 11), sef rhif 71 yn y catalog hwn. Y mae'n werth dyfynnu sylwadau MPL yn llawn:

How this very valuable relic of antiquity could get to Hengwrt cannot at present, perhaps, be easily discovered; but it is known to have been once in the possession of Sir John Pryse, the antiquary, who had it, with many other valuable manuscripts, from a treasurer of the church of St. David's, as appears by a memorandum among the papers Sir John left behind him; which likewise mentions that it came originally from the Priory of Carmarthen, at the time of the dissolution. Some of the lost books of Livy were said to have been shewn to Sir John Pryse at the time the said treasurer presented him with the above manuscript, &c.

Er mor ddiweddar yw'r dystiolaeth hon, ac er gwaethaf y ffaith na cheir ateg iddi yn unman arall, nid ymddengys i'w dibynadwyedd erioed gael ei gwestiynu o ddifrif. Fel y gwelwyd uchod, yr oedd MPL yn brolio perthynas waed rhyngddo a Siôn Prys, felly ni ellir diystyru'r posibilrwydd ei fod wedi etifeddu rhai o bapurau Prys, gan gynnwys memorandwm i'r perwyl uchod, a'u bod wedi mynd ar goll ers hynny. Y prif reswm yn ddiau dros roi coel ar y nodyn hwn yw bod Prys, yn ei *Historiae Brytannicae defensio*, t.121 (t.212 yng ngolygiad Ceri Davies) yn dyfynnu llinellau a geir yn y Llyfr Du. Erys y posibilrwydd, wrth gwrs, mai copi coll o'r Llyfr Du, neu efallai destun cytras, oedd ffynhonnell uniongyrchol Siôn Prys, ond y mae'r dystiolaeth *prima facie* o blaid credu bod MPL yn cofnodi gwybodaeth ddilys am hanes y Llyfr Du.

Y mae ambell ystyriaeth, fodd bynnag, yn milwrio yn erbyn y traddodiad hwn. Yn gyntaf, y ffaith nad yw llaw Siôn Prys – gŵr a oedd, fel y dangoswyd ym mhennod II, yn dueddol iawn i ychwanegu nodiadau at ei amryfal ffynonellau – yn digwydd yn y Llyfr Du. Yn ail, y ffaith nad yw dau brif gasgliad amrywiol Prys – Balliol 353 a Northants. Archives FH/7 – yn cynnwys unrhyw ddeunydd a godwyd o'r Llyfr Du, nac ychwaith unrhyw gyfeiriad ato. Gwelwyd ym mhennod II mor ofalus y byddai Prys yn nodi ei ffynonellau, a phetai Prys mewn gwirionedd wedi bod yn berchen ar drysor mor hynod â'r Llyfr Du, neu hyd yn oed wedi ei weld am ychydig amser, y mae'n anodd credu na fuasai wedi cynnwys cyfeiriad ato yn rhywle; ganddo

ef, wedi'r cyfan, y ceir y cyfeiriad cyntaf at Jesus 111 fel 'lhyvyr Hergest'. Y mae absenoldeb unrhyw gyfeiriad gan Brys at y Llyfr Du o'r herwydd yn dra arwyddocaol. Yn drydydd, os Prys oedd ei berchennog, y mae'n anodd esbonio sut y gallasai'r Llyfr Du fod wedi dod i feddiant ei berchennog hysbys nesaf, sef William Salesbury. Ni wyddys am gysylltiad pendant rhwng y ddau, ac fel y gwelwyd ym mhennod II, dymuniad Prys oedd i'w llawysgrifau Cymraeg gael eu hetifeddu gan Thomas Vaughan (m.1590).<sup>53</sup>

Yn wyneb yr ystyriaethau hyn, y mae'n werth ystyried y posibilrwydd fod yr wybodaeth a gofnodwyd gan MPL yn gyfeiliornus. Yn hynny o beth, y mae'r wybodaeth y buwyd yn ei lloffa am yr unigolyn hwnnw uchod yn dra pherthnasol gan ei bod yn cynnig esboniad dichonadwy sut y gallasai camddealltwriaeth fod wedi digwydd. Neilltuir gweddill y bennod hon ar gyfer ailystyried yr hyn a wyddom am *provenance* y Llyfr Du.

Dangoswyd yn y drafodaeth uchod fod MPL nid yn unig yn ymfalchïo yn y berthynas waed rhyngddo a Siôn Prys, ond hefyd yn cynnig awgrym ei fod yn gyfarwydd â'i brif waith, *Historiae Brytannicae defensio*, 'a work that has placed him high in the estimation his countrymen, and that most deservedly'. O droi at y gwaith hwnnw, gwelir y ceir ynddo ambell gyfeiriad a allai fod wedi porthi cofnod MPL ar y Llyfr Du. Ystyriwn yn gyntaf y cyfeiriad at drysorydd Tyddewi, sef John Lewis (m.1539×1541). Trafodwyd y gŵr hwn eisoes ym mhennod I, lle y dangosir bod tystiolaeth gref o blaid credu ei fod yn fab i Lewys Glyn Cothi. Y mae'n ddiamau fod John Lewis wedi trosglwyddo llawysgrifau i Brys: yn Northants. Archives FH/7, f.58, ceir y nodyn canlynol:

Hynn y sy nny lhyvyr cronik y gad gan y Meistyr John Lewys o dressordy Ty Dewi Myniw y sy yn eskrivenedig yn ywed[d] lhyvyr a elwir Odoporion Giraldi Cambrensis siue Itinerarium Cambrie.

Cyfeiriad yw hwn at Cotton Domitian A.i, llawysgrif o ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg sy'n cynnwys dau o weithiau Gerallt Gymro, *Itinerarium Cambriae* a *Descriptio Cambriae*; tua 1286, ar ff.138–55, ychwanegodd ysgrifwr arall destun 'C' yr *Annales Cambriae*, blwyddgofnodion sy'n amlwg gysylltiedig â Thyddewi. Erbyn 1539 yr oedd y llawysgrif ym

---

<sup>53</sup> Y mae'n werth crybwyll Pen. 42, copi o *Historia regum Britanniae* a wnaed yn ail hanner y drydedd ar ddeg, yn Lloegr ond odid, ac sy'n cynnwys nodiadau yn llaw Siôn Prys, ond trwy law Owen Wynn o Wedir (c.1590–1660) y cyrhaeddodd y llawysgrif honno lyfrgell Hengwrt, a hynny rywbryd ar ôl 1650, felly ni all fod wedi cyddeithio â'r Llyfr Du.

meddiant Siôn Prys; ychwanegodd Prys y testun *Cognacio Brychan* a thestunau eraill ar ddalennau ychwanegol, rhifodd y dalennau ac ychwanegodd nodiadau ar sawl tudalen.<sup>54</sup>

Ar yr olwg gyntaf, y mae hyn fel pe'n ategu cofnod MPL mai trwy law John Lewis y daeth Llyfr Du Caerfyrddin i feddiant Siôn Prys. Yn wir, ceir cyfeiriadau pellach gan Brys at John Lewis yn *Historiae Brytannicae defensio*, er enghraifft:

Quales ex ecclesia olim metropolica, nunc vero Cathedrali Meneuensi, quae et Sancti Daudid dicitur, ab aerarii illius nuper praefecto, D. Ioanne Lewis, mihi pridem delatae fuerunt.<sup>55</sup>

[*Rhodddwyd dogfennau o'r math hwn [croniclau] o'r eglwys fetropolitanaid gynt, bellach Eglwys Gadeiriol Mynyw, a elwir hefyd Tyddewi, imi beth amser yn ôl gan Mr John Lewis, a oedd hyd yn ddiweddar yn drysorydd yr Eglwys Gadeiriol honno.*]

A thrachefn:

Est etiam apud me libellus perantiquus in modum annalium Latine compositus, ex aerario Meneuensi a docto sane viro et antiquitatis Britannicae studioso Ioanne Lewis illius aerarii praefecto, qui nuper obiit, delatus, vbi precipuae clades quae Ecclesiae Meneuensi eiusque territorio a prima eius fundatione acciderunt memorantur.<sup>56</sup>

[*Ymhellach, y mae yn fy meddiant lyfr byr o ddirfawr hynafiaeth wedi ei ysgrifennu yn Lladin ar ffurf blwyddnodion. Fe'i rhodddwyd yn fy ngofal i, o drysordy Mynyw, gan y diweddar John Lewis, trysorydd yr Eglwys Gadeiriol, gŵr tra dysgedig a oedd yn ymroddedig i astudio hynafiaethau Prydain.*]

Nid oes amheuaeth nad cyfeiriad at Cotton Domitian A.i a geir yn yr ail ddyfyniad; dichon hefyd mai at yr un llawysgrif y cyfeirir yn y cyntaf. Y mwyaf arwyddocaol, fodd bynnag, yw'r nodyn canlynol:

---

<sup>54</sup> Nid annichon mai trwy law John Lewis y daeth llawysgrif arall o Dyddewi i feddiant Prys, sef Cotton Domitian A.v (a oedd yn ei feddiant erbyn 1546).

<sup>55</sup> Davies, *John Prise*, t.54. Myfi piau'r cyfieithiadau Cymraeg, sy'n ddyledus i gyfieithiadau Saesneg yr Athro Ceri Davies.

<sup>56</sup> *Ibid.*, t.66.

Huiusmodi libellus peruetustus, ex aerario Meneuensis Ecclesiae Cathedralis, quae Walliae metropolis olim erat, ab eiusdem aerarii praefecto mihi transmissus est, vbi plura de rebus in Wallia gestis, a Britannici excidio regni, habentur quam vsquam alias me legisse meminerim.<sup>57</sup>

[*Enghraifft o waith o'r math hwn yw'r llyfr tra hynafol a yrrwyd ataf gan drysorydd Eglwys Gadeiriol Mynyw, sef eglwys fetropolitanaid Cymru gynt. Daeth y llyfr o drysordy'r Eglwys Gadeiriol, ac y mae'n gynnwys cofnod am nifer o bethau a ddigwyddodd yng Nghymru o ddinistr y deyrnas Brydeinig ymlaen, pethau nad wyf yn cofio eu darllen yn unman arall erioed.*]

Fe'i dilynir gan ddyfyniad ynghylch Arthur a godwyd o Cotton Domitian A.i, f.139<sup>v</sup>. Yn union o dan y dyfyniad hwnnw ceir y frawddeg ganlynol:

Eadem complectuntur Chronica Maridunensis Coenobii (in Demetica, australi videlicet, Cambriae parte), quae itidem habeo.<sup>58</sup>

[*Cynhwysir yr un pethau yng nghroniclau Priordy Caerfyrddin yn Nyfed (sefrhan ddeheuol Cymru): y mae'r rhain hefyd yn fy meddiant.*]

Dichon fod yma ddeunydd ar gyfer camddealltwriaeth. Gellir yn hawdd ddychmygu unigolyn gwybodus yn sylwi ar gyfeiriad Prys at ddeunydd Arthuraidd mewn llawysgrif o Gaerfyrddin, a thybio mai cyfeiriad ydyw at y llawysgrif enwocaf oll a gysylltir â'r dref honno, sydd, hithau, fel y gwyddys yn dda, yn cynnwys deunydd o'r math hwnnw. Wrth gwrs, nid yw 'croniclau' yn ddisgrifiad priodol o'r Llyfr Du (yn wir, gan na ellir cysylltu unrhyw gronicl hysbys â phriordy Awstinaidd Caerfyrddin, nid yw'n hysbys at ba lawysgrif y mae Prys yn cyfeirio ati yma),<sup>59</sup> ond nid yw'n anodd credu y gallai unigolyn fel MPL, yn seiliedig ar y darnau hyn a chyda'i wybodaeth gefndirol am Lyfr Du Caerfyrddin a'i gynnwys, fod wedi neidio i'r casgliad anghywir canlynol: bod John Lewis, trysorydd Tyddewi, yn ogystal â Cotton Domitian A.i, wedi rhoi i Brys lawysgrif o Gaerfyrddin ac ynddi ddeunydd Arthuraidd, sef yr enwog Lyfr Du. Y mae'n dra annhebygol, fodd bynnag, onid amhosibl, mai at y Llyfr Du y cyfeiria Prys

---

<sup>57</sup> Ibid., t.222.

<sup>58</sup> Ibid., t.224.

<sup>59</sup> Yn Pen. 401 ceir copi mewn llaw anhysbys o hanner cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg (a roddwyd i Robert Vaughan gan Syr William Howard yn 1658; gw. *RWMS*, I, t.461) o gartiwlari'r priordy hwnnw; nid yw'r llawysgrif wreiddiol, ysywaeth, ar glawr. Nid yw'n amhosibl fod y llawysgrif wreiddiol yn cynnwys deunydd cronicleidd nas copiwyd am ryw reswm, ond ymddengys er hynny'n annhebygol.

yma gan nad oes yn hwnnw unrhyw ddeunydd y gellid ei alw'n gronclaid ei natur. Twyllwyd MPL gan ei wybodaeth ei hun.

Beth, ynteu, am y dyfyniad o'r Llyfr Du a gynhwyswyd yn *Historiae Brytannicae defensio*? Dylid nodi yn y lle cyntaf nad oes angen tybio bod MPL yn gwybod mai'r Llyfr Du yw ffynhonnell y dyfyniad hwnnw er mwyn esbonio'r camddealltwriaeth: y mae'r holl ddeunydd angenrheidiol yn y pedwar dyfyniad byr uchod. Y mae'n werth craffu ar y testun a argraffwyd yn 1573:

Saith ugein haelion a aethant ygwylon  
yng koed Kelydon y darvyant:  
kanys mi Vyrddin wedy Taliessin  
Bythad kyffredin vyn darogan.<sup>60</sup>

Gwelir ei fod yn cyfateb yn bur agos i destun y Llyfr Du:

Seith ugein haelon aaethan ygwllon  
yg coed keliton y daruuan  
Can ys mi myrtin guydi taliessin  
bithaud kyffredin vy darogan<sup>61</sup>

Yn fersiwn Prys, fodd bynnag, y mae'r ffurf dreigledig ar enw Myrddin yn y drydedd linell a'r ffurf *vyn* yn y bedwaredd yn awgrymu'r posibilrwydd nad y Llyfr Du oedd y ffynhonnell uniongyrchol. Er nad oes unrhyw lawysgrif arall hysbys y gellir ei chynnig fel ffynhonnell bosibl, y mae'n werth nodi bod dernyn o *Ymddiddan Myrddin a Thaliesin* (sef y gyfres y tynnwyd yr englyn uchod ohoni) yn digwydd yn llaw Dafydd Epynt, bardd o Frycheiniog, yn Pen. 54, t.129. Er nad yw'r englyn uchod yn rhan o'r dernyn hwnnw, ceir yno awgrym pendant fod y testun yn cylchredeg yng nghyffiniau Aberhonddu cyn dyddiau Prys; y mae'n bosibl o'r herwydd mai testun cytras â'r un a gopiwyd yn rhannol gan Ddafydd Epynt oedd ffynhonnell Prys, nid y Llyfr Du ei hun. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw ffrwyth y drafodaeth uchod yn golygu o reidrwydd na welodd Prys erioed mo'r Llyfr Du: yr unig beth y gellir bod yn hyderus

---

<sup>60</sup> Davies, *John Prise*, t.212. Y mae Prys yn dyfynnu'r union englyn hwn yn Northants. Archives FH/7, f.15<sup>v</sup>; yno gelwir y gerdd yn '[y] kany brith', teitl nas ceir yn y Llyfr Du ond a geir yn Pen. 26 a Pen. 59, sy'n awgrym pendant nad y Llyfr Du oedd ffynhonnell Prys.

<sup>61</sup> Pen. 1, ff.3<sup>v</sup>-4.

yn ei gylch yw mai trwy amryfusedd y'i cysylltwyd â phriordy Awstinaidd Caerfyrddin. Rhaid felly ystyried y dystiolaeth o ran hanes y Llyfr Du.<sup>62</sup>

Arwydd o'r bri a berthyn i'r Llyfr Du yw bod Gwenogvryn Evans wedi rhoi iddo'r rhif 'Peniarth 1' wrth baratoi *RMWL*; fe'i hadwaenid cyn hynny fel 'Hengwrt MS 11', sef y rhif a roddwyd iddo yn 1658 gan William Maurice yn ei gatalog o lawysgrifau Hengwrt. Diogelwyd casgliad Hengwrt-Peniarth ym Mheniarth, Llanegryn, am ymron i hanner can mlynedd ar ôl i Robert Williames Vaughan o'r Hengwrt a Rug, y trydydd barwnig, farw'n ddietifedd yn 1859; cymynroddodd ef y casgliad i'w gyfaill, W.W.E. Wynne, Peniarth. Ni wyddys yn union pryd y daeth y Llyfr Du i Hengwrt, ond ymddengys nad oedd eto ym meddiant Robert Vaughan pryd y nododd yn ei restr bwysig o berchnogion llawysgrifau, rywbryd tua 1616×1625, 'Y llyfr du o Gaerfyrddin gan Sion Tudur'.<sup>63</sup> Rywbryd ar ôl 1617, ond efallai nid yn hir wedyn, codwyd peth o gynnwys y Llyfr Du i Pen. 98 gan John Davies o Fallwyd; diau fod y Llyfr Du erbyn hynny'n eiddo i Robert Vaughan. Ymddengys yn debygol o'r herwydd mai tua 1620 y cyrhaeddodd lyfrgell Hengwrt, ond dylid hefyd grybwyll Pen. 107, sy'n cynnwys copi ffyddlon o'r Llyfr Du, ar femrwn, gan Robert Vaughan: efallai fod y ffaith iddo gael ei gymell i wneud copi mor ofalus – at ei ddefnydd ei hun, ond odid – yn awgrymu mai ar fenthyg yn unig yr oedd y llawysgrif wreiddiol ar y pryd, ac mai'n ddiweddarach y daeth i'w feddiant.<sup>64</sup>

Gellir olrhain trywydd y Llyfr Du'n weddol fanwl yn ôl i ganol yr unfed ganrif ar bymtheg. Tua 1607 codwyd peth o'i gynnwys i Llst. 120 gan Jasper Gryffyth (c.1560–1614), warden Rhuthun, gŵr a adawodd nodiadau yn ei law ardderchog yn ei ffynhonnell ac y credir iddo lanhau ymylon rhai o'r dalennau.<sup>65</sup> Gan fod nifer o lawysgrifau eraill Jasper Gryffyth wedi cyrraedd Hengwrt,<sup>66</sup> y mae'n debygol mai trwy ei law ef – yn uniongyrchol neu'n

---

<sup>62</sup> Ceir sylwadau ar y Llyfr Du gan Daniel Huws yn Rachel Bromwich *et al.* (gol.), *The Arthur of the Welsh. The Arthurian Legend in Medieval Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press, 1991), tt.7–12; ar yr orgraff, gw. Paul Russell, 'Scribal (in)consistency in thirteenth-century south Wales: the orthography of the Black Book of Carmarthen', *SC*, 43 (2009), 135–74.

<sup>63</sup> Gw. *MWM*, t.299; y mae nodyn Vaughan yn awgrymu na wyddai fod Siôn Tudur yn ei fedd ers 1602.

<sup>64</sup> Awgrymir isod (n.74) mai copi ffyddlon Robert Vaughan oedd y llawysgrif a oedd ym meddiant Humphrey Humphreys (1648–1712) ac a gamgymerwyd ganddo am gopi canoloesol.

<sup>65</sup> Gw. Myriah Williams, 'The Black Book of Carmarthen: Minding the Gaps', *CLIGC*, 36 (2014–17), 357–75; Myriah Williams a Paul Russell, 'Invisible Ink: The Recovery and Analysis of a Lost Text from the Black Book of Carmarthen (NLW Peniarth MS 1)', *ibid.*, 37 (2018–2022), 74–94.

<sup>66</sup> Sef Pen. 4–5 (Llyfr Gwyn Rhydderch), Pen. 17, Pen. 27ii, Pen. 44, Pen. 53, Pen. 74, Pen. 126, Pen. 165, Pen. 254 rhan (iv), Pen. 316 rhan (ii) a dwy lawysgrif a grwydrodd o Hengwrt, sef NLW 3026C (*olim* Mostyn 88) ac NLW 5266B (*olim* Dingestow 6; rhan strae o'r llawysgrif hon yw Pen. 16 rhan (vi)); gw. *RWMS*, II, tt.47–8, ond dywedir yno, yn gyfeiliornus (ac yn groes i'r hyn a ddywedir yn *ibid.*, I, t.469), mai un o lawysgrifau Gryffyth oedd Pen. Est. PB 4 (gw. n.48 uchod).

anuniongyrchol – y daeth y Llyfr Du i feddiant Robert Vaughan. Yn Gwyneddon 3, f.149<sup>v</sup> ceir cyfeiriad arall gan Gryffyth at y ‘llyfr du o Gaerfyrddyn’, ond copi ail law ydyw o nodyn a geid yn ei gynsail, sef (fel y dangosodd Syr Ifor Williams) Add. 14866.<sup>67</sup> Ysgrifennwyd y llawysgrif bwysig ac enwog honno yn 1586–7 gan David Johns, ficer Llanfair Dyffryn Clwyd.<sup>68</sup> Dolen gyswllt amlwg rhwng y ddau ŵr hyn yw Simwnt Fychan, bardd y bu Jasper Gryffyth yn rhoi arian iddo ar fenthyg<sup>69</sup> ac a ganodd englynion i David Johns. Ceir nodiadau yn llaw Simwnt yn y Llyfr Du, gan gynnwys, ar f.51<sup>v</sup>, y nodyn canlynol, sy’n anodd ei ddarllen heb gymorth technoleg:

Y llyfr hwnn a elwir y llyfr du o gaerverddin Ac a roddwyd i Wiliam Salesbury Ac Wiliam ai Roddes ef i Sion Tudur Ar un Sion Tudur ai Roddes ef [            ] Simwnt Vychan A Rivedi i ddalennau ydyw pedair ar ddeg ar deugain.<sup>70</sup>

O dan y nodyn hwnnw ychwanegodd David Johns y nodyn canlynol:

A chan Simwnt Fychan y cefais inne y llyfr du 1587.

Y mae’r ffaith fod y Llyfr Du wedi dod i feddiant Jasper Gryffyth erbyn tua 1607 yn awgrymu iddo ddychwelyd i feddiant Simwnt (a fu farw yn 1606, yn ŵr tlawd yn ôl pob tebyg) ar ôl marwolaeth David Johns, efallai yn 1598.<sup>71</sup>

Y mae’r nodyn yn llaw Simwnt yn ategu nodyn Robert Vaughan fod y Llyfr Du wedi bod yn eiddo i’r bardd Siôn Tudur (m.1602) ac yn nodi mai ef, rywbryd cyn 1587, a’i rhoes i Simwnt Fychan. Y mae’r nodyn hefyd yn tystio mai William Salesbury a’i rhoes i Siôn Tudur; ni wyddys, fodd bynnag, ai ar ôl marw Salesbury y daeth i feddiant Siôn Tudur ynteu fel rhodd cyn hynny.<sup>72</sup> Fel y trafodwyd ym mhennod III, nid yw dyddiad marw Salesbury yn hysbys, ond y mae’r dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn ei fedd erbyn 1584; nid yw’n amhosibl o’r

---

<sup>67</sup> Gw. Ifor Williams (gol.), *Gwyneddon 3* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931), tt.v–xii, 229. Ceir y nodyn gwreiddiol yn Add. 14866, f.247 (gw. t.229 yn argraffiad Syr Ifor o Gwyneddon 3).

<sup>68</sup> Gw. *RWMS*, I, t.604.

<sup>69</sup> Gw. nodyn Gryffyth yn NLW 5266B, f.158: ‘29 Nov. 1605. Lent to Sy. Vych. 12d.’; cf. hefyd y nodyn cyffelyb yn Pen. 126, t.1.

<sup>70</sup> Dyfynnir o Myriah Williams, ‘Studies in the Black Book of Carmarthen’ (traethawd DPhil heb ei gyhoeddi, Corpus Christi College, Caer-grawnt, 2016), t.193.

<sup>71</sup> Nid yw union ddyddiad marw Johns yn hysbys; yr oedd yn ‘glaf lesg’ yn 1588, ond ni phenodwyd olynnydd iddo hyd 1598, felly efallai iddo fyw hyd y flwyddyn honno (gw. y drafodaeth yn *RWMS*, II, tt.69–70).

<sup>72</sup> Ceir mân nodiadau yn llaw Salesbury ar ff.3<sup>v</sup>, 4, 23 a 38<sup>v</sup>.

herwydd fod y Llyfr Du wedi newid perchennog deirgwaith – o Salisbury i Siôn Tudur i Simwnt Fychan i David Johns – mewn byr amser tua chanol yr 1580au. Tua 1582 cododd Roger Morris o Goedytalwrn, Llanfair Dyffryn Clwyd, beth o gynnwys y Llyfr Du i Cwrtmawr 530; gan ei fod ef yn gymydog i Simwnt Fychan, tuedda hyn i awgrymu bod y Llyfr Du'n eiddo i Simwnt erbyn y flwyddyn honno.<sup>73</sup> Tybed a yw hynny'n awgrymu bod Salisbury erbyn hynny yn ei fedd? Bid a fo am hynny: y mae'r trywydd yn gorffen wrth ddrws Salisbury, ac yn wir, ni ellir olrhain yr enw 'Llyfr Du Caerfyrddin' (neu ffurf gyffelyb) ymhellach na hynny; tueddaf i gredu mai enw a fathwyd yng nghyfnod Salisbury ydyw. Ni ellir ond dyfalu ynghylch hanes cynharach y Llyfr Du, ond gwelir isod nad yn gwbl ofer y gwneir hynny.<sup>74</sup>

Wrth olrhain hynt y llawysgrifau canoloesol a ysgrifennwyd yn ne Cymru, Deheubarth yn enwedig, gwelir enw un gŵr yn rhyfeddol o gyson: Gruffydd Dwinn (*c.*1490–*c.*1570), y noddwr beirdd o Ystradmerthyr, Llandyfaelog, a honnai yn 1564 ei fod yn berchen ar gynifer â 64 o lawysgrifau Cymraeg.<sup>75</sup> Ymhlith y trysorau y gellir yn hyderus eu cysylltu ag ef y mae tair o lawysgrifau Lewys Glyn Cothi – Pen. 70, Pen. 109 a Llst. 7 – a Llawysgrif Hendregadredd (NLW 6680B). At hynny, y mae ei lyfr llys, Llst. 40, yn tystio i'r bwrlwm barddol eithriadol ar ei aelwyd. Yng ngeiriau Thomas Wiliems:

Y gwr hwn a vu veistr a phorth da i gychwyn athrawaeth cerdd dauod  
i Wiliam Lleyln ai vrawd Hugh Lleyln. Yn ol hyny i duy yr vnrhyw wr  
ydd aeth Wiliam Salisbury ar wahawdd.<sup>76</sup>

<sup>73</sup> Gw. Cwrtmawr 530, tt.17–38 (*RWMS*, I, t.50); ceir y dyddiad 13 Mawrth 1582[3] ar t.150, ond a barnu wrth yr orgraff, y mae rhai rhannau (tt.1–9 a 93–103) yn gynharach gan nad yw Roger Morris yn defnyddio ynddo lythrennau wedi eu tanddotio (posibilrwydd arall yw bod Roger Morris yn anghyson orgraff a bod y cyfan wedi ei ysgrifennu o fewn cyfnod byr). Y mae'r testun ar tt.93–103 yn tarddu o lyfr 'S[imwnt] V[ychan]', sy'n ategu'r awgrym bod y Llyfr Du ym meddiant Simwnt pan godwyd peth o'i gynnwys i Cwrtmawr 530.

<sup>74</sup> Yn y fan hon rhaid wynebu darn trafferthus o dystiolaeth, sef y nodyn gan Humphrey Humphreys a rwymwyd ynghyd â'r Llyfr Du (f.iii): 'I have an exact copy of this booke writ w<sup>th</sup> y<sup>e</sup> very same hand w<sup>th</sup> that on the bottom of [...] the 2d side of the 24 fol. My copy calls this book y Llyfr du o Gaerfyrddin'. Ar y tudalen y cyfeirir ato, sef f.24<sup>v</sup>, mewn inc sydd wedi pylu, ceir dwy linell o destun mewn llaw sydd fymryn yn ddiweddarach na'r brif law. Diau mai at yr un llawysgrif y cyfeiria Humphreys mewn llythyr at Ellis Anwyl, Porth Dinllaen, ar 29 Ionawr 1693[4]: 'I have also some fragments of Merddyn (it is writ in y<sup>e</sup> old MSS Myrtin) w<sup>ch</sup> I have compared w<sup>th</sup> a very ancient MS at Hengurt' (NLW 309E, tt.143–6). Y Llyfr Du, yn ddiau, yw'r 'very ancient MS'. Y mae hyn yn dystiolaeth *prima facie* dros gredu bod yma llawysgrif ganoloesol goll. Ac eithrio Humphreys, fodd bynnag, ni cheir unrhyw gyfeiriad at llawysgrif o'r fath, sy'n dra annisgwyl, ac at hynny, y mae 'exact copy' yn anghydnaws braidd â'r hyn a ddisgwylid gan gopiwr canoloesol. Rhaid felly ystyried y posibilrwydd fod Humphreys yn cyfeiliorni'n llwyr. Ymddengys i mi'n debygol mai'r llawysgrif a oedd ym meddiant Humphreys oedd Pen. 107, sef y copi ffyddlon o'r Llyfr Du a wnaeth Robert Vaughan, ar femrwn, mewn *ferre-textura* gofalus. Ceir yn y llawysgrif honno nodiadau yn llaw William Maurice (1619/20–80) a Griffith Roberts o Ddolgellau (1737–1808), sy'n awgrymu iddi grwydro o Hengwrt am gyfnod; y mae'n wir fod y teitl 'Y Llyfr Du' ar f.1 yn ddiweddarach na chyfnod Humphreys, ond y mae'n llwyr bosibl fod y teitl a nodir gan Humphreys i'w gael bryd hynny ar orchudd papur neu femrwn a ddiinstriwyd pan rwymwyd y llawysgrif yn LIGC.

<sup>75</sup> Gw. G.H. Hughes, 'Y Dwniaid', *THSC*, 1941, 115–49.

<sup>76</sup> Card. 4.330, t.223.



Er nad oes unrhyw dystiolaeth bendant iddo fod yn eiddo i Ruffydd Dwinn, gwelir bod dwy ffordd y gallasai'r Llyfr Du fod wedi dod i feddiant William Salesbury pe derbynnid yr awgrym hwnnw. Yn gyntaf, yn uniongyrchol ar ei ymweliad ag Ystradmerthyr yn ystod ei gyfnod yn Abergwili yn gweithio ar y Testament Newydd gyda Richard Davies, esgob Tyddewi, 1564–6. Yn ail, gwyddys yn dda mai megis yn sgrepan Gruffudd Hiraethog a'i ddisgyblion, gan gynnwys Wiliam Llŷn, y teithiodd sawl llawysgrif bwysig o'r De i'r Gogledd, gan gynnwys Llawysgrif Hendregadredd a llawysgrifau Lewys Glyn Cothi; y mae'n dra dichonadwy y gallasai un ai Gruffudd Hiraethog neu Wiliam Llŷn fod wedi rhoi'r Llyfr Du i Salesbury.<sup>77</sup> Posibilrwydd arall yw bod Salesbury, tra oedd yn Abergwili, wedi cael gafael ar y Llyfr Du o ryw ffynhonnell arall – o lys yr esgob, efallai.<sup>78</sup>

Y mae unrhyw dystiolaeth gadarn am hynt y Llyfr Du cyn dyddiau William Salesbury yn eithriadol o brin. Yn y fan hon y mae'n werth ystyried Pen. 59 rhan (ii), llawysgrif yn llaw Ieuan ap Madog ap Rhys o Is Aled sy'n cynnwys testunau a geir yn y Llyfr Du: *Ymddiddan Myrddin a Thaliesin, Afallennau Myrddin ac Oianau Myrddin*. Yn y rhagymadrodd i'w gyfrol ar yr *Ymddiddan*, noda A.O.H. Jarman mai 'testun y Llyfr Du yw tarddle'r holl destunau diweddarach',<sup>79</sup> datganiad a allai fod yn arwyddocaol gan fod Ieuan ap Madog yn ei fedd erbyn 1536.<sup>80</sup> Yn ddiweddar, fodd bynnag, dangosodd Myriah Williams nad y Llyfr Du neu gopi coll ohono oedd ffynhonnell Ieuan,<sup>81</sup> ac at hynny y mae'n dra annhebygol mai'r Llyfr Du oedd ffynhonnell yr ysgrifwr anhysbys a gododd yr *Ymddiddan* i Pen. 26 tua 1456, efallai yn abaty Glyn-y-groes. O'r herwydd, nid yw Pen. 26 na Pen. 59 yn cynnig tystiolaeth fod gan hynafiaethwyr fynediad at y Llyfr Du cyn dyddiau Salesbury.

Y mae tystiolaeth y Llyfr Du ei hun hefyd yn brin; dichon i'r ffaith fod rhywun – Jaspar Gryffyth, fe ymddengys – wedi glanhau nifer o'r nodiadau ar ymylon y dail wedi dinistrio peth tystiolaeth. Ar waelod f.28, mewn llaw anhysbys o droad yr unfed ganrif ar bymtheg, ceir y llinellau canlynol ar fesur anghanonaidd:

---

<sup>77</sup> Y mae cysylltiadau Gruffudd Hiraethog â Salesbury yn dra hysbys (gw. pennod III); y mae NLW 21294B, sef rhestr Salesbury o feirdd, yn cynnwys ychwanegiadau yn llaw Wiliam Llŷn.

<sup>78</sup> Codwyd deunydd achyddol gan Lewys Dwinn (c.1545–c.1616) o'r 'llyfr du parsmant [...] ef oedd Richart Davis esgob dewi yni gadw' (Card. 2.36, f.14<sup>v</sup>) ac o 'llyfr dv parsmant esgob dewi' (Add. 15041, f.128<sup>v</sup>; cf. hefyd NLW 11610D, f.140<sup>v</sup>), ond nid cyfeiriadau at Lyfr Du Caerfyrddin mohonynt.

<sup>79</sup> A.O.H. Jarman (gol.), *Ymddiddan Myrddin a Thaliesin (o Lyfr Du Caerfyrddin)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1951), t.1.

<sup>80</sup> Gw. Gruffudd Antur, 'Ieuan ap Madog ap Rhys', *Dwned*, 22 (2016), 83–8.

<sup>81</sup> Hoffwn ddiolch iddi am anfon darn o ertnygl ar y testunau hyn sydd ganddi ar y gweill.

Yr arglwyd Gorvchaf ior eurgledd gwreichion  
a Gatwo yn da ni Ennyd ac a gatwo yn dynion  
Rac Sais kav a Gwyddel a Rac kas kigyddyddion [*sic*]  
A rac Bloedd a lledrith a Rac Bleiddiaiv a lledron  
Rac hwnnakw yn ddrwc Rac kwn kynnddairiogion  
Rac draic awyr a thwrf a Rac drykrythorion  
A Rac hir dddlwm Sarff a Rac Kerdd Wiliam Sion<sup>82</sup>

Nid annichon mai yn llaw'r bardd ei hun y mae'r llinellau hyn, bardd a erys am y tro'n anhysbys. Naws ddychanol sydd i'r pennill, yn enwedig tua'r diwedd; y mae'n enghraifft nodweddiadol o'r math o ddychan hwyliog a geid rhwng beirdd a'i gilydd neu rhwng bardd a'i noddwr. Yr unig gliw y gellir ei ddilyn yw'r gŵr a enwir yn y llinell glo: Wiliam Siôn. Ni wyddys am fardd o'r enw hwnnw o'r cyfnod hwn, ond erys y posibilrwydd mai bardd amatur ydoedd – noddwr diwylliedig, efallai. Yn hynny o beth, y mae un enw yn ei gynnig ei hun, sef Wiliam Siôn o Lanegwad, gwta wyth milltir o Gaerfyrddin, noddwr y canwyd ei glodydd gan Lewys Glyn Cothi fel a ganlyn:

Y mae dysg i mi a dyf  
ym mhlas Wiliam, mal Selyf.  
Iolo'n wir, yng Nglyn Aeron,  
a wnaeth wers yn y iaith hon;  
eithr y mab oedd athro mawr,  
ac i Rydderch yn gerddawr.  
Wiliam, f'aur es talm yw fo,  
Mi i Wiliam yw Iolo.  
A'm swydd, gyda'm arglwydd mên,  
oedd ddeall iddo awen;  
darllein art arall yn well,  
darllein ystoriâu wellwell  
Siensis, drwy'r siens a drig,  
achau'r ynys a'i chronig,  
a'r hen gerdd, er hyn o gof,  
a rhieingerdd o'r hengof.<sup>83</sup>

Rhaid wrth gryn ofal cyn llyncu mawl y beirdd yn ddihalen, wrth gwrs, ond y mae'r geiriau hyn yn rhoi'r argraff ddigamsyniol fod yma noddwr anarferol o ddiwylliedig ac eang ei ddysg,

<sup>82</sup> Dyfynnir yn A.O.H. Jarman (gol.), *Llyfr Du Caerfyrddin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1982), tt.97–8.

<sup>83</sup> *GLGC*, rhif 58, ll.19–34. Cyfeirir yma at Iolo Goch fel '[c]erddawr' i Rydderch ab Ieuan Llwyd o Barcrhydderch, Llangeitho; ysywaeth, er bod Iolo'n cyfeirio at Rydderch yn 'Ymddiddan yr Enaid â'r Corff' (gw. D.R. Johnston (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1988), rhif XIV, ll.76–80), ni chadwyd unrhyw gerdd a ganwyd iddo.

ac yn wir yn dwyn i gof eiriau Lewys yn ei gywydd i Ddafydd ap Rhys ap Meurig o Bencraig a Thre'rdelyn:

Fy swydd, er hyd fo'r flwyddyn,  
gyda'r llew, bes gadai'r llyn,  
darllain ein dau'r llyfrau'n llwyr [...]  
Dafydd wrth gywydd Gwiawn  
a'i dyeill ym mewn dull iawn.<sup>84</sup>

Dangosodd Marged Haycock ei bod yn debygol nad motiff stoc sydd yn y cywydd hwnnw, eithr cyfeiriad at lawysgrif benodol, sef Llyfr Taliesin (bellach Pen. 2); fe'n hatgoffir hefyd o awdl Dafydd y Coed i Hopcyn ap Tomas o Ynysforgan,<sup>85</sup> lle y crybwyllir llawysgrifau y gellir, ond odid, eu hadnabod. Y mae'n anodd o'r herwydd osgoi'r demtasiwn i awgrymu bod cyfeiriadau Lewys at ddarllen 'hen gerdd [...]/ a rhieingerdd o'r hengof' gyda Wiliam Siôn yn Llanegwad hefyd yn gyfeiriad penodol, diamwys. Efallai mai rhyfygus, ar sail tystiolaeth mor egwan, fyddai awgrymu'r posibilrwydd mai cyfeirio at y Llyfr Du y mae Lewys yma, ac mai'r un Wiliam Siôn yw'r un a ddychenir yn y pennill anarferol ar f.28, ond ni fyddai'n syndod imi pe canfyddid rywbyrd dystiolaeth gadarn sy'n cysylltu Lewys, a gladdwyd – fel y gwelwyd uchod<sup>86</sup> – yn Abergwili, filltir neu ddwy o Gaerfyrddin, â'r Llyfr Du.

Mewn gwirionedd, nid yw'r drafodaeth uchod yn taflu llawer o oleuni ar un o'r dirgelion mawr, sef ymhle yr ysgrifennwyd y Llyfr Du, ond y mae'n golygu y gellir diystyru'r traddodiad mai o briordy Awstinaidd Caerfyrddin y'i hachubwyd gan John Lewis adeg y Diddymiad ac mai yno, efallai, y'i hysgrifennwyd.<sup>87</sup> Wrth gwrs, nid yw'n llwyr amhosibl, trwy gyd-ddigwyddiad, mai cynnyrch y priordy hwnnw ydyw, ond fel y noda A.O.H. Jarman, erbyn canol y drydedd ganrif ar ddeg, pryd y bernir (ar seiliau paleograffyddol) yr ysgrifennwyd y Llyfr Du,<sup>88</sup> yr oedd y priordy'n sefydliad trwyadl Normanaidd ac felly'n anaddas fel *milieu* ar gyfer llunio

<sup>84</sup> *GLGC*, rhif 157, ll.27–9, 31–2.

<sup>85</sup> Gw. R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2002), rhif 3, ll.93–6; Christine James, “‘Llwyr wybodau, llên a llyfrau’”: Hopcyn ap Tomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg”, yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Tawe* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1993), tt.4–44; eadem, ‘Hopcyn ap Tomos a “Llyfrgell Genedlaethol” Ynysforgan’, *THSC*, cyfres newydd, 13 (2007), 31–57.

<sup>86</sup> Gw. pennod I a'r rhestr o fannu claddu'r beirdd y cynigir golygiad ohoni ym mhennod IV.

<sup>87</sup> Ar y priordy, gw. Janet Burton a Karen Stöber, *Abbeys and Priors of Medieval Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2015), tt.72–4.

<sup>88</sup> Dyna farn E.D. Jones (yn Jarman, *Llyfr Du*, tt.xiii–xxiv) ac N. Denholm-Young (*Handwriting in England and Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1954), tt.42–3 a phlât 16), barn a dderbyniwyd gan Daniel Huws (gw. *RWMS*, I, tt.332–3).

llawysgrifau Cymraeg.<sup>89</sup> Barnai R. Geraint Gruffydd ei bod yn debygol mai cynnyrch sefydliad mwy Cymreig yw'r Llyfr Du, gan awgrymu abatai Sistersaidd Hendy-gwyn ar Daf ac Ystradfflur, neu abaty'r urdd Bremonstratensaidd yn Nhalylychau, a sefydlwyd gan yr Arglwydd Rhys, fel tarddleodd posibl.<sup>90</sup> Y mae gwaith diweddar Myriah Williams ar gysylltiadau testunol y Llyfr Du yn gam pendant i'r cyfeiriad cywir, ond ar hyn o bryd, erys tarddle'r 'palaeographical freak'<sup>91</sup> hwn yn ddirgelwch.

---

<sup>89</sup> Gw. A.O.H. Jarman, 'Llyfr Du Caerfyrddin / The Black Book of Carmarthen', *Proceedings of the British Academy*, 71 (1985), 333–56 (336–7); yr oedd Cymro o'r enw Cadifor yn brior yn 1208, a rhwng 1215 ac 1223 yr oedd y priordy ym meddiant Llywelyn Fawr, ond wedi hynny, chwedl Jarman, 'a process of re-Normanization was inevitable'.

<sup>90</sup> Gw. R. Geraint Gruffydd, 'Cyntefin Ceinaf Amser o Lyfr Du Caerfyrddin', *YB*, 4 (1969), 12–26 (15–16).

<sup>91</sup> Sef disgrifiad enwog Denholm-Young (gw. n.88 uchod) o'r Llyfr Du.

## Casgliadau

Bwriad y traethawd hwn yw ceisio amlygu ac astudio'r rhwydweithiau a roes fodolaeth i rai o'r llawysgrifau Cymraeg pwysicaf a'r modd y bu i'r llawysgrifau hynny gael eu defnyddio a'u dehongli gan ysgolheigion, beirdd a chopi-wyr diweddarach. Gwnaed hynny mewn pum pennod sy'n cynnwys pum astudiaeth achos y gellid dadlau eu bod yn sefyll ar eu traed eu hunain. Gwelir, fodd bynnag, gan fod yr un enwau'n dod i'r blaen dro ar ôl tro, fod y penodau'n porthi ei gilydd a bod y llinynnau cyswllt rhyngddynt yn niferus. Un enghraifft amlwg o hyn yw'r modd annisgwyl y bu i'r llawysgrif 'newydd' o waith Syr Siôn Prys, a ddarganfuwyd yn Northampton ac a drafodir yn fanwl ym mhennod II, gynnig darn hollbwysig o'r dystiolaeth a drafodir ym mhennod V ynghylch *provenance* Llyfr Du Caerfyrddin. Yn wir, gwelir bod y bennod honno – yn enwedig y rhan sy'n trafod y Llyfr Du – yn dwyn ynghyd sawl edefyn a bod ynddi le canolog i nifer o wrthrychau'r penodau blaenorol. Un o'r rheini yw William Salesbury, prif wrthrych pennod III; cynigir y posibilrwydd mai trwy'r cysylltiad a ddatblygodd yn yr 1560au rhyngddo ef a Gruffydd Dwinn o Ystradmerthyr, perchennog llyfrgell Gymraeg fwyaf nodedig ei ddydd, y bu i'r Llyfr Du gyrraedd gogledd-ddwyrain Cymru yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg. Y mae'n rhyfedd, mewn gwirionedd, nad oes unrhyw dystiolaeth fod Thomas Wiliems, prif wrthrych pennod IV a chyfaill agos i Salesbury yn ei ieuenctid, wedi gweld y Llyfr Du, a hynny er gwaethaf y ffaith fod ei rwydweithiau ef a'r eiddo Salesbury (ac yn ddiweddarach Simwnt Fychan, David Johns a'u cylch) yn gorgyffwrdd i raddau helaeth.

Tua diwedd pennod V, eto yng nghyd-destun Llyfr Du Caerfyrddin, cynigir yn betrus i'r Llyfr Du fod yn eiddo am gyfnod i'r bardd Lewys Glyn Cothi, prif wrthrych pennod I. Y mae Lewys yn llinyn cyswllt hollbwysig sy'n cyrchu sawl agwedd ar y traethawd hwn. Yn y bennod sy'n ymdrin â'i lawysgrifau ef, rhoddir cryn dipyn o sylw i'r syniad y gall llawysgrifen unigolyn newid yn bur sylweddol dros amser, heb sôn am arferion mwy cyffredinol fel ysgrifennu *textura* ar femrwn ac *anglicana* ar bapur, fel yn achos Gutun Owain, er enghraifft. Y mae'r syniad hwnnw'n gwbl ganolog i'r trafodaethau a geir ym mhenodau III a IV, lle y dangosir y gellir priodoli rhagor o lawysgrifau i ddau ysgrifwr tra adnabyddus, sef William Salesbury a Thomas Wiliems. Dadleuir dros briodoli pum llawysgrif 'newydd' i Salesbury, llawysgrifau sydd, mewn gwirionedd, wedi bod yn hysbys i ysgolheigion er degawdau lawer ond na

sylweddolwyd mai Salesbury a'u lluniodd oherwydd bod y llawysgrifen a'r orgraff yn dra gwahanol i lawysgrifau diweddarach Salesbury. Yn achos Thomas Wiliems, dangosir bod y dystiolaeth o blaid credu mai ef yw'r ysgrifwr anhysbys y rhoddwyd iddo'r siglwm 'X51' yn *RWMS*, sef yr un a aeth ati yn 1566, yn llys esgob Bangor, i lunio 'Llyfr Bicar Wocking' (Card. 2.114), un o flodeugerddi Cymraeg pwysicaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Er mwyn derbyn yr awgrym hwn, buasai'n rhaid derbyn bod llawysgrifen Wiliems wedi newid yn sylweddol rhwng 1566 ac 1574, gan ddatblygu o law ysgrifenyddol anystwyth i law italig osgeiddig; buasai'r newid hwn yn gyson â'r dyb iddo dreulio amser yn Rhydychen yn y cyfnod hwn. Yr oedd eisoes yn hysbys fod Wiliems wedi treulio amser ym Mangor yn ei ieuencid, ond os cywir yr awgrymir mai ef yw X51, gellir cywain llawer mwy o wybodaeth am ei addysg gynnar ac am ddylanwad ambell unigolyn yn llys esgob Bangor ar drywydd ei yrfa.

Cynigir yn y traethawd hwn nifer o ddarganfyddiadau newydd, ac amcenir at amlinellu'r dystiolaeth yn ofalus. At hyn, gwyntyllir sawl awgrym nad oes modd ei brofi'n derfynol ond y gellir dadlau bod y dystiolaeth, at ei gilydd, o'i blaid. Dichon y daw rhagor o wybodaeth i'r fei maes o law i gadarnhau rhai o'r awgrymiadau hyn; diau fod ambell awgrym arall yn gyfeiliornus. Fel y sonnir yn y Diolchiadau, y mae ar y gwaith hwn ddyled ddifedur i *Repertory* Daniel Huws, lle y sonnir (I, t.xxxii) am y 'patience and perserverance' sy'n angenrheidiol er mwyn cadarnhau ambell syniad nad oedd gynt ond teimlad greddfoll. Dros amser, trwy amynedd a chydag ychydig o lwc o bryd i'w gilydd, y mae'n anorfod y daw rhagor yn hysbys inni am y rhwydweithiau a drafodir yn y traethawd hwn, gan arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o'r llawysgrifau, y testunau a ddiogelwyd ynddynt a'r ysgrifwyr a'u lluniodd.

## *Llyfryddiaeth*

### *i. Llawysgrifau*

#### ABERYSTWYTH: LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Brogyntyn I.9	NLW 3029B ( <i>olim</i> Mostyn 110)
Brogyntyn I.10	NLW 3036B ( <i>olim</i> Mostyn 117)
Brogyntyn I.11	NLW 3049D ( <i>olim</i> Mostyn 146)
Chirk Castle F 11549	NLW 3050D ( <i>olim</i> Mostyn 147)
Coed Coch & Trovarth Estate Records 943	NLW 3051D ( <i>olim</i> Mostyn 148)
Cwrtmawr 3	NLW 3063E ( <i>olim</i> Mostyn 184)
Cwrtmawr 315	NLW 3066E ( <i>olim</i> Mostyn 212)
Cwrtmawr 530	NLW 3562D ( <i>olim</i> Puleston 2)
Esgair and Pantperthog 2	NLW 3567B ( <i>olim</i> Puleston 7)
Hafodgaregog & Trefan Estate Records 418	NLW 4973B
Llanstephan 5	NLW 5262A ( <i>olim</i> Dingestow 2)
Llanstephan 7	NLW 5266B ( <i>olim</i> Dingestow 6)
Llanstephan 27	NLW 5269B ( <i>olim</i> Dingestow 9)
Llanstephan 32	NLW 5276D
Llanstephan 39	NLW 5278B
Llanstephan 40	NLW 5281B
Llanstephan 41	NLW 5284C
Llanstephan 68	NLW 5546B
Llanstephan 105	NLW 6434D
Llanstephan 116	NLW 6680B
Llanstephan 120	NLW 8497B
Llanstephan 133	NLW 9092D ( <i>olim</i> Panton Papers 42)
Llanstephan 145	NLW 9093D ( <i>olim</i> Panton Papers 43)
Llanstephan 156	NLW 9094A ( <i>olim</i> Panton Papers 44)
Llanstephan 163	NLW 9095B ( <i>olim</i> Panton Papers 45; Panton 70)
Llanstephan 169	NLW 11610D
Llanstephan 187	NLW 12389E
Llanstephan 195	NLW 13136A
NLW 31B	NLW 13139A
NLW 309E	NLW 13181B
NLW 727D	NLW 17115E ( <i>olim</i> Gwysaney 27)
NLW 872D ( <i>olim</i> Wrexham 1)	NLW 16962–3A
NLW 1983B ( <i>olim</i> Panton 14)	NLW 16964A
NLW 1986B ( <i>olim</i> Panton 17)	NLW 21001B
NLW 1996B ( <i>olim</i> Panton 27)	NLW 21291E
NLW 2031B ( <i>olim</i> Panton 65)	NLW 21294B
NLW 3020D ( <i>olim</i> Mostyn 172)	NLW 21469A
NLW 3024C ( <i>olim</i> Mostyn 83)	Peniarth 1
NLW 3026C ( <i>olim</i> Mostyn 88)	Peniarth 2

Peniarth 3  
Peniarth 4–5  
Peniarth 9  
Peniarth 10  
Peniarth 11  
Peniarth 14  
Peniarth 15  
Peniarth 16  
Peniarth 17  
Peniarth 20  
Peniarth 23  
Peniarth 26  
Peniarth 27ii  
Peniarth 29  
Peniarth 30  
Peniarth 32  
Peniarth 38  
Peniarth 39  
Peniarth 40  
Peniarth 41  
Peniarth 42  
Peniarth 44  
Peniarth 45  
Peniarth 46  
Peniarth 47  
Peniarth 49  
Peniarth 50  
Peniarth 51  
Peniarth 52  
Peniarth 53  
Peniarth 54  
Peniarth 55  
Peniarth 59  
Peniarth 60  
Peniarth 62  
Peniarth 67  
Peniarth 70  
Peniarth 74  
Peniarth 77  
Peniarth 84  
Peniarth 94  
Peniarth 98  
Peniarth 99  
Peniarth 107

Peniarth 110  
Peniarth 111  
Peniarth 109  
Peniarth 113  
Peniarth 114  
Peniarth 119  
Peniarth 122  
Peniarth 126  
Peniarth 132  
Peniarth 133  
Peniarth 134  
Peniarth 155  
Peniarth 157  
Peniarth 158  
Peniarth 165  
Peniarth 175  
Peniarth 182  
Peniarth 183  
Peniarth 187  
Peniarth 189  
Peniarth 190  
Peniarth 194  
Peniarth 225  
Peniarth 226  
Peniarth 227  
Peniarth 228  
Peniarth 233i  
Peniarth 236  
Peniarth 252  
Peniarth 254  
Peniarth 258  
Peniarth 259A  
Peniarth 259B  
Peniarth 263  
Peniarth 267  
Peniarth 316  
Peniarth 326  
Peniarth 335  
Peniarth 383  
Peniarth 401  
Peniarth Estate PB 4  
Wynnstay 1  
Wynnstay 10  
Wynnstay 36

BANGOR: ARCHIFAU A CHASGLIADAU ARBENNIG PRIFYSGOL BANGOR

Gwyneddon 3  
Gwyneddon 4  
Mostyn 2

Mostyn 5  
Mostyn 17



CAERDYDD: LLYFRGELL GANOLOG CAERDYDD

1.1 ( <i>RMWL</i> 23)	3.4 ( <i>RMWL</i> 5)
1.5	3.77 ( <i>RMWL</i> 25)
1.7 ( <i>RMWL</i> 15)	4.20
1.362 ( <i>RMWL</i> Havod 2)	4.21
2.8 ( <i>RMWL</i> 22)	4.22 ( <i>RMWL</i> 36)
2.26 ( <i>RMWL</i> 18)	4.30
2.36	4.37
2.39 ( <i>RMWL</i> 21)	4.76
2.40 ( <i>RMWL</i> 26)	4.83
2.81 ( <i>RMWL</i> 1)	4.91
2.114 ( <i>RMWL</i> 7)	4.330 ( <i>RMWL</i> Havod 26)
2.324	

CAER-GRAWNT: CORPUS CHRISTI COLLEGE

104	199
114	

CAER-GRAWNT: TRINITY COLLEGE

R. 15. 21

HENFFORDD: EGLWYS GADEIRIOL

P. V. I

LLUNDAIN: THE BRITISH LIBRARY

Add. 4787	Add. 15041
Add. 14866 ( <i>RMWL</i> 29)	Add. 15045
Add. 14869 ( <i>RMWL</i> 19)	Add. 15060
Add. 14871 ( <i>RMWL</i> 20)	Add. 18233
Add. 14875 ( <i>RMWL</i> 30)	Add. 19713
Add. 14882 ( <i>RMWL</i> 31)	Add. 22356 ( <i>RMWL</i> 9)
Add. 14883 ( <i>RMWL</i> 56)	Add. 31055 ( <i>RMWL</i> 32)
Add. 14884 ( <i>RMWL</i> 56)	Cotton Vitellius C.x
Add. 14905	Cotton Vitellius E.v
Add. 14907	Cotton Vitellius F.ix
Add. 14912	Cotton Vespasian E.ix
Add. 14913 ( <i>RMWL</i> 26)	Cotton Vespasian E.xi ( <i>RMWL</i> 12)
Add. 14923	Cotton Titus F.iii
Add. 14925	Cotton Domitian A.i
Add. 14931 ( <i>RMWL</i> 4)	Cotton Domitian A.v
Add. 14963	Cotton Domitian A.viii ( <i>RMWL</i> 3)
Add. 14967 ( <i>RMWL</i> 23)	Cotton Cleopatra B.v ( <i>RMWL</i> 15)
Add. 14986	Cotton Roll xiii.38
Add. 15021	Cotton Roll xiv.1
Add. 15022	Hargrave 313 ( <i>RMWL</i> 2)

Harley 374  
Harley 376  
Harley 378  
Harley 473  
Harley 541  
Harley 641  
Harley 651  
Harley 1751  
Harley 1867

Harley 2288  
Harley 2291  
Harley 2407  
Harley 4181  
Harley 4872  
Harley 6533  
Royal 13.D.v  
Royal 14.A.xxiv  
Stowe 959 (*RMWL* 48)

LLUNDAIN: THE NATIONAL ARCHIVES

E 164/2

NORTHAMPTON: NORTHAMPTONSHIRE ARCHIVES

FH/7  
IL/3357

IL/3367  
IL/3390

PENARLÂG: ARCHIFAU GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

D/LE 1389

RHYDYCHEN: BALLIOL COLLEGE

260  
353

RHYDYCHEN: BODLEIAN LIBRARY

e Mus. 93  
Laud Lat. 4  
Phillipps-Robinson c. 555

Rawlinson B. 467  
Rawlinson C. 821  
Welsh f. 2

RHYDYCHEN: JESUS COLLEGE

20 (*RMWL* 3)  
57 (*RMWL* 4)

111 (*RMWL* 1)  
119 (*RMWL* 2)

RHYDYCHEN: NEW COLLEGE

317

RHYDYCHEN: THE QUEEN'S COLLEGE

304

ii. *Llyfrau, erthyglau, traethodau*

- Alston, R.C., *Books with Manuscript. A Short Title Catalogue of Books with Manuscript Notes in the British Library* (London: The British Library, 1994)
- Andrews, Rh.M., *et al.* (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996)
- Antur, G., ‘Dafydd ab Edmwnd’, *Dwned*, 22 (2016), 92–5
- , ‘Ieuan ap Madog ap Rhys’, *Dwned*, 22 (2016), 83–8
- Ashton, C., *Bywyd ac Amserau yr Esgob William Morgan* (Treherbert: Yr Awdwr, 1891)
- Ashton, G.M. (gol.), *Hunangofiant a Llythyrau Twm o’r Nant* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948)
- Bachelery, E. (gol.), *L’œuvre Poétique de Gutun Owain* (Paris: Librairie Ancienne Honoré Champion, 1950–1)
- Balderston, G., ‘William Thomas, Steward of the “Marybone” Estate’, *The Georgian Group Journal*, 14 (2004), 287–307
- Ballinger, J., a J.I. Jones, *The Bible in Wales* (London: Henry Sotheran & Co., 1906)
- Bartrum, P.C. (gol.), *Early Welsh Genealogical Tracts* (Cardiff: University of Wales Press, 1966)
- , ‘Genealogical Sources Quoted by Gruffudd Hiraethog’, *CLIGC*, 26 (1989–90), 1–9
- , *A Welsh Classical Dictionary* (Aberystwyth: National Library of Wales, 1993)
- , *Welsh Genealogies AD 300–1400*, 8 cyf. (Cardiff: University of Wales Press, 1974)
- , *Welsh Genealogies AD 1400–1500*, 18 cyf. (Aberystwyth: National Library of Wales, 1983)
- Bowen, D.J., ‘Y Canu i Gwilym ap Gruffudd (m.1431) o’r Penrhyn a’i fab Gwilym Fychan (m.1483)’, *Dwned*, 8 (2002), 59–78
- , ‘Croesoswallt y Beirdd’, *Y Traethodydd*, 135 (1980), 137–43
- , ‘Dafydd ab Edmwnd ac Eisteddfod Caerfyrddin’, *Barn*, 142 (Awst 1974), 441–8
- , *Gruffudd Hiraethog a’i Oes* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1958)
- , ‘Guto’r Glyn a Glyn-y-groes’, *YB*, 20 (1995), 149–82
- (gol.), *Gwaith Gruffudd Hiraethog* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1990)
- , ‘Lewis Morgannwg, Gruffudd Hiraethog a William Salesbury’, *LIC*, 16 (1989–91), 385–9
- , ‘Lle claddwyd Dafydd ap Gwilym’, *Barddas*, 89 (Medi 1984), 7–8

- Bowen, G., “‘Lhyuran or Sacrauen o Benyd”, Thomas Wiliems o Drefriw’, *CLIGC*, 13 (1963–4), 300–5
- Bradney, J., ‘Dr. John Dee’, *Transactions of the Radnorshire Society*, 3 (1933), 10–14
- Breeze, A., ‘Master John of St Davids, a New Twelfth-Century Poet?’, *BBCS*, 40 (1993), 73–82
- , *Medieval Welsh Literature* (Dublin: Four Courts Press, 1997)
- Bromwich, R., *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff: University of Wales Press, 1986)
- , ‘Y Cynfeirdd a’r Traddodiad Cymreig’, *BBCS*, 22 (1966–8), 30–7
- (gol. a chyf.), *Trioedd Ynys Prydein / The Triads of the Island of Britain*, pedwerydd arg. (Cardiff: University of Wales Press, 2014)
- *et al.* (gol.), *The Arthur of the Welsh. The Arthurian Legend in Medieval Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press, 1991)
- Bromwich, R., a D.S. Evans (gol.), *Culhwch ac Olwen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1988)
- Bromwich, R., T. Parry a D.J. Bowen, ‘Ai yn Nhalylychau y claddwyd Dafydd ap Gwilym?’, *Barddas*, 87/88 (Gorffennaf/Awst 1984), 14–16
- Bryant-Quinn, M.P., “‘Aur yw pris y wisg’: Llywelyn ap Morgan a’r Grog yn Aberhonddu’, *Dwned*, 16 (2010), 51–91
- (gol.), *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2003)
- Burdett-Jones, M., ‘Building the palace: Dr Humphrey Foulkes’s attempt to continue Edward Lhuyd’s work’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 58 (2010), 11–22
- , “‘Catalogus authorum Britannicorum’ Thomas Wiliems”, *CLIGC*, 27 (1991–2), 109–110
- , ‘Diarhebion Cymraeg a Thomas Wiliems o Drefriw’, *Y Traethodydd*, 152 (1997), 37–47
- , ‘Humphrey Foulkes: uchelgais heb ei gyflawni’, *Y Traethodydd*, 164 (2009), 18–33
- , ‘Sacrafen Penyd’, *YB*, 13 (1985), 227–31
- , ‘Tri chyfeiriad llenyddol yn llyfr diarhebion Thomas Wiliems’, *YB*, 18 (1992), 160–3
- Burton, J., a K. Stöber, *Abbeys and Priories of Medieval Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2015)
- Chadwick, M., S.W. Clavier a S. Evans, ‘Introduction: Books and Manuscripts in Wales’, *CHC*, 31 (2022–), 1–16
- Chadwick, M., a S. Evans, “‘Ye Best Tast of Books & Learning of Any Other Country Gentn’. The Library of Thomas Mostyn of Gloddaith, c.1676–1692’, yn A. Bautz a J. Gregory

- (gol.), *Libraries, Books, and Collectors of Texts, 1600–1900* (London & New York: Routledge, 2018), tt.87–103
- Chotzen, Th.M., ‘Deux Traductions Galloises’, *Études Celtiques*, 2 (1937), 304–33
- Costigan, N.G., *et al.* (gol.), *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1995)
- Daniel, R.I. (gol.), *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1998)
- (gol.), *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2002)
- (gol.), *Gwaith Llawdden* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2006)
- Davies, A.E. (gol.), *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992)
- Davies, C., *Latin Writers of the Welsh Renaissance* (Cardiff: University of Wales Press, 1981)
- , ‘Polidor Vergil, Syr John Prise ac Urddas y Cymry’, yn G.H. Jenkins (gol.), *Cof Cenedl XX: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005), tt.33–64
- (gol. a chyf.), *Rhagymadroddion a Chyflwyniadau Lladin 1551–1632* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1980)
- , ‘The sixteenth-century Latin translation of Historia Gruffud vab Kenan’, yn K.L. Maund (gol.), *Gruffudd ap Cynan: A Collaborative Biography* (Woodbridge: The Boydell Press, 1996), tt.157–64
- , ‘Syr John Prise ac Amddiffyn Hanes Prydain’, *Y Traethodydd*, 158 (2003), 164–85
- , ‘Syr Siôn Prys: Canoloeswr ynteu Dyneiddiwr?’, *Gwerddon*, 24 (2017), 8–21
- , ‘Two Welsh Renaissance Latinists: Sir John Prise of Brecon and Dr John Davies of Mallwyd’, yn C. Burnett a N. Mann (gol.), *Britannia Latina. Latin in the Culture of Great Britain from the Middle Ages to the Twentieth Century* (London: The Warburg Institute & Torino: Nino Aragno Editore, 2005), tt.129–44
- , *Welsh Literature and the Classical Tradition* (Cardiff: University of Wales Press, 1995)
- Davies, C., a M. Burdett-Jones, ‘Cyfraniad Humphrey Foulkes at Archæologia Britannica Edward Lhuyd’, *Y Llyfr yng Nghymru*, 8 (2007), 7–32
- Davies, E.R.Ll., ‘Teulu Ifor Hael a’r Traddodiad Nawdd. I – Llinach Rhydodyn’, *YB*, 12 (1982), 143–9

- Davies, J., *Bywyd a Gwaith Moses Williams (1685–1742)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1937)
- [Davies, J.H.], ‘The Hengwrt Library of Printed Books’, *JWBS*, 1 (1910–14), 76–83, 123–8
- (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Mon) 1728–1765*, 2 gyf. (Aberystwyth: The Editor, 1907–9)
- Davies, W., a J. Jones (gol.), *Gwaith Lewis Glyn Cothi. The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi* (Oxford: The Cymmrodorion, or Royal Cambrian Institution, 1837)
- Davies, W.Ll., “‘John Thomas: A Forgotten Antiquary.’ A Postscript”, *JWBS*, 6 (1943–9), 65–7
- de Hamel, C., *Meetings with Remarkable Manuscripts* (London: Allen Lane, 2016)
- , *The Posthumous Papers of the Manuscripts Club* (London: Allen Lane, 2022)
- Denholm-Young, N., *Handwriting in England and Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1954)
- Doble, C.E., *et al.* (gol.), *Remarks and Collections of Thomas Hearne*, 11 cyf. (1885–1921)
- Dwnn, L., *Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches*, gol. Samuel Rush Meyrick, 2 gyf. (Llandoverly: William Rees, 1846)
- Edgar, I.Rh. (gol.), *Llysieulyfr Salesbury* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997)
- Edwards, H.M., ‘Murnio marwnadau: golwg ar y ffug-farwnad yng nghyfnod y cywydd’, *Dwned*, 5 (1999), 47–70
- , ‘Y Trioedd Serch’, *Dwned*, 1 (1995), 25–39
- Eisner, S. (gol.), *A Treatise on the Astrolabe* (Norman: University of Oklahoma Press, 2002)
- Emden, A.B., *A Biographical Register of the University of Oxford to A.D. 1500*, 3 cyf. (Oxford: Clarendon Press, 1957)
- , *A Biographical Register of the University of Oxford A.D. 1501 to 1540* (Oxford: Clarendon Press, 1974)
- Evans, A.O., ‘Nicholas Robinson (1530?–1585)’, *Y Cymmrodor*, 39 (1928), 149–99
- Evans, D.F. (gol.), *Gwaith Hywel Swrdwal a’i Deulu* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2000)
- (gol.), *Gwaith Rhys Goch Eryri* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2007)
- Evans, G., ‘The Authorship of Drych Cydwybod [?1616]’, *THSC*, cyfres newydd, 17 (2011), 7–15
- , ‘A Lost Seventeenth-Century Welsh Book Rediscovered in Paris’, *THSC*, cyfres newydd, 15 (2009), 28–39

- , ‘William Salesbury and Welsh Printing in London Before 1557’, yn R. Kennedy a S. Meecham-Jones (gol.), *Authority and Subjugation in Writing of Medieval Wales* (New York: Palgrave Macmillan, 2008), tt.251–66
- Evans, J.G. (gol.), *Facsimile & Text of the Book of Aneirin* (Pwllheli: y golygydd, 1908)
- (gol.), *Facsimile & Text of the Book of Taliesin* (Llanbedrog: y golygydd, 1910)
- (gol.), *Facsimile of the Black Book of Carmarthen* (Oxford: y golygydd, 1888)
- (gol.), *Facsimile of the Chirk Codex of the Welsh Laws* (Llanbedrog: y golygydd, 1909 [1921])
- , *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, 2 gyf. (London: Her Majesty’s Stationery Office, 1898–1910)
- [Fenton, R.,] ‘A Catalogue of Curious and Valuable MSS. in Hengwrt Library, A.D. 1658’, *The Cambrian Register*, 3 (1818), 277–313
- Fisher, J. (gol.), *Kynniver Llith a Ban* (Cardiff: The University of Wales Press Board, 1931)
- Flower, R., ‘Richard Davies, William Cecil, and Giraldus Cambrensis’, *CLIGC*, 3 (1943–4), 11–14
- , ‘William Salesbury, Richard Davies, and Archbishop Parker’, *CLIGC*, 2 (1941–2), 7–14
- Ford, P.K. (gol.), *Ystoria Taliesin* (Cardiff: University of Wales Press, 1992)
- Friedman, J.B. (gol.), *John De Foxton’s Liber Cosmographiae (1408). An Edition and Codicological Study* (Leiden: Brill, 1988)
- , ‘John Siferwas and the Mythological Illustrations in the *Liber cosmographiae* of John de Foxton’, *Speculum*, 58 (1983), 391–418
- Fulton, H., ‘Editing Medieval Manuscripts for Modern Audiences’, yn O. Da Rold ac E. Treharne (gol.), *The Cambridge Companion to Medieval British Manuscripts* (Cambridge: Cambridge University Press, 2020), tt.187–213
- , ‘The Geography of Welsh Literary Production in Late Medieval Glamorgan’, *Journal of Medieval History*, 41 (2015), 325–40
- , ‘Literary Networks and Patrons in Late Medieval Wales’, yn G. Evans a H. Fulton (gol.), *The Cambridge History of Welsh Literature* (Cambridge: Cambridge University Press, 2019), tt.129–53
- , ‘The Red Book and the White: gentry libraries in medieval Wales’, yn A. Byrne a V. Flood (gol.), *Crossing Borders in the Insular Middle Ages* (Turnhout: Brepols, 2019), tt.23–45
- , ‘Sir John Prise and his Books: Manuscript Culture in the March of Wales’, *CHC*, 31 (2022– ), 55–78

- Fychan, C., 'Tudur Aled: ailystyried ei gynefin', *CLIGC*, 23 (1983–4), 45–74
- Garnett, G., *The Norman Conquest in English History. Volume I: A Broken Chain?* (Oxford: Oxford University Press, 2020)
- Gottfried, R.B., 'Antiquarians at work', *Renaissance News*, 11 (1958), 114–20
- Grant, A., 'The view from the fountain head: the rise and fall of John Gwenogvryn Evans' (traethawd DPhil heb ei gyhoeddi, Prifysgol Rhydychen, 2018)
- Greene, D., 'A Welsh Lapidary', *Celtica*, 2 (1956), 96–116
- Greenway, D. (gol. a chyf.), *Henry, Archdeacon of Huntingdon. Historia Anglorum (History of the English People)* (Oxford: Clarendon Press, 1996)
- Griffith, J.E., *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families (s.l.: The Author, 1914)*
- Griffith, W.P., 'Richard Fletcher of Bangor: an early seventeenth century Welsh student at Cambridge', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 39 (1978), 44–73
- Gruffydd, R.G., *Y Beibl a Droes i'w Bobl Draw* (Llundain: Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, 1988)
- , 'Canu Cadwallon ap Cadfan', yn R. Bromwich a R.B. Jones (gol.), *Astudiaethau ar yr Hengerdd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1978), tt.25–43
- , 'Cyntefin Ceinaf Amser o Lyfr Du Caerfyrddin', *YB*, 4 (1969), 12–26
- , 'Y print yn dwyn ffrwyth i'r Cymro: *Yny Lhyvyr Hwnn*, 1546', *Y Llyfr yng Nghymru*, 1 (1998), 1–20
- , 'Wales's second grammarian: Dafydd Ddu of Hiraddug', *Proceedings of the British Academy*, 90 (1995), 1–28
- , '*Yny lhyvyr hwnn* (1546): the earliest Welsh printed book', *BBCS*, 23 (1968–70), 105–16
- , a Rh. Ifans (gol.), *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1997)
- Gunther, R.T., *Early Science in Oxford. Vol. XIV. Life and Letters of Edward Lhwyd* (Oxford: Oxford University Press, 1945)
- Guy, B., '*Brut Ieuan Brechfa*: A Welsh Poet Writes the Early Middle Ages', yn *CMWM*, tt.375–419
- , 'A Lost Medieval Manuscript from North Wales: Hengwrt 33, The Hanesyn Hên', *SC*, 50 (2016), 69–105
- , *Medieval Welsh Genealogy. An Introduction and Textual Study* (Woodbridge: The Boydell Press, 2020)
- *et al.* (gol.), *The Chronicles of Medieval Wales and the March. New Contexts, Studies, and Texts* (Turnhout: Brepols, 2020)



- Hallam, T., ‘Ysgrifenu Lewys Glyn Cothi’, *LIC*, 23 (2000), 74–94
- Harper, S., *Music in Welsh Culture Before 1650. A Study of the Principal Sources* (Aldershot: Ashgate, 2007)
- Harries, L. (gol.), *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953)
- Haycock, M. (gol.), *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar (s.l.: Cyhoeddiadau Barddas, 1994)*
- (gol. a chyf.), *Legendary Poems from the Book of Taliesin*, ail arg. (Aberystwyth: CMCS, 2015)
- , ‘Lewis Glyn Cothi and Radnorshire’, *Transactions of the Radnorshire Society*, 64 (1994), 25–35
- , ‘Llyfr Taliesin’, *CLIGC*, 25 (1987–8), 357–81
- (gol. a chyf.), *Prophecies from the Book of Taliesin* (Aberystwyth: CMCS, 2013)
- Heyworth, P.L. (gol.), *Letters of Humfrey Wanley. Palaeographer, Anglo-Saxonist, Librarian, 1672–1726* (Oxford: Clarendon Press, 1989)
- Hobson, L., ‘Recovering the White Book of Hergest: A Survey of Manuscripts in Estate Collections at the National Library of Wales’ (traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Aberystwyth, 2020)
- Hughes, G.H., ‘Y Dwniaid’, *THSC*, 1941, 115–49
- , *Iaco ab Dewi 1648–1722* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953)
- (gol.), *Rhagymadroddion 1547–1659* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1951)
- Hughes, W., *Life and Times of Bishop William Morgan* (London: SPCK, 1891)
- Hurlock, K., ‘Reading Medieval Wales: David Powel’s *Historie of Cambria* (1584) and Its Readers’, yn R. Oates a J.G. Purdy (gol.), *Communities of Print. Books and Their Readers in Early Modern Europe* (Leiden: Brill, 2022), tt.178–93
- Huws, B.O., ac A.C. Lake (gol.), *Genres y Cywydd (s.l.: Y Golygyddion, 2016)*
- Huws, D., ‘Canu Aneirin: the other manuscripts’, yn B.F. Roberts (gol.), *Early Welsh Poetry. Studies in the Book of Aneirin* (Aberystwyth: National Library of Wales, 1988), tt.43–56
- , *Cynnull y Farddoniaeth* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2004)
- , ‘From song to script in medieval Wales’, *Quaestio Insularis*, 9 (2008), 1–16
- , ‘Gildas Preisei’, *CLIGC*, 17 (1971–2), 314–20

- , ‘Yr Hen Risiart Langfford’, yn M.E. Owen a B.F. Roberts (gol.), *Beirdd a Thywysogion. Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a’r Alban* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru & Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1996), tt.302–25
- , ‘John Davies and his Manuscripts’, yn C. Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd. Welsh Renaissance Scholar* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), tt.88–120
- , ‘John Wynn’s History of the Gwydir Family: the manuscript texts’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 74–5 (2013–14), 36–43
- , ‘Llawysgrif Hendregadredd’, *CLIGC*, 22 (1981–2), 1–26
- (gol.), *Llyfr Aneirin: ffacsimile* (Caerdydd: Cyngor Sir De Morgannwg & Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1989)
- , *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff: University of Wales Press & Aberystwyth: The National Library of Wales, 2000)
- , *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–c.1800*, 3 cyf. (Aberystwyth: National Library of Wales & University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, 2022)
- , ‘The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym’, yn *MWM*, tt.84–103
- , ‘Twm Siôn Cati’, *Carmarthenshire Antiquary*, 45 (2009), 39–45
- , ‘Wiliam Llŷn, Rhys Cain a Stryd Wylyw’, *CLIGC*, 18 (1973–4), 147–8
- , *William Salesbury and the Welsh Laws* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Coleg Prifysgol Cymru, 1980)
- Ifans, Rh. (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a’r Llygliwiaid Eraill* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2000)
- Jacobs, N., ‘Amrywiad mewn traddodiad llafar: rhai agweddau ar hanes testunol “Marwnad Angharad”’, *Dwned*, 26 (2020), 25–40
- James, C., ‘Ban wedy i dynny: Medieval Welsh Law and Early Protestant Propaganda’, *CMCS*, 27 (1994), 61–86
- , ‘Hopcyn ap Tomos a “Llyfrgell Genedlaethol” Ynysforgan’, *THSC*, cyfres newydd, 13 (2007), 31–57
- , “‘Llwyr wybodau, llên a llyfrau’: Hopcyn ap Tomas a’r Traddodiad Llenyddol Cymraeg’, yn H.T. Edwards (gol.), *Cwm Tawe* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1993), tt.4–44
- , ‘Ysgrifydd anhysbys: proffil personol’, *YB*, 23 (1997), 44–72
- James, D.L., ‘Bywyd a gwaith Huw Machno’ (traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1960)
- Jarman, A.O.H. (gol.), *Llyfr Du Caerfyrddin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1982)

- , ‘Llyfr Du Caerfyrddin / The Black Book of Carmarthen’, *Proceedings of the British Academy*, 71 (1985), 333–56
- (gol.), *Ymddiddan Myrddin a Thaliesin (o Lyfr Du Caerfyrddin)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1951)
- Jenkins, G.H., *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar 1530–1760* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1983)
- *et al.* (gol.), *The Correspondence of Iolo Morganwg*, 3 cyf. (Cardiff: University of Wales Press, 2007)
- Johnston, D., ‘Bywyd Marwnad: Gruffudd ab yr Ynad Coch a’r Traddodiad Llafar’, yn I. Daniel *et al.* (gol.), *Cyfoeth y Testun. Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003), tt.200–19
- , ‘Cywydd Newydd gan Lewys Glyn Cothi’, *Dwned*, 18 (2012), 49–60
- , ‘Dafydd ap Gwilym and Oral Tradition’, *SC*, 37 (2003), 143–61
- (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995)
- (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1998)
- , ‘Lewys Glyn Cothi, clerwr Dyffryn Tywi’, *THSC*, cyfres newydd, 3 (1997 ar gyfer 1996), 9–20
- , *Llên yr Uchelwyr*, ail arg. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014)
- , ‘Traddodiad y Llawysgrifau’, yn *DG.net*
- , ‘Trosglwyddiad Cerddi Guto’r Glyn’, yn D.F. Evans *et al.* (gol.), *Gwalch Cywyddau Gwŷr. Ysgrifau ar Guto’r Glyn a Chymru’r Bymthegfed Ganrif* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2014), tt.21–51
- , ‘Welsh bardic miscellanies’, yn M. Connolly a R.L. Radulescu (gol.), *Insular Books: vernacular miscellanies in late medieval Britain* (Oxford: Oxford University Press, 2015), tt.193–207
- Johnston, D.R. (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1988)
- Jones, D.G. (gol.), *Yr Areithiau Pros* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1934)
- Jones, E.D., ‘A Brief History of the Hengwrt-Peniarth Collection’, yn *Handlist*, I, tt.iii–xiv
- , ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts IX’, *CLIGC*, 7 (1951–2), 1–11
- , ‘The Cefn Llys poems of Lewis Glyn Cothi’, *Transactions of the Radnorshire Society*, 6 (1936), 15–27
- (gol.), *Gwaith Lewis Glyn Cothi: y gyfrol gyntaf* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru & Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1953)

- , ‘Jaspas Griffith (Gryffyth), Warden of Ruthin (d. 1614)’, *CLIGC*, 1 (1939–40), 168–70
- , ‘Lewis Glyn Cothi’, yn A.O.H. Jarman a G.R. Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature 1282–c.1550*, adolygydd gan D. Johnston (Cardiff: University of Wales Press, 1997), tt.222–39
- (gol.), *Lewys Glyn Cothi (Detholiad)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1984)
- , ‘Llyfr Amrywiaeth Syr Siôn Prys’, *Brycheiniog*, 8 (1962), 97–104
- , ‘Old catalogues of the Hengwrt manuscripts’, yn *Handlist*, I, tt.xv–xxiii
- , ‘Thomas Lloyd y Geiriadurwr’, *CLIGC*, 9 (1955–6), 180–7
- , ‘A Welsh pencerdd’s manuscripts’, *Celtica*, 5 (1960), 18–27
- , ‘The Family Papers of Owen and Stanley of Penrhos, Holyhead’, *BBCS*, 17 (1956–8), 99–115
- Jones, F., ‘An Approach to Welsh Genealogy’, *THSC*, 1948, 303–466
- , ‘Hugh Thomas, Deputy-Herald’, *THSC*, 1961, 45–71
- Jones, G.P., ‘A list of epithets from Welsh pedigrees’, *BBCS*, 3 (1926–7), 31–48
- Jones, H.Ll., ac E.I. Rowlands (gol.), *Gwaith Iorwerth Fynglwyd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1975)
- Jones, J.G., ‘Educational activity among the Wynns of Gwydir’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 42 (1981), 7–48
- , *The Wynn Family of Gwydir. Origins, Growth and Development c.1490–1674* (Aberystwyth: CAA, 1995)
- Jones, J.M., a J. Rhÿs (gol.), *The Elucidarium and Other Tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi, A.D. 1346 (Jesus College MS. 119)* (Oxford: Clarendon Press, 1894)
- Jones, M., ‘Byd y Beirdd, sef ymchwiliad i amgylchfyd a diddordebau Beirdd yr Uchelwyr yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a’r bymthegfed ganrif’ (traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1983)
- Jones, N., ‘“Mr. Jones” and Francis Tate’, *THSC*, 1968, 99–109
- Jones, N.A., ac A. Parry Owen (gol.), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr II* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995)
- Jones, N.A., ac E.H. Rheinallt (gol.), *Gwaith Sefnyn, Rhisiardyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1995)
- Jones, N.A., a M.E. Owen, ‘John Davies and the Poets of the Princes: *Cognoscere, Intellegere, Scire*’, yn C. Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd. Welsh Renaissance Scholar* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), tt.171–207

- Jones, O.W., 'O Oes Gwrtheyrn: A Medieval Welsh Chronicle', yn *CMWM*, tt.169–229
- Jones, P.H., ac E. Rees (gol.), *A Nation and its Books. A History of the Book in Wales* (Aberystwyth: National Library of Wales, 1998)
- Jones, R.B., *William Salesbury* (Cardiff: University of Wales Press, 1994)
- Jones, T., 'Chwedl yr Anifeiliaid Hynaf', *CLIGC*, 7 (1951–2), 62–6
- , 'Testun Llyfr Gwyn Hergest o'r "Bibyl Ynghymraec"', *BBCS*, 10 (1939–41), 15–21
- Jones, T.G. (gol.), *Gwaith Tudur Aled*, 2 gyf. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1926)
- Jones-Davies, J. (gol.), *Hugh Thomas' Essay Towards the History of Brecknockshire 1698* (Brecon: [?y golygydd], 1967)
- Jones-Roberts, K.W., 'D.R. Daniel, 1859–1931', *CCHChSF*, 5 (1965–8), 58–77
- Kelly, S.E. (gol.), *Charters of St Augustine's Abbey, Canterbury, and Minster-in-Thanel* (Oxford: Oxford University Press, 1995),
- Ker, N.R., *Books, Collectors, and Libraries. Studies in the Medieval Heritage*, gol. Andrew G. Watson (London & Ronceverte: The Hambledon Press, 1985)
- (gol.), *Medieval Libraries of Great Britain. A List of Surviving Books*, ail arg. (London: Offices of the Royal Historical Society, 1964)
- (gol.), *Medieval Libraries of Great Britain. A List of Surviving Books. Supplement to the Second Edition*, gol. Andrew G. Watson (London: Offices of the Royal Historical Society, 1987)
- , 'Sir John Prise', *The Library*, 5ed gyfres, 10 (1955), 1–24
- Kidd, P., *A Descriptive Catalogue of the Medieval Manuscripts of the Queen's College, Oxford* (Oxford: The Oxford Bibliographical Society, 2016),
- Koch, J. (gol. a chyf.), *Cunedda, Cynan, Cadwallon, Cynddylan. Four Welsh Poems and Britain 383–655* (Aberystwyth: University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, 2013)
- Lake, A.C., *Beirdd, Prydyddion a Baledwyr y Ddeunawfed Ganrif* (Aberaeron: Llyfrau Caer Heli, 2022)
- , 'Dau o'r Deheuwr: Hywel Dafï a Lewys Morgannwg', *LIC*, 38 (2015–16), 12–27
- , 'The fifteenth-century poet Hywel Dafï and his connection with Breconshire', *Brycheiniog*, 46 (2015), 67–82
- (gol.), *Gwaith Hywel Dafï*, 2 gyf. (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2015)
- (gol.), *Gwaith Lewys Morgannwg*, 2 gyf. (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2004)

- (gol.), *Gwaith Mathau Brwmffild* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2002)
- (gol.), *Gwaith Siôn ap Hywel* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1999)
- , “O gedais lythyr yn eisiau”: llawysgrif Peniarth 67 a’i disgynyddion’, *LIC*, 37 (2014/15), 1–18
- Lampitt, M.S., ‘Networking the March: The Literature of the Welsh Marches, c.1180–c.1410’ (traethawd DPhil heb ei gyhoeddi, King’s College London, 2019)
- Leitch, D. (gol.), *Brecknock Monumental Inscriptions of the 16th and 17th Centuries Originally Transcribed by Hugh Thomas Between 1699 & 1704* (s.l.: Powys Family History Society, 1995)
- Lewis, A., ‘Ieuan Fardd a’r Gwaith o Gyhoeddi Hen Lenyddiaeth Cymru’, *JWBS*, 8 (1954–7), 120–47
- Lewis, B.J. (gol.), *Gwaith Gruffudd ap Maredudd II. Cerddi Crefyddol* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2005)
- , ac E. Salisbury (gol.), *Gwaith Gruffudd Gryg* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2010)
- Lewis, H. (gol.), *Brut Dingestow* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1942)
- , ‘Llythyr William Salesbury at Ruffudd Hiraethog’, *BBCS*, 2 (1923–5), 113–18
- , ‘Salomon et Marcolfus’, *BBCS*, 3 (1926–7), 161–76, 272–85
- Lewis, S., *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1932)
- Lhuyd, E., *Archaeologia Britannica. Vol. I. Glossography* (Oxford: The Author, 1707)
- Livingston, M., a J.K. Bollard (gol.) *Owain Glyndŵr. A Casebook* (Liverpool: Liverpool University Press, 2013)
- Lloyd, D.M., ‘William Salesbury and “Epistol E. M. at y Cembra”’, *CLIGC*, 2 (1941–2), 14–16
- Lloyd, N., ‘A History of Welsh Scholarship in the first half of the Seventeenth century, with special reference to the writings of John Jones, Gellilyfdy’ (traethawd DPhil heb ei gyhoeddi, Prifysgol Rhydychen, 1970)
- , ‘John Jones, Gellilyfdy’, *Flintshire Historical Society Publications*, 24 (1969–70), 5–18
- , ‘Meredith Lloyd’, *JWBS*, 11 (1973–6), 133–92
- Lloyd-Morgan, C., ‘Manuscripts and the Monasteries’, yn J.E. Burton a K. Stöber (gol.), *Monastic Wales: New Approaches* (Cardiff: University of Wales Press, 2013), tt.209–27

- , ‘Writing without borders: multilingual content in Welsh miscellanies from Wales, the Marches and beyond’, yn M. Connolly a R.L. Radulescu (gol.), *Insular Books: vernacular miscellanies in late medieval Britain* (Oxford: Oxford University Press, 2015), tt.175–91
- Marx, W., ‘Aberystwyth, National Library of Wales, MS Peniarth 12: the development of a bilingual miscellany – Welsh and English’, yn M. Connolly a R.L. Radulescu (gol.), *Insular Books: vernacular miscellanies in late medieval Britain* (Oxford: Oxford University Press, 2015), tt.247–62
- , *The Index of Medieval Welsh Prose. Handlist XIV. Manuscripts in The National Library of Wales (Llyfrgell Genedlaethol Cymru), Aberystwyth* (Cambridge: D.S. Brewer, 1999)
- Mathias, W.A., ‘Canfod copi arall o Destament Salesbury’, *Y Casglwr*, 42 (Nadolig 1990), 15
- , ‘Geiriau’r Bywyd yn Gymraeg’, *Y Casglwr*, 40 (Mawrth 1990), 20
- , ‘Gweithiau William Salesbury’, *JWBS*, 7 (1950–3), 125–43
- , ‘Testament Newydd ein Arglwydd Jesu Christ. W. Alun Mathias yn cyfri’r copiau [*sic*]’, *Y Casglwr*, 41 (Awst 1990), 5
- , ‘William Salesbury – ei fywyd a’i weithiau’, yn G. Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1970), tt.27–53
- , ‘William Salesbury – ei ryddiaith’, yn G. Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1970), tt.54–78
- , ac E.W. James (gol.), *Dysg a Dawn. Cyfrol Goffa Aneirin Lewis* (Caerdydd: Cylch Llyfryddol Caerdydd, 1992)
- McKenzie, D.F. (gol.), *Stationers’ Company Apprentices 1641–1700* (Oxford: Oxford Bibliographical Society, 1974)
- McLaggan, Murray, ‘The Library at Merthyr Mawr. A Bibliomaniac Great-Grandfather’, *Bibliophily*, 2 (1986), 121–37
- Merrick, R., *Morganiae Archaiographia. A Book of the Antiquities of Glamorganshire*, gol. Brian Ll. James (Barry Island: South Wales Record Society, 1983)
- Mittendorf, I., ‘Sprachliche und orthographische Besonderheiten eines mittelkymrischen Textes aus dem 13. Jahrhundert (*Gwyrthyeu e Wynvydedic Veir*)’, yn Stefan Zimmer *et al.* (gol.), *Akten des zweiten deutschen Keltologen Symposiums (Bonn, 2–4 April 1997)* (Tübingen, 1999), tt.127–48
- Morgan, F.C., ‘The will of Sir John Prise of Hereford, 1555’, *CLIGC*, 9 (1955–6), 255–61
- Morgan, P., ‘Glamorgan and the Red Book’, *Morgannwg*, 22 (1978), 42–60

- Morrice, J.C., *Detholiad o Waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan* (Bangor: The Bangor Welsh MSS. Society, 1910)
- [Mounsey, W.H.], ‘Beddau y Beirdd’, *Y Brython*, 3 (1860), 137–8
- Mynors, R.A.B., *et al.* (gol.), *William of Malmesbury. Gesta Regvm Anglorvm. The History of the British Kings*, 2 gyf. (Oxford: Clarendon Press, 1998)
- Niebrzydowski, S., ‘Sir Thomas Mostyn and John Lydgate’s The Lyf of Our Lady: a Middle English devotional work and its north Walian afterlife’, *CHC*, 31 (2022– ), 79–100
- Noble, F., ‘The identification of Dr. John Dee as the author of Harleian MS. 473 from its Radnorshire references’, *Transactions of the Radnorshire Society*, 26 (1956), 40–2
- , ‘A letter from Dr. John Dee to a Radnorshire cousin in 1577 A.D.’, *Transactions of the Radnorshire Society*, 25 (1955), 15–16
- Olson, K.K., “‘Y Ganrif Fawr’”? Piety, Literature and Patronage in Fifteenth- and Sixteenth-Century Wales’, *Studies in Church History*, 48 (2012), 107–23
- Ovenden, R., ‘Jaspar Gryffyth and his books’, *The British Library Journal*, 20 (1994), 107–39
- Owen, B., ‘Ewyllys Wiliam Cynwal,’ *Baner ac Amserau Cymru* (20 Mehefin 1933)
- Owen, E., *A Catalogue of the Manuscripts Relating to Wales in the British Museum* (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1900–8)
- Owen, H. (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735–1786)*, 2 gyf. (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1947–9)
- Owen, M.E., ‘A fifteenth-century lawbook from Cefnlllys’, *Transactions of the Radnorshire Society*, 81 (2011), 77–93
- Parri, B., ‘Fferig – The Lost Kingdom’, *Brycheiniog*, 38 (2006), 23–34
- Parry, C., ‘Testament Salesbury Arall’, *Y Casglwr*, 44 (Awst 1991), 2
- Parry, G., *The Arch-Conjuror of England. John Dee* (New Haven & London: Yale University Press, 2011)
- Parry, T. (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1952)
- (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford: Clarendon Press, 1962)
- , ‘Tri chyfeiriad at William Salesbury’, *BBCS*, 9 (1937–9), 108–112
- Parry, T.E., ‘Llythyrau Robert Vaughan, Hengwrt (1592–1667), gyda rhagymadrodd a nodiadau’ (traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1960)
- Parry Owen, A., ‘Gramadeg Gwysanau’, *LIC*, 33 (2010), 1–31
- , ‘Gramadeg Gwysanau: a fragment of a fourteenth-century Welsh bardic grammar’, yn D. Hayden a P. Russell (gol.), *Grammatica, Gramadach and Gramadeg. Vernacular*



- Grammar and Grammarians in Medieval Ireland and Wales* (Amsterdam & Philadelphia: John Benjamins Publishing Company, 2016), tt.181–200
- Parry-Williams, T.H. (gol.), *Carolau Richard White (1537?–1584)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931)
- (gol.), *Rhyddiaith Gymraeg. Y Gyfrol Gyntaf. Detholion o Lawysgrifau 1488–1609* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1954)
- Payne, F.G., ‘A poem by John Dee and Jenkyn Gwynn’, *Transactions of the Radnorshire Society*, 31 (1961), 18–19
- Pearson, D., *Book Ownership in Stuart England* (Oxford: Oxford University Press, 2021)
- , *Provenance Research in Book History. A Handbook*, ail arg. (Oxford: Bodleian Library & New Castle: Oak Knoll Press, 2019)
- , *Speaking Volumes. Books with Histories* (Oxford: Bodleian Library, 2022)
- Peate, I.C., ‘Y Naw Helwriaeth’, *BBCS*, 6 (1931–3), 301–12
- Pierce, J., *The Life and Work of William Salesbury. A Rare Scholar* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2016)
- Powell, N., ‘Robert ap Huw: Clerwr Gwyllt o Fôn’, *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, 3 (1999), 31–53
- Prise, J., *Historiae Britannicae Defensio / A Defence of the British History*, gol. a chyf. Ceri Davies (Toronto: Pontifical Institute of Medieval Studies & Oxford: The Bodleian Library, 2015)
- Purvis, J.S., *Notarial Signs from the York Archbishopal Records* (London & York: St Anthony’s Press, 1957)
- Rees, E., *Libri Walliae. Catalog o Lyfrau Cymraeg a Llyfrau a Argraffwyd yng Nghymru 1546–1820* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1987); Charles Parry, *LW. Atodiad* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2001)
- Richards, M., ‘Dr. David Powel, Rhiwabon’, *CLIGC*, 13 (1963–4), 397–8
- , *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff: University of Wales Press, 1969)
- Richards, W.L. (gol.), *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964)
- Roberts J., ac A.G. Watson (gol.), *John Dee’s Library Catalogue* (London: Bibliographical Society, 1990)
- Roberts, B.F., ‘Astudiaeth Destunol o’r Tri Chyfieithiad Cymraeg Cynharaf o *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy’ (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1969)
- , *Edward Lhwyd c.1660–1709, Naturalist, Antiquary, Philologist* (Cardiff: University of Wales Press, 2022)

- , ‘Fersiwn Dingestow o *Brut y Brenhinedd*’, *BBCS*, 27 (1976–8), 331–61
- Roberts, E. (gol.), *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2003)
- (gol.), *Gwaith Siôn Tudur*, 2 gyf. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1980)
- Roberts, E.S. (gol.), *Llysieuelyfr Meddyginiaethol a Briodolir i William Salesbury* (Liverpool: Hugh Evans & Sons, 1916)
- Roberts, O.E., *Dr. John Dee* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1980)
- Roberts, R.G. (gol.), *Diarhebion Llyfr Coch Hergest* (Aberystwyth: CMCS, 2013)
- , ‘Y Traddodiad Paremiolegol yng Nghymru'r Oesau Canol III. Ailystyried “Englynon y Clyweit”’, *Dwned*, 14 (2008), 47–59
- Roberts, R.J., ‘John Dee and the Matter of Britain’, *THSC*, 1991, 129–43
- Roberts, S.E., ‘Creu trefn o anhrefn – gwaith copïydd testun cyfreithiol’, *CLIGC*, 32 (2001–2), 397–420
- , *The Growth of Law in Medieval Wales c.1100–c.1500* (Woodbridge: The Boydell Press, 2022)
- (gol.), *The Legal Triads of Medieval Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2011)
- , *Llawysgrif Pomffred. An Edition and Study of Peniarth MS 259B* (Leiden: Brill, 2011)
- Roberts, T. (gol.), *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1958)
- , ‘Llawysgrifau Gutun Owain, a thymor ei oes’, *BBCS*, 15 (1952–4), 99–109
- , ac I. Williams (gol.), *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Cardiff: The University of Wales Press Board, 1923)
- Rodway, S., *Dating Medieval Welsh Literature: evidence from the verbal system* (Aberystwyth: CMCS, 2013)
- , ‘The Red Book text of “Culhwch ac Olwen”: a modernising scribe at work’, *Studi Celtici*, 3 (2004), 93–161
- , ‘The where, who, when and why of medieval Welsh prose texts: some methodological considerations’, *SC*, 41 (2007), 47–89
- Rowland, J., ‘Englynon Duad’, *The Journal of Celtic Studies*, 3 (1981/2), 59–87
- , ‘The Manuscript Tradition of the Red Book Englynon’, *SC*, 18/19 (1983/4), 79–95
- Rowlands, E.I. (gol.), *Gwaith Lewys Môn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1975)
- Russell, P., “Divers Evidences Antient of Some Welsh Princes”. Dr John Dee and the Welsh context of the reception of Geoffrey of Monmouth in sixteenth-century England and Wales’, yn H. Tétrel a G. Veysseyre (gol.), *L'Historia regum Britannie et les "Bruts"*

- en Europe. Production, circulation et réception (XII<sup>e</sup>–XVI<sup>e</sup> siècle)*, 2 gyf. (Paris: Classiques Garnier, 2018), II, tt.395–426
- , ‘The Joy of Six: spelling and letter forms among fourteenth-century Welsh scribes’, yn S. Rodway *et al.* (gol.), *Celts, Gaels, and Britons. Studies in Language and Literature from Antiquity to the Middle Ages in Honour of Patrick Sims-Williams* (Turnhout: Brepols, 2022), tt.257–88
- , *Reading Ovid in Medieval Wales* (Columbus: The Ohio State University Press, 2017)
- , ‘Scribal (in)competence in thirteenth-century north Wales: the orthography of The Black Book of Chirk (Peniarth MS 29)’, *CLIGC*, 29 (1995–6), 129–76
- , ‘Scribal (in)consistency in thirteenth-century south Wales: the orthography of the Black Book of Carmarthen’, *SC*, 43 (2009), 135–74
- (gol. a chyf.), *Vita Griffini filii Conani* (Cardiff: University of Wales Press, 2005)
- , ‘What did medieval Welsh scribes do? The scribe of the Dingestow Court manuscript’, *CMCS*, 37 (1999), 79–96
- Rheinallt, E.H. (gol.), *Gwaith Dafydd Gorlech* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2007)
- Rhydderch, J., *Grammadeg Cymraeg* (Y Mwythig, 1728)
- Schwyzler, P., *Literature, Nationalism, and Memory in Early Modern England and Wales* (Cambridge: Cambridge University Press, 2004)
- Sharpe, R., *A Handlist of the Latin Writers of Great Britain and Ireland Before 1540* (Turnhout: Brepols, 1997)
- Sherman, W.H., *John Dee. The Politics of Reading and Writing in the English Renaissance* (Amherst: University of Massachusetts Press, 1995)
- Siddons, M.P., *The Development of Welsh Heraldry*, 4 cyf. (Aberystwyth: National Library of Wales, 1991–2006)
- , *Welsh Genealogies A.D. 1500–1600* (Aberystwyth: CMCS, 2017)
- , *Welsh Pedigree Rolls* (Aberystwyth: National Library of Wales, 1996)
- Sims-Williams, P., *Rhai Addasiadau Cymraeg Canol o Sieffre o Fynwy* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2011)
- Skene, W.F. (gol.), *The Four Ancient Books of Wales*, 2 gyf. (Edinburgh: Edmonston and Douglas, 1868)
- Smith, Ll.B., ‘Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales’, yn H. Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Cambridge: Cambridge University Press, 1998), tt.202–22

- Smith-Bannister, S., *Names and Naming Patterns in England 1538–1700* (Oxford: Clarendon Press, 1997)
- Stacey, N., ‘Antiquarian Patronage in the 17th Century: Sir Christopher Hatton’s Library at Kirby Hall’, *English Heritage Historical Review*, 9 (2014), 66–81
- Stephens, R., ‘Gwaith Wiliam Llŷn’ (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1983)
- Stubbs, W. (gol.), *Willelmi Malmesbiriensis monachi, De Gestis Regum Anglorum libri quinque; Historiae novellae libri tres*, 2 gyf. (London: Her Majesty’s Stationery Office, 1887–9)
- Taylor, J.B., ‘Gwaith Barddonol Ieuan ap Gruffudd Leiaf, Robert Leiaf, Syr Siôn Leiaf a Rhys Goch Glyndyfrdwy’ (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2014)
- Try, R., ‘A Forgotten Welsh Chronology in Aberystwyth, National Library of Wales, MS 5267B, in MS Peniarth 50, and in the Red Book of Hergest’, yn *CMWM*, tt.341–73
- Thomas, D.R., *The History of the Diocese of St Asaph*, 3 cyf. (Oswestry: The Caxton Press, 1908–13)
- , *The Life and Work of Bishop Davies & William Salesbury* (Oswestry: The Caxton Press, 1902)
- Thomas, G., *Eisteddfodau Caerwys* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1968)
- Thomas, G.C.G., ‘Dryll o hen lyfr ysgrifen’, *BBCS*, 23 (1968–70), 309–16
- , ‘Llinellau o Gerddi i Gadwallon ap Cadfan’, *BBCS*, 26 (1974–6), 406–10
- , ‘A verse attributed to Cadwallon fab Cadfan’, *BBCS*, 34 (1987), 67–9
- Thomas, I., *Y Testament Newydd Cymraeg 1551–1620* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976)
- Thomas, O., ‘Awdl Dafydd Nanmor i Rys ap Maredudd o’r Tywyn (*PWDN* cerdd III)’, *Dwned*, 12 (2006), 73–91
- , ‘Dafydd Epynt: Bardd Llythrennog o Frycheiniog’, *Dwned*, 6 (2000), 77–94
- , ‘Trwy Lygaid Peniarth 52’, yn idem (gol.), *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt.73–112
- Wagner, A., a G. Squibb, ‘Deputy Heralds’, yn F. Emmison a R. Stephens (gol.), *Tribute to an Antiquary. Essays presented to Marc Fitch by some of his friends* (London: Leopard’s Head Press, 1976), tt.229–64
- Wiliam, A.Rh., *Llyfr Iorwerth* (Cardiff: University of Wales Press, 1979)
- Wiliam, D.W., *Robert ap Huw, 1580–1665: Astudiaeth o’i Gefndir, ei Fywyd a’i Waith* (Pontyberem: Yr Awdur, 1975)

- Williams, G., 'The Achievement of William Salesbury', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 14 (1965), 75–96
- , 'Bishop Richard Davies (?1501–1581)', yn idem, *Welsh Reformation Essays* (Cardiff: University of Wales Press, 1967), tt.155–90
- , *Bywyd ac Amserau'r Esgob Richard Davies* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953)
- , 'Richard Davies, Esgob Tyddewi, a'r "Shepherd's Calendar"', *LIC*, 2 (1952–3), 232–6
- , 'Sir John Pryse of Brecon', *Brycheiniog*, 31 (1998–9), 49–63
- , *The Welsh and their Religion* (Cardiff: University of Wales Press, 1991)
- Williams, G.A., "'Ail Dewi Menew": golwg ar Richard Davies', *Y Traethodydd*, 174 (2019), 94–112
- , 'Cywydd Gwilym ap Sefnyn i Afon Ogwen ac Afon Menai', *Dwned*, 3 (1997), 83–95
- , 'Edmwnd Prys ac Ardudwy', *CLIGC*, 22 (1981–2), 282–303
- , 'William Morgan ac Edmwnd Prys yng Nghaer-grawnt', *BBCS*, 29 (1980–1), 296–300
- , 'William Morgan's Bible and the Cambridge connection', *CHC*, 14 (1988–9), 363–9
- (gol.), *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986)
- Williams, G.A., *Welsh Wizard and British Empire. Dr. John Dee and a Welsh Identity* (Cardiff: University College Cardiff Press, 1980)
- Williams, G.J., *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg*, gol. Aneirin Lewis (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1969)
- , 'Eisteddfod Caerfyrddin', *Y Llenor*, 5 (1926), 94–102
- , *Iolo Morganwg. Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1956)
- , ac E.J. Jones (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1934)
- Williams, H.H., 'Cerddi mawl Robin Ddu o Fôn' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2012)
- Williams, I. (gol.), *Canu Aneirin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1938)
- (gol.), *Canu Taliesin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1960)
- , 'Cynghorau Catwn', *BBCS*, 2 (1923–5), 16–36
- , 'Dafydd ap Gwilym a'r Glêr', *THSC*, 1913–14, 83–204
- (gol.), *Gwyneddon 3* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931)
- , a T.H. Parry-Williams, 'Englynion y Clyweit', *BBCS*, 3 (1926–7), 4–21
- Williams, I., a T. Roberts (gol.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1935)

- Williams, J.E.C., *Geiriadurwyr y Gymraeg yng Nghyfnod y Dadeni* (Caerdydd: Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 1983)
- , ‘Gutun Owain’, yn A.O.H. Jarman a G.R. Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature 1282–c.1550*, adolygwyd gan D. Johnston (Cardiff: University of Wales Press, 1997), tt.240–55
- , ‘Y Llyfr Gwyn o Hergest a Llanstephan 3’, *BBCS*, 10 (1939–41), 120–4
- , ‘Thomas Wiliems, Y Geiriadurwr’, *SC*, 16/17 (1981/2), 280–316
- Williams, M., ‘The Black Book of Carmarthen: Minding the Gaps’, *CLIGC*, 36 (2014–17), 357–75
- , ‘Studies in the Black Book of Carmarthen’ (traethawd DPhil heb ei gyhoeddi, Corpus Christi College, Caer-grawnt, 2016)
- , a P. Russell, ‘Invisible Ink: The Recovery and Analysis of a Lost Text from the Black Book of Carmarthen (NLW Peniarth MS 1)’, *CLIGC*, 37 (2018–2022), 74–94
- Williams, Rh., ‘Wiliam Cynwal’, *LIC*, 8 (1964–5), 197–213
- Wright, C.E., a R.C. Wright (gol.), *The Diary of Humfrey Wanley 1715–1726*, 2 gyf. (London: The Bibliographical Society, 1966)
- Wynn, J., *The History of the Gwydir Family and Memoirs*, gol. J.G. Jones (Llandysul: Gomer Press, 1990)
- Wynne, W.W.E., ‘MSS. missing from the Hengwrt collection’, *AC*, pedwaredd gyfres, 2 (1871), 129–37

iii. *Adnoddau digidol*

*Early Modern Letters Online* <emlo.bodleian.ox.ac.uk>

*Geiriadur Prifysgol Cymru* <geiriadur.ac.uk>

gwefan Dafydd ap Gwilym <dafyddapgwilym.net>

gwefan Guto'r Glyn <gutorglyn.net>

*Rhyddiaith Gymraeg 1300–1425* <rhyddiaithganoloesol.caerdydd.ac.uk/cy>

*Oxford Dictionary of National Biography* <oxforddnb.com>

*Y Bywgraffiadur Cymreig* <bywgraffiadur.cymru>